**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/FM/0288/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Mai 2019

Annwyl Mick,

Hoffwn dynnu sylw eich pwyllgor at fersiwn ddiweddaraf y *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* sydd wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon yn adlewyrchu'r newidiadau i'r setliad datganoli ers i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym, a datblygiadau perthnasol eraill fel ymrwymiadau'r llywodraeth wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar amcangyfrifon cyllidol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth.

Mae'n disodli'r fersiwn flaenorol o'r llawlyfr a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd ym mis Awst 2017. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r llawlyfr, wedi iddo gael ei ddiweddaru ar gyfer y Pumed Cynulliad, mewn ymateb i argymhellion yn adroddiad pwyllgor eich rhagflaenydd, *Deddfu yng Nghymru.* Canllaw mewnol i Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yw'r llawlyfr. Mae'n ymdrin â'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi deddfwriaeth sylfaenol a chefnogi Gweinidogion i fynd â'r ddeddfwriaeth drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a bydd copi o'r llawlyfr diweddaraf yn cael ei roi yn y llyfrgell.

Yn gywir,

Mark.

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru

# Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad

Mai 2019

gov.wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG37693 ISBN digidol 978-1-83876-397-8

## Tabl Cynnwys


Cyflwyniad ... 9
- Enghreifftiau ... 10
- Cyflwyniad ... 10
- Cadw'r Llawlyfr Deddfwriaeth yn gyfredol ... 10

Pennod 1 – Deddfau'r Cynulliad a rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ... 11
- Deddfau'r Cynulliad ... 11
- Dull y Llywodraeth o ymdrin â deddfwriaeth ... 12
- Paratoi'r rhaglen ddeddfwriaethol ... 12

Pennod 2 – Trosolwg o baratoi Bil ... 14
- Gweithio ar Fil Cynulliad ... 14
- Cyfnodau gwaith allweddol cyn cyflwyno'r Bil ... 14

Pennod 3 – Pwy yw pwy yn y broses ddeddfwriaethol ... 17
- Gweinidogion sy'n gysylltiedig â Biliau ... 17
- Aelod Cyfrifol (am y Bil) ... 19
- Tîm y Bil ... 20
- Unigolion a thimau eraill sy'n cefnogi Biliau'r Cynulliad – tîm ehangach y Bil ... 24
- Sicrhau bod y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei chyflawni ... 27
- Rhoi adnoddau i dîm y Bil ... 29

Pennod 4 – Rheoli a llywodraethu Bil ... 31
- Egwyddorion rheoli Bil ... 31
- Cydweithio i wneud cyfraith dda ... 31
- Sicrhau bod Bil yn cael ei gyflawni ... 35
- Amserlen a cherrig milltir allweddol Bil ... 37
- Dogfennau ... 38
- Hyfforddiant ar waith Bil ... 41

Pennod 5 – Asesiad Effaith Integredig ... 42
- Dull o gynnal asesiad effaith ... 42
- Rhyddhau'r canfyddiadau ... 42

Pennod 6 – Asesiadau Effaith Rheoleiddiol (RIA) ... 44
- Gofynion Rheolau Sefydlog ... 44
- Yr angen am Asesiad Effaith Rheoleiddiol ... 45
- Datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ... 46
- Paratoi Pennod 7 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Opsiynau ... 49
  - Y Cyfnodau Datblygu ac Ymgynghori ... 49
  - Y Cyfnodau Cyflwyno a Diwygio ... 50
- Paratoi Pennod 8 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Costau ... 50
  - Dadansoddiad cost a budd ... 51
  - Ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu'r dadansoddiad cost a budd ... 52
  - Costau ... 53

Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru ....... 58
Manteision ....... 59
Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir ....... 60
Paratoi Pennod 9 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Asesiad Effaith ....... 60
Paratoi Pennod 10 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Adolygiad ar ôl gweithredu ....... 60
**Pennod 7 – Y broses o baratoi Bil i gael ei gyflwyno** ....... 63
Cyfraith dda ....... 65
**Datblygu polisi ac ymgynghori** ....... 65
Dull meddwl defnyddiol ....... 67
Cymhwysedd deddfwriaethol ....... 68
Newidiadau i bolisi a/neu rychwant y Bil ....... 68
**Cyfarwyddiadau** ....... 68
Y dull o baratoi'r cyfarwyddiadau ....... 69
Cynnwys Grwpiau eraill ....... 71
Cynnwys Llywodraeth y DU ....... 71
Yr amser sydd ei angen ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau a drafftio'r Bil ....... 72
Anfon y cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ....... 73
Newidiadau i'r polisi ar ôl anfon y cyfarwyddiadau ....... 74
**Cynnwys y cyfarwyddiadau** ....... 74
Pwyntiau cyffredinol ....... 74
Strwythur a chynnwys y cyfarwyddiadau ....... 75
Rhan 1 y Cyfarwyddiadau – Cyflwyniad ....... 75
Rhan 2 y Cyfarwyddiadau – Y Gyfraith bresennol ....... 76
Rhan 3 y Cyfarwyddiadau – Cynigion manwl ....... 78
Rhan 4 y Cyfarwyddiadau – Materion atodol a chysylltiedig ....... 81
Rhan 5 y Cyfarwyddiadau – materion trin y Cynulliad ac eraill ....... 85
Awdurdodiad Gweinidogol i'r polisi ....... 85
**Drafftio'r Bil** ....... 85
Cyfarfod cychwynnol gyda'r drafftwyr ....... 85
Ymateb i'r cyfarwyddiadau ....... 86
Gwneud sylwadau ar ddarpariaethau drafft ac ymateb i'r memo cysylltiedig ....... 86
Trosolwg Gweinidogol wrth ddrafftio ....... 88
**Enw cryno a hir y Bil** ....... 88
**Adrannau ac Is-adrannau offerynnau deddfwriaethol** ....... 89
**Llunio testun Cymraeg y Bil** ....... 90
Ystyriaethau cychwynnol ....... 90
Gwaith terminoleg paratoadol ....... 91
Drafft cyntaf y testun Cymraeg ....... 91
Newidiadau pellach i'r testun Cymraeg ....... 91
Gwiriad ieithyddol (dogfen gyfan) ....... 92
Gwiriad cyfwerthedd o'r Bil ....... 92
**Materion eraill i'w cadw mewn cof wrth baratoi'r Bil** ....... 93
Ffrydiau refeniw a deddfwriaeth (neilltuo) ....... 93
Gweithio gydag Arolygiaethau wrth i'r Bil ddatblygu ....... 93

Ymgysylltu â'r Arglwydd Brif Ustus ..... 94
Rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid wrth baratoi'r Bil ..... 94

**Pennod 8 – Memorandwm Esboniadol** ..... 96
**Gofynion y Rheolau Sefydlog** ..... 96
**Datganiad yr Aelod Cyfrifol** ..... 98
**Cynnwys a ffurf y Memorandwm Esboniadol** ..... 99
Paratoi'r Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg ..... 99
**Cynnwys Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol** ..... 99
Pennod 1 – Disgrifiad ..... 99
Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol ..... 100
Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael ..... 100
Pennod 4 – Ymgynghori ..... 101
Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 102
**Cynnwys Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol (Asesiad Effaith Rheoleiddiol)** 104
**Atodiadau i'r Memorandwm Esboniadol** ..... 104
**Fformat y Memorandwm Esboniadol** ..... 106
Arddull ysgrifennu ..... 107
**Awdurdodi ar gyfer cyflwyno** ..... 107
Awdurdodiad gan swyddogion ..... 107
Awdurdodiad gan Weinidog ..... 108
**Diwygio'r Memorandwm Esboniadol** ..... 108
Diwygiadau cyn cyflwyno ..... 108
Diwygio pan fo'r Bil yn symud i Gyfnod 3 ac i'r Cyfnod Adrodd ..... 109
Cyfieithu ..... 110

**Pennod 9 – Nodiadau Esboniadol** ..... 111
**Diben ac effaith Nodiadau Esboniadol** ..... 111
Y darllenwyr ..... 112
Statws cyfreithiol y Nodiadau ..... 112
**Sut ddylai'r Nodiadau Esboniadol edrych** ..... 113
Cynnwys – cyflwyniad ..... 113
Cynnwys – crynodeb a'r cefndir ..... 114
**Y dull o baratoi Nodiadau Esboniadol** ..... 117
Paratoi'r Nodiadau Esboniadol ..... 117
Paratoi Nodiadau Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg ..... 119
Diwygiadau pan ddaw'r Bil yn Ddeddf ..... 122
**Nodiadau Esboniadol ar gyfer Biliau Anllywodraethol** ..... 123
**Cyhoeddi a hawlfraint (ar gyfer Deddfau)** ..... 123

**Pennod 10 – Pwerau dirprwyedig mewn Biliau'r Cynulliad** ..... 125
**Gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth** ..... 125
Ffurf yr is-ddeddfwriaeth ..... 125
**Gweithdrefn ar gyfer craffu gan y Cynulliad ar is-ddeddfwriaeth** ..... 126
Ffurfiau o weithdrefn ..... 126
Gorchmynion cychwyn ..... 128

Ystyriaeth o’r pwerau yn ystod hynt y Bil ... 128
Pennod 11 – Is-ddeddfwriaeth ddrafft a Datganiadau o Fwriad y Polisi ... 129
Gofyniad am is-ddeddfwriaeth ddrafft neu ddatganiad o fwriad y polisi ... 129
Diben y datganiad o fwriad y polisi ... 129
Is-ddeddfwriaeth ddrafft ... 129
Cynnwys y datganiad o fwriad y polisi ... 130
Ystyriaethau ymarferol ... 131
Canllawiau pellach ... 132
Pennod 12 – Cydsyniadau, a gofynion i ymgynghori â Gweinidogion y DU ar ddarpariaethau Deddf Cynulliad ... 133
Cydsyniad Gweinidog y Goron - Awdurdodau a gedwir yn ôl ... 133
Dileu neu addasu swyddogaethau penodol Gweinidogion y DU - gofynion am gydsyniad Gweinidog y DU ... 135
Dileu neu addasu swyddogaethau eraill Gweinidogion y DU - gofynion i ymgynghori â'r Gweinidog priodol ... 135
Canllawiau pellach ... 136
Hysbysu’r Cynulliad yn ffurfiol o gydsyniad ... 136
Diwygiadau i Filiau ... 136
Cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a/neu Dug Cernyw ... 136
Hysbysu’r Cynulliad yn ffurfiol o Gydsyniad y Frenhines ... 137
Diwygiadau ... 137
Cyngor pellach ... 137
Pennod 13 – Trosolwg ar Gyfnodau ystyriaeth y Cynulliad ... 138
Crynodeb o’r Cyfnodau Cynulliad ... 138
Trosolwg cryno ... 138
Cyflwyno ... 139
Cyfnod 1 – Ystyried yr egwyddorion cyffredinol ... 139
Cyfnod 2 – Ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor ... 139
Cyfnod 3 – Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad ... 140
Y Cyfnod Adrodd ... 140
Cyfnod 4 – Y Cyfnod Terfynol ... 140
Ar ôl Cyfnod 4 ... 140
Pennod 14 – Cyflwyno’r Bil ... 142
Cyfarfodydd asesu cyn-gyflwyno ... 142
Ceisio cytundeb i gyflwyno’r Bil ... 142
Penderfyniad y Llywydd ... 142
Gosod y Bil ... 143
Datganiad Ysgrifenedig ar gyfer pob Aelod Cynulliad ... 144
Datganiad Deddfwriaethol ... 145
Pennod 15 – Craffu gan y Cynulliad ... 147
Amserlen ar gyfer ystyriaeth gan y Cynulliad ... 147
Cytuno ar yr amserlen ... 147
Newidiadau i’r amserlen ... 148

**Gwefan y Cynulliad** ........ 148
**Gohebu â Phwyllgorau** ........ 149
**Cyfnod 1** ........ 149
Ystyriaeth gan y 'Pwyllgor Cyfrifol' ........ 150
Dull y Pwyllgor Cyfrifol o ymdrin â thystiolaeth rhanddeiliaid ........ 151
Dull y Pwyllgor Cyfrifol o ymdrin â thystiolaeth y Gweinidog ........ 152
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ........ 154
Y Pwyllgor Cyllid ........ 155
Adroddiadau'r Pwyllgor(au) ........ 155
Y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ........ 156
**Penderfyniad Ariannol** ........ 157
**Diwygio Bil ar ôl ei gyflwyno** ........ 158
Pam y gallai'r Llywodraeth geisio diwygio Bil ........ 158
Yr amserlen ar gyfer paratoi gwelliannau ........ 160
Ffurf y gwelliannau ........ 160
Derbyniadwyedd gwelliannau ........ 160
Gwelliannau anllywodraethol ........ 162
Diwygio gwelliannau ........ 162
Rhifo gwelliannau ........ 163
**Cyfnod 2** ........ 163
'Pwyllgor Cyfrifol' ........ 163
Dechrau a diwedd Cyfnod 2 ........ 164
Cyflwyno gwelliannau ........ 164
Tabl 'diben ac effaith' gwelliannau'r Llywodraeth ........ 165
Cefnogi gwelliannau ........ 166
Tynnu gwelliannau yn ôl ........ 167
Hysbysiad o welliannau ........ 168
Tabl 'pob gwelliant' ........ 168
Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli ........ 169
Trefn yr ystyriaeth ........ 169
Grwpio ........ 169
Derbyn gwelliannau anllywodraethol ........ 170
Nodiadau annerch ........ 170
Trafodion y Pwyllgor, gan gynnwys presenoldeb a phleidleisio ........ 170
Cytuno ar adrannau ........ 172
**Paratoi Nodiadau Annerch ar gyfer y Cyfnodau diwygio** ........ 172
Dull o baratoi ........ 172
Cynnwys y nodyn annerch ar bob grŵp ........ 173
Trefn annerch ........ 174
Effaith achosion o 'achub y blaen' ........ 175
Awdurdodi nodiadau annerch ........ 175
**Diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2** ........ 176
**Paratoi Bil diwygiedig ar ôl Cyfnod 2** ........ 176
**Cyfnod 3** ........ 177
Dechrau a diwedd Cyfnod 3 ........ 177

Ystyriaethau wrth baratoi gwelliannau ..... 177
Cyflwyno gwelliannau ..... 178
Trefniadau ar gyfer Cyfnod 3 ..... 179
Derbyn gwelliannau anllywodraethol ..... 179
Nodiadau annerch ..... 180
Trafodion y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys cefnogaeth i'r Gweinidog ..... 180
**Trafodion pellach ar ddiwedd Cyfnod 3** ..... 182
**Paratoi Bil diwygiedig ar ôl Cyfnod 3** ..... 183
**Y Cyfnod Adrodd** ..... 183
Dechrau a diwedd y Cyfnod Adrodd ..... 183
Rheolau Sefydlog ..... 184
**Hysbysiad ffurfiol o Gydsyniad y Frenhines/Dug Cernyw** ..... 184
**Cyfnod 4** ..... 184
Amseriad Cyfnod 4 ..... 185
Pleidlais yng Nghyfnod 4 ..... 185
Paratoi'r araith ..... 186
Effaith Cyfnod 4 ..... 186
**Paratoi Bil diwygiedig ar ôl Cyfnod 4** ..... 187
**Methiant a Gwrthodiad Biliau neu dynnu Biliau yn ôl** ..... 187
**Pennod 16 – Biliau Brys a Biliau ar 'lwybr carlam'** ..... 188
**Bil Brys** ..... 188
Craffu ar Fil Brys ..... 188
**Gosod Biliau ar lwybr carlam** ..... 190
Craffu ar Filiau ar lwybr carlam ..... 191
**Ystyriaethau arbennig ar gyfer biliau brys a biliau ar lwybr carlam** ..... 192
**Pennod 17 – Y Cyfnod Hysbysu, Ailystyried a'r Cydsyniad Brenhinol** ..... 194
**Cyfnod hysbysu – pan fo Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad** ..... 194
**Cyfnod hysbysu – pan fo Bil yn cael ei ailystyried gan y Cynulliad neu pan fo Bil wedi cael ei ystyried gan y Goruchaf Lys** ..... 195
**Cyfnod hysbysu – pan fo'r Llywydd wedi penderfynu bod darpariaeth o'r Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig ac mae'r Cynulliad wedi hynny yn gwrthod y Bil** ..... 195
**Y broses** ..... 195
**Atgyfeirio i'r Goruchaf Lys** ..... 196
**Ymyrraeth yr Ysgrifennydd Gwladol** ..... 196
**Y Cyfnod Ailystyried** ..... 196
**Cydsyniad Brenhinol** ..... 198
Paratoi'r Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol ..... 198
Y Sêl Gymreig ..... 198
Nodiadau Esboniadol ..... 199
Diddymu'r Cynulliad ..... 199
Atgyfeiriadau at y Goruchaf Lys ..... 199
**Pennod 18 – Cychwyn** ..... 200

**Confensiynau sy'n gysylltiedig â chychwyn y Bil** ... 200
**Cychwyn Deddf** ... 200
Gorchmynion cychwyn ... 201
Ystyriaeth o'r darpariaethau cychwyn gan y Cynulliad ... 201
Pennod 19 – Biliau Anllywodraethol ... 203
Biliau Anllywodraethol: Y Cyfnodau Cyflwyno a Diwygio ... 203
Biliau Aelod ... 203
Balot y Llywydd ... 203
Gwybodaeth cyn y balot ... 204
Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil ... 204
Ymateb y Llywodraeth i'r balot ... 205
Datblygu'r Bil ... 207
Cyflwyno'r Bil ... 208
Ystyriaeth o'r Bil gan y Cynulliad ... 209
Biliau Pwyllgor ... 211
Biliau Comisiwn ... 212
**Atodiad A: Rhestr o eiriau ac ymadroddion allweddol** ... 213
Atodiad B: Rhestr o acronymau ... 227

## Cyflwyniad

**Paratowyd y llawlyfr hwn fel dogfen gynorthwyol, ond nid yw wedi'i gynllunio i fod yn ddatganiad awdurdodol na therfynol o weithdrefn ac arferion Llywodraeth a Chynulliad Cymru.**

i. Paratowyd y Llawlyfr Deddfwriaeth hwn i gynnig cyngor a chyfarwyddyd i'r rheini sy'n gweithio ar Filiau'r Cynulliad.

ii. Mae'r llawlyfr hwn yn trafod y prosesau i'w cyflawni a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth baratoi deddfwriaeth sylfaenol a mynd â hi trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ei nod yw cyflwyno'r hyn sy'n ofynnol gan dimau Biliau ym mhob cyfnod o'r broses, o geisio cynnwys Bil yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hyd at gychwyn Deddf Cynulliad.

iii. Dylid ymgynghori ag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant bob amser ar faterion yn ymwneud â gweithdrefnau Bil. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn ei thro ymgynghori â Chomisiwn y Cynulliad.

iv. Ysgrifennwyd y canllaw hwn gydag anghenion timau Biliau mewn golwg. Mae'n disgrifio prif nodweddion y broses arferol, ond ni ellir trafod pob sefyllfa – mae'n sicr yn wir fod pob Bil yn wahanol.

v. Ymdrinnir â'r gwahanol gyfnodau gwaith a'r gwahanol gyfnodau o ystyriaeth y Cynulliad mewn trefn gronolegol. Cynghorir timau Biliau sy'n dechrau'r broses o baratoi deddfwriaeth, yn enwedig y rhai sy'n newydd i waith Biliau, i ddarllen drwy'r prif benodau i ymgyfarwyddo â'r tasgau sydd i ddod er mwyn eu helpu i gynllunio'n effeithiol. Mae'r canllaw hefyd wedi ei lunio i swyddogion gyfeirio ato'n gyflym wrth iddynt symud drwy'r broses ddeddfwriaethol i nodi pwyntiau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer pob cyfnod gwaith.

vi. Nid yw'r canllaw hwn yn ymdrin â –

- Biliau Preifat (Biliau a hyrwyddir gan gorff y tu allan i'r Cynulliad ac sydd ar wahân i Filiau Aelodau sy'n Filiau cyhoeddus), Biliau Hybrid neu Filiau Cydgrynhoi. Dylid ceisio cyfarwyddyd gan Gwasanaethau Cyfreithiol yn y lle cyntaf neu gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

- Is-ddeddfwriaeth, ac eithrio materion sy'n gysylltiedig â phwerau dirprwyedig mewn Biliau'r Cynulliad.

- Gweithdrefn Senedd y DU.

- Biliau sy'n ymwneud â'r Alban a Gogledd Iwerddon yn unig.

## Enghreifftiau

vii. Mae enghreifftiau o Filiau, Cyfarwyddiadau Polisi, Papurau Gwyn, Memoranda Esboniadol a Nodiadau Esboniadol, etc blaenorol ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

## Cyflwyniad

viii. Cyfeirir at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel 'y Cynulliad' drwy'r canllaw hwn, a chyfeirir at Lywodraeth Cymru fel 'y Llywodraeth'. Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â Biliau'r Llywodraeth yn bennaf (h.y. y rheini a ddatblygir gan y Llywodraeth), a dylid ystyried mai cyfeirio at Fil Llywodraeth y mae pob cyfeiriad at "Fil" oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol.

ix. Rhoddir rhestr o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Llawlyfr Deddfwriaeth yn Atodiad A.

## Cadw'r Llawlyfr Deddfwriaeth yn gyfredol

x. Bydd y Llawlyfr Deddfwriaeth yn cael ei adolygu'n achlysurol a, phan fo angen, yn cael ei ddiweddaru neu ei gywiro i adlewyrchu newidiadau i weithdrefnau ac arferion fel y byddant yn digwydd. Er y bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd yn ymdrechu i hysbysu timau Biliau presennol am newidiadau perthnasol, fersiwn electronig y Llawlyfr Deddfwriaeth yw'r fersiwn fwyaf cyfredol.

# Pennod 1 – Deddfau'r Cynulliad a rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth

**Mae'r Bennod hon yn esbonio'r hyn a olygir gan 'Ddeddf Cynulliad' yn ogystal â'r hyn a olygir gan y 'rhaglen ddeddfwriaethol' a sut y mae cynigion ar gyfer Biliau wedi eu cynnwys ynddi.**

## Deddfau'r Cynulliad

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu fel y caiff y Cynulliad wneud cyfreithiau, sy'n cael eu galw yn 'Ddeddfau'r Cynulliad'. Cyfraith ddrafft yw Bil. Ar ôl i Fil gael ei ystyried a'i basio gan y Cynulliad, a derbyn Cydsyniad Brenhinol, daw'n Ddeddf Cynulliad, ac yn gyfraith. Gall y Ddeddf (neu ddarpariaethau ohoni) ddod i effaith (neu i rym) ar unwaith wrth gael Cydsyniad Brenhinol, neu gellid gadael i Weinidogion Cymru benderfynu drwy orchymyn pryd y dylai ddod i effaith. Cyfeirir at hyn fel cychwyn.

1.2 Un offeryn deddfwriaethol yw Deddf Cynulliad sy'n cynnwys testun Cymraeg a Saesneg. Caiff Biliau eu cyflwyno i'r Cynulliad yn Gymraeg ac yn Saesneg, eu hystyried yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac os cânt eu diwygio, eu diwygio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y dylai testunau Cymraeg a Saesneg Deddf Cynulliad a ddeddfir yn Gymraeg ac yn Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal at bob diben.

1.3 Gall y Cynulliad ond wneud deddfau sydd o fewn ei bwerau, neu 'gymhwysedd deddfwriaethol'. Gellir gweld y profion ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gall y Cynulliad wneud unrhyw gyfraith nad yw yn:

(a) ymestyn ymhellach na Chymru a Lloegr yn unig (felly nid oes modd i'r Cynulliad wneud cyfreithiau sy'n orfodadwy y tu hwnt i awdurdodaeth Cymru a Lloegr ar y cyd);

(b) cymhwyso, neu newid swyddogaethau arferadwy, ac eithrio mewn perthynas â Chymru;

(c) ymwneud ag unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(d) torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (er enghraifft y gofyniad am ganiatâd Gweinidog y Goron i newid swyddogaethau awdurdod a gadwyd yn ôl); neu

(e) torri cyfraith yr UE neu Gonfensiwn hawliau (dynol).[1]

1.4 Hefyd, mae'r Goruchaf Lys wedi dweud y gallai Deddf Cynulliad fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n torri hawliau sylfaenol y gyfraith gyffredin neu reolaeth y gyfraith.

1.5 Mae'r profion yn rai cymhleth. Er enghraifft, mae rhywfaint o le i wneud darpariaeth sy'n ymestyn ymhellach nag i Gymru yn unig lle bo angen hynny er mwyn gorfodi, neu roi effaith i ddarpariaeth arall sydd wedi'i datganoli. Ac mewn rhai amgylchiadau gall darpariaeth fod yn gysylltiedig, neu gyffwrdd ar fater a gedwir yn ôl heb 'ymwneud' â'r mater hwnnw. Dylid gofyn am gyngor Gwasanaethau Cyfreithiol yn gynnar yn y broses os credir bod darpariaeth arfaethedig yn y Bil o bosib yn cyffwrdd ag un o'r cyfyngiadau hyn.

1.6 Mae testunau Cymraeg a Saesneg holl Ddeddfau'r Cynulliad ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw.

## Dull y Llywodraeth o ymdrin â deddfwriaeth

1.7 Dim ond un o nifer o ffyrdd o roi effaith i gynnig polisi yw deddfwriaeth; mae'n angenrheidiol pan fo angen newid y gyfraith – mae pob darn o ddeddfwriaeth yn bolisi, ond nid yw pob polisi yn ddarn o ddeddfwriaeth.

1.8 Ein nod yw cynhyrchu cyfraith dda: hynny yw, cyfraith sy'n angenrheidiol, yn eglur, yn ystyrlon, yn effeithiol ac yn hygyrch. Dylai'r nod hwn fod yn nodwedd o'r ystyriaethau yn ystod pob cyfnod o ddatblygiad Bil.

1.9 Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys y cynigion polisi hynny y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu datblygu fel deddfwriaeth ddrafft (h.y. Biliau) a'u cyflwyno i'r Cynulliad fel y gallant ddod yn Ddeddfau'r Cynulliad.

1.10 Y cyfryngau deddfwriaethol eraill sy'n galluogi'r Llywodraeth i fwrw ymlaen â pholisïau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol yw is-ddeddfwriaeth a, lle y bo'n briodol, Biliau Senedd y DU a Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor.

## Paratoi'r rhaglen ddeddfwriaethol

1.11 Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd datganiad blynyddol yn cael ei wneud ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y Pumed Cynulliad a fydd yn nodi'r Biliau hynny i'w cyflwyno yn ystod y 12 mis canlynol.

1.12 Mae'r Llywodraeth hefyd wedi nodi y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dim mwy na 5 neu 6 o Filiau bob blwyddyn fel arfer; na ddylai gyflwyno Biliau yn

[1] Er bod Llywodraeth y DU wedi tanio Erthygl 50 y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2017, mae'r DU yn dal i fod yn rhan o'r UE ar yr adeg y caiff y geiriau yma eu hysgrifennu ac mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i Ddeddfau'r Cynulliad fod yn gydnaws â chyfraith yr UE. Bydd y llawlyfr yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r gofyniad hwn yn y dyfodol.

ystod 12 mis olaf Tymor y Cynulliad fel arfer; ac y dylai barhau i flaenoriaethu ei chynigion deddfwriaethol yng nghyd-destun y rhaglen ddeddfwriaethol yn ei chyfanrwydd.

1.13 Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys cynigion deddfwriaethol a wneir gan Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol. Caiff y cynigion hyn eu hystyried gan y Prif Weinidog, sydd wedyn yn cynnig rhaglen ddeddfwriaethol i'r Cabinet. Gall y Cabinet hefyd ystyried cynlluniau dros dro ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod y rhaglen ddeddfwriaethol. Bydd y Cabinet yn cytuno ar y rhaglen ddeddfwriaethol derfynol a fydd yn cael ei chyhoeddi gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad blynyddol ar y rhaglen ddeddfwriaethol. Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Prif Weinidog i baratoi'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

1.14 Yn ogystal â'r gwaith a gynlluniwyd, mae'r rhaglen ddeddfwriaethol hefyd yn cynnwys trefniadau wrth gefn i roi amser i'r Llywodraeth ystyried Biliau Aelodau a deddfwriaeth Anllywodraethol arall.

1.15 Mae dolenni i ddatganiadau'r Prif Weinidog ar y rhaglen ddeddfwriaethol ar gael ar wefan y Llywodraeth.

# Pennod 2 – Trosolwg o baratoi Bil

**Diben y Bennod hon yw cynnig cipolwg cryno ar y broses o baratoi Bil a dogfennau cysylltiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad. Mae'n bwysig cofio, felly, nad yw'r Bennod yn rhoi cofnod hollgynhwysol o'r broses honno. Mae wedi ei chynllunio i gyfeirio darllenwyr at Benodau eraill yn y Gyfrol hon o'r Llawlyfr lle mae canllawiau manwl i'w cael.**

**Mae Pennod 13 yn cynnig Trosolwg o'r Cyfnodau o ystyriaeth gan y Cynulliad.**

## Gweithio ar Fil Cynulliad

2.1 Mae'r grŵp o swyddogion sy'n gweithio ar Fil yn cael ei adnabod fel arfer fel 'tîm y Bil'. Mae Pennod 3 y Llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad ac adnoddau tîm Bil, ynghyd ag esboniad o'r unigolion a'r timau eraill sy'n cyfrannu at ddatblygu, paratoi ac ystyried Bil Cynulliad.

2.2 Mae rheoli a llywodraethu Bil yn elfen hanfodol o ddarparu Bil, a cheir rhagor o ganllawiau ar yr egwyddorion, y dull a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â hyn ym Mhennod 4 y Llawlyfr hwn.

## Cyfnodau gwaith allweddol cyn cyflwyno'r Bil

2.3 Esbonnir y cyfnodau gwaith allweddol wrth baratoi'r Bil yn y tabl isod, ac maent wedi eu cyflwyno mewn trefn ddilyniannol ac yn cynnwys cyfeiriadau at ddeunyddiau pellach i'w darllen.

| *Cyfnod gwaith* | *Beth sy'n digwydd yn y cyfnod hwn* | *Cyfeiriad at ddeunyddiau pellach* |
|---|---|---|
| Datblygu'r polisi | Mae'r tîm yn datblygu ac yn cyflwyno'r nodau polisi a goblygiadau'r ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnod hwn.<br>Bydd angen gwerthuso effaith y polisi ac ystyried opsiynau ar gyfer ei ddarparu.<br>Ymgynghorir â rhanddeiliaid. | Mae Pennod 5 yn cyfeirio at ganllawiau ar asesiadau effaith, a Phennod 6 yn cynnig canllaw ar baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA).<br>Mae Pennod 7 yn cynnig canllaw ar ddatblygu polisi, fel rhan o'r canllaw ehangach ar gyfarwyddo'r drafftiwr. |

| ***Cyfnod gwaith*** | ***Beth sy’n digwydd yn y cyfnod hwn*** | ***Cyfeiriad at ddeunyddiau pellach*** |
|---|---|---|
| Cyfarwyddo’r drafftiwr | Bydd y tîm yn datblygu esboniad polisi manwl iawn o’r hyn y bydd angen i’r Bil ei wneud, ac yn darparu dadansoddiad o oblygiadau cyfreithiol ac unrhyw fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae hyn er mwyn hysbysu drafftiwr y Bil am yr hyn y bydd angen i’r Bil ei wneud. | Mae Pennod 7 yn cynnig canllaw ar gyfarwyddo. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i Bennod 9 ar bwerau dirprwyedig a Phennod 18 ar gychwyn – bydd angen rhoi sylw i’r ddau fater yn y cyfarwyddiadau. |
| Drafftio a chyfieithu’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol | Caiff Biliau eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg gan ddrafftwyr a chyfieithwyr arbenigol fel arfer.<br>Caiff y Memorandwm Esboniadol (sy’n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) a’r Nodiadau Esboniadol i’r Bil eu paratoi, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan dîm y Bil gan gynnwys y cyfieithwyr fel arfer.<br>Pan fo pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth, bydd angen fel arfer i dîm y Bil baratoi dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg i esbonio i’r Cynulliad sut y disgwylir i’r pwerau gael eu defnyddio – datganiad o fwriad y polisi. | Mae Pennod 7 yn cynnig canllaw ar weithio gyda’r drafftiwr wrth baratoi’r Bil.<br>Rhoddir canllaw ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 6, ac mae Pennod 8 yn cynnig canllaw ar y Memorandwm Esboniadol.<br>Mae Pennod 9 yn cynnig canllaw ar baratoi Nodiadau Esboniadol.<br>Mae Pennod 10 yn cynnig canllaw ar bwerau dirprwyedig yn gyffredinol, ac mae Pennod 11 yn esbonio’r datganiadau o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth. |

| *Cyfnod gwaith* | *Beth sy’n digwydd yn y cyfnod hwn* | *Cyfeiriad at ddeunyddiau pellach* |
|---|---|---|
| Awdurdodi cyn cyflwyno | Cynhelir cyfarfodydd asesu cyn-cyflwyno.<br>Rhaid sicrhau Awdurdodiad Gweinidogol ar gyfer y Bil a’r Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn cyflwyno.<br>Anfonir y dogfennau at y Llywydd yn Gymraeg ac yn Saesneg wedyn er mwyn iddi benderfynu arnynt cyn eu cyflwyno. | Mae Pennod 14 yn cynnwys canllaw ar y camau a gymerir cyn cyflwyno’r Bil. |

2.4 Nid yw’n bosibl cynnig canllaw cyffredinol ar y cyfnod o amser sydd ei angen i ddatblygu Bil sy’n barod i gael ei gyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg – mae’n sicr yn gyfnod o fisoedd yn hytrach nag wythnosau. Efallai y bydd angen blwyddyn neu ddwy ar gyfer rhai Biliau, ac efallai y bydd wyth i ddeuddeng mis yn fwy priodol i eraill. Weithiau, o dan amgylchiadau eithriadol iawn, bydd angen cyflwyno Biliau brys neu ‘garlam’, lle mae gwahanol amserlenni yn debygol o fod yn berthnasol (gweler pennod 16). Mae cyngor ar ddeall yr amserlenni tebygol ar gyfer Bil unigol ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

# Pennod 3 – Pwy yw pwy yn y broses ddeddfwriaethol

**Mae'r Bennod hon yn nodi'r prif unigolion neu grwpiau yn y Llywodraeth sy'n cymryd rhan yn y gwaith o baratoi ac ystyried Bil. Nid yw'n rhestr drwyadl a bydd angen i dimau Biliau ystyried pwy arall y bydd angen eu cynnwys.**

## Gweinidogion sy'n gysylltiedig â Biliau

3.1 Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol am raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, ac felly mae'n cymryd diddordeb agos yn natblygiad a darpariaeth Biliau'r Llywodraeth. Mae'n rhaid cael ei gytundeb ar gyfer –

a. ceisio cytundeb y Cabinet i Fil gael ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol;
b. nodau polisi'r Bil, gan gynnwys unrhyw newidiadau iddo;
c. amserlen y Bil, gan gynnwys unrhyw newidiadau iddo;
d. dyddiad cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad;
e. gwelliannau arfaethedig y Llywodraeth i'r Bil ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

3.2 Ar gyfer Biliau'r Llywodraeth, y Gweinidog â chyfrifoldeb portffolio am bolisi'r Bil yw'r Gweinidog Arweiniol[2] ar gyfer y Bil fel arfer, y cyfeirir ato weithiau hefyd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil. Pan fydd y Gweinidog Arweiniol yn cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad, bydd yn cael ei adnabod, gan y Cynulliad at y diben hwn, fel yr Aelod Cyfrifol (am y Bil). Mae rhagor o wybodaeth am yr Aelod Cyfrifol i'w chael isod.

3.3 Ceir achlysuron pan fydd gan fwy nag un Gweinidog Cabinet fuddiant ym mholisi'r Bil. Gallai hyn fod oherwydd –

a. bod y Bil yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i ddarparu polisi sy'n rhan o bortffolio Gweinidog arall, er enghraifft newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol mewn perthynas â phenodi Arolygwyr EM yn cael eu cynnwys mewn Bil addysg;

b. bod mecanwaith ar gyfer darparu bwriad polisi'r Bil yn rhan o bortffolio Gweinidog arall, er enghraifft cynnwys premiwm y dreth gyngor ar gartrefi gwag mewn Bil tai fel mecanwaith i sicrhau bod mwy o stoc dai ar gael.

Mewn achosion o'r fath, bydd y Prif Weinidog wedi penderfynu pwy yw'r Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil. Gweinidog y portffolio fydd gyfrifol am bolisi o hyd, a dylid ceisio ei gytundeb ar gyfer penderfyniadau polisi yn ymwneud â'r agweddau hynny ar y Bil. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Gweinidog Arweiniol y Bil fydd mynd â'r Bil drwy'r Cynulliad, ac felly bydd angen ei gytundeb ef hefyd.

3.4 Pan fo'r Arweinydd ar gyfer Bil yn Ddirprwy Weinidog, bydd y Gweinidog â chyfrifoldebau portffolio hefyd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol

[2] Defnyddir y term Gweinidog(ion) drwy'r llawlyfr i gyfeirio at y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion. Pan fydd cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at y naill neu'r llall, bydd yn cael ei wneud yn eglur yn y canllaw.

ynghylch polisi, amserlen a materion ariannol. Dylai'r holl gyngor a gyflwynir i'r Dirprwy Weinidog hefyd gael ei gopïo i'r Gweinidog â chyfrifoldeb portffolio. Dylid trafod manylion ymarferol y trefniadau gweithio ar ddechrau'r prosiect, gan ofyn am gyngor yn ôl yr angen gan y Swyddfa Breifat berthnasol.

3.5 Dylai timau Biliau fod yn ymwybodol bod achlysuron eraill hefyd pan fo gan fwy nag un Gweinidog portffolio fuddiant mewn Bil (Llywodraeth neu Anllywodraethol), yn enwedig pan fo:

a. cyfrifoldeb cyllidebol am un neu fwy o agweddau ar y Bil gan wahanol Weinidog i'r Gweinidog Arweiniol. Mewn achosion o'r fath, dylid ceisio cytundeb y Gweinidog â chyfrifoldeb ariannol mewn perthynas â'r goblygiadau cost hynny sy'n disgyn yn ei faes/feysydd;

b. polisi'r Bil yn drawsbynciol ei natur. Bydd gan y Gweinidog Arweiniol gyfrifoldeb cyffredinol am y Bil, ond bydd yn dymuno sicrhau ei fod yn cael ei hysbysu a'i gynnwys yn natblygiad y Bil pan fydd y Bil yn effeithio ar bortffolio Gweinidogion eraill.

3.6 Ar gyfer Biliau Anllywodraethol, mae'n arferol i un Gweinidog fod y Gweinidog Arweiniol ar gyfer ymateb i'r Bil yn ystod ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil hwnnw. Weithiau, bydd hefyd yn cymryd rhan yn y broses o gysylltu â'r Aelod Cyfrifol arfaethedig am y Bil hwnnw cyn cyflwyno'r Bil (er enghraifft, trafodaethau gyda'r Aelod sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Bil gan y Cynulliad, ond nad yw wedi cyflwyno'r Bil hwnnw eto). Y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb portffolio am bwnc y Bil fydd y Gweinidog Arweiniol ar gyfer Biliau Anllywodraethol fel arfer, ond bydd mwy nag un Gweinidog yn cymryd y cyfrifoldeb hwn mewn rhai achosion. Unwaith eto, y Prif Weinidog fydd yn penderfynu pwy fydd y Gweinidog Arweiniol yn yr achosion hynny.

### Y Cwnsler Cyffredinol

3.7 Y Cwnsler Cyffredinol yw Swyddog y Gyfraith y Llywodraeth, ac mae'n gyfrifol am ddarparu cyngor cyfreithiol i'r Prif Weinidog ac i weddill y Llywodraeth. Cyngor cyfreithiol y Cwnsler Cyffredinol yw'r cyngor cyfreithiol terfynol ac awdurdodol yn y Llywodraeth.

3.8 Ar ôl i Fil gael ei basio gan y Cynulliad, mae'n rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol benderfynu a ddylai arfer ei bŵer o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i atgyfeirio'r cwestiwn a fyddai Bil neu unrhyw ddarpariaeth o'r Bil o fewn pwerau'r Cynulliad i'r Goruchaf Lys benderfynu (gweler Pennod 17). Wrth arfer y swyddogaeth hon, mae Cod y Gweinidogion yn darparu bod y Cwnsler Cyffredinol yn gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth.

3.9 Mae gan y Cwnsler Cyffredinol hefyd y pŵer o dan adran 111B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i atgyfeirio at y Goruchaf Lys i benderfynu a yw Bil (neu unrhyw ddarpariaeth ynddo) yn ymwneud â 'phynciau gwarchodedig'.

3.10 Gellir gweld y rhestr o 'bynciau gwarchodedig' yn adran 111A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n cynnwys etholfraint ar gyfer etholiadau'r

Cynulliad; y system ar gyfer ethol aelodau Cynulliad; manyleb neu nifer yr etholaethau a rhanbarthau neu ardaloedd etholiadol eraill, a nifer yr aelodau i'w hethol ym mhob ardal etholiadol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i newid enw'r Cynulliad; a nifer y personau all ddal swydd Gweinidog Cymru neu Ddirprwy Weinidog Cymru. Er mwyn i Fil sy'n cynnwys darpariaeth am bwnc gwarchodedig gael ei basio, rhaid i o leiaf dwy ran o dair o gyfanswm aelodau'r Cynulliad bleidleisio drosto yn y cyfnod olaf ('uwch-fwyafrif').

## Aelod Cyfrifol (am y Bil)

3.11 Mae Aelod Cyfrifol ar gyfer pob Bil a gyflwynir i'r Cynulliad (yn unol â Rheol Sefydlog 24).

3.12 Yn achos Biliau'r Llywodraeth, yr Aelod Cyfrifol yw:

a. yr aelod o'r Llywodraeth a osododd neu a gyflwynodd y ddeddfwriaeth; neu
b. aelod o'r Llywodraeth sydd wedi ei awdurdodi gan y Prif Weinidog.[3]

3.13 Yn ymarferol, ar gyfer Biliau'r Llywodraeth, y Gweinidog Arweiniol ar gyfer y portffolio y mae polisi'r Bil yn perthyn iddo fydd yr Aelod Cyfrifol fel arfer (gweler uchod hefyd).

3.14 Mewn perthynas â Biliau Anllywodraethol, mae'r Aelod Cyfrifol yn:

a. aelod o'r Pwyllgor a awdurdodwyd gan y Pwyllgor hwnnw, ar gyfer Biliau Pwyllgor;
b. aelod o'r Comisiwn a awdurdodwyd gan y Comisiwn, ar gyfer Biliau Comisiwn;
c. Aelod a oedd wedi derbyn cytundeb y Cynulliad i gyflwyno'r Bil neu Aelod arall a awdurdodwyd gan yr Aelod gwreiddiol, ar gyfer Biliau Aelodau.

Ceir rhagor o wybodaeth am Filiau Anllywodraethol ym Mhennod 19.

### Newidiadau i'r Aelod Cyfrifol

3.15 Gellir trosglwyddo Biliau'r Llywodraeth i unrhyw Aelod o'r Llywodraeth fel a awdurdodwyd gan y Prif Weinidog. Gallai newidiadau o'r fath ddigwydd, er enghraifft, oherwydd newid i'r Gweinidog Portffolio. Mae'n rhaid i Aelod Cyfrifol am ddeddfwriaeth Llywodraeth fod yn aelod o'r Llywodraeth (Rheol Sefydlog 24.4).

3.16 Gellir trosglwyddo Biliau Pwyllgor i aelod arall o'r Pwyllgor. Os na fydd y Pwyllgor yn bodoli mwyach, gall y Pwyllgor Busnes nodi Pwyllgor arall i fod yn gyfrifol am y ddeddfwriaeth. Gyda chytundeb y Llywodraeth (ac awdurdodiad y Prif Weinidog) gall Pwyllgor hefyd drosglwyddo eitem o ddeddfwriaeth i'r

[3] Er enghraifft, os oes ad-drefnu Gweinidogol, efallai na fydd yr Aelod Cyfrifol am Fil gwreiddiol yn y Cabinet mwyach neu na fydd yn meddu ar yr un cyfrifoldebau portffolio. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai'r Prif Weinidog yn awdurdodi Aelod Cyfrifol newydd; Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant sy'n ymdrin â'r trefniadau ymarferol perthnasol ar gyfer hyn.

Llywodraeth trwy bleidlais unfrydol y Pwyllgor hwnnw. Pan fydd trosglwyddiad o'r fath yn digwydd, ystyrir fod y Bil (o hynny ymlaen) yn Fil Llywodraeth.

3.17 Gellir hefyd trosglwyddo Biliau Comisiwn i unrhyw aelod o'r Comisiwn ond mae'n rhaid i'r Aelod Cyfrifol fod yn aelod o'r Comisiwn (Rheol Sefydlog 24.12).

3.18 Gall yr Aelod Cyfrifol am Fil Aelod drosglwyddo'r Bil i Aelod arall, neu i aelod o'r Llywodraeth os caiff ei awdurdodi gan y Prif Weinidog. Pan fydd y Bil yn cael ei drosglwyddo i'r Llywodraeth, ystyrir (o hynny ymlaen) ei fod yn Fil Llywodraeth. Byddai hyn yn golygu bod gofynion gweithdrefnol penodol yn newid (gweler Penodau 15 a 19).

## Tîm y Bil

3.19 Mae tîm y Bil yn gweithio i ddarparu Bil, ac fel arfer mae'n cynnwys Rheolwr Bil, arweinydd/arweinyddion a swyddogion polisi, cyfreithiwr/cyfreithwyr pwnc, cyfreithwyr drafftio, cyfieithwyr (pan fo'n briodol, gweler 'Gwasanaeth Cyfieithu' isod) a Phrif Berchennog Cyfrifol. Gall maint a chyfansoddiad y tîm hwn newid ar gyfer gwahanol Filiau a hyd yn oed ar wahanol adegau wrth ddatblygu Bil. Nodir swyddogaethau pob un o'r aelodau allweddol isod, ond mae'n briodol nodi cyfrifoldebau aelodau tîm y Bil yn y cylch gorchwyl ar gyfer prosiect y Bil, ac i'r rhain gael eu cytuno gan fwrdd y prosiect (gweler Pennod 4).

### Prif Berchennog Cyfrifol

3.20 Yn unol ag arferion rheoli rhaglen a phrosiect safonol, y Prif Berchennog Cyfrifol yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am sicrhau bod prosiect neu raglen o newid yn bodloni ei amcanion ac yn cyflawni'r manteision rhagamcanol. I brosiectau Bil, mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad a thrwyddo. Fel arfer, yr unigolyn hwn yw perchennog y newid polisi cyffredinol y mae'r Bil yn perthyn iddo.

3.21 Mae'n rhaid i'r Prif Berchennog Cyfrifol fod yn uwch-swyddog, ac mae'n Gyfarwyddwr neu'n Ddirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer prosiectau Bil fel arfer, a bydd yn rhoi adroddiadau i'r Gweinidogion a sicrwydd y bydd y prosiect deddfwriaeth yn cael ei gyflawni. Dylai gael ei gydnabod fel y perchennog drwy'r sefydliad cyfan a dylai (pan fo'n bosibl) barhau yn y swyddogaeth trwy gydol y prosiect, neu newid dim ond pan fo cyfnod pendant o ddarpariaeth y Bil wedi ei gwblhau.

3.22 Dylai'r Prif Berchennog Cyfrifol fod yn barod i wneud penderfyniadau a dylai fod yn rhagweithiol o ran darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad trwy gydol oes prosiect y Bil.

3.23 Mae'r swyddogaeth Prif Berchennog Cyfrifol yn cyd-fynd â methodolegau rheoli prosiect presennol gan y dylai'r Prif Berchennog Cyfrifol, fel y sawl sy'n gyfrifol am y newid polisi, fod yn Gadeirydd bwrdd prosiect y Bil. Dylai'r Prif Berchennog Cyfrifol gyflawni swyddogaeth flaenllaw yn natblygiad y Bil, yn enwedig trwy fod yn bresennol yng nghyfarfodydd bwrdd y prosiect. Hefyd, bydd disgwyl i'r Prif Berchennog Cyfrifol roi cyfarwyddyd pan fo'n angenrheidiol

a sicrhau ansawdd y dogfennau allweddol (dogfennau briffio, areithiau, cyngor Gweinidogol, etc).

### Rheolwr y Bil

3.24 Mae Rheolwr y Bil yn rheoli cynnydd a'r gwaith o lunio'r Bil, gan weithio'n unol â'r amserlen y cytunwyd arni a sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer y Bil. Gall y swyddogaeth amrywio yn ôl gofynion y Grŵp a natur y Bil, ond rheoli prosiect ydyw yn ei hanfod. Gall ei waith gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i:

a. dynnu dogfennau allweddol ynghyd, gan gynnwys y Memorandwm Esboniadol;
b. paratoi cyngor i Weinidogion;
c. sicrhau bod holl ddogfennau angenrheidiol prosiect y bil wedi eu paratoi, a gweithredu o bryd i'w gilydd fel yr ysgrifenyddiaeth i fwrdd y prosiect;
d. sicrhau bod nodiadau annerch, llinellau i'w cymryd, gwybodaeth friffio, cyflwyniadau diwygio, a dogfennau allweddol eraill yn cael eu paratoi yn brydlon yn ystod Cyfnodau'r Cynulliad.

3.25 Er y gall Rheolwr y Bil fod yn swyddog polisi, trosolwg gwrthrychol o'r broses yn unig, ac nid y manylion polisi, sydd ei angen ar gyfer ymgymryd â'r rôl. Bydd yn amlygu'r risgiau posibl i'r Bil ac yn gweithio ar gamau lliniaru.

3.26 Ceir penodi Rheolwyr Biliau yn gynnar yn y cyfnod datblygu polisi, ond yn sicr mae angen eu penodi cyn gynted ag y cytunir y bydd Bil yn un o'r mecanweithiau a ddefnyddir i ddarparu'r newid polisi.

### Timau, arweinwyr a swyddogion polisi

3.27 Mae swyddogion polisi (gan gynnwys arweinwyr), yn gyfrifol am ddatblygu a phennu nodau a goblygiadau polisi. Byddant yn cyflwyno'r achos cychwynnol dros newid ac yn ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael, yr ystyriaethau a'r effeithiau. Byddant yn sicrhau bod y Gweinidog yn derbyn cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth dda ar wahanol ffyrdd o fodloni'r amcan gydag argymhelliad cadarn.

3.28 Ar ôl i lwybr gweithredu gael ei bennu, bydd y swyddogion polisi yn paratoi papurau ymgynghori a dogfennau ategol. Maent hefyd yn gyfrifol am baratoi cyfarwyddiadau polisi – ni ddylid diystyru lefel y manylder a'r cywirdeb sy'n ofynnol ar gyfer datblygu cyfarwyddiadau ar gyfer Biliau (rhoddir rhagor o gyfarwyddyd ym Mhennod 7).

3.29 Bydd y tîm polisi yn parhau i gymryd rhan trwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil a chraffu arno. Bydd hyn yn cynnwys trefnu i bwyntiau gwirio polisi gael eu cynnal, egluro amcanion polisi a rheoli'r achos busnes sy'n datblygu.

3.30 Bydd swyddogion polisi hefyd yn gweithio ar Femorandwm Esboniadol y Bil; yn paratoi llinellau briffio ac annerch ar gyfer y Gweinidog yn ystod ystyriaeth y

Cynulliad o'r Bil fel sy'n ofynnol; yn datblygu gwelliannau'r Llywodraeth; ac yn darparu ymatebion i welliannau Anllywodraethol.

### Gwasanaethau Cyfreithiol

3.31 Dylai cyfreithwyr pwnc gymryd rhan o ddechrau'r prosiect. Bydd ganddynt wybodaeth gyfreithiol fanwl am y maes polisi. Byddant yn gallu cynghori ar statws cyfreithiol cyfredol y maes polisi, cymhwysedd deddfwriaethol a hyfywedd yr opsiynau polisi a ddatblygwyd. Fel arfer, y swyddogion sy'n gweithio o'r cyfarwyddiadau polisi i ddatblygu cyfres o gyfarwyddiadau i'r drafftiwr – sy'n cael eu galw y 'swyddogion sy'n llunio cyfarwyddiadau' – fydd y rhain. Bydd y cyfreithiwr pwnc hefyd yn rhoi cyngor cyfreithiol, ac yn ei awdurdodi, mewn perthynas â'r holl gyngor Gweinidogol sy'n ymwneud â deddfwriaeth, y Nodiadau Esboniadol a dogfennau allweddol eraill y Bil (er enghraifft, y Memorandwm Esboniadol, pecynnau gwybodaeth, y trywydd i'w ddilyn, Datganiadau Ysgrifenedig, etc).

3.32 Byddant yn parhau i gymryd rhan er mwyn ymateb i'r heriau a godir gan y Pwyllgorau a'r Cynulliad, gan gyfarwyddo'r drafftiwr i baratoi gwelliannau'r Llywodraeth, a chraffu ar welliannau Anllywodraethol. Gallant gael eu galw i egluro darpariaethau ar unrhyw adeg yn ystod hynt y Bil.

### Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol

3.33 Tîm arbenigol o gyfreithwyr sy'n drafftio ac yn paratoi Biliau'r Llywodraeth yw Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Mae'r Swyddfa yn gyfrifol am—

- ddrafftio Biliau a gwelliannau i Filiau i roi'r polisi ar waith;
- arwain ar faterion yn ymwneud â pholisi ac arferion drafftio deddfwriaethol, ac, yn benodol, yr ymdrech gyfunol i sicrhau bod y Bil yn gwneud cyfraith dda (cyfraith sy'n angenrheidiol, yn eglur, yn ystyrlon, yn effeithiol ac yn hygyrch);
- nodi unrhyw fylchau yn y cyfarwyddiadau;
- tynnu sylw at broblemau gyda'r cyfarwyddiadau sy'n codi cwestiynau ynghylch a fydd unrhyw agwedd ar y cynnig yn darparu'r polisi neu'n gwneud cyfraith dda, a helpu i'w datrys;
- sicrhau bod y Bil yn eglur yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod y fersiynau yn y ddwy iaith yn cael yr un effaith gyfreithiol.

3.34 Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn swyddfa fach sy'n gyfrifol am ddrafftio'r holl Filiau'r Llywodraeth a gwelliannau yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Mae adnoddau'r swyddfa wedi eu hamserlennu'n dynn felly, ac nid yw'n rhwydd symud neu newid ffenestri drafftio. Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn cael ei harwain gan y Prif Gwnsler Deddfwriaethol.

### Gwasanaeth Cyfieithu

3.35 Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Filiau, a'r rhan fwyaf o'u dogfennau cysylltiedig, gael eu darparu yn Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn berthnasol i ddogfennau a rhannau eraill o broses Bil

(gweler y tabl ym Mhennod 2, paragraff 2.3, a Phenodau 14 a 15, am ragor o wybodaeth).

3.36 Gall y Gwasanaeth Cyfieithu gynorthwyo i lunio testun Cymraeg. Mae'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol yn arbenigo mewn cyfieithu'r Bil ei hun a'r Nodiadau Esboniadol. Bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn trefnu cyfieithiad y Bil, bydd angen i dîm y Bil drefnu i'r Nodiadau Esboniadol gael eu cyfieithu. Bydd yr Uned Gyfieithu Gyffredinol yn gweithio'n bennaf ar y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ynghyd â phapurau ymgynghori, ac areithiau Gweinidogion. Dylai timau Biliau drefnu ceisiadau cyfieithu ar gyfer y gwaith hwn trwy e-ffurflenni ar y Fewnrwyd. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu hefyd yn darparu cyngor ar derminoleg ac arddull Gymraeg i gynorthwyo aelodau staff eraill i lunio testun Cymraeg a gwasanaeth gwirio testun ar gyfer dogfennau sy'n cael eu paratoi ar gyfer y cyhoedd.

3.37 Un opsiwn yw cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg gan y Gwasanaeth Cyfieithu. Ceir ffyrdd eraill o lunio testun yn Gymraeg e.e:

a. Gallai aelod o dîm y Bil nad ydynt yn gyfieithwyr (e.e. swyddogion polisi, cyfreithwyr a drafftwyr) ddrafftio yn Gymraeg a gallai'r Gwasanaeth Cyfieithu gyfieithu i'r Saesneg;
b. Gallai aelodau o dîm y Bil nad ydynt yn gyfieithwyr gyd-ddrafftio testun yn y ddwy iaith, gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu yn darparu cyngor ar ddrafftio'r testun Cymraeg, a/neu ei wirio;
c. Gallai tîm y Bil ddarparu'r testun Cymraeg heb droi at y Gwasanaeth Cyfieithu.

3.38 Mae timau Biliau yn gyfrifol am asesu eu set sgiliau ieithyddol ac ystyried sut i lunio Biliau a'u dogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r ystyriaeth hon yn cynnwys penderfynu sut y bydd y dogfennau Cymraeg a Saesneg sy'n ategu Biliau yn cael eu gwirio ar gyfer cywirdeb a chysondeb. Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n cyflawni'r dasg hon ar gyfer testunau Biliau yn y broses gyfwerthedd.

3.39 Mae adnoddau'r Gwasanaeth Cyfieithu yn gyfyngedig a'r galw am ei wasanaethau o bob rhan o'r sefydliad yn uchel. Cyn gynted ag y bo tîm y Bil yn cael ei benodi, mae angen rhoi ystyriaeth o'r cychwyn sut y bydd y Bil a'i ddogfennau cysylltiedig yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os oes angen gwasanaethau cyfieithu, mae angen i dîm y Bil ddod i gysylltiad â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar ddechrau'r prosiect a chynnwys cyfieithwyr yn rhan o dîm craidd y Bil. Bydd y Gwasanaeth Cyfieithu yn neilltuo ieithydd deddfwriaethol (h.y. aelod uwch o'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol) a chyfieithydd (h.y. aelod o'r Uned Gyfieithu Gyffredinol) i arwain ar bob Bil. Dylai timau Biliau gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r ieithydd deddfwriaethol a phrif gyfieithydd y Bil, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am:

a. ba waith sy'n debygol o gael ei anfon;
b. natur y gwaith (e.e. a yw'n diwygio deddfwriaeth arall, a yw'n cynnwys terminoleg newydd neu gymhleth);
c. faint o eiriau y bydd angen eu cyfieithu;

d. pryd y bydd yn cyrraedd y Gwasanaeth Cyfieithu;
e. erbyn pryd y mae angen dychwelyd y gwaith.

Os bydd amgylchiadau'n newid, dylid ymgynghori â'r ieithydd deddfwriaethol a'r cyfieithydd fel y gellir ystyried trefniadau newydd a chytuno arnynt.

3.40 Dylid cofio'r pwyntiau canlynol wrth drefnu gwaith gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu:

a. bydd anfon testun gorffenedig i'r Gwasanaeth Cyfieithu, yn hytrach na drafftiau anghyflawn, yn gwneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd pob cyfres o newidiadau yn costio o ran amser a/neu arian. Os nad oes gan dimau Biliau unrhyw ddewis arall yn hytrach nag anfon drafft heb ei orffen i gael ei gyfieithu, bydd y Gwasanaeth Cyfieithu angen cael gwybod pa elfennau sy'n debygol o newid fwyaf;

b. mae pob testun yn wahanol ac nid yw'n bosibl dweud ymlaen llaw yn union pa mor hir y bydd ei angen ar y Gwasanaeth Cyfieithu i wneud y gwaith, ond bydd yr ieithydd deddfwriaethol neu'r prif gyfieithydd yn gallu cynnig cyngor mwy manwl.

## Unigolion a thimau eraill sy'n cefnogi Biliau'r Cynulliad – tîm ehangach y Bil

### Trysorlys Cymru - Polisi

3.41 Rhaid tynnu sylw Trysorlys Cymru (Polisi) at unrhyw Filiau all effeithio ar drethi sydd wedi eu datganoli neu eu datganoli yn rhannol i Gymru. Y trethi sydd wedi eu datganoli neu eu datganoli yn rhannol yw'r dreth trafodiadau tir, y dreth gwarediadau tirlenwi, treth incwm (ar enillion, pensiynau ac incwm o eiddo) a threthi lleol (treth gyngor ac ardrethi annomestig). Y rheswm am hyn yw y gallai unrhyw newidiadau o'r fath newid sylfaen drethu y trethi hyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gael effaith ehangach ar refeniw Cymru.

3.42 Ymysg enghreifftiau posibl mae ailddosbarthu mathau o wastraff, cynigion i greu cynlluniau newydd i ddarparu mynediad at berchnogaeth tai, grantiau i adeiladu eiddo busnes newydd a chynlluniau creu cyflogaeth. Dylid gwneud dyfarniad ynghylch y newid y mae'r ddeddfwriaeth yn ei chynnig a pha mor agos yw hynny at y sylfaen drethu. Er enghraifft, er bod rhaglenni i wella'r sylfaen sgiliau yng Nghymru wedi'u llunio i gael effaith ar gyfleoedd a denu swyddi gwerth uchel i Gymru, maent yn debygol o fod yn rhy bell o'r canlyniadau refeniw trethi i gael unrhyw effaith y mae modd ei nodi.

3.43 Dylid dechrau trafod gyda Thrysorlys Cymru (Polisi) yn gynnar ym mhroses y Bil i nodi unrhyw oblygiadau posib ar gyfer threthi.

### Trysorlys Cymru - Economegwyr

3.44 Mae tîm y Prif Economegydd yn Nhrysorlys Cymru yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ynghylch datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd ei angen ar bob Bil. Gall yr economegwyr ddarparu cyngor ynghylch y fethodoleg

gywir i'w defnyddio, opsiynau i'w cynnwys yn y dadansoddiad, y ffynonellau data a'r dystiolaeth i'w defnyddio i foneteiddio costau a manteision a chwblhau tabl cryno yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

3.45 Disgwylir i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft gael ei gyhoeddi fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ar gyfer Biliau arfaethedig, felly mae'n bwysig cysylltu â'r economegwyr yn gynnar yn y broses o wneud polisïau (gweler Pennod 6).

3.46 Y Prif Economegydd sy'n gyfrifol am awdurdodi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol cyn cyflwyno Bil.

### Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

3.47 Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn adnodd hynod bwysig wrth ystyried y sail dystiolaeth ar gyfer y Bil. Mae’n hanfodol cysylltu â’r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar ddechrau’r gwaith o ddatblygu’r polisi. Pan fo’n bosibl, dylai hyn fod cyn i’r Bil gael ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Gall y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gynnig arbenigedd mewn meysydd fel ystadegau, economeg, ymchwil gymdeithasol, technoleg ddaearyddol a gwasanaethau llyfrgell. Efallai y bydd yn briodol cytuno ar ddyraniad adnoddau ar gyfer y Bil gyda’r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yng nghyswllt prosiectau mwy.

3.48 Mae’r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn cynnig yr arbenigedd canlynol sy’n arbennig o berthnasol i weithio ar Filiau:

a. Ystadegwyr – gallant helpu i egluro gofynion data, darganfod pa ddata sy’n bodoli eisoes, sefydlu casgliadau data newydd a phenderfynu sut i gasglu data yn effeithlon. Gall ystadegwyr asesu ansawdd data a phenderfynu a yw’n addas ar gyfer y diben a fwriedir, a dadansoddi’r data i adrodd y stori, cynhyrchu cwestiynau pellach, dod i gasgliadau a’u defnyddio i wneud penderfyniadau.

b. Ymchwilwyr cymdeithasol – byddant yn mesur, yn disgrifio, yn esbonio ac yn darogan newidiadau i strwythurau, agweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau cymdeithasol ac economaidd a’r ffactorau sy’n ysgogi unigolion a grwpiau mewn cymdeithas yn ogystal â chyfyngu arnynt.

c. Gwasanaethau Llyfrgell – mae’r Llyfrgell yn cynnig adnoddau defnyddiol i gefnogi datblygiad polisi, yn ogystal ag amrywiaeth o wasanaethau a allai fod o fudd i waith Bil. Gall y Llyfrgell chwilio am wybodaeth a llenyddiaeth ar-lein.

3.49 Sylwer hefyd y gallai dadansoddwyr (sy’n economegwyr, yn ymchwilwyr cymdeithasol ac yn ystadegwyr) hefyd gael eu cynnwys mewn Grwpiau.

### Cyllidebu Strategol

3.50 Yr Is-adran Cyllidebu Strategol sy’n arwain proses gyllidebu’r Llywodraeth i ddyrannu adnoddau yn unol â blaenoriaethau’r Llywodraeth ar gyfer pobl, cymunedau a busnesau Cymru. Mae’n canolbwyntio ar wella’r defnydd o dystiolaeth a dadansoddi i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau strategol.

3.51 Mae hyn yn golygu bod angen i dimau Biliau gysylltu â’r Is-adran Cyllidebu Strategol i drafod goblygiadau ariannol Bil ar ddechrau’r broses, i sicrhau y gellir bodloni uchelgeisiau’r polisi yn unol â’r dyraniad o adnoddau. Mae swyddogion Cyllidebau Strategol yn gyfrifol am graffu ar oblygiadau ariannol cyngor sy’n gysylltiedig â Biliau’r Cynulliad a’u hawdurdodi, cyn ceisio cymeradwyaeth Weinidogol.

### Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu

3.52 Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu sy’n arwain datblygiad a darpariaeth cyfathrebu allanol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gwaith y Gyfarwyddiaeth sy’n ymwneud â chyfathrebu ar y we ac yn ddigidol, newyddion, cysylltiadau â’r wasg a’r cyfryngau, a chynllunio, cydgysylltu, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ymgyrchoedd cyfathrebu yn arbennig o berthnasol i’r rheini sy’n gweithio ar Filiau’r Cynulliad.

3.53 Un o’r heriau i’r rhai sy’n gweithio ar Filiau yw sicrhau bod cyfathrebu yn cael ei ddatblygu a’i ddarparu mewn ffordd sy’n effeithiol ac yn cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Yn y lle cyntaf, bydd Rheolwr y Bil yn dymuno ymgysylltu â Phennaeth Cyfathrebu a Marchnata’r Grŵp polisi, a all gynnig cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth o ran sut i gyfathrebu ynglŷn â’r Bil.

### Swyddfeydd Preifat

3.54 Cefnogir pob Gweinidog gan ysgrifenyddiaeth, sy’n gweithredu fel y prif gyswllt rhwng y Gweinidog a’r sefydliad. Bydd angen i dimau Biliau weithio’n agos gyda’r Swyddfa Breifat, sy’n ymdrin â’r holl ohebiaeth i’r Gweinidog, yn trefnu cyfarfodydd gyda nhw, ac ar eu cyfer, ac yn trefnu eu hymddangosiadau gerbron Pwyllgorau. Mae cyswllt cynnar gyda Swyddfeydd Preifat yn bwysig fel y gallant gael eu hysbysu am ddyddiadau allweddol ar gyfer pob un o Filiau eu Gweinidogion, ac er mwyn osgoi digwyddiadau a fydd yn cyd-daro mewn dyddiaduron.

### Arweinwyr Deddfwriaethol Grŵp

3.55 Mae Arweinwyr Deddfwriaethol yn cyflawni swyddogaeth gydgysylltu o fewn Grwpiau polisi. Gallant gynnig cymorth a chyngor i dîm y Bil.

### Cynghorwyr arbennig

3.56 Mae cynghorwyr arbennig yn ychwanegu dimensiwn gwleidyddol i’r cyngor a’r cymorth sydd ar gael i Weinidogion gan atgyfnerthu didueddrwydd gwleidyddol

y Gwasanaeth Sifil parhaol trwy fod yn ffynhonnell wahanol o gyngor a chymorth gwleidyddol.

3.57 Cânt eu penodi gan y Prif Weinidog i helpu Gweinidogion ar faterion lle mae gwaith y Llywodraeth a gwaith y blaid sy'n llywodraethu yn gorgyffwrdd a phan fyddai'n amhriodol i weision sifil parhaol gymryd rhan. Maent yn adnodd ychwanegol i'r Gweinidog gan gynnig cymorth o safbwynt sy'n fwy ymrwymedig yn wleidyddol ac yn fwy ymwybodol yn wleidyddol na fyddai ar gael i Weinidog gan y Gwasanaeth Sifil parhaol.

3.58 Mae o gymorth i dimau Biliau ymgysylltu â chynghorwyr arbennig wrth baratoi cyngor i Weinidogion yng nghyswllt Biliau.

### Cynghorwyr polisi arbenigol

3.59 Cyflogir cynghorwyr polisi arbenigol o dro i dro fel Gweision Sifil dros dro, yn aml ar secondiad, i gynnig cyngor polisi arbenigol i Weinidogion a'u Grwpiau. Yn wahanol i gynghorwyr arbennig, bydd y cyngor y maent yn ei ddarparu yn anwleidyddol, ond gallai eu profiad, eu gwybodaeth a'u hagosrwydd at rai Gweinidogion gynorthwyo swyddogion i baratoi cyngor polisi neu ddogfennau briffio ar faterion penodol.

## Sicrhau bod y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei chyflawni

3.60 Tîm y Bil sy'n gyfrifol am ddarparu Bil unigol a bydd y Bil hwn yn rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol ehangach ar gyfer y Llywodraeth. Mae'r grwpiau a'r timau canlynol yn cefnogi'r rhaglen ddeddfwriaethol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni.

### Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant

3.61 Mae Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rheoli darpariaeth y rhaglen ddeddfwriaethol sy'n cynnwys darparu cyngor a chefnogaeth i dimau Biliau unigol, Gweinidogion arweiniol a chynghorwyr arbennig, yn ôl y gofyn. Mae Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd yn darparu cyngor i'r Prif Weinidog a'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

3.62 Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyngor ar ddatblygu polisi yn gynnar, ymgysylltu â rhanddeiliaid, amserlennu a chyhoeddi Papurau Gwyrdd a Gwyn, Biliau Drafft ac ymgyngoriadau eraill, yn ogystal ag ymdrin â phob cyfnod o'r broses, yn enwedig Cyfnodau'r Cynulliad. Mae'n rhaid rhoi'r cyfle i Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant wneud sylwadau ar yr holl gyngor Gweinidogol yn ymwneud â deddfwriaeth y Cynulliad a bydd yn cynnig cyngor ar ddogfennau perthnasol y mae'n rhaid eu darparu ynghyd â'r ddeddfwriaeth. Ochr yn ochr â darparu hyfforddiant i dimau Biliau unigol, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd byrddau prosiect a thimau Biliau (gan gynnwys y rhai a gynhelir gyda Gweinidogion) ac yn sicrhau bod egwyddorion cynllunio a rheoli ar waith ar

gyfer pob Bil. Maent yn monitro cynnydd yn agos yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni; a sicrhau agwedd gyson at ddeddfwriaeth ar draws y Llywodraeth.

3.63 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn penderfynu ac yn pennu’r amserlen ar gyfer pob Bil (cyn ac ar ôl ei gyflwyno), gan gymryd safbwyntiau’r holl bartïon perthnasol i ystyriaeth.

3.64 Mae rhan o’r tîm yn cefnogi gwaith Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i weithgorau trwy ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth, a thrwy fwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau gwella.

### Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol

3.65 Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cyflawni swyddogaeth ganolog yn y gwaith cyffredinol o reoli a monitro’r rhaglen ddeddfwriaethol yn rhan o’r Rhaglen Lywodraethu ehangach. Mae’n cynnwys uwch-swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac fe’i cefnogir gan weithgorau cysylltiedig.

### Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol

3.66 Mae Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol yn cynnwys dau dîm â pherthnasedd penodol i’r rheini sy’n gweithio ar ddeddfwriaeth:

a. Tîm cyfunol yn ymdrin â materion cyfansoddiadol, deddfwriaeth Senedd y DU a chysylltiadau rhynglywodraethol. Mae’r tîm yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw ddeddfwriaeth Senedd y DU sy’n effeithio ar Gymru, â materion cyfansoddiadol yn ymwneud â setliad datganoli Cymru yn ogystal â datblygiadau cyfansoddiadol ehangach y DU, a chyda chysylltiadau â Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae gan y tîm rwydwaith sylweddol o gysylltiadau uwch a lefel gweithio sydd â phrif gyfrifoldeb am ddatganoli ar draws adrannau Llywodraeth y DU;

b. Mae’r Tîm Polisi Cyfiawnder yn arwain ar ddatblygu capasiti a gallu ym maes cyfiawnder ar draws Llywodraeth Cymru ac yn gweithio i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wireddu mewn modd effeithiol yng Nghymru trwy ddiwygio tribiwnlysoedd datganoledig a gweithio gyda rhanddeiliaid allanol ym maes cyfiawnder. Mae’r Tîm Polisi Cyfiawnder ar gael i gynghori timau Biliau, o gam cynnar yn y broses o ddatblygu’r polisi neu’r ddeddfwriaeth, ar ystyriaethau mewn perthynas â chyfiawnder yn eu cynigion ac ymdrin ag effeithiau posibl cynigion ar y system gyfiawnder.

Gall yr Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol hefyd gynghori ar ddehongli’r Canllawiau ar Ddatganoli a’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

## Rhoi adnoddau i dîm y Bil

3.67 Rhaid bod gan dîm y Bil adnoddau priodol, gyda Rheolwr Bil penodol a Phrif Berchennog Cyfrifol ar waith i oruchwylio cynnydd o ddechrau'r broses. Mae rheoli'r Bil yn rhan annatod o'r broses.

3.68 Mewn nifer o achosion, bydd tîm gweinyddol bach yn cynorthwyo Rheolwr y Bil. Hyd yn oed ar gyfer Bil mawr iawn, ni argymhellir y dylid ehangu'r tîm hwn yn ormodol (e.e. dim mwy nag 1 neu 2 o staff cymorth) – mae cyfathrebu da a chymryd rhan yn uniongyrchol yn swyddogaeth reoli'r Bil yn hanfodol, a pho fwyaf y tîm yr anoddaf fydd hyn.

3.69 Ceir nifer o ffactorau y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried sut y dylid rhoi adnoddau i dîm llawn y Bil, ynghyd â'r gwir ofynion ar gyfer y cyfnod penodol o'r gwaith dan sylw. Er enghraifft, nid oes angen cael adnodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol penodol ar gyfer Bil ar adeg dechrau datblygu'r polisi. Bydd maint tîm y Bil, a nifer y swyddogion polisi penodol o gymharu â chyfreithwyr yn amrywio o Fil i Fil. Ym mhob achos, cyfrifoldeb allweddol bwrdd prosiect y Bil fydd penderfynu ar y cyfansoddiad angenrheidiol i gyflawni'r Bil yn unol â'r amserlen ofynnol ac adolygu cyfansoddiad y tîm wrth i'r Bil fynd rhagddo. Mae 2 swyddog polisi penodol ar gyfer pob cyfreithiwr o bosib yn fan cychwyn defnyddiol, gan gydnabod y bydd hyn yn siŵr o amrywio wrth ystyried y pwnc dan sylw yn y Bil.

3.70 Mae ffactorau a fydd yn pennu maint tîm y Bil yn cynnwys –

a. cymhlethdod y polisi – efallai y bydd rhai Biliau yn ymdrin ag un maes polisi ar wahân yn unig, ond bydd gan eraill nifer o fwriadau polisi (meysydd polisi gwahanol iawn weithiau), ac mae rhai yn cynnwys polisi y mae gwahanol Grwpiau neu Weinidogion yn gyfrifol amdano. Mae angen nifer digonol o swyddogion polisi, â phrofiad ac arbenigedd yn y pwnc, i ddeall a datblygu polisi neu bolisïau'r Bil. Ni ddylid diystyru'r angen am fewnbwn polisi cynhwysfawr – fel a nodwyd eisoes yn y Bennod hon (ac mewn rhannau eraill, a Phennod 7 yn benodol) – mae lefel y manylder a'r cywirdeb sydd ei hangen i baratoi Bil yn sylweddol. Mae profiad wedi dangos bod gwybodaeth a phrofiad polisi cryf, ynghyd â sicrhau bod digon o staff ar gael i wneud yr holl waith sy'n ofynnol, yn ffactor hanfodol i lwyddiant y Bil;

b. cymhlethdod cyfreithiol – gallai cymhlethdod o'r fath gynnwys materion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol, materion yn ymwneud â'r UE a hawliau dynol, cydsyniadau Gweinidog y Goron, neu gallai ymwneud ag ehangder a manylder y fframwaith cyfreithiol presennol y bydd y Bil yn rhan ohono yn y pen draw. Ym mhob achos bydd angen digon o fewnbwn gan gyfreithwyr. Dylid hefyd ystyried effaith y cydbwysedd rhwng nifer y swyddogion polisi penodol a'r cyfreithwyr ar unrhyw Fil gan y gallai prinder adnoddau, naill ai polisi neu gyfreithiol, arwain at heriau wrth gyflawni'r Bil;

c. maint disgwyliedig y Bil;

d. pa mor ddadleuol yw'r Bil – denu diddordeb y cyhoedd, lefel cefnogaeth y rhanddeiliaid, a'r cyhoedd, a'r lefel o gefnogaeth wleidyddol a chefnogaeth drawsbleidiol lawn. Mae angen rhoi ystyriaeth i lefel y cyfathrebu â'r ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n angenrheidiol a'r lefelau disgwyliedig o ohebiaeth a allai gael ei chynhyrchu, ac i fod ag adnoddau i adlewyrchu hyn;

e. cynllunio'r gweithredu – bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi a darparu'r rhaglen weithredu a allai gynnwys is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol neu anstatudol sy'n gysylltiedig â'r Bil. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle diwgwylir y bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r Bil, a/neu y bydd ar gael ar gyfer craffu arni ar yr un pryd ag y mae'r Bil yn cael ei ystyried gan y Cynulliad.

3.71 Bydd gan rai Biliau ystyriaethau eraill hefyd, fel:–

a. pa mor gyflym y bydd angen datblygu'r ddeddfwriaeth;
b. ffynhonnell y Bil – a yw'n deillio o ymrwymiad maniffesto, a yw hwn yn Fil Aelod, etc;
c. ystyriaethau rhynglywodraethol – faint o ymgysylltu sydd ei angen â Llywodraeth y DU neu Lywodraethau Gogledd Iwerddon neu'r Alban;
d. y math o ymgynghori a fydd yn cael ei wneud – mae paratoi Bil drafft ar gyfer ymgynghori yn gofyn am adnoddau gwahanol i ymgynghoriad Papur Gwyrdd.

## Pennod 4 – Rheoli a llywodraethu Bil

**Mae'r Bennod hon yn cynnig canllawiau ar reoli Bil, gan gynnwys rhai o'r egwyddorion, prosesau a dogfennau sy'n cefnogi ac yn cyflawni gwaith Bil. Rhoddir canllawiau ar wahân mewn Penodau diweddarach ar baratoi Bil, a mynd ag ef drwy'r Cynulliad. Mae gwaith rheoli Bil yn cefnogi'r gwaith o baratoi Bil.**

**Ceir canllaw ar bwy yw pwy mewn tîm Bil ym Mhennod 3.**

### Egwyddorion rheoli Bil

4.1 Fel a nodwyd yn y Bennod flaenorol yn y llawlyfr hwn, mae rheoli Bil yn rhan annatod a hanfodol o weithio ar Filiau'r Cynulliad – nid rhywbeth i beri anghyfleustra na gwaith ychwanegol diangen mohono. Yn yr un modd, dylai gwaith rheoli Bil fod yn gymesur â'r prosiect ei hun a dylai fod yn gyfrwng i gefnogi a llywio'r gwaith o sicrhau bod Bil yn cael ei gyflawni.

4.2 Mae gwaith rheoli Bil da yn galw am sgiliau rheoli prosiect cryf a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r broses ddeddfwriaethol a gwleidyddol. Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod Bil yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Bydd timau Biliau yn gweithio o dan bwysau mawr am lawer o'r amser, a bydd gwaith rheoli Bil da yn galluogi swyddogion ac arweinwyr polisi, cyfreithwyr, drafftwyr, cyfieithwyr a phawb arall sy'n rhan o'r broses, i gyflawni'r Bil yn brydlon, yn unol â'r gyllideb, bwriad y polisi a disgwyliadau Gweinidogol.

### Cydweithio i wneud cyfraith dda

4.3 Dylai timau Biliau gadw'r datganiad 'Cymorth y Gwasanaeth Sifil ar gyfer Gweinidogion i ddatblygu deddwriaeth y llywodraeth' mewn cof. Mae'r datganiad hwn wedi ei gynnwys isod: mae'n cydymffurfio â Chod y Gweinidogion a Chod y Gwasanaeth Sifil, a bwriedir iddo esbonio sut y bydd swyddogion yn cynorthwyo Gweinidogion i gyflawni deddfwriaeth. Ochr yn ochr â hyn, bwriedir i'r 'Egwyddorion arweiniol ar gyfer cydweithio ar ddeddfwriaeth y llywodraeth', sydd hefyd wedi ei gynnwys isod, gynorthwyo swyddogion wrth weithio ar y cyd ar ddeddfwriaeth yn unol â'r gwerthoedd o uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil. Mabwysiadwyd y ddau ddatganiad hyn gan Lywodraeth Cymru.

*Cymorth y gwasanaeth sifil ar gyfer Gweinidogion i ddatblygu deddfwriaeth y llywodraeth*

4.4 *Mae'r datganiad yn nodi sut y gall Gweinidogion ddisgwyl i weision sifil eu cefnogi i ddatblygu Bil Cynulliad pan benderfynwyd mai dyma'r trywydd mwyaf priodol i'w ddilyn i gyflawni amcan polisi penodol, ac wrth ystyried yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol pan ymchwilir i'r opsiynau. Mae'r datganiad yn rhan o*

*fframwaith ehangach Cod y Gwasanaeth Sifil ac mae'n berthnasol i weision sifil fel y mae i Weinidogion.*

4.5 *Bydd llawer o'r egwyddorion a amlinellir isod yn gymwys hefyd i ddatblygu deddfwriaeth arall, er na fydd datblygu deddfwriaeth o'r fath yn cael ei reoli'n ffurfiol fel prosiect o reidrwydd.*

4.6 *Ym mhob achos pan gytunwyd mai deddfu drwy Fil Cynulliad yw'r trywydd priodol, bydd y prosiect dilynol i ddatblygu Bil a gynigir gan y llywodraeth a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni yn cael ei gynllunio a'i reoli'n drylwyr. Bydd Prif Berchennog Cyfrifol ar gyfer pob prosiect a bwrdd prosiect. Bydd y trefniadau adrodd yn cael eu hadeiladu o amgylch craidd o adroddiadau rheolaidd ar y prif bwyntiau ac yn cael eu teilwra yn unol ag anghenion y Gweinidogion. Bydd rhai adnoddau canolog, sef cyfreithwyr sy'n drafftio a chyfieithwyr deddfwriaethol, yn cael eu rheoli'n ganolog o hyd a'u defnyddio ar draws y rhaglen ddeddfwriaethol.*

4.7 *Bydd y Prif Berchennog Cyfrifol yn rhoi cyfrif a sicrwydd i'r Gweinidogion mewn perthynas â chyflawni'r prosiect deddfwriaeth.*

4.8 *Bydd y Prif Berchennog Cyfrifol (neu ddirprwy a benodir fel sy'n briodol), ynghyd â swyddogion o bob proffesiwn ac arbenigedd, yn sicrhau eu bod ar gael i egluro cyngor ac i roi cyfrif o gynnydd y prosiect deddfwriaeth.*

4.9 *Bydd swyddogion yn defnyddio dull cyson o ymdrin â phob cynnig deddfwriaethol, beth bynnag y bo'r ffynhonnell. Yn benodol:*

a. *Bydd yr achos dros newid yn cael ei ystyried: nodir yn glir y mater y bwriedir iddo ei ddatrys neu'r manteision y bwriedir iddynt godi;*

b. *Trwy arfarnu opsiynau, ystyrir dulliau gwahanol o ddatrys y mater hwnnw neu o gyflawni'r manteision hynny, ac asesir eu heffeithiolrwydd, effeithlonrwydd a fforddiadwyedd cymharol;*

c. *Pan fydd deddfwriaeth yn dod i'r amlwg fel yr opsiwn a ffefrir (drwy fod yn effeithiol, angenrheidiol, ac yn gyfraniad allweddol at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru) ystyrir y canlyniadau posibl y bwriedir i ddeddfwriaeth eu cael ac na fwriedir i ddeddfwriaeth eu cael; bydd y cynigion yn cael eu dadansoddi gyda'r nod o gael cyfraith sy'n glir, effeithiol a hygyrch; a phrofir hefyd pa mor gyson ydyw â'r corff presennol o gyfraith, Biliau sydd ar fin ymddangos a gorchmynion polisi allweddol;*

d. *Yn sgil bod yn rhan o'r broses brofi hon, mae'n debygol y bydd cynigion yn cael eu mireinio a'u datblygu fel rhan annatod o'r broses o wneud deddfwriaeth, er mwyn cyflawni cynnyrch o'r ansawdd gorau;*

e. *Er mwyn ymgymryd â'r broses brofi hon yn effeithiol, bydd rhaid ymgysylltu ag arbenigwyr ar ddechrau'r broses – ym meysydd polisi, cyfraith a drafftio deddfwriaethol;*

f. *Er mwyn cefnogi'r Gweinidogion i ddatblygu a chyflawni'r cynnyrch deddfwriaethol o'r ansawdd gorau posibl, bydd swyddogion yn parhau i brofi mewn modd cadarn unrhyw gynigion ar gyfer deunydd pwnc i'w gynnwys yn y Bil (er enghraifft yn y camau diwygio);*

g. *Bydd ymgysylltu priodol wedi bod â'r partïon perthnasol er mwyn sicrhau bod y cynigion effaith wedi cael eu profi.*

4.10 *Bydd yr holl gyngor gan swyddogion yn glir, cywir, cadarn a chryno. Bydd y cyngor yn ystyried yr hyn y mae modd ei gyflawni o fewn yr amserlenni a bennir ar gyfer Biliau'r Cynulliad. Nodir yn eglur unrhyw feysydd o risg neu ansicrwydd a, lle bo hynny'n bosibl, bydd y cyngor yn gwahaniaethu rhwng manteision ac anfanteision penderfyniadau posibl.*

4.11 *Bydd yr holl gyngor yn destun prosesau sicrwydd ansawdd cadarn ac yn cynrychioli cyngor gofalus tîm y Bil yn ehangach sy'n rhan o'r broses brofi hon a byddant yn cael eu hawdurdodi gan y Prif Berchennog Cyfrifol. Gofynnir i bob rhan o dîm ehangach y Bil ymgysylltu o ddechrau'r broses. Bydd pob cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog wedi iddo gael ei drafod a'i awdurdodi'n fewnol fel sy'n briodol. Pan fo'r Prif Berchennog Cyfrifol yn argymell camau gweithredu ac nid yw cyfreithwyr neu dimau arbenigol eraill yn cytuno â'r argymhelliad, bydd y cyngor yn egluro'r rhesymeg am wahanol safbwyntiau'r timau hynny yn ogystal â rhesymeg y Prif Swyddog Cyfrifol.*

4.12 *Bydd yr holl gyngor a'r gefnogaeth i'r Gweinidog yn cael eu rhoi yn amserol. Ymdrechir bob amser i reoli'r ffordd y cyflwynir y cyngor yn unol ag argaeledd y Gweinidog, a rhoddir ystyriaeth flaenllaw i sicrhau eglurder a hygyrchedd yr holl gyngor i'r Gweinidog wrth ei ddrafftio.*

4.13 *Bydd pob Bil y Cynulliad a gynigir gan y llywodraeth yn rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol. O bryd i'w gilydd, bydd penderfyniadau strategol ynghylch y rhaglen ddeddfwriaethol yn effeithio ar sicrhau bod cynigion deddfwriaethol a pholisïau mewn portffolio Gweinidog yn cael eu cyflawni. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd swyddogion yn ceisio sicrhau bod Gweinidogion yn cael gwybod am oblygiadau'r penderfyniadau hyn.*

*Egwyddorion arweiniol ar gyfer cydweithio ar ddeddfwriaeth y llywodraeth*

4.14 *Wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, dylai pob swyddog wasanaethu Gweinidogion fel un tîm. O'r herwydd, dylai pob swyddog ddilyn yr egwyddorion arweiniol hyn ar gyfer cydweithio ar ddeddfwriaeth yn unol â'r gwerthoedd o uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil.*

4.15 *Bydd pob swyddog yn parhau i ymgymryd â'i ddyletswyddau unigol gan gadw mewn cysylltiad hefyd â chydweithwyr, a'u cefnogi, i gyflawni eu dyletswyddau hwythau. Wrth wneud hynny dylent ddefnyddio eu hystod sgiliau a gallu gyfan i ymgymryd â'r amrywiol dasgau i gynhyrchu polisi a deddfwriaeth effeithiol. I wneud hynny mae'n ofynnol cael:*

a) *Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau unigolion a chydweithwyr ar y cyd gan gynnwys beth i'w ddisgwyl gan weithwyr proffesiynol ac arbenigwyr penodol;*

b) *Parch rhwng unigolion â'i gilydd;*

c) *Cydbwysedd rhwng cyfathrebu'n amserol ac yn drylwyr;*

d) *Cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau a phwysau unigolion a chydweithwyr ar y cyd;*

e) *Dealltwriaeth o'r darlun cyflawn a sut y mae cyfraniad pob unigolyn yn cyfrannu at hyn. Mae'r darlun cyflawn yn cynnwys y cyd-destun gwleidyddol a chyfansoddiadol; cysondeb â rhannau eraill o'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac arfaethedig; a dulliau o weithredu deddfwriaeth.*

4.16 *Bydd pob swyddog yn ceisio meithrin perthynas yn seiliedig ar ymddiriedaeth, gyda'i gilydd a gyda Gweinidogion. Bydd swyddogion, yn benodol, yn sicrhau bod eu cyfathrebu â Gweinidogion, a gyda'i gilydd, yn amserol, clir, effeithiol a gonest, yn enwedig mewn perthynas â'r materion a ganlyn:*

a. *Y posibilrwydd y gallai amserlen Bil lithro – sylweddoli pa effaith allai hyn ei chael ar eraill sy'n rhan o gynhyrchu'r Bil, yr effeithiau yn deillio o oedi wrth gyflawni'r polisi, ac unrhyw effaith bosibl ar y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach;*

b. *Delio â risgiau, materion cymhleth a sensitif, a phroblemau – mae hyn yn galw am hyder a gwyleidd-dra wrth drafod;*

c. *Datrys anghydfodau – mae hyn yn galw am barodrwydd i fod yn bragmataidd, yn feddwl agored ac i fyfyrio ar sylwadau cydweithwyr.*

4.17 *Dylai swyddogion gydweithio hefyd â chynghorwyr arbennig fel rhan o'u dull o ddatblygu polisi a symud deddfwriaeth yn ei blaen. Mae cynghorwyr arbennig yn chwarae rôl allweddol i gefnogi cyfathrebu effeithiol rhwng swyddogion a Gweinidogion i weithio gyda gwleidyddion a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod cynigion deddfwriaethol yn cael eu cyflawni.*

4.18 *Bydd yr holl swyddogion yn cefnogi diwylliant o ddysgu. Mae hyn yn cynnwys:*

a) *Cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain – nodi eu hanghenion dysgu a mynd ar drywydd cyfleoedd i fodloni'r anghenion hynny;*

b) *Cefnogi datblygiad pobl eraill a'r sefydliad, gan gynnwys drwy rannu o'u gwirfodd eu profiadau eu hunain yn ogystal â'r hyn y maent wedi'i ddysgu.*

4.19 Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn disgwyl i bob tîm Bil fod â threfniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer sicrhau bod y Bil yn cael ei gyflawni. Cydnabyddir y gallai fod angen i drefniadau llywodraethu o'r fath amrywio i gyd-fynd ag union natur Biliau unigol, ac mai diben llywodraethu da yw sicrhau bod Bil yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

### Egwyddorion llywodraethu

4.20 Dylai pob tîm Bil gymryd yr egwyddorion llywodraethu Bil canlynol i ystyriaeth –

a. dylai fod yna Brif Berchennog Cyfrifol;

b. dylai fod strwythur llywodraethu ar waith sy'n hwyluso darpariaeth weithredol (rheoli prosiect a gwneud penderfyniadau) yn ogystal â dylanwad ehangach a rheolaeth rhanddeiliaid;

c. dylai fod dogfennau prosiect priodol ar waith, sydd wedi eu cytuno a'u cymeradwyo gan y corff a gyfansoddir o dan y strwythur llywodraethu (bwrdd prosiect fel arfer, gweler isod).

4.21 Gallai rhai prosiectau Bil fod yn rhan o raglen gyflawni ehangach, ond mae egwyddorion llywodraethu yn berthnasol i bob prosiect Bil.

### Bwrdd prosiect

4.22 O dan y strwythur llywodraethu ar gyfer prosiect Bil, dylai fod yna fforwm gwneud penderfyniadau sy'n gyfrifol am benderfyniadau allweddol ynghylch sicrhau bod y Bil yn cael ei gyflawni a chadw'r prosiect ar y trywydd cywir i'w gyflawni. Bwrdd prosiect yw hwn fel arfer.

4.23 Dylai bwrdd prosiect pob Bil fod yn rhan o drefniadau llywodraethu Grŵp ar gyfer prosiectau a darparu.

4.24 Mae byrddau prosiect yn cael eu cadeirio gan y Prif Berchennog Cyfrifol fel arfer, ac maent yn gyfrifol (yn unol â'u cylch gorchwyl y cytunwyd arnynt) am –

a. sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen;
b. mynd i'r afael ag oedi neu broblemau gydag ansawdd y gwaith;
c. helpu i sicrhau bod swyddi'n cael eu llenwi a bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau;
d. cytuno ar amserlenni, risgiau, problemau a dulliau ymdrin;
e. rheoli a monitro risgiau, cynnydd yn erbyn cynlluniau ac amserlenni prosiect, ac ymdrin â phroblemau;
f. sicrhau bod adnoddau digonol (ariannol a phobl) yn cael eu nodi, gan ystyried risgiau cysylltiedig a gwneud penderfyniadau i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys uwchgyfeirio yn ôl yr angen;
g. cytuno ar swyddogaethau, hyfforddiant, cydweithrediad ac unrhyw is-grwpiau neu ffrydiau gwaith y gallai fod eu hangen.

4.25 Bydd y materion y bydd y bwrdd prosiect yn eu hystyried yn newid yn ystod oes y prosiect. Er enghraifft efallai y bydd y pwyslais ar agweddau polisi yn y cyfnodau cynnar, ond mae'n debygol y bydd y pwyslais wedi symud ymlaen i faterion gweithredu tuag at ddiwedd y prosiect.

4.26 Bydd aelodaeth byrddau prosiect yn amrywio gan ddibynnu ar ofynion y Bil unigol a'r cyfnod gwaith y mae'r prosiect Bil ynddo. Fodd bynnag, fel arfer, dylai gynnwys y Prif Berchennog Cyfrifol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, y Gwasanaeth Cyfieithu, Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, Cyllidebu Strategol a swyddogion allweddol (weithiau o Grwpiau Llywodraeth Cymru y tu allan i'r Grŵp polisi arweiniol) sy'n gyfrifol am gyflawni'r Bil. Mae rhai byrddau prosiect hefyd yn cynnwys y cynghorydd arbennig. Mewn rhai byrddau prosiect, mae tîm y Bil yn rhan o'r bwrdd prosiect, mewn achosion eraill mae'n atebol i'r bwrdd prosiect.

4.27 Gallai fod o gymorth i'r cynrychiolydd cyfathrebu perthnasol fod yn bresennol ym mwrdd y prosiect gan fod angen ystyried y strategaeth gyfathrebu trwy gydol y broses ddeddfwriaethol.

4.28 Mae'n bwysig bod y bobl iawn yn rhan o fwrdd y prosiect, ond nad oes unrhyw gyfaddawdu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ac ystwythder. Am y rheswm hwn, efallai y bydd angen gwahanu aelodau, mynychwyr rheolaidd a gwesteion a wahoddir. Efallai y bydd angen adolygu aelodaeth y bwrdd prosiect wrth i'r prosiect symud rhwng cyfnodau gwaith allweddol, i sicrhau bod yr aelodaeth yn parhau i fod yn briodol i'r prosiect a'r gwaith sy'n cael ei ddarparu ar yr adeg honno. Mae aelodaeth o fwrdd prosiect Bil yn gofyn am ymrwymiad amser gan bob aelod o'r bwrdd, yn ogystal ag ymrwymiad hefyd i'r prosiect sy'n cael ei ddarparu, a diddordeb ynddo.

### Materion trawsbynciol a thraws-Grŵp

4.29 Mae'n rhaid i dîm y Bil a'r bwrdd prosiect roi sylw i'r posibilrwydd y gallai materion trawsbynciol godi o'r broses o ddatblygu'r Bil. Gallai'r rhain fod o fewn Grŵp neu effeithio ar Grwpiau a/neu Filiau eraill. Bydd eu nodi ar ddechrau'r broses o gymorth i'w datrys, a bydd gwneud hynny'n sicrhau dull cyflawni (trawslywodraethol) effeithiol. Fodd bynnag, mae hon yn broses barhaus a bydd angen i dimau Biliau fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai materion trawsbynciol newydd godi.

4.30 Bydd angen i dimau Biliau fuddsoddi amser ac ymdrech i weithio ar draws Grwpiau i sicrhau bod materion trawsbynciol yn cael eu hystyried yn llawn gan bob person sydd â buddiant ym mhob Grŵp a, lle y bo angen, fod penderfyniadau yn cael eu rhoi gerbron yr holl Weinidogion perthnasol.

4.31 Dylai Rheolwr y Bil, yn y lle cyntaf, dynnu sylw Arweinydd Deddfwriaethol y Grŵp at faterion o'r fath. Gallai trafodaethau gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, ymhlith eraill, fod o fudd hefyd. Gallai Bwrdd y Rhaglen

Ddeddfwriaethol a’i weithgorau cysylltiedig fod yn fforymau priodol ar gyfer ymchwilio i’r materion hyn a’u datrys.

## Amserlen a cherrig milltir allweddol Bil

4.32 “Amserlen Bil” yw’r term a roddir i gyfanswm yr amser sydd ar gael, gan gynnwys terfynau amser, ar gyfer cwblhau’r cyfnodau allweddol o waith sy’n gysylltiedig â pharatoi Bil a’i ystyriaeth gan y Cynulliad.

4.33 Cydnabyddir mai dim ond un elfen o’r rhaglen gyffredinol yw gwaith Bil, ac, felly, mae’n rhan o’r amserlen ar gyfer y rhaglen honno. Yr amserlen yw’r cyfnod o amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu’r prosiect yn ei gyfanrwydd (o’r syniad gwreiddiol i ddatblygu’r polisi hyd at ei weithredu a’i adolygu).

### Pennu amserlen y Bil

4.34 Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant sy’n gyfrifol am bennu amserlen y Bil ar gyfer paratoi’r Bil, ac am reoli’r amserlen ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol gyffredinol. Rheolwr y Bil sy’n gyfrifol am bennu’r amserlenni prosiect manwl, yn unol ag amserlen y Bil a bennwyd gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, sy’n ofynnol i ddarparu’r gwahanol agweddau ar brosiect y Bil (er enghraifft, bydd Rheolwr y Bil yn paratoi amserlen fanwl ar gyfer datblygu a llunio’r Memorandwm Esboniadol).

4.35 Er mwyn datblygu amserlen briodol ar gyfer y Bil, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan swyddogion wrth baratoi ar gyfer, neu ar adeg, cynnwys y Bil yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Byddant hefyd yn ystyried: unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ac o ran polisi; i ba raddau y datblygwyd y polisi; y ffenestri cyfyngedig ar gyfer drafftio a chyfieithu Biliau; gofynion Rheolau Sefydlog a disgwyliadau’r Cynulliad; ynghyd â’r angen i fwrw ymlaen â disgwyliadau Gweinidogion a sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei chyflawni yn unol â’r rhaglen lywodraethu ac ymrwymiadau eraill.

4.36 Mae’r broses o baratoi amserlen Bil yn broses gydweithredol felly, ond yn un y mae’n rhaid ei rhoi yng nghyd-destun Biliau eraill, y rhaglen gyffredinol a disgwyliadau’r Prif Weinidog yn y pen draw.

4.37 Ar ôl penderfynu’n derfynol ar amserlen Bil, bydd yn cael ei chytuno gyda’r Prif Weinidog, ac yna’n cael ei monitro yn erbyn y cyflawni. Disgwylir i dimau Biliau gyflawni yn erbyn y cerrig milltir allweddol, a gallai methiant i fodloni carreg filltir allweddol olygu na fydd adnoddau hanfodol (fel Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol neu’r Gwasanaeth Cyfieithu) ar gael ar gyfer y Bil (neu Filiau eraill) ac na fydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn y pen draw (a allai gynnwys colli’r Bil o’r rhaglen yn gyfan gwbl).

### Newidiadau i amserlen y Bil

4.38 Cydnabyddir efallai y bydd angen newid amserlen Bil a bennwyd ar ddechrau’r broses os bydd amgylchiadau newydd (er enghraifft, cyfeiriad polisi newydd) yn

codi. Pan fydd tîm Bil o'r farn efallai fod angen newid y cerrig milltir allweddol, neu ddiwygio dyddiadau cyflwyno dangosol, dylid cysylltu ar unwaith â'r cyswllt perthnasol yn Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Ni chaniateir i dimau Biliau newid amserlen y Bil heb gytundeb Pennaeth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, a fydd yn rhoi cyngor i'r Prif Weinidog. Fel y cyfryw, ni all timau Biliau wneud ymrwymiadau i Weinidogion ynghylch newidiadau heb drafod y rhain gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn gyntaf. Mae cyfyngiadau o'r fath yn bodoli oherwydd yr effaith bosibl y gallai newid i un Bil ei chael ar Filiau eraill neu'r rhaglen ddeddfwriaethol yn ei chyfanrwydd. Dylid nodi hefyd mai mater i'r Prif Weinidog yw'r penderfyniad terfynol ar amserlenni Biliau, yn hytrach na Gweinidogion unigol.

### Amserlen ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad

4.39 Bydd yr amserlen ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad yn cael ei chynnwys yn amserlen gyffredinol y Bil. Mae canllawiau ar y broses o bennu a chytuno ar hyn wedi eu cynnwys ym Mhennod 15. Pan fydd Bil wedi cael ei gyflwyno i'r Cynulliad, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn gweithio gyda thîm y Bil i ddatblygu amserlen ar gyfer paratoi gwelliannau i'r Bil – gweler hefyd Bennod 15.

## Dogfennau

### Dogfennau prosiect Bil

4.40 Fel y nodwyd uchod, dylai'r gwaith o reoli'r Bil fod yn gymesur. Mae rhan o'r cymesuredd hwn yn ymwneud â'r dogfennau prosiect a fydd yn cyd-fynd a gwaith y Bil. Nid oes unrhyw ofynion a bennwyd yn ganolog ar gyfer fformat dogfennau prosiect Bil (ceir gofynion penodol ar gyfer dogfennau Bil eraill, fel Memoranda Esboniadol er enghraifft).

4.41 Er bod timau Biliau yn cael eu rhedeg yn wahanol, yn unol â gofynion unigol, mae'n bwysig iawn bod eglurder ynghylch pa ddogfennau prosiect Bil sy'n bodoli a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud a bod termau cyffredin yn cael eu defnyddio ar gyfer dogfennau er mwyn osgoi dryswch.

4.42 Bydd angen i fyrddau prosiect gytuno ar y dogfennau a fydd yn cael eu cadw ar gyfer y prosiect Bil. Rheolwyr Biliau sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd dogfennau'r Bil, a'u bod yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol yn ôl trefniadau llywodraethu'r Grŵp ei hun. Mae Rheolwyr Biliau hefyd yn gyfrifol am gadw'r wybodaeth yn gyfredol, am fonitro ac adrodd yn erbyn y dogfennau, ac am gynnal system rheoli fersiynau effeithiol. Mae'n arferol i Reolwyr Biliau baratoi adroddiadau ar y prif bwyntiau yn rheolaidd i'r bwrdd prosiect. Dylai canllawiau rheoli prosiect y Llywodraeth fod o gymorth i Reolwyr Biliau wrth ddatblygu'r dogfennau prosiect ar gyfer y Bil.

4.43 Disgwylir y bydd gan bob prosiect Bil y dogfennau canlynol o leiaf –

a. Cynllun prosiect – cynllun cyffredinol ar gyfer cyflawni prosiect y Bil. Dylai nodi cwmpas y prosiect a'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i ddarparu'r prosiect; tybiaethau; dibyniaethau; cerrig milltir allweddol; adnoddau; adrodd a llywodraethu; goddefiadau; a llwybr critigol.

b. Cynlluniau ffrwd gwaith – gellir rhannu prosiectau mawr, a phrosiectau Bil yn arbennig, yn ffrydiau gwaith (h.y. prosiect llai sy'n rhan hanfodol o gyflawni'r prif brosiect – er enghraifft ffrwd waith ar sicrhau cydsyniad Gweinidog y Goron, pan fo hynny'n ofynnol, er enghraifft er mwyn rhoi neu addasu swyddogaethau i, neu mewn perthynas ag, awdurdod a gadwyd yn ôl; neu ffrwd waith ar baratoi'r Memorandwm Esboniadol). Dylai fod cynllun ar gyfer pob ffrwd waith sy'n nodi sut y bydd y ffrwd waith yn cael ei chyflawni. Dylai cynlluniau ffrydiau gwaith gyfrannu at y prif gynllun prosiect a chyd-fynd ag ef, a gall gynnwys dibyniaethau â rhaglenni ehangach, neu flaenoriaethau neu anghenion eraill y Grŵp.

c. Amserlen prosiect fanwl – fel a nodwyd uchod, caiff amserlen gyffredinol y Bil ei phennu gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, ond bydd angen yr amserlenni manwl isod ar dimau Biliau i fodloni'r agweddau unigol ar bob cyfnod gwaith. Er enghraifft, bydd angen rhannu cyfnod o 12 wythnos ar gyfer cyfarwyddiadau yn amserlen y Bil rhwng gweithgareddau sy'n angenrheidiol i ddatblygu, paratoi, mireinio ac awdurdodi'r cyfarwyddiadau, ynghyd â manylion pwy sy'n gyfrifol am gwblhau'r tasgau ac unrhyw ryng-ddibyniaethau (e.e. ymgysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol, gwirio yn erbyn y sail dystiolaeth, ac yn y blaen).

d. Cofrestr risg – mae'r ddogfen hon yn nodi pa risgiau a allai roi'r gwaith o gyflawni'r Bil yn llwyddiannus yn y fantol. Mae'n rhoi manylion tebygolrwydd ac effaith pob risg, pa bryd y mae'n debygol o godi ac, yn hanfodol, mae'n nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru'r risg, yn ogystal ag unrhyw gamau eraill fydd eu hangen yn y dyfodol i leihau'r risg.

e. Log problemau / Cofrestr problemau – i rai timau Biliau, mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel cronfa o'r holl faterion sydd heb eu datrys (sy'n hysbys) y mae angen ymdrin â nhw, gan gynnwys penderfyniadau y mae angen eu gwneud. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r problemau yn cael eu colli pan fo gwaith yn cael ei wneud yn gyflym, fel sy'n gallu digwydd o bryd i'w gilydd. I dimau Biliau eraill, mae'r term yn cyfeirio at y ddogfen sy'n crynhoi'r materion hynny sy'n cael effaith andwyol ar gyflawni ar y pryd – h.y. risg sydd wedi codi.

4.44 Yn ogystal â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, mae'n rhaid i bob prosiect hefyd lunio –

a. strategaeth gyfathrebu;
b. cofnod o wersi a ddysgwyd.

Rhoddir canllawiau llawnach ar bob un isod.

## Strategaeth gyfathrebu

4.45 Bydd rhaglen gyfathrebu effeithiol a threfnus yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect y Bil, ac yn gweithio tuag at roi'r polisi ar waith ar gyfer y tymor hwy. Fel y cyfryw, mae'n hanfodol bod rhaglen o'r fath, sy'n cyflawni ar ran rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yn rhan annatod o brosiect y Bil a bydd strategaeth gyfathrebu yn helpu i gyflawni hyn.

4.46 Mae strategaeth gyfathrebu yn nodi sut y bydd tîm y Bil a'r Gweinidog (a rhannau eraill o Lywodraeth Cymru mewn rhai achosion) yn cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol yn bennaf (gan gynnwys Llywodraeth y DU). Gall y strategaeth gyfathrebu hefyd gynnwys gwybodaeth am weithio a chyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol. Mae'n rhaid ystyried sut i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r cychwyn. Fel gydag unrhyw gynllun neu strategaeth, mae'n bwysig ei bod yn cael ei chadw'n gyfredol, ac yn gywir a'i bod yn cael ei dilyn. Bydd angen i'r Gweinidog gadw golwg ar y strategaeth gyfathrebu a chael gwybodaeth amdani.

4.47 Mae'r strategaeth yn debygol o nodi –

a. beth yw'r negeseuon allweddol i'r gynulleidfa darged, pryd y byddant yn cael eu rhoi, sut a chan bwy;

b. pa gyfathrebu arall y mae angen ei wneud ochr yn ochr â'r gwaith ar y negeseuon allweddol, ac yn ychwanegol at y gwaith hwnnw;

c. dyddiadau allweddol a gweithgarwch cyfathrebu a gynigir ar sail y rheini;

d. yr adnoddau ar gyfer darparu gweithgareddau cyfathrebu;

e. cyfleoedd yn y cyfryngau (gan gynnwys y wasg a'r cyfryngau Cymraeg);

f. sut y gallai risgiau i gyfathrebu effeithiol a llwyddiannus godi a sut y gellir lliniaru'r rhain (sylwer, efallai y bydd angen ychwanegu'r risgiau hyn at gofrestr risg prosiect y Bil);

g. cysylltiadau â strategaethau cyfathrebu eraill (pa un a ydynt yn Filiau eraill, yn brosiectau Llywodraeth Cymru eraill, gwaith polisi arall, etc).

4.48 Dylid cynnwys y Tîm Cyfathrebu, gan gynnwys timau'r wasg, yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth gyfathrebu, a dylai'r cynlluniau fanteisio ar unrhyw waith dadansoddi gan randdeiliaid. Dylid rhoi cymorth cyfathrebu cryf trwy gydol y broses, pan fo hynny'n bosibl.

## Gwersi a ddysgwyd

4.49 Bydd llwyddiannau a heriau gwaith Bil ar hyd y daith yn dylanwadu ar sut y mae pob tîm Bil yn datblygu ac yn cynnig cyfle i'r tîm wneud rhywbeth yn well yn ystod y cyfnod nesaf. Mae'n bwysig y gall timau Biliau eraill elwa o wersi a ddysgwyd, er mwyn gwella eu prosesau.

4.50 Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol wedi cytuno ar system gwersi a ddysgwyd gorfforaethol i rannu profiadau a gwybodaeth i hysbysu, gwella a chynnal perfformiad. Bydd timau Biliau yn dymuno adolygu’r gwersi a ddysgwyd gan dimau Biliau blaenorol wrth gynllunio ymatebion risg ar gyfer prosiectau newydd ar ffurf cofrestr risg.

## Hyfforddiant ar waith Bil

4.51 Cydnabyddir y bydd gwaith Bil yn rhan newydd o swyddogaeth llawer o unigolion, ac mae amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ac addysg ffurfiol ac anffurfiol yn bodoli i ddarparu cymorth a gwella gallu.

4.52 Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Bennaeth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ac Arweinwyr Deddfwriaethol Grŵp hefyd.

# Pennod 5 – Asesiad Effaith Integredig

**Mae asesiadau effaith yn ffordd o ddyfarnu effaith polisi ar bobl, diwylliant, yr amgylchedd a'r economi. Dylid cynnal asesiad effaith wrth ddatblygu polisi. Am y rheswm hwn, mae asesiad effaith yn rhan o'r broses o baratoi Biliau'r Cynulliad.**

**Diben y Bennod hon yw cyfeirio defnyddwyr at ganllawiau ar yr offeryn Asesiad Effaith Integredig newydd y mae angen i swyddogion ei ddefnyddio wrth baratoi Biliau'r Cynulliad. Bydd canfyddiadau o ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn bwydo i mewn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Biliau'r Cynulliad. Rhoddir canllawiau cynhwysfawr ar Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 6 y Llawlyfr hwn.**

## Dull o gynnal asesiad effaith

5.1 Datblygwyd asesiadau effaith i fodloni gofynion Gweinidogion a gofynion a nodir mewn statud a basiwyd gan y Cynulliad a Senedd y DU. Mae'n ofynnol i lunwyr polisi ystyried yr holl faterion perthnasol cyn dod i benderfyniad a'i wneud; mae asesiadau effaith yn cymell ac yn arwain llunwyr polisi i gasglu tystiolaeth ac, os oes angen, i chwilio am dystiolaeth er mwyn gwella datblygiad polisi neu i gynghori y dylid newid cyfeiriad polisi.

5.2 Mae asesiad effaith yn fwy effeithiol pan fydd yn cael ei gynnal mewn ffordd integredig. Lluniwyd yr offeryn Asesiad Effaith Integredig i helpu i sicrhau ffordd o weithio ar asesiadau effaith yn Llywodraeth Cymru sy'n osgoi gweithdrefnau gormodol a dyblygu gwaith, ac sy'n arwain at werthusiad integredig, hygyrch o ganlyniadau disgwyliedig penderfyniad polisi, deddfwriaeth neu weithgaredd arall. Dylai'r Asesiad Effaith Integredig hefyd egluro hanes datblygu cynnig a'r ffordd y cafodd yr effeithiau eu hystyried. Gellir gweld y canllawiau yn llawn yn adran polisi a chyflawni y fewnrwyd.

## Rhyddhau'r canfyddiadau

5.3 Mae Pennod 6 y Llawlyfr hwn yn cynnig gwybodaeth am gynnal a pharatoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil wrth ei gyflwyno i'r Cynulliad. Mae'n esbonio y dylid darparu crynodeb o'r asesiadau effaith a gyflawnwyd, a hynny ym Mhennod 8 y Memorandwm Esboniadol. Gall hyn ddefnyddio'r crynodeb a fydd yn cael ei gynhyrchu wrth gynnal yr Asesiad Effaith Integredig.

5.4 Ar ben hynny, weithiau gall fod yn briodol i'r Llywodraeth ryddhau rhagor o fanylion ynghylch canfyddiadau rhai asesiadau effaith penodol o fewn yr Asesiad Effaith Integredig ar wahân i'r wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil. Mae'r canllawiau ar Asesiadau Effaith Integredig, sydd yn adran polisi a chyflawni'r fewnrwyd, yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch rhyddhau canfyddiadau'r asesiad.

5.5 Wrth ymgynghori ar gynnig i ddeddfu, mae’n ymarfer da i geisio sylwadau ar Asesiadau Effaith Rheoleiddiol drafft hefyd.  Mae hefyd yn ymarfer da ymgynghori ar fersiwn gynnar o'r canfyddiadau o'r Asesiad Effaith Integredig wrth ymgynghori ar gynnig i ddeddfu.

# Pennod 6 – Asesiadau Effaith Rheoleiddiol (RIA)

**Diben Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yw darparu'r amcangyfrifon gorau i Weinidogion Cymru, y Swyddog Cyfrifyddu a Chynulliad Cenedlaethol Cymru o effaith debygol Bil Cynulliad. Mae'n ofynnol bodloni Rheol Sefydlog 26.6(iii), 26.6(viii), 26.6(ix), ac weithiau 26.6(xi) hefyd, a bydd yn rhan yn y pen draw o'r Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg gyda'r Bil wrth ei gyflwyno i'r Cynulliad.**

**Mae'r Bennod hon yn cynnig canllawiau ar sut i baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae cyngor ar gael hefyd gan economegwyr Llywodraeth Cymru. Mae Pennod 5 yn cynnig canllawiau cryno ar asesiadau effaith yn fwy cyffredinol, ac mae Pennod 8 yn cynnig canllawiau manwl ar baratoi'r Memorandwm Esboniadol.**

**Mae'r canllawiau ar fformat y Memorandwm Esboniadol ym Mhennod 8 (gweler paragraffau 8.45 i 8.56) hefyd yn berthnasol i fformat yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

## Gofynion Rheolau Sefydlog

6.1 Dyma agweddau perthnasol Rheol Sefydlog 26.6 mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

*"[Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol]:*

*… (viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;*

*(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;*

*(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;*

*(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac*

*(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;*

*(ix) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol*

*…(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.*

*(xii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.* "

6.2 I egluro Rheol Sefydlog 26.6(ix), dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynnwys manteision ac anfanteision economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol a fesurwyd ac na fesurwyd.

6.3 Sylwer bod gofynion eraill Rheol Sefydlog 26.6 yn cael eu bodloni drwy'r Memorandwm Esboniadol a Nodiadau Esboniadol – gweler Penodau 8 a 9 y Llawlyfr hwn.

## Yr angen am Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.4 Mae'n rhaid paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig a allai effeithio ar y sectorau cyhoeddus neu breifat (gyda phwyslais penodol ar yr effeithiau ar fusnesau bach), elusennau a'r sector gwirfoddol.

6.5 Mae angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol pryd bynnag y bydd newidiadau i'r gyfraith yn cael eu hystyried a phan allai costau neu fuddion gronni. Mae hyn yn cynnwys newidiadau a wneir gan ddefnyddio Biliau ac is-ddeddfwriaeth. Pan fydd Bil yn cael ei ddilyn gan is-ddeddfwriaeth, mae angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y Bil a phob darn dilynol o is-ddeddfwriaeth (er nad yw'n wir fel arfer bod angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Gorchymyn Cychwyn).

6.6 Hyd yn oed mewn achosion lle nad oes newid net cyffredinol ond mae rhyw fath o ailddosbarthu (fel mewn achosion lle ceir cyfnewid neu 'drosglwyddo' o gostau a manteision), dylid asesu'r effeithiau trwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.7 Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel arfer ar gyfer Bil nad yw'n gorfodi unrhyw gostau nac arbedion, manteision nac anfanteision, neu sydd ond yn gorfodi ychydig iawn ohonynt, ar y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol ac elusennau, neu ar gymdeithas yn gyffredinol. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid bodloni gweddill gofynion Rheol Sefydlog 26.6 o hyd a'u crynhoi yn y Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, mae angen dangos y sail dros benderfynu nad yw'r ddeddfwriaeth yn gorfodi unrhyw gostau, arbedion, manteision neu anfanteision, neu mai ychydig iawn ohonynt a orfodir, yn eglur a bydd angen i'r Swyddfa Gyflwyno (sy'n asesu cydymffurfiad y Memorandwm Esboniadol â'r Rheolau Sefydlog cyn cyflwyno'r Bil) fod yn fodlon bod gofynion Rheol Sefydlog 26.6(viii) wedi eu bodloni.

6.8 Fel y nodir ym Mhennod 15 isod, wrth gyflwyno Bil, bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yn y Cynulliad) yn diweddaru gwefan y Cynulliad gyda gwybodaeth a'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r Bil. Bydd hyn yn cynnwys y Memorandwm Esboniadol, a fydd yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'n debygol iawn y bydd rhanddeiliaid yn cynnig sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r costau yn rhan o'u tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifol yn ystod ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil.

## Datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.9 Mae'r templed safonol ar gyfer y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y templed safonol ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil (mae'r templed ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant). Rhan 2 templed y Memorandwm Esboniadol yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae wedi ei rannu rhwng y Penodau a ganlyn –

a. Pennod 7 – Opsiynau: yn rhoi manylion yr opsiynau a ystyriwyd i fodloni'r amcanion polisi, bydd hyn yn cynnwys yr opsiwn 'Parhau fel Arfer' a datblygu'r Bil. Bydd lefel y manylion sydd ei hangen ar opsiynau eraill yn dibynnu ar ba un a yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei baratoi ar gyfer ymgynghori ar Fil neu ei gyflwyno (gweler Rheol Sefydlog 26.6(iii) a pharagraffau 6.19 – 6.27).

b. Pennod 8 – Costau a manteision: yn nodi costau a manteision yr opsiynau a ystyriwyd gan gynnig manylion penodol costau a manteision yr opsiwn a ddewiswyd (h.y. y Bil). Dylid ystyried gofynion Rheol Sefydlog 26.6(viii) yma.

c. Pennod 9 – Asesu cystadleuaeth: manylion canfyddiadau ymarfer hidlo'r gystadleuaeth, a chanfyddiadau asesu'r gystadleuaeth os cawsant eu defnyddio.

d. Pennod 10 – Adolygiad ar ôl gweithredu: crynodeb o'r dull a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cynnal adolygiad o'r gweithredu, gan gynnwys unrhyw fwriad i adrodd ar hyn i'r Cynulliad.

Ystyrir pob un o'r elfennau hyn yn fwy manwl isod.

6.10 Er mwyn sicrhau bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn fwy hygyrch ar gyfer y Pumed Cynulliad, datblygwyd Tabl Crynodeb dwy dudalen syml yn y templed i gynnig crynodeb byr o'r asesiad. Dyluniwyd y Tabl Crynodeb i gyflwyno, ar lefel uchel, yr wybodaeth sy'n ofynnol mewn Rheolau Sefydlog ac i fod yn gyson ar draws Biliau. Mae canllawiau ar lenwi'r Tabl Crynodeb ar gael gan economegwyr Llywodraeth Cymru.

6.11 Y ffordd orau o ystyried yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw fel y cofnod ffurfiol o'r dystiolaeth sydd ei hangen i sicrhau bod deddfwriaeth wedi cael ei chynllunio i fod yn addas at y diben. Dylai datblygiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod yn rhan barhaus o'r broses o lunio polisi a dylid dechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl. Mae crynodeb isod o esblygiad Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a'r prif gyfnodau pan ddylid gweithio ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

a) **Datblygu** – Mae cam cyntaf y broses yn canolbwyntio ar ddiffinio'r broblem polisi, penderfynu ar y sail resymegol sy'n sylfaen ar gyfer ymyrraeth y Llywodraeth, nodi opsiynau eraill i fynd i'r afael â'r broblem polisi a datblygu'r sail dystiolaeth. Dylid gwneud ymdrech gychwynnol hefyd i gynnal dadansoddiad cost a budd gan gynnwys nodi'r prif bartïon sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion ac amcangyfrif cychwynnol o'r costau a'r manteision tebygol.

b) **Ymgynghori/Bil Drafft** – Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft fel rhan o unrhyw ymarfer ymgynghori ar ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Dylid cynnal arfarniad opsiynau cychwynnol sy'n fwy cadarn yn ystod y cam hwn i gynnig asesiad mwy manwl, meintiol o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn. Dylid cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn wedyn yn rhan o unrhyw ymarfer ymgynghori i gynnig cyfle i randdeiliaid adolygu'r dadansoddiad a darparu data a thystiolaeth ychwanegol/eraill. Mae'r cyfnod hwn a rhoi ystyriaeth dryloyw i opsiynau polisi eraill yn bwysig o safbwynt sicrhau Gwerth am Arian.

c) **Cyflwyno** – Yn ystod y cam hwn, dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ganolbwyntio ar yr opsiwn a ffefrir (sef cyflwyno deddfwriaeth yn achos Bil). Dylid diweddaru'r dadansoddiad cost a budd i adlewyrchu manylion polisi terfynol ac unrhyw dystiolaeth/adborth a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd ddarparu manylion yr adolygiad ar ôl gweithredu, gan nodi cwmpas ac amseriad yr adolygiad. Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fydd Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad pan gaiff y Bil ei gyflwyno.

d) **Diwygiadau Dilynol** – Mae Rheol Sefydlog 26.27 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd Bil yn cael ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 2, fod Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn cael ei baratoi oni bai bod y Pwyllgor Cyfrifol yn penderfynu nad yw'n ofynnol. Yn rhan o hyn, bydd angen ichi ystyried a yw'r gwelliannau'n newid yr asesiadau effaith, gan ddiwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel sy'n briodol. Mae'n rhaid gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau. Os caiff Bil ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 3 ac y bydd y Cynulliad yn cytuno i ystyried gwelliannau pellach ar y Cyfnod Adrodd, mae'n rhaid diwygio'r

Memorandwm Esboniadol oni bai bod y Cynulliad yn cytuno nad yw'n ofynnol darparu fersiwn ddiwygiedig (Rheol Sefydlog 26.46A). Mae hefyd yn ymarfer gorau i gyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl deddfu i adlewyrchu'r Ddeddf derfynol.

6.12 Gall Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn ac ystyrlon gymryd sawl mis i'w gyflawni. Er mwyn casglu digon o dystiolaeth, gallai fod angen comisiynu gwaith ymchwil gan arbenigwyr allanol, yn enwedig pan ddisgwylir i gostau neu fanteision fod yn sylweddol. Gall asesiadau effaith polisi (a drafodir ym Mhennod 5) wneud cyfraniad defnyddiol at nodi costau a manteision mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig lle na ellir pennu gwerth ariannol i'r rhain. Bydd cynllunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn drylwyr, gan gynnwys gwybodaeth am weithredu a chyflenwi, yn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei chasglu a'i dadansoddi, a bod y canfyddiadau yn cael eu hystyried (gan gynnwys wrth ddatblygu'r Bil). Bydd dull o'r fath yn helpu i sicrhau bod y darpar Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus ac yn hwyluso adolygiad ar ôl gweithredu (gweler baragraffau 6.68 – 6.72).

### Cymorth gan Drysorlys Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

6.13 Un o swyddogaethau allweddol dadansoddwyr Trysorlys Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yw darparu cymorth i ddatblygu polisi. Mae cyngor ar gael gan arbenigwyr fel economegwyr, ystadegwyr, ymchwilwyr cymdeithasol, cartograffwyr a'r llyfrgell i gynorthwyo'r gwaith o amcangyfrif costau a datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cymorth hefyd ar gael gan y Timau Cyllidebu Strategol a chynrychiolwyr cyllid o'r Timau Gweithrediadau Grŵp. Dylid cynnwys y timau dadansoddi hyn cyn gynted â phosibl yn y broses o lunio polisi.

6.14 Dylid cysylltu ag economegwyr Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

6.15 Bydd angen cynnwys y dystiolaeth a gofynion cymorth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar gyfer Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o broses cynllunio tystiolaeth Grŵp. Mae nifer o dimau Biliau wedi ei gweld yn ddefnyddiol sefydlu 'grŵp llywio' sy'n cynnwys swyddogion polisi a dadansoddwyr er mwyn helpu i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.16 Yn ystod yr ymgysylltiad cynnar â Thrysorlys Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, bydd angen i swyddogion polisi ac aelodau eraill o dîm y Bil ystyried y sail dystiolaeth, opsiynau, costau a manteision. Dylai hyn adeiladu ar yr asesiadau effaith cychwynnol a gynhelir yn rhan o'r broses o geisio cynnwys y Bil yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

6.17 Bydd angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei awdurdodi gan y Prif Economegydd, a bydd angen i'r cyngor ategol gael ei awdurdodi gan

Cyllidebu Strategol cyn cael yr awdurdodiad Gweinidogol terfynol, a chyn anfon y Bil a'r dogfennau cysylltiedig at y Llywydd er mwyn iddi benderfynu arnynt.

### Canllawiau pellach

6.18 Mae canllawiau pellach hefyd ar gael yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a'r ddogfen '*Better Regulation Framework*'. Fodd bynnag, cyhoeddiadau Llywodraeth y DU yw'r ddau ac nid yw rhai o'r canllawiau (yn y '*Better Regulation Framework*' yn arbennig), fel y trothwy costau busnes lle daw Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ofynnol, yn berthnasol i Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cael ei baratoi yng nghyswllt Biliau'r Cynulliad.

## Paratoi Pennod 7 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Opsiynau

6.19 Mae asesu opsiynau eraill yn drwyadl yn rhan allweddol o ddangos bod y cynigion polisi yn cynnig Gwerth am Arian da. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn dryloyw ac yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael, mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at yr arfarniad opsiynau a chraffu arno.

6.20 Fel y nodir uchod, o hyn ymlaen bydd yr arfarniad o opsiynau eraill yn cael ei gyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y cam Ymgynghori/Bil Drafft. Bydd ystyried yr opsiynau eraill yn gynharach fel hyn yn golygu bod modd canolbwyntio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â phob Bil, wrth iddo gael ei gyflwyno, ar yr opsiwn a ffefrir (h.y. yr effaith y disgwylir i'r Bil ei chael).

### Y Cyfnodau Datblygu ac Ymgynghori

6.21 Ar ddechrau'r broses o ddatblygu polisi, dylid nodi ac ystyried amrywiaeth o opsiynau a allai o bosibl fodloni'r amcanion polisi. Mae'r rhestr o opsiynau yn debygol o gynnwys cynigion deddfwriaethol ac aneddfwriaethol – gallai safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr ymyriadau posibl a allai gyflawni amcan polisi fod o gymorth wrth ddatblygu'r rhain.

6.22 Wrth ystyried amrywiaeth o opsiynau fel rhan o waith datblygu polisi, argymhellir bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ystyriaeth o dri opsiwn o leiaf yn ystod y cyfnodau Datblygu ac Ymgynghori/Bil Drafft. Dylai un o'r rhain fod yn opsiwn 'Parhau fel Arfer' i weithredu fel y llinell sylfaen yr asesir effaith yr opsiynau eraill yn ei herbyn. Roedd hyn yn cael ei alw yn opsiwn 'gwneud dim' yn y gorffennol. Mae'n arferol hefyd cael opsiynau 'gwneud cyn lleied â phosibl' a 'gwneud rhywbeth', er mwyn ystyried a ellir cyflawni cyfran fawr o'r manteision honedig yr opsiwn a ffefrir am gost sylweddol is.

6.23 Os cyflwynir dau opsiwn (h.y. 'Parhau fel Arfer' a'r 'Bil') yn unig, dylid esbonio hyn.

6.24 Nid oes uchafswm o ran nifer yr opsiynau y gellir eu hystyried, ond mae angen gallu rheoli'r asesiad. Pan fydd mwy na 5 neu 6 o opsiynau posibl, efallai y bydd yn briodol ystyried ymarfer llunio rhestr fer gychwynnol i leihau nifer yr opsiynau a ystyrir yn yr asesiad o gostau a manteision (gweler y Llyfr Gwyrdd am ddull gweithredu sy'n cael ei argymell). Mewn achosion o'r fath, bydd angen darparu esboniad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol pam nad yw opsiynau wedi cael eu datblygu i'w dadansoddi ymhellach.

6.25 Pan fydd Bil yn cynnwys amryw o wahanol newidiadau i bolisi, argymhellir bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried opsiynau ar wahân ar gyfer pob newid i bolisi yn hytrach na chyflwyno opsiynau ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r dull hwn yn symleiddio'r asesiad o gostau a manteision ac yn gwella eglurder i'r darllenydd.

### Y Cyfnodau Cyflwyno a Diwygio

6.26 Cyn belled ag y bo asesiad cadarn o'r opsiynau eraill wedi cael ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod Ymgynghori, dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y cyfnod Cyflwyno/Diwygio ganolbwyntio ar y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir (h.y. y Bil). Pan fo hynny'n cael ei wneud, dylai Pennod 7 y Memorandwm Esboniadol gynnwys:

- cyfeiriad at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Ymgynghori) cynharach (gan gynnwys dolen i'r we pan fo'n bosibl);
- amlinelliad o'r opsiynau eraill a ystyriwyd;
- crynodeb byr o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau eraill, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol ers yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Ymgynghori);
- esboniad pam y dewiswyd yr opsiwn a ffefrir;
- cadarnhad bod yr asesiad gwreiddiol (a'r opsiwn a ffefrir a gafodd ei ddewis) yn dal i fod yn ddilys.

Os bydd yr opsiwn a ffefrir wedi newid rhwng y cyfnod ymgynghori a'r cyfnod cyflwyno, yna mae angen esbonio'r rhesymau am hyn yn fanwl.

6.27 Mae'r uchod yn rhagdybio bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn wedi cael ei gyhoeddi yn rhan o'r ymarfer ymgynghori. Os nad yw hyn yn wir, bydd angen i Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfnod Cyflwyno gynnwys arfarniad llawn o opsiynau (yn unol â'r dull yn ystod y Pedwerydd Cynulliad). Fodd bynnag, mae'r dull hwn wedi arwain at Femoranda Esboniadol hirfaith a chymhleth yn y gorffennol.

## Paratoi Pennod 8 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Costau

6.28 Ar ôl i'r opsiynau ar gyfer darparu'r polisi gael eu nodi, bydd angen paratoi dadansoddiad cost a budd manwl ar gyfer pob opsiwn. Mae gwaith arfarnu opsiynau fel arfer yn canolbwyntio ar y costau a'r manteision ychwanegol a fydd yn cael eu hysgwyddo neu a fydd yn

deillio o gynnig polisi (h.y. y costau a manteision hynny sy'n ychwanegol i'r llinell sylfaen neu'r opsiwn 'Parhau fel Arfer'). Fodd bynnag, argymhellir yn gryf bod timau Biliau yn nodi'r costau a ysgwyddir gyda'r opsiwn 'Parhau fel Arfer', gan bwysleisio nad yw costau o'r fath yn rhai ychwanegol, yn ogystal â'r costau 'ychwanegol', er mwyn bodloni gofynion Rheolau Sefydlog, ac er mwyn darparu cyngor llawn a phriodol i Weinidogion.

6.29 Mae'r Rheolau Sefydlog ac (yn sgil hynny) Tabl Crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at gostau gweinyddol (ac arbedion cost) a chostau cydymffurfio. Costau gweinyddol yw'r rheini y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo gan y sector cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a/neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) etc) i weinyddu, monitro a gorfodi'r polisi arfaethedig. Costau cydymffurfio yw'r costau hynny a ysgwyddir gan fusnesau, defnyddwyr, a/neu'r sector cyhoeddus etc, er mwyn gweithredu yn unol â gofynion y polisi arfaethedig.

### Dadansoddiad cost a budd

6.30 Dylid dilyn yr awgrymiadau canlynol wrth ddatblygu'r dadansoddiad cost a budd:

a. wrth wneud penderfyniadau ynghylch deddfwriaeth, bydd gan Weinidogion ddiddordeb arbennig yn yr effeithiau ar Gymru. Fodd bynnag, dylai'r dadansoddiad cost a budd hefyd gwmpasu safbwynt economi'r DU gyfan, yn unol â gofynion y Llyfr Gwyrdd a chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae hyn yn golygu y bydd angen ystyried cost bosibl deddfwriaeth Cymru i adrannau Llywodraeth y DU a'r effaith bosibl ar randdeiliaid ledled y DU hefyd;

b. dylai'r dadansoddiad cost a budd fod yn gymesur ag effaith debygol y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, os yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar ychydig o gwmnïau yn unig, ar lawer o gwmnïau i ychydig iawn o raddau'n unig, neu os yw'r costau a'r manteision yn debygol o fod yn fach, yna gall y dadansoddiad cost a budd fod yn weddol gryno. Fodd bynnag, pan fo'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol, bydd angen mwy o ddata a dadansoddiad mwy trylwyr;

c. dylai'r asesiad ganolbwyntio ar gostau a manteision ychwanegol (neu ymylol) opsiwn sy'n uwch na'r hyn a fyddai'n cronni/yn cael eu hysgwyddo yn yr opsiwn 'Parhau fel Arfer' (er y dylid nodi y bydd dal angen costio'r opsiwn 'gwneud dim') fel yr esbonnir ym mharagraff 6.28 uchod;

d. dylid ystyried dosbarthiad costau a manteision rhwng gwahanol ddiwydiannau, grwpiau a/neu sectorau;

e. dylid mynegi gwerth costau a manteision mewn arian, neu eu meintioli o leiaf, pan fo hynny'n bosibl. Dim ond mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl cynnal asesiad meintiol y dylid darparu asesiad ansoddol o gostau a manteision. Bu'n ofynnol yn y gorffennol i'r Llywodraeth ddarparu symiau mewn gwerth ariannol neu feintiol i'w cyflwyno yn hytrach na defnyddio termau fel "bach iawn o gostau" neu "bydd costau cyfyngedig yn codi". Cydnabyddir bod gwrthdaro posibl yma gyda chymesuredd a gallai weithiau fod yn dderbyniol mynegi bod cost yn un y gellir ei diystyru pan ddiffinnir yn eglur ei bod yn llai na throthwy penodol;

f. dylid, pan fo'n bosibl, mynegi costau yn nhermau'r gost cyfle (h.y. gwerth defnydd gorau nesaf yr ased neu'r adnodd). Gellir cael canllawiau pellach ar hyn gan economegwyr Llywodraeth Cymru;

g. dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gynnwys ystyriaeth o unrhyw newidiadau diwylliannol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ynghyd â'r prosesau sy'n ofynnol i roi newid ar waith.

Ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu'r dadansoddiad cost a budd

6.31 Bydd yr wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r dadansoddiad cost a budd yn amrywio o un polisi i'r llall. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn rhaid ei chasglu o nifer o ffynonellau, fel gan gydweithwyr yn y Llywodraeth (er enghraifft, bydd tîm Cyfathrebu'r Grŵp yn gallu rhoi gwybodaeth am weithgareddau cyfathrebu priodol a'u costau cysylltiedig), adroddiadau ymchwil, arfarniadau polisi, ystadegau a sefydliadau allanol, etc. Gall y Gwasanaeth Llyfrgell a chydweithwyr eraill yn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi helpu i ddod o hyd i'r dystiolaeth ofynnol, a chael mynediad ati, a chynghori ar sut y dylid comisiynu gwaith ymchwil os yw hyn yn angenrheidiol. Pan ddefnyddir tystiolaeth o feysydd arbenigol, dylid gofyn am gyngor yr arbenigwyr proffesiynol perthnasol yn y Llywodraeth a'i gynnwys yn eglur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Os nad yw'r dystiolaeth ofynnol ar gael, yna efallai y bydd angen comisiynu gwaith ymchwil newydd.

6.32 Bu'n ofynnol darparu data ar rai costau, fel costau staff Llywodraeth neu Awdurdod Lleol a chyflogau cyfartalog ar gyfer gwahanol alwedigaethau ar nifer o achlysuron. Gall Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi hefyd gynghori ar ffynonellau data sydd ar gael.

6.33 Mae cysylltiad â rhanddeiliaid yn hanfodol ar gyfer datblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn ac, i fod yn effeithiol, rhaid i'r cysylltiad hwnnw ddechrau yn gynnar yn ystod y cyfnod dadansoddi. Mae rhanddeiliaid yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, ac mae angen ystyried eu profiad a'u tystiolaeth hwythau.

6.34 Os nad oes grŵp ymgysylltu neu gyfeirio rhanddeiliaid wedi cael ei sefydlu eto, dylid ystyried sefydlu grŵp o'r fath i gynorthwyo, yn benodol, gyda phroses yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai aelodau grŵp o'r fath gynnwys partneriaid cyflenwi (er enghraifft, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru etc) a'r grwpiau allweddol sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.) Dylid craffu ar yr holl dystiolaeth gan randdeiliaid yn briodol. Ceir perygl hefyd efallai na fydd digon o bwys yn cael ei roi ar yr effeithiau ar randdeiliaid nad ydynt wedi dewis cymryd rhan yn y broses, a dylid cymryd camau i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

6.35 Yn ogystal â defnyddio rhanddeiliaid fel ffynhonnell o ddata a thystiolaeth wrth lunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'n arfer da i randdeiliaid gael cyfle i adolygu a rhoi sylwadau ar adrannau perthnasol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol cyn ei gyhoeddi. Bydd hyn yn rhoi cyfle i roi sylw i unrhyw faterion sy'n codi cyn cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r cysylltiad â rhanddeiliaid.

Costau

6.36 Pan fydd y Bil yn golygu gwneud mwy nag un newid i bolisi, cynghorir y dylid cynnal dadansoddiad cost a budd ar wahân ar gyfer pob polisi; dylid cyflwyno'r costau, y manteision a'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y polisi cyntaf cyn symud ymlaen at yr ail bolisi, ac yn y blaen. Mae Tabl Crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnig amlinelliad lefel uchel o gostau ac arbedion Bil. Fodd bynnag, yn enwedig mewn achosion lle mae Bil yn golygu nifer o newidiadau i bolisi, bydd hefyd yn werth cynnwys tabl mwy manwl ym mhrif ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn crynhoi cost pob un newid i bolisi a wneir gan y ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd, gan nodi pwy fydd yn ysgwyddo'r costau hynny a thros ba gyfnod amser. Mae angen cydweithredu agos rhwng unigolion/timau sy'n gweithio ar y dadansoddiadau i sicrhau dull cyson ar draws yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.37 Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodi'r amcangyfrif gorau o gost y ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd ac mae hyn yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Hyd yn oed pan nad yw union fanylion is-ddeddfwriaeth wedi cael eu pennu'n derfynol, mae angen amcangyfrif gorau o'r costau a'r manteision tebygol i alluogi'r Cynulliad i graffu'n llawn ar y ddeddfwriaeth. Pan fo rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth, dylid esbonio'r prif feysydd o ansicrwydd a'r sail ar gyfer yr amcangyfrifon o gostau. Fel yr amlinellir ym mharagraff 6.5, bydd angen paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân ar gyfer pob darn o is-ddeddfwriaeth hefyd. Pan fo'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn nodi costau sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol (a'ch bod yn parhau i fod o fewn y cyfnod arfarnu gwreiddiol), dylid nodi hyn yn yr Asesiad Effaith

Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth. Dylid hefyd nodi'r prif resymau dros y gwahaniaethau mewn costau.

6.38 Dylid penderfynu ar y cyfnod arfarnu priodol ar gyfer pob polisi ar ddechrau’r broses. Dylai’r cyfnod arfarnu gynnwys oes ddisgwyliedig y polisi. Pan nad yw’r cyfnod arfarnu priodol yn amlwg ar unwaith, yna byddai cyfnod o 10 mlynedd yn cael ei ddefnyddio fel arfer. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cyfnod arfarnu estynedig ar gyfer polisïau ag iddynt ffocws mwy hirdymor. Yn bwysicaf oll, dylai’r cyfnod arfarnu fod yn ddigon hir i sicrhau bod ‘sefyllfa sefydlog’ yn cael ei chyrraedd o ran costau a manteision (mewn geiriau eraill, dylai costau rheolaidd fod yn gyffredinol gyson ar ddiwedd y cyfnod arfarnu). Pan fydd costau yn parhau i gael eu hysgwyddo y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod arfarnu, dylid gwneud hyn yn eglur yn naratif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.39 Er mwyn asesu costau (ac i fodloni gofynion Rheolau Sefydlog), bydd angen rhoi ystyriaeth i bwy fydd yn cael eu heffeithio gan y cynigion polisi. Fel y nodir uchod, dylai’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynnwys safbwynt economi’r DU yn gyfan ac felly gallai’r grwpiau a effeithir gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, adrannau Llywodraeth y DU, busnesau, y Trydydd Sector, defnyddwyr a/neu gymdeithas yn gyffredinol.

6.40 Dylai'r asesiad ystyried effaith y polisi arfaethedig ar refeniw trethi sydd wedi eu datganoli neu eu datganoli yn rhannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar sylfaen drethu Cymru. Fodd bynnag, dylech gadw mewn cof bod trethi yn daliad trosglwyddo, gydag unrhyw gynnydd yn y swm o dreth sy'n cael ei dalu gan un parti yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn derbyniadau treth ar gyfer ail barti (er enghraifft Awdurdod Cyllid Cymru neu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Felly mae effaith economaidd net trethi yn cyfrif fel sero, er y gall unrhyw effaith ar refeniw trethi fod â goblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dylid cysylltu'n gynnar â swyddogion polisi Trysorlys Cymru i drafod yr effaith bosibl ar sylfaen drethu Cymru.

6.41 Wrth ystyried y costau i’w cynnwys yn y dadansoddiad, mae angen ystyried costau pontio – costau untro yn ymwneud â gweithrediad y polisi fel arfer – a chostau rheolaidd – y rheini a ysgwyddir yn rheolaidd (yn flynyddol fel arfer) ac sy’n gysylltiedig â’r costau parhaus o ddarparu’r polisi fel arfer. Bydd meddwl am y costau fel hyn o gymorth pan ddaw i gyflwyno’r cyfnodau amser pan y disgwylir i gostau godi.

6.42 Mae'r term 'costau suddedig' yn cyfeirio at wariant neu daliadau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo, ac fe ddylai costau o'r fath gael eu heithrio o'r arfarniad economaidd. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesiad o gostau a manteision sy'n edrych tua'r dyfodol, a'r hyn sy'n bwysig yw'r costau a'r manteision sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau sydd eto i'w gwneud - fel y penderfyniad ynghylch pasio Bil ai peidio. Wedi dweud hynny, mae'n debyg y bydd gan Aelodau'r Cynulliad rywfaint o

ddiddordeb mewn costau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo (er enghraifft cynnal cynllun peilot, datblygu system TG neu hyfforddi staff wrth ddisgwyl i Fil gael ei ddeddfu) felly argymhellir y dylid adrodd am y costau hynny mewn adran ar wahân o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gydag esboniad ynghylch pam yr ysgwyddwyd y costau cyn i'r Bil gael ei basio. Fodd bynnag, **ni** ddylid cynnwys y costau suddedig ym mhrif dabl cryno y Bil.

6.43 Dylid gwahaniaethu rhwng costau cyfalaf a chostau refeniw, gan adrodd am yr hollt hwn yn nhabl cryno yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae costau cyfalaf fel arfer yn cyfeirio at wariant unigol ar ased fel tir, adeiladau, peiriannau/cyfarpar a datblygu system neu feddalwedd TG, pan fo disgwyl i'r ased honno gael ei defnyddio dros fwy na blwyddyn. Mae costau refeniw fel arfer yn gostau parhaus fel cyflogau, rhent, costau rhedeg swyddfa a chyfathrebu.

6.44 Dylid gwahaniaethu'n glir hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol rhwng costau arian parod (pan fo disgwyl gwariant ariannol gwirioneddol, er enghraifft bod rhaid i awdurdodau lleol gyflogi aelod ychwanegol o staff) a chostau nad yw'n arian parod sydd â gwerth ariannol (er enghraifft gwerth yr amser y mae'n ei gymryd i fusnes ymgeisio am drwydded neu werth allyriadau carbon ychwanegol).

6.45 Dylai costau fod yn seiliedig ar lefel y pris cyffredinol ar yr adeg Cyflwyno (h.y. os bydd Bil yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2019, 2019-20 fydd y flwyddyn sail brisiau a dylid mynegi’r holl gostau yn ôl prisiau 2019-20). Dylid uwchraddio costau hanesyddol (y rhai sy’n dyddio o’r cyfnod cyn y flwyddyn sail brisiau) i adlewyrchu newidiadau yn y lefelau prisiau cyffredinol. Bydd economegwyr Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cyngor ar y dull priodol o uwchraddio costau hanesyddol.

6.46 **Ni** ddylai costau’r dyfodol gynnwys chwyddiant prisiau cyffredinol. Fodd bynnag, pan ddisgwylir i gostau’r dyfodol gynyddu ar gyfradd sylweddol uwch neu is na phrisiau cyffredinol, yna dylid adlewyrchu’r newid cymharol mewn prisiau yn y cyfrifiadau. Unwaith eto, bydd economegwyr Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cyngor ar hyn.

6.47 Bydd y costau gwirioneddol i’w cynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amrywio o un polisi i’r llall, ond gallai’r tabl canlynol fod o gymorth i nodi’r mathau o gostau a allai gael eu hysgwyddo neu eu cronni:

| *Costau pontio* | *Costau rheolaidd* |
|---|---|
| Canllawiau – a fydd angen canllawiau manwl ar sut y dylid darparu'r polisi? | Cydymffurfio – y gost o fodloni gofynion polisi (e.e. awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau digartrefedd) |
| Costau ymgyfarwyddo – bydd angen i randdeiliaid ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau | Gweinyddu - a fydd y polisi yn creu unrhyw feichiau gweinyddol ychwanegol (e.e. llenwi ffurflenni, cofrestru etc?) |
| Cyfathrebu – y gost o hysbysu rhanddeiliaid am y newidiadau polisi | Monitro a gorfodi – costau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r gofynion polisi. Sut fydd cydymffurfio yn cael ei fonitro, pwy fydd yn gyfrifol am orfodi? A fydd anghenion casglu data, adrodd neu fapio ychwanegol? |
| Hyfforddiant – efallai y bydd angen hyfforddi staff darparu cyn cyflwyno'r polisi newydd | |
| Mangre – os yw'r polisi yn sefydlu sefydliad newydd, neu gomisiynydd newydd, er enghraifft, yna gallai fod cost i gaffael a darparu offer ar gyfer mangre newydd | Sancsiynau ac apeliadau – cost unrhyw sancsiwn neu apêl, er enghraifft costau Tribiwnlys neu Lys |
| System Technoleg Gwybodaeth (TG) – efallai y bydd angen system TG newydd neu addasiadau i system TG bresennol | Cynnal a chadw – efallai y bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw parhaus ar seilwaith newydd (e.e. llwybr beicio) |

6.48 Pan fo'n berthnasol, dylai effaith trosglwyddiad economaidd o safbwynt ailddosbarthu arian gael ei nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel cost i un parti a mantais i un arall. Dan rai amodau, gall fod yn briodol rhoi mwy o bwysoliad ar y manteision i'r grŵp sy'n elwa nag ar y costau i'r grŵp sydd ar ei golled, er enghraifft pan fo polisi wedi'i anelu'n benodol at helpu aelwydydd incwm is neu ardaloedd daearyddol difreintiedig. Ceir canllawiau pellach ar hyn yn y Llyfr Gwyrdd neu gan economegwyr Llywodraeth Cymru.

6.49 Dylid cyflwyno costau yn nhermau'r gost cyfle: dylid parhau i gostio gweithgaredd a gyflawnir gan aelod presennol o staff y Llywodraeth (e.e. llunio canllawiau) ac a delir o gyllideb bresennol y Llywodraeth, gan y gallai'r aelod o staff fod wedi bod yn gwneud rhywbeth arall o werth pe na bai'n rhaid iddo gyflawni'r gweithgaredd hwnnw. Yn y sefyllfa hon, byddai'r gost yn cael ei chyfrifo trwy amcangyfrif cyfran yr amser staff a

fyddai'n cael ei dreulio ar y gweithgaredd (e.e. 20%), dros y cyfnod o amser (e.e. 6 mis) ac ar raddfa'r aelod o staff (e.e. Band Rheoli 2). Wrth ystyried costau staff, dylid nodi 'argostau' yn ogystal â'r cyflog ei hun. Mae 'argostau' yn cynnwys yr holl gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflogi rhywun, fel Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwyr. Mae'r Tîm Gweithrediadau Gwasanaethau Canolog yn cynhyrchu costau band cyflog cyfartalog (gan gynnwys 'argostau') ar gyfer y gwahanol raddfeydd staff yn y Llywodraeth. Dylid defnyddio'r ffigurau hyn i amcangyfrif costau staff y Llywodraeth mewn arfarniad.

6.50 Mae angen ystyried hefyd effeithiau posibl polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar elfennau datganoledig ac elfennau nad ydynt wedi eu datganoli y system gyfiawnder. Dylai'r rhain gael eu nodi fel rhan o'r broses asesu effaith. Pan fo cost neu arbediad i'r system gyfiawnder yn cael ei nodi, dylid adrodd am hyn wrth ochr y costau a'r manteision eraill ym Mhennod 8 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er enghraifft, pe bwriedir cyflwyno troseddau newydd neu ddiwygiedig neu hawliau apelio newydd neu ddiwygiedig, gallai nifer yr achosion sy'n mynd drwy'r llysoedd a thribiwnlysoedd gynyddu. Mae'r system gyfiawnder yn cynnwys:

a. pob llys (troseddol a sifil);

b. pob tribiwnlys (datganoledig a heb ei ddatganoli);

c. cymorth cyfreithiol;

d. y farnwriaeth;

e. cyrff erlyn;

f. carchardai a gwasanaethau prawf.

6.51 Mae cyngor ar asesu effeithiau ar y system gyfiawnder ar gael gan y Tîm Polisi Cyfiawnder. Hefyd, gall Uned Tribiwnlysoedd Cymru gynnig cyngor a chymorth o ran nodi effeithiau posibl cynigion ar dribiwnlysoedd datganoledig.

6.52 Yn ogystal ag asesu costau ariannol, dylai'r arfarniad hefyd gynnwys unrhyw gostau amgylcheddol, iechyd a/neu gymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r cynigion. Oherwydd natur y costau hyn, yn aml nid oes data marchnad ar gael yn barod y gellid eu defnyddio fel sail ar gyfer asesu gwerth. Serch hynny, mae'n dal yn bwysig bod y costau hyn yn cael eu cynnwys yn yr arfarniad. Ceir nifer o ddulliau a thechnegau y gellir eu defnyddio i gynhyrchu gwerth ar gyfer yr effeithiau hyn nad ydynt yn gysylltiedig â'r farchnad. Er enghraifft, gellid defnyddio astudiaethau prisio dibynnol neu ddulliau o fodelu dewis i amcangyfrif gwerth parodrwydd i dalu neu barodrwydd i dderbyn. Cydnabyddir bod astudiaethau o'r fath yn cynnwys elfen o wrthrychedd, ond maent, os

cânt eu cynllunio'n briodol, yn cael eu derbyn yn gyffredinol fel ffordd o amcangyfrif gwerthoedd. Mae Atodiad 2 i Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn trafod y gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i brisio effeithiau nad ydynt yn gysylltiedig â'r farchnad, gan gynnwys enghreifftiau lle mae'r dulliau hyn wedi cael eu defnyddio. Mae rhagor o gyngor hefyd ar gael gan economegwyr Llywodraeth Cymru.

6.53 Dylid cynnwys esboniad manwl o sut y mae'r costau wedi cael eu hamcangyfrif, a'r tybiaethau, os oes rhai, y mae'r costau wedi eu seilio arnynt, yn y Bennod hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gallai fod yn briodol rhoi amrywiaeth o gostau, yn dibynnu ar unrhyw ansicrwydd cynhenid yn y dadansoddiad. Hyd yn oed pan gyflwynir amrywiaeth, bydd angen cyflwyno'r 'amcangyfrif gorau' bob amser. Dylid cynnal dadansoddiad sensitifrwydd i weld beth fyddai effaith newid unrhyw un o'r tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau. Dylid cyflwyno crynodeb o'r dadansoddiad sensitifrwydd yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.54 Os bydd y cynigion polisi yn cynnwys costau cylchol, yna bydd angen gostwng y costau hyn (neu eu haddasu i'r Gwerth Presennol) i adlewyrchu'r gyfradd gymdeithasol dewis adeg defnyddio.[4] Bydd angen cofnodi costau (a manteision gyda'u gwerth wedi'i nodi mewn arian) yn Nhabl Crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nhermau eu gwerth heb ei ostwng a'u Gwerth Presennol. Mae canllawiau ar hyn ar gael gan economegwyr Llywodraeth Cymru ac yn y Llyfr Gwyrdd.

### Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru

6.55 Mae gan y cysyniad o wariant yn cael ei 'godi ar Gronfa Gyfunol Cymru' (fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26.6(xi)) ystyr benodol, yn hytrach na rhywbeth a fydd yn arwain at wariant. At ddibenion Rheolau Sefydlog, mae hyn yn golygu y gellir talu'r gwariant dan sylw allan o'r Gronfa heb fod angen iddo gael ei awdurdodi'n gyntaf trwy gynnig cyllidebol a basiwyd gan y Cynulliad.

6.56 Eithriad, yn hytrach nag ymarfer arferol, yw cynnwys darpariaethau mewn Biliau'r Cynulliad i wariant gael ei godi ar y Gronfa. Mae trefniadau o'r fath fel arfer yn cael eu cadw ar gyfer gwariant ar endidau annibynnol arbennig o bwysig yr ystyrir y byddai'n amhriodol pe byddai unrhyw wrthodiad i basio cynnig cyllidebol (gan Aelodau'r Cynulliad) yn ymyrryd â nhw. Mae enghreifftiau o ddarpariaeth o'r fath yn cynnwys:

a. tâl Archwilydd Cyffredinol Cymru (gweler adran 7(6) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013);

[4] Ceir tystiolaeth sy'n dangos ei bod yn well gan gymdeithas yn gyffredinol dderbyn nwyddau a gwasanaethau nawr yn hytrach na wedyn a gohirio gwariant tan flynyddoedd yn ddiweddarach. Gelwir hyn yn dewis adeg. Wrth gynnal ymarfer arfarnu economaidd, rhoddir pwysau sy'n gostwng ar gostau a manteision sy'n digwydd mewn blynyddoedd yn y dyfodol i adlewyrchu'r adeg dewisol hon.

b. cyflogau a phensiwn y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd (adran 20(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

6.57 Os bydd gwariant yn cael ei godi fel hyn, bydd angen i’r ddeddfwriaeth berthnasol ddweud hynny’n eglur.

6.58 Mae gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn galluogi’r Cynulliad i weld safbwyntiau Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch a yw’n briodol i wariant ddod yn syth o’r Gronfa, yn hytrach na bod yn destun craffu gwleidyddol a chael ei awdurdodi yn gyntaf.

6.59 Dylid ceisio arweiniad gan y cyfreithiwr pwnc a yw gofynion Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn berthnasol. Os oes angen adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, dylid gofyn am hwn cyn cyflwyno’r Memorandwm Esboniadol i’r Llywydd, a dylid cynnwys yr adroddiad fel atodiad i’r Memorandwm Esboniadol (gweler hefyd Bennod 8).

### Manteision

6.60 Mae creu manteision yn rhan annatod o unrhyw gynnig ar gyfer deddfwriaeth ac mae’n bwysig felly bod y rhain yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad. Dylai timau Biliau allu dangos i Weinidogion, y Swyddog Cyfrifyddu a rhanddeiliaid eraill bod y cynigion yn cynrychioli gwerth am arian da a bod y manteision a ragwelir yn cyfiawnhau’r costau ychwanegol a fydd yn cael eu hysgwyddo.

6.61 Pan fo’n bosibl, dylid meintioli manteision, a chofnodi eu gwerth mewn arian yn ddelfrydol, er mwyn sicrhau bod modd cymharu’r opsiynau yn hawdd. Wrth nodi manteision yr opsiynau, gall y rhain fod ar ffurf enillion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Gall manteision amgylcheddol a chymdeithasol fod yn anoddach eu hasesu yn aml (ac yn arbennig felly, eu meintioli neu bennu eu gwerth mewn arian) ond mae’n bwysig eu bod yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad.

6.62 Pan fo ansicrwydd ynghylch effaith y polisi, gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am yr effaith leiaf sy’n ofynnol i gyfiawnhau’r costau.

6.63 Mae angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i’r ffordd y caiff manteision y pennwyd eu gwerth mewn arian eu cyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cododd Archwilydd Cyffredinol Cymru bryderon yn ystod y Pedwerydd Cynulliad bod ‘debydu’ manteision ag iddynt werth ariannol o gostau arian parod yn gamarweiniol o bosibl ac argymhellodd y dylid osgoi’r ymarfer. Fodd bynnag, mae cyflwyno ffigur cost a budd ‘net’ yn ymarfer safonol yn y broses arfarnu economaidd ac yn ganolog i ystyriaethau gwerth am arian. Fel y cyfryw, dyluniwyd Tabl Crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyflwyno ffigurau cost a budd ar wahân ac fel ffigur net.

6.64 Yn yr un modd â chostau, pan fynegwyd y manteision mewn gwerth ariannol, yna bydd rhaid eu diystyru a'u cyflwyno yn nhermau Gwerth Presennol.

### Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

6.65 Ar ddiwedd y dadansoddiad cost a budd, dylid nodi'r opsiwn a ffefrir a rhoi esboniad pam mae'r opsiwn hwnnw wedi cael ei ddewis. Dylai'r dadansoddiad a fydd yn ei ragflaenu gefnogi'r dewis hwn. Pan nad yr opsiwn â'r Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (gwerth a gyfrifir fel gwerth presennol y manteision llai gwerth presennol y costau) uchaf yw'r opsiwn a ffefrir, mae angen gwneud hyn yn eglur a rhoi cyfiawnhad llwyr dros ddewis yr opsiwn a ffefrir o safbwynt y dystiolaeth ac ystyriaethau ansoddol.

## Paratoi Pennod 9 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Asesiad Effaith

6.66 Bydd angen i'r asesiadau effaith y cyfeirir atynt ym Mhennod 5 y Llawlyfr hwn ac sy'n cael eu cyflawni fel rhan o Asesiad Effaith Integredig gael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi a Bil. Bydd angen darparu crynodeb o'r asesiadau effaith (ac unrhyw rai y nodwyd effaith arnynt yn benodol) ym Mhennod 9 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai'r bennod hon hefyd gynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog.

6.67 Mae angen i bob Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynnwys canlyniadau'r ymarfer Asesu Cystadleuaeth. Mae hwn yn asesu effaith bosibl y cynigion polisi ar gystadleuaeth yng Nghymru. Dylid cymhwyso prawf hidlo (yn cynnwys 9 cwestiwn ag ateb cadarnhaol/negyddol) i bob opsiwn polisi – mae'r prawf hwn wedi ei gynnwys yn y templed ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylid cwblhau'r prawf hidlo cyn gynted â phosibl er mwyn helpu i nodi unrhyw effeithiau, andwyol neu fuddiol. Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r prawf hidlo, efallai y bydd angen cynnal Asesiad Llawn o'r Gystadleuaeth (gan ddilyn canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd). Mae rhagor o gyngor ar gael gan economegwyr Llywodraeth Cymru. Os bydd Asesiad o'r Gystadleuaeth yn cael ei gynnal, dylid ei gynnwys fel rhan o'r bennod hon.

## Paratoi Pennod 10 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – Adolygiad ar ôl gweithredu

6.68 Dylai pennod olaf yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodi'r dull arfaethedig ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso'r polisi. Mae angen sicrhau bod digon o waith cynllunio yn cael ei wneud a bod yna ddigon o adnoddau hefyd i gynnal yr adolygiad ar ôl gweithredu. Dylai'r dull hwn geisio mesur effeithiolrwydd y polisi a weithredwyd a chanfod ei effaith wirioneddol. Yn benodol, dylai'r drefn hon nodi pa un a yw nodau polisi yn cael eu cyflawni ac a gafwyd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

6.69 Nid oes unrhyw un dull penodol i'w ddefnyddio i bennu gwahanol ymrwymiadau ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu, gan y byddant yn dibynnu ar fwriad y polisi. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen casglu data at ddibenion monitro ac er mwyn gwerthuso a/neu adolygu yn ystod oes y polisi. Mae'r cyngor presennol, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, i'w weld isod:

a. Bod yn eglur ynghylch nodau'r adolygiad ar ôl gweithredu -

- beth y bwriedir ei gyflawni wrth gynnal unrhyw adolygiad, gan gynnwys sut a phryd y bydd yn cael ei gynnal;
- pennu meini prawf eglur ar gyfer mesur effeithiolrwydd/llwyddiant;
- darparu sail resymegol – bod yn eglur ynghylch pam mae dull yn cael ei ddilyn, yn enwedig os yw'n wahanol i unrhyw broses neu amserlen safonol dybiedig;
- ystyried y costau, yr arbedion, y manteision a'r anfanteision a amcangyfrifir – dylid ymchwilio i unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y costau, yr arbedion, y manteision a'r anfanteision a ragwelwyd sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r costau, arbedion ac anfanteision alldro, a'u hesbonio;
- ystyried adolygu'r dull ymyrryd ac i ba raddau y gellid ei symleiddio neu ei wella;
- gwybod pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol a sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer meithrin cysylltiadau â nhw, gan gynnwys eu swyddogaeth yn yr adolygiad;
- defnyddio'r broses i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu, yn cael eu rhannu ar draws Grwpiau ac yn cael eu bwydo yn ôl i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau.

b. Paratoi o ddechrau'r broses –

- ystyried y trefniadau ar gyfer monitro, gwerthuso ac adolygu ar y cychwyn trwy eu gwneud yn rhan annatod o ddatblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth;
- cyfeirio yn ôl at amcanion y bwriedir i'r ddeddfwriaeth eu cyflawni, sail dystiolaeth a sail resymegol y ddeddfwriaeth, er mwyn helpu i benderfynu pa wybodaeth berthnasol y gellid neu y dylid ei chasglu (dylid cynnwys hyn yn Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol);
- pan fydd angen casglu data, nodi sut y byddant yn cael eu casglu, pa mor aml a chan bwy, ond hefyd ystyried y baich ar y rheini sy'n cyflenwi'r data a gwneud yn siŵr y gellir ei gyfiawnhau;
- deall y llinell sylfaen i'w defnyddio ar gyfer mesur effeithiolrwydd a gwneud yn siŵr bod gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei chasglu cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i effaith;
- caniatáu ar gyfer y cyfnod hir o amser y gall elfennau o'r broses eu cymryd, e.e. cynhyrchu data newydd, comisiynu gwaith ymchwil a dadansoddi costau;

- paratoi cynllun cyllidebol yn cynnwys maint ac amseriad unrhyw wariant (e.e. ar gyfer casglu data, gwaith ymchwil a gomisiynir a gwerthuso, etc).

6.70 Gall y Tîm Ymchwil Gymdeithasol yn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gynnig cyngor ar ofynion casglu data a gwerthuso, costau tebygol, ac amseru. Hefyd, mae canllawiau ar adolygu a gwerthuso polisi ar gael o Lyfr Magenta Trysorlys EM. Mae canllawiau ar sut i arfarnu cynigion cyn neilltuo cyllid ar gael o Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

6.71 Bydd gan Aelodau Cynulliad ddiddordeb arbennig yn y trefniadau arfaethedig ar gyfer adolygu, a fydd yn cael eu hystyried fel ymrwymiadau Gweinidogol. Cafwyd achlysuron pan wnaeth Pwyllgorau argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru neu'r Cynulliad gynnal adolygiad ar ôl gweithredu, neu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i osod ymrwymiadau r wyneb y Bil. Gellir eu cyflwyno fel gwelliannau arfaethedig i'r Bil gan y Llywodraeth neu fel rhai anllywodraethol yn ystod Cyfnodau 2 neu 3.

6.72 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun tystiolaeth bob blwyddyn a dylai timau Biliau drafod gydag ymchwilwyr cymdeithasol Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a ellir cynnwys yr adolygiad ar ôl gweithredu yn y cynllun hwnnw.

# Pennod 7 – Y broses o baratoi Bil i gael ei gyflwyno

**Mae'r canllawiau yn y Bennod hon yn ymwneud â chyfnodau allweddol o waith wrth baratoi'r Bil i gael ei gyflwyno (yn hytrach nag agweddau eraill ar waith Bil). Dyma'r cyfnodau:**

a. **datblygu polisi ac ymgynghori;**
b. **cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol;**
c. **drafftio'r Bil a'i gyfieithu.**

**Ar yr un pryd ag y mae'r Bil yn cael ei baratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg, bydd angen hefyd i dîm y Bil ddatblygu'r Memorandwm Esboniadol (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol) yn Gymraeg ac yn Saesneg, a Datganiadau o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddir canllawiau ar y gwaith hwn ym Mhenodau 6, 8, 9 ac 11. Mae'n rhaid i waith ar y meysydd hyn ddechrau'n gynnar a pharhau ochr yn ochr â datblygiad y Bil – ni ddylid aros tan fod y Bil wedi ei gwblhau cyn drchrau gweithio ar y rhain.**

## Amlinelliad o'r cyfnodau ar gyfer datblygu Bil

7.1 Swyddogion polisi ac, o dan rai amgylchiadau, Rheolwr y Bil, sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynigion polisi ar gyfer y Bil ac ymgysylltu â'r Gweinidog a'r cynghorydd arbennig ar reoli'r broses graffu a mynd ati i ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol. Y cyfreithwyr pwnc[5] sy'n cynghori'r Grŵp polisi a'r Gweinidog(ion) sy'n gyfrifol am ddarparu arbenigedd ar y pynciau cyfreithiol (cyfraith tai, cyfraith addysg, cyfraith iechyd, etc) sydd wedi eu cynnwys yn y Bil ac ar bwyntiau cyfreithiol yn fwy cyffredinol, gan gynnwys cymhwysedd deddfwriaethol.) Maent yn defnyddio'r arbenigedd hwn i lywio gwaith i ddatblygu'r polisi a fydd yn cael effaith yn y Bil, a herio'r gwaith hwnnw os oes angen. Fel arfer, maent hefyd yn cyflawni swyddogaeth swyddogion sy'n llunio cyfarwyddiadau[6] i ddrafftwyr y Bil yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.[7]

7.2 Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n gyfrifol am ddrafftio'r Bil. Rhan o swyddogaeth y cyfreithwyr pwnc a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw herio a helpu i fireinio'r polisi, trwy brofi pa mor resymegol yw'r cynigion a chynghori ar faterion sy'n codi yn ymwneud â'r broses ddeddfwriaethol, cyfraith a pholisi. Pan fydd y materion

---

[5] Defnyddir y term cyfreithiwr pwnc trwy gydol y bennod hon i ddisgrifio'r cyfreithiwr y Gwasanaethau Cyfreithiol dan sylw, a allai fod yn cyfarwyddo neu beidio.

[6] Defnyddir y term swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau trwy gydol y bennod hon i ddisgrifio'r unigolyn sy'n ysgrifennu'r cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, pa un a yw'n gyfreithiwr pwnc ai peidio.

[7] Am grynodeb o swyddogaeth Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, gweler Pennod 3, paragraffau 3.31-3.32 uchod.

hynny'n eglur ac wedi eu datrys, maent yn dechrau ar y dasg o lunio darpariaethau cyfreithiol i adlewyrchu'r polisi sy'n gywir, yn ddiamwys ac mor hygyrch a dealladwy â phosibl.

7.3 Wrth i'r gwahanol gyfnodau gwaith gael eu cwblhau, bydd swyddogion polisi yn darparu mewnbwn yn barhaus. Swyddogion polisi fydd yn bennaf gyfrifol am waith datblygu polisi, ond mae profiad wedi dangos y gall ymgysylltu'n gynnar â chyfreithwyr pwnc – a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol pan fo hynny'n ymarferol – fod yn hynod fuddiol. Er nad y cyfreithwyr pwnc sy'n gyfrifol am ddatblygu'r polisi, bydd datblygu opsiynau a nodi'n llwyddiannus y newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen yn dibynnu i raddau ar eu mewnbwn nhw. Bydd y dadansoddiad cyfreithiol manwl yn cael ei arwain gan y cyfreithwyr pwnc, ond bydd rhaid ymgysylltu'n agos â swyddogion polisi sy'n gallu cynnig cyfeiriad a chyngor ar yr effaith y bwriedir ei chael, ynghyd â phrofiad a gwybodaeth yn y maes.

7.4 Ni fydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fel arfer yn cymryd rhan ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r polisi, ond wrth i'r polisi gael ei fireinio mwy, ac wrth i'r dadansoddiad cyfreithiol ddechrau cael ei lunio, mae eu mewnbwn yn debygol o gynyddu. Mae adnoddau Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi eu seilio'n bennaf ar y ffenestr ddrafftio ar gyfer y Biliau sydd wedi'u rhaglennu, felly ni allant gymryd rhan fawr yn y gwaith datblygu polisi manwl a'r cyngor cyfreithiol sydd ei angen i lunio cynigion ar gyfer Biliau. Ond byddant yn gallu cynnig rhywfaint o gefnogaeth yn ystod y cyfnodau cynnar at y dibenion a ganlyn -

a. amgyffred maint a chymhlethdod Bil arfaethedig a'r adnoddau sydd eu hangen i'w ddrafftio;

b. rhoi amcan o faint o amser y gallai ei gymryd i ddrafftio Bil;

c. trafod unrhyw bryderon neu anawsterau y gwyddys amdanynt mewn perthynas â'r cynlluniau ac ystyried dulliau cyffredinol amgen.

7.5 Gan fod y gwaith o ddrafftio'r Bil yn cael ei wneud gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, bydd swyddogion polisi a chyfreithwyr pwnc yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ystyried adrannau a rhannau drafft y Bil, gyda'r nod o brofi'r drafftio yn erbyn bwriad y polisi a manylion ymarferol ei weithredu. Bydd angen trafodaeth, cydberchnogaeth a chydweithredu wrth baratoi'r Bil.

7.6 Caiff Bil effeithiol, y gellir ei gyflawni, ac sydd wedi ei ddrafftio'n dda ei baratoi trwy ymgysylltu cadarn gan y partneriaid yn y broses yn ystod pob cyfnod.

7.7 Un ystyriaeth bwysig i bawb sy'n gweithio ar Fil yw bod pob prosiect llunio cyfraith yn rhan o ymdrech ehangach ar y cyd gan adrannau ar draws y Llywodraeth i gynnal rheolaeth y gyfraith, er bod pwyslais y tîm ar ddatblygu'r cynnig polisi penodol. Mae creu a chynnal system effeithiol o gyfraith i ddiogelu rhyddid a hawliau a hybu llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn un o swyddogaethau allweddol llywodraeth. Bydd pob Bil yn rhan gymharol fach o'r system o gyfraith ehangach a bydd angen iddo weithio'n dda i'r rhai sy'n ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw. Mae'n aml yn wir fod cynigion ar gyfer Biliau yn codi pwyntiau sy'n cyffwrdd ar faterion sy'n berthnasol i effeithiolrwydd y system gyfreithiol yn ei chyfanrwydd.

7.8 Y nod yw llunio cyfraith dda: hynny yw, cyfraith sy'n angenrheidiol, yn eglur, yn ystyrlon, yn effeithiol ac yn hygyrch. Dylid cadw'r nod hwn mewn cof yn ystod pob cyfnod o ddatblygiad y Bil.

7.9 Un ystyriaeth arbennig o ran Cymru yw mai yn Neddfau Senedd y DU sy'n gymwys i Gymru a Lloegr (ac i rannau eraill o'r DU yn aml), a ddatblygwyd yn Saesneg yn unig wrth gwrs, y ceir llawer o'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol sy'n gymwys i Gymru mewn pynciau datganoledig. O ganlyniad i'r newid deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers datganoli (yn achos Cymru a Lloegr, neu'r ddwy), mae wedi dod yn anodd, mewn rhai meysydd, i'r cyhoedd gael mynediad at y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol sy'n gymwys i Gymru. Cymryd cyfleoedd wrth iddynt godi i symleiddio a diffinio ar wahân y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru yw polisi Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn gwella hygyrchedd – yn enwedig pan fydd yn darparu ar gyfer rhoi stori mwy cydlynol ar wyneb Deddf Cynulliad a wnaed yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Datblygu polisi ac ymgynghori

7.10 Cyfrifoldeb arweinwyr a swyddogion polisi yn bennaf yw datblygu a chyflwyno nodau polisi a goblygiadau deddfwriaeth, ond bydd angen mewnbwn gan gynghorwyr cyfreithiol ar y materion hyn fel arfer. Mae'n cynnwys cyflwyno'r achos cychwynnol dros newid, ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael yn ddigon manwl a sicrhau bod y Gweinidog yn cael cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda ar ddulliau o fodloni'r amcan.

7.11 Ystyrir bod gan gylch oes y polisi bum cam:

a. yr achos dros newid;
b. yr opsiynau;
c. datblygu'r opsiwn a ffefrir;
d. gweithredu;
e. gwerthuso.

7.12 Dylid mynd i'r afael â'r camau yn eu trefn yn ddelfrydol, ond derbynnir bod rhaid eu hystyried a'u cofnodi ar yr un pryd yn aml er mwyn bodloni'r amserlenni gofynnol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr opsiwn a ffefrir o ran y ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar brawf yn iawn ac y gellir ei gyfiawnhau o ran polisi, cost a chyfreithlondeb. Mae hyn yn golygu bod rhaid dadansoddi'r achos dros newid neu arfarnu'r opsiwn mewn ffordd ddigon cadarn i allu herio'r opsiwn a ffefrir. Defnyddir yr achos hwn fel sail ar gyfer y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (gweler penodau 6 ac 8).

7.13 Dylid seilio pob cam ar ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid ac ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Yn achos deddfwriaeth, mae Gweinidogion wedi dweud y bydd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys o leiaf un ymgynghoriad cyhoeddus (ond nid dyma'r unig broses o ymgynghori neu ymgysylltu fyddai'n cael ei defnyddio fel arfer wrth ddatblygu polisi cymhleth). Fel arfer, dylai'r rhanddeiliad gynnwys y bobl a ddylai gael budd o'r polisi, y bobl a'r sefydliadau a fydd yn darparu'r polisi, a'r bobl a'r sefydliadau sydd â'r mwyaf o arbenigedd yn y pwnc dan sylw.

7.14 Ar bob cam, mae angen rhoi ystyriaeth gymesur i:

a. gydnawsedd ag amcanion strategol y Llywodraeth (y rhaglen lywodraethu neu flaenoriaethau Gweinidogol);
b. yr effaith ar bobl Cymru a'r dystiolaeth ategol;
c. cost y buddsoddiad, a sut y gellir ei gyllido;
d. mecanweithiau sydd ar gael i wireddu neu gymell newid;
e. rheolaeth y gwaith.

7.15 Cyfeirir at yr elfennau hyn fel yr "egwyddorion llunio polisi" hefyd weithiau.

7.16 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) weithio tuag at gyfres gyffredin o saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a'r ffordd y dylai sefydliadau weithio (y pum ffordd o weithio), er mwyn bodloni'r amcanion hyn. Wrth feddwl am ein polisïau, dylem fod yn ystyried fwyfwy a ydym yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yng nghyd-destun y Ddeddf. Wrth ystyried priodoldeb deddfwriaeth trwy'r broses arfarnu opsiynau, dylem fod yn gwneud hynny yng nghyd-destun y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio. Wrth ddatblygu deddfwriaeth, bydd angen i swyddogion ystyried a fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn helpu i gyflawni. Rhaid iddynt hefyd ystyried sut y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn galluogi eraill i wneud cymaint â phosibl i helpu i gyflawni'r saith nod llesiant, neu i'w hymwreiddio ymhellach yn y pum ffordd o weithio.

7.17 Mae canllawiau helaeth ar lunio polisi ar gael ar y fewnrwyd, ynghyd â chanllawiau ar asesiadau effaith gofynnol. Mae rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith wrth baratoi Biliau'r Cynulliad ar gael ym Mhennod 5 y Llawlyfr hwn.

7.18 Mae profiad wedi dangos bod angen bod yn hynod gywir a manwl wrth ddatblygu polisi ar gyfer drafftio deddfwriaeth. Yn benodol, mae angen ystyried mewn cymaint o fanylder â phosibl, a chan gyfeirio at y dystiolaeth orau sydd ar gael, a ydy'r polisi'n gyson ag amcanion cyffredinol y Llywodraeth; yr effeithiau tebygol ar wahanol grwpiau o bobl a mathau o sefydliadau; a'r mecanweithiau posibl ar gyfer sicrhau'r canlyniad dymunol. Mae hyn yn helpu i fwrw ati i baratoi cyfarwyddiadau (gweler isod), ond mae hefyd yn hynod werthfawr yn ddiweddarach yn y broses wrth benderfynu sut i ymateb mewn modd cydlynus i welliannau (gweler Pennod 15). Gallai tystiolaeth hefyd fod yn bwysig wrth ystyried cymhwysedd deddfwriaethol.

7.19 Mae sicrhau ansawdd yn arbennig o bwysig pan fydd polisi'n cael ei weithredu trwy ddeddfwriaeth. Disgwylir y bydd pwyntiau gwirio cymesur ar adegau priodol.

7.20 Mae cymesuredd yn bwysig o ran datblygu'r achos dros bolisi ac o ran sicrwydd. Disgwylir i Brif Berchenogion Cyfrifol ddefnyddio eu barn ynghylch yr hyn a fyddai'n gymesur i'r mater dan sylw. Gan fod deddfwriaeth yn uchel ei phroffil ac yn gofyn am sail bolisi fanwl, mae'n arferol paratoi achos manwl a bod yn drylwyr wrth gael sicrwydd.

### Dull meddwl defnyddiol

7.21 Wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, gallai fod o gymorth ystyried y cwestiynau canlynol, a allai helpu i ddatblygu gwaith ymchwil ar y sail dystiolaeth a rhoi cyfeiriad i'r ffordd o feddwl yn y dyfodol –

a. pwy y mae'n rhaid eu heffeithio a phwy allai gael eu heffeithio, a phwy mae'n rhaid peidio â'u heffeithio;
b. lle mae'n rhaid eu heffeithio a lle allent gael eu heffeithio, a lle na fyddant yn cael eu heffeithio;
c. sut y mae'n rhaid eu heffeithio a sut y gallent gael eu heffeithio, a sut y mae'n rhaid peidio â'u heffeithio;
d. pryd y mae'n rhaid eu heffeithio a phryd y gallent gael eu heffeithio, a phryd y mae'n rhaid peidio â'u heffeithio;
e. pam y mae'n rhaid eu heffeithio a pham y gallent gael eu heffeithio, a pham y mae'n rhaid peidio â'u heffeithio;
f. beth fyddai'r goblygiadau pe baent yn cael eu heffeithio neu pe na baent yn cael eu heffeithio – mae angen ystyried goblygiadau cyfreithiol, cymdeithasol, economaidd, ariannol, amgylcheddol a gwleidyddol.

### Cymhwysedd deddfwriaethol

7.22 Mae Adran 108A(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi "*An Act of the Assembly is not law so far as any provision of the Act is outside the Assembly's legislative competence.*"

7.23 Mae'r profion ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi'u gosod yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler hefyd Bennod 1 uchod). Maent yn brofion cyfreithiol cymhleth, y gall y cyfreithwyr pwnc roi cyngor pellach amdanynt.

7.24 Bydd angen ystyried cymhwysedd deddfwriaethol polisi a'r darpariaethau sy'n deillio ohono. Er mwyn gwneud hyn yn drylwyr ac yn amserol, bydd angen cyfarwyddiadau polisi manwl cyn gynted â phosibl.

### Newidiadau i bolisi a/neu rychwant y Bil

7.25 Mae'r Bil yn cael ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar sail yr wybodaeth a ddarperir yn y cynnig deddfwriaethol, neu'r diweddariad, ac fel a gytunir gan y Cabinet. Gallai ychwanegu polisi newydd sylweddol at y Bil effeithio ar gwmpas a maint y Bil, a fydd yn effeithio yn ei dro ar yr amserlennu ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol yn ei chyfanrwydd. Mae'n rhaid cadarnhau hyn felly trwy Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a fydd yn darparu cyngor ar y goblygiadau i'r rhaglen ddeddfwriaethol, cyn ceisio cytundeb y Gweinidog, ac yna'r Prif Weinidog.

7.26 Bydd angen cytundeb Gweinidogol ar gyfer cael gwared ar agweddau allweddol ar bolisi'r Bil hefyd, a gallai fod angen cytundeb y Prif Weinidog hefyd. Dylai timau Biliau fod yn ymwybodol lle mai'r bwriad yw cael gwared ar bolisi o'r Bil a datblygu Bil ar wahân, yna bydd rhaid cael cytundeb y Prif Weinidog ar gyfer y Bil newydd hwnnw ac efallai na fydd yn bosibl ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol nac, yn wir, ychwanegu'r polisi at Fil arall.

7.27 Ni ddylai tîm y Bil wneud unrhyw ymrwymiad i Weinidog na fydd newid i gynnig yn y Bil yn effeithio ar yr amser drafftio, neu'r dyddiad cyflwyno, oni bai bod hyn wedi cael ei drafod a'i gytuno gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ymlaen llaw.

## Cyfarwyddiadau

7.28 Caiff y Bil ei ddrafftio gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar sail dogfen sy'n cael ei pharatoi ar ran y Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil sy'n rhoi cyfarwyddiadau i'r drafftiwr ar ba newidiadau i'r gyfraith sy'n ofynnol i fodloni amcanion polisi'r Llywodraeth.

Y dull o baratoi'r cyfarwyddiadau

7.29 Mae llunio cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn ymdrech ar y cyd rhwng y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau (sy'n aml yn gyfreithiwr pwnc) a swyddogion polisi. Mae cyfreithwyr pwnc yn dod ag arbenigedd cyfreithiol ac mae swyddogion polisi yn dod ag arbenigedd polisi, ond nid oes unrhyw linell derfyn bendant rhwng y ddwy swyddogaeth. Mae angen gwybodaeth am y gyfraith i ddatblygu polisi effeithiol ac mae llawer o faterion y gellid eu hystyried yn 'gyfreithiol' yn cael eu hysgogi mewn gwirionedd gan bolisïau ynghylch sut y dylai'r gyfraith gael ei drafftio, ei threfnu neu ei gwneud. Mae angen i gyfreithwyr pwnc a swyddogion polisi ddeall safbwyntiau ei gilydd i ryw raddau er mwyn llunio cyfarwyddiadau da sy'n esbonio'n iawn i'r drafftiwr beth yw bwriadau polisi'r Gweinidog.

7.30 Mae deddfwriaeth yn rhoi effaith i bolisi, gan fynegi ewyllys y ddeddfwrfa bod rhaid gwneud rhywbeth, neu y gellir neu na ellir gwneud rhywbeth. Diben y cyfarwyddiadau yw esbonio'r holl agweddau perthnasol ar y polisi i'r drafftiwr fel y gellir:

a. nodi a datrys problemau;

b. mynegi'r polisi, fel y'i fireiniwyd, yn llawn fel cyfres o syniadau deddfwriaethol eglur mewn Bil.

7.31 Bydd y polisi ar gyfer Bil bob amser yn cynnwys nifer o agweddau y mae'n rhaid iddynt ymddangos yn y polisi ac mewn syniadau cyfreithiol a'r stori sy'n cael ei hadrodd yn y cyfarwyddiadau:

a. polisi cymdeithasol – beth yw'r drwg y mae angen mynd i'r afael ag ef a beth ddylid ei wneud am y peth?

b. polisi gwleidyddol – beth yw blaenoriaethau a phryderon penodol y Gweinidogion o ran y polisi?

c. polisi gweinyddol - pa swyddfeydd, cyrff, systemau a phrosesau newydd, neu pa newidiadau i bethau o'r fath sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r drwg?

d. polisi cyfreithiol - a fydd y cynnig yn gwneud cyfraith dda? Pa ystyriaethau cyfreithiol sy'n siapio'r hyn y dylid ei wneud neu sut y dylid ei wneud, neu sy'n cyfyngu ar hynny? Pa fecanweithiau'r gyfraith (hawliau, pwerau, dyletswyddau, systemau apelio, etc) fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni agweddau eraill ar y polisi? Pa newidiadau canlyniadol i'r gyfraith sy'n ddymunol/angenrheidiol? A oes angen unrhyw ddarpariaethau trosiannol neu arbed?

e. polisi deddfwriaethol - pa gydbwysedd ddylai fod rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth? Os oes angen unrhyw

bwerau is-ddeddfwriaeth, beth ddylent ei ganiatáu? Pa weithdrefnau Cynulliad ddylai fod yn gymwys? I ba raddau ddylid cydgrynhoi'r gyfraith bresennol? Sut yr eir ati i gychwyn y Bil? Pa mor eglur, hygyrch ac ystyriol o ddefnyddwyr fydd y gyfraith newydd?

f. polisi cyfathrebu – a oes ystyriaethau'n ymwneud â chynulleidfa'r ddeddfwriaeth, rhanddeiliaid neu ymdrin gwleidyddol a allai effeithio ar y drafftio?

g. polisi gorfodi – sut fydd dyletswyddau'n cael eu gorfodi (e.e. troseddau newydd, cosbau sifil, adolygiad barnwrol, creu awdurdodau gorfodi neu addasu swyddogaethau awdurdodau presennol)?

7.32 Fel arfer, bydd y swyddogion polisi a'r cyfreithwyr pwnc yn cyfrannu er mwyn ymdrin â phob agwedd ar y polisi a'r gyfraith sydd i'w hesbonio. Bydd y cwestiwn ai'r cyfreithiwr pwnc neu'r swyddog polisi (os unrhyw un ohonynt) fydd yn cyfrannu fwyaf yn dibynnu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i ymdrin â'r mater penodol.

7.33 Fel arfer, cyfreithiwr fydd yn gyfrifol am gyfarwyddo Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fel arfer yn anfon eu gohebiaeth a'u darpariaethau drafft at y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau, gyda chopïau'n cael eu hanfon at swyddogion eraill â buddiant (gan gynnwys y rheini y tu allan i dîm y Bil pan fo'n briodol). Swyddogaeth y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau yw cydgysylltu ymatebion Grŵp i'r Cwnsler ar y darpariaethau drafft ac unrhyw ymholiadau a godir gan y Cwnsler am y cyfarwyddiadau (gan gynnwys unrhyw gyfarwyddiadau ychwanegol).

7.34 Ar gyfer Biliau mawr, yn enwedig y rheini ag iddynt fwy nag un elfen bolisi, gallai llunio cyfarwyddiadau gynnwys mwy nag un swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau a nifer o arweinwyr a swyddogion polisi, wedi'u gwasgaru ar draws fwy nag un Grŵp efallai. Tîm y Bil sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses hon a sicrhau bod yr holl gyfarwyddiadau yn cael eu llunio yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt. Mae'n syniad da penodi swyddog polisi arweiniol a swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau arweiniol i hwyluso ymatebion cydgysylltiedig ac awdurdodol ar gyfer materion a godir gan Gwnsleriaid (daw hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r terfynau amser ar gyfer llunio'r Bil a diwygiadau i Filiau agosáu).

7.35 Cyfrifoldeb y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau a'i swyddogion polisi yw penderfynu ar y ffordd orau i weithio gyda'i gilydd i lunio'r cyfarwyddiadau. Y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfarwyddiadau terfynol. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r gwaith o baratoi cyfarwyddiadau fel arfer yn dechrau gyda'r swyddogion polisi, sy'n darparu cymaint o ddeunydd â phosibl ar gyfer

y cyfarwyddiadau (y cyfeirir atynt yn aml fel “y cyfarwyddiadau polisi”) cyn i’r swyddog sy’n llunio cyfarwyddiadau gwblhau’r stori yn y fersiwn derfynol (y cyfeirir atynt yn aml fel “y cyfarwyddiadau cyfreithiol”). Ceir cyfnod fel arfer pan fydd angen i’r polisi fod wedi ei ddatblygu fel y gellir ystyried y polisi hwnnw o safbwynt cyfreithiol. Mae’n anochel, fodd bynnag, y bydd angen ailadrodd rhwng swyddogion polisi, Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar wahanol gyfnodau yn ystod datblygiadau’r Bil. Y peth allweddol yw bod swyddogion polisi yn esbonio’n fanwl pa amcan yn union y maent yn dymuno ei gyflawni a sut y maent yn bwriadu gwneud hynny.

7.36 Ar ôl i’r polisi gael ei esbonio, bydd y cyfreithiwr yn gweithio gyda’r swyddogion polisi i fynd i’r afael ag unrhyw fylchau, anghysondebau, gwallau neu amwysedd yn y polisi. Wedi hynny, bydd y cyfreithiwr yn paratoi’r cyfarwyddiadau i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Prif ddiben y cyfarwyddiadau hyn yw esbonio’r polisi, nodi sefyllfa bresennol y gyfraith ac esbonio pa newidiadau i’r gyfraith sydd eu hangen i roi effaith i’r polisi. Mae’n bwysig nad yw’r “cyfarwyddiadau polisi” a’r “cyfarwyddiadau cyfreithiol” yn cael eu cyflwyno fel dwy ddogfen annibynnol. Yn hytrach, dylid eu hystyried fel dau gam yn y gwaith o lunio un ddogfen: y cyfarwyddiadau i’r Cwnsler.

7.37 Mae gwthio’r ystyriaethau o faterion allweddol ymlaen i’r ffenestr a neilltuwyd ar gyfer drafftio yn debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd a gallai olygu methiant i ddarparu rhywfaint, neu hyd yn oed y cwbl, o’r hyn y dymunir ei gael yn y Bil.

7.38 Rhoddir canllawiau ar yr hyn y dylai’r cyfarwyddiadau ei drafod isod.

### Cynnwys Grwpiau eraill

7.39 Yn aml, nid y Grŵp polisi â chyfrifoldeb cyffredinol am Fil fydd yr unig Grŵp â buddiant yn y polisi. Pan fydd hyn yn wir, dylai’r Grŵp arweiniol roi cyfle i’r Grŵp(iau) eraill sydd â buddiant wneud sylwadau ar y polisi cyn i’r cyfarwyddiadau gael eu cwblhau’n derfynol.

### Cynnwys Llywodraeth y DU

7.40 Mae Biliau’r Cynulliad yn aml yn cynnwys buddiannau polisi nad ydynt wedi eu datganoli. Mae hyn yn golygu’n aml bod angen i Filiau’r Cynulliad gynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â chynnal effaith bresennol y gyfraith mewn perthynas â Lloegr neu sicrhau bod polisi nad yw wedi ei ddatganoli a sicrheir trwy ddeddfwriaeth yn cael ei gadw mewn effaith yng Nghymru. Gallai materion o gymhwysedd deddfwriaethol y mae angen eu trafod gydag adrannau Llywodraeth y DU hefyd godi cyn y gellir cwblhau’r cyfarwyddiadau neu ddrafftio’r Bil.

7.41 Dylai timau Biliau sicrhau eu bod yn gyfarwydd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, *‘Liaison with the UK Government on Assembly*

*Bills, Parliamentary Bills, Orders modifying the Assembly’s legislative competence and changes to the Welsh Ministers’ executive functions’*. Gweler canllawiau pellach ym Mhennod 12 hefyd.

### Yr amser sydd ei angen ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau a drafftio’r Bil

7.42 Mae’n hanfodol i lwyddiant prosiect Bil bod y tîm yn neilltuo digon o amser ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau a drafftio’r Bil. Os na chaniateir digon o amser ar gyfer hyn yna gallai nifer o anawsterau godi: efallai na fydd y Bil yn barod mewn pryd i gael ei gyflwyno i’r Cynulliad, sy’n golygu y bydd rhaid i’r Llywodraeth roi’r gorau iddo; efallai y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno i’r Cynulliad â gwallau neu hepgoriadau y mae angen ymdrin â nhw yn ystod hynt y Bil drwy’r Cynulliad – gallai hyn adlewyrchu’n wael ar y Llywodraeth a bydd amser y Cynulliad yn cael ei dreulio’n ddiangen ar welliannau’r Llywodraeth; neu efallai y bydd y Bil yn cynnwys gwallau neu hepgoriadau na fydd unrhyw un yn sylwi arnynt tan ar ôl ei ddeddfu ac ni fydd polisi’r Llywodraeth yn cael ei gyflawni felly.

7.43 Pan fo penderfyniadau yn cael eu gwneud am faint o amser sydd ei angen ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau a drafftio’r Bil, dylid cofio’r ffactorau a ganlyn:

a. Yn gyntaf, mae angen i’r polisi ar gyfer deddfwriaeth ddrafft gael ei ddatblygu i gyrraedd lefel uchel o gywirdeb a manylder. Hyd yn oed ar ôl i’r polisi gael ei ddatblygu at foddhad swyddogion polisi yn y Grŵp, mae’n debygol y bydd angen ei ddiwygio (yn sylweddol weithiau) i adlewyrchu cyngor cynghorwyr cyfreithiol a safbwyntiau Grwpiau eraill â buddiant – bydd hyn oll yn cymryd amser.

b. Yn ail, efallai na fydd yn bosibl i waith drafftio ddechrau cyn gynted ag y bydd Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn derbyn y cyfarwyddiadau. Bydd y Prif Gwnsler Deddfwriaethol neu’r prif ddrafftiwr a neilltuwyd i’r Bil yn gallu dweud a yw hyn yn wir ai peidio.

c. Yn drydydd, mae’r broses o droi’r cyfarwyddiadau yn adrannau ymarferol yn aml yn un hirfaith a chymhleth. Bydd fel arfer yn cymryd cryn amser i’r drafftiwr ddod yn gyfarwydd â’r cyfarwyddiadau a’r gyfraith bresennol cyn y gellir llunio adrannau drafft ac yn aml bydd angen i’r drafftiwr ac aelodau eraill o dîm y Bil ohebu â’i gilydd fwy nag unwaith er mwyn mireinio’r drafft cyntaf fel bod pawb yn hapus ag ef.

d. Yn olaf, wrth ddrafftio, bydd y drafftiwr yn aml yn codi cwestiynau polisi a chyfreithiol na ragwelwyd sydd angen eu hateb cyn y gellir gwneud cynnydd. Weithiau mae ateb y cwestiynau hyn yn golygu ymgynghori â Gweinidogion, Grwpiau eraill a rhanddeiliaid. Mae angen neilltuo amser ar gyfer hyn felly.

## Anfon y cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol

7.44 I gychwyn, dylid anfon y cyfarwyddiadau drafftio at y Prif Gwnsler Deddfwriaethol, a fydd yn neilltuo'r prosiect i dîm drafftio (dau Gwnsler Deddfwriaethol fel arfer). Bydd Rheolwr y Bil a'r swyddog(ion) sy'n llunio cyfarwyddiadau yn cael eu hysbysu cyn gynted ag y bydd y Prif Gwnsler Deddfwriaethol wedi neilltuo'r Bil i un drafftiwr penodol neu fwy nag un ohonynt. Wedi hynny, gellir cyfeirio'r holl gyfarwyddiadau a gohebiaeth yn y dyfodol at y drafftwyr hynny.

7.45 Yn ddelfrydol, dylid anfon yr holl gyfarwyddiadau ar gyfer Bil i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae'r amserlenni ar gyfer paratoi Biliau yn dueddol o fod yn fyr ac nid yw'n ddefnyddiol o dan yr amgylchiadau hynny i gadw cyfarwyddiadau yn ôl er mwyn gallu anfon popeth gyda'i gilydd. Wrth benderfynu a yw'n briodol anfon cyfarwyddiadau fesul dipyn, efallai y bydd o gymorth i Reolwr y Bil a'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau siarad â'r Prif Gwnsler Deddfwriaethol neu'r prif ddrafftiwr a neilltuwyd i'r Bil.

7.46 Bydd ffactorau i'w cadw mewn cof wrth ystyried dull o'r fath yn cynnwys:

a. a all y drafftiwr ddeall pob rhan yn iawn heb y cyfarwyddiadau sydd eto i ddod;

b. a oes perygl y gallai fod angen ailwampio darpariaethau a ddrafftiwyd mewn ymateb i un set o gyfarwyddiadau ar ôl derbyn rhagor o gyfarwyddiadau ac, os felly, pa un a yw'r angen i roi cyfle i'r drafftiwr fwrw ymlaen yn drech na'r perygl hwnnw;

c. a fyddai blaenoriaethau eraill y drafftiwr yn caniatáu i waith ddechrau ar un set o gyfarwyddiadau pe bai'n cael ei hanfon cyn y cyfarwyddiadau eraill.

7.47 Pan fo cyfarwyddiadau'n cael eu hanfon fesul dipyn, mae'n ddefnyddiol os gall y Grŵp gynnig trosolwg cryno o'r nifer o setiau o gyfarwyddiadau sy'n debygol ac am beth y bydd pob set. Bydd hyn yn rhoi syniad i'r drafftiwr sut y bydd unrhyw set benodol yn ffitio i mewn i'r Bil yn ei gyfanrwydd.

7.48 Dylai Rheolwr y Bil geisio sicrhau bod pawb sydd â buddiant yn y polisi wedi cymeradwyo'r cyfarwyddiadau, neu ran o'r cyfarwyddiadau, cyn iddynt gael eu hanfon i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Yn yr un modd, dylid ymdrechu i sicrhau bod y polisi wedi cael ei ddatblygu'n llawn cyn i'r cyfarwyddiadau gael eu hanfon. Fodd bynnag, cydnabyddir pan fo terfynau amser yn arbennig o dynn y gallai fod angen ystyried anfon cyfarwyddiadau at y drafftiwr er nad yw'r polisi wedi cael ei gymeradwyo'n derfynol neu hyd yn oed os oes bylchau yn

y polisi. Os oes ganddo amheuon ynghylch a yw'n briodol anfon cyfarwyddiadau yn yr achosion hyn, dylai Rheolwr y Bil ofyn am gyngor gan y Prif Gwnsler Deddfwriaethol neu'r drafftwyr a neilltuwyd i'r Bil.

7.49 Pan anfonir cyfarwyddiadau cyn i'r polisi gael ei gadarnhau'n derfynol, dylai'r cyfarwyddiadau ei gwneud yn eglur mai dyma'r achos.

### Newidiadau i'r polisi ar ôl anfon y cyfarwyddiadau

7.50 Os caiff polisi ei newid ar ôl i gyfarwyddiadau gael eu hanfon, mae'n hanfodol bod y drafftiwr yn cael gwybod cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi gwaith diangen. Bydd angen i Reolwr y Bil a'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau drafod gyda'r drafftiwr hefyd y ffordd fwyaf briodol o ddarparu cyfarwyddiadau ar y polisi diwygiedig. Gweler hefyd baragraff 7.25.

## Cynnwys y cyfarwyddiadau

### Pwyntiau cyffredinol

7.51 Bydd trafodaeth gynnar gyda'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau ar yr hyn a ddisgwylir yn hynod werthfawr i'r tîm polisi. Mae hefyd yn werth treulio amser yn cynllunio sut y bydd y cyfarwyddiadau terfynol i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn cael eu datblygu, eu gwirio, a'u cadarnhau (gan gynnwys gan y Prif Berchennog Cyfrifol).

7.52 Er y gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant gynnig enghreifftiau o gyfarwyddiadau, mae pob Bil yn wahanol. Dylid trefnu'r deunydd yn y cyfarwyddiadau yn y ffordd y mae'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau yn credu sy'n 'adrodd y stori' orau: y cynnwys, nid y ffurf, sy'n bwysig.

7.53 Wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau i'r Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, mae'n help i gymryd cam yn ôl a cheisio dychmygu sut y bydd hi i'r drafftiwr sy'n dechrau o'r dechrau ar y pwnc. Yn aml, mae angen unigolyn sydd wedi ymdrwytho mewn pwnc ers cryn amser gymryd gofal amdano i sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu'n eglur i rywun nad yw'n gyfarwydd ag ef.

7.54 Dylai'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau geisio sicrhau bod y polisi wedi ei ystyried a'i ddadansoddi'n llawn cyn cwblhau'r cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Ond wedi dweud hyn, pan fo pwysau arbennig ar yr amserlen sy'n effeithio ar baratoi'r cyfarwyddiadau, bydd o gymorth i drafod yr anawsterau hyn gyda'r drafftiwr a chytuno ar y ffordd orau o ymdrin â nhw.

7.55 Wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau, mae'n bwysig cofio bod y drafftiwr yn rhan o dîm y Bil hefyd. Mae hyn yn golygu y dylai'r cyfarwyddiadau fod

yn gwbl onest am unrhyw anawsterau y mae'r tîm yn ymwybodol ohonynt gyda'r hyn sy'n cael ei gynnig. Er enghraifft, efallai fod bwlch yn y polisi neu wall nad yw wedi cael ei ddatrys eto. Trwy drafod y mathau hyn o anawsterau yn y cyfarwyddiadau, byddwch yn tynnu sylw'r drafftiwr atynt heb iddo orfod chwilio amdanynt ei hun. Efallai y bydd y drafftiwr yn gallu cynnig ateb neu ffordd ymlaen na ystyriwyd eto.

7.56 Mae'n bwysig cofio'r rheol gyffredinol mai dim ond syniadau deddfwriaethol y dylid eu cynnwys mewn Bil. Syniadau sy'n newid y gyfraith yw'r rhain – maent yn cyflwyno sefyllfa gyfreithiol na fyddai'n bodoli ar wahân i'r Bil. Yn hytrach na gofyn i ddarpariaethau anneddfwriaethol gael eu cynnwys yn y Bil, dylid ystyried a ellir gwneud y pwynt mewn ffordd arall, fel mewn Datganiad Gweinidogol i'r Cynulliad, yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil neu mewn canllawiau.

## Strwythur a chynnwys y cyfarwyddiadau

7.57 Dylai'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau benderfynu ar strwythur y cyfarwyddiadau ac ar eu cynnwys ar sail yr hyn sy'n debygol o fod fwyaf defnyddiol i'r drafftiwr. Dylai'r canllawiau isod helpu i benderfynu beth fydd fwyaf defnyddiol ond dylai'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau deimlo'n rhydd i wyro oddi wrth y canllawiau os yw'n ymddangos bod ffordd well o ymdrin â phethau. Dylai'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau hefyd deimlo'n rhydd i drafod y strwythur gorau ar gyfer y cyfarwyddiadau gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

7.58 Strwythur defnyddiol ar gyfer y cyfarwyddiadau yn aml fydd eu rhannu'n bum rhan:

a. cyflwyniad;
b. y gyfraith bresennol;
c. cynigion manwl;
d. materion atodol a chysylltiedig;
e. materion trin y Cynulliad ac eraill.

Mae'r canllawiau ar bob rhan fel a ganlyn.

## Rhan 1 y Cyfarwyddiadau – Cyflwyniad

7.59 Prif ddiben y rhan hon o'r cyfarwyddiadau yw cynnig crynodeb byr i'r drafftiwr o'r polisi y mae'r Gweinidog yn dymuno ei ddilyn. Nid oes angen i'r crynodeb fod yn fanwl – y nod syml yw cynnig awgrym i'r drafftiwr o gyfeiriad y cyfarwyddiadau. Er enghraifft (yn unig), gallai crynodeb y polisi ddweud rhywbeth fel hyn:

> *"Mae'r Llywodraeth yn dymuno rheoleiddio gweithgareddau pobl sy'n gwerthu tân gwyllt. At y diben hwn, mae'r Llywodraeth yn dymuno atal unrhyw un rhag gwerthu tân gwyllt heb drwydded a*

*gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Bydd angen i'r Bil wneud darpariaeth ynghylch gwneud ceisiadau am drwyddedau a'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni i gais fod yn llwyddiannus. Mae'r Llywodraeth eisiau i Weinidogion Cymru allu gorfodi amodau ar ddeiliaid trwydded a gallu archwilio gweithgareddau deiliaid trwydded.  Mae'r Llywodraeth yn dymuno iddi fod yn bosibl i bobl apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Weinidogion Cymru yng nghyswllt y drefn drwyddedu."*

7.60 Hefyd, dylai'r rhan hon o'r cyfarwyddiadau:

a. nodi'n gryno y cefndir ffeithiol a gwleidyddol i'r cynnig i ddeddfu. I barhau â'r enghraifft uchod, efallai y bydd y cyfarwyddiadau yn crybwyll y problemau diweddar sydd wedi codi yng nghyswllt gwerthu tân gwyllt. Gallai'r cyfarwyddiadau sôn am ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd ar sefydlu'r drefn drwyddedu arfaethedig ac unrhyw ymrwymiadau Gweinidogol i'w sefydlu. Os yw'r cynnig i ddeddfu yn ymateb i gyfraith achosion ddiweddar, dylid crybwyll y ffaith hon.

b. cynnwys rhybudd yn rhan ragarweiniol y cyfarwyddiadau os yw materion arbennig o anodd mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol, cyfraith yr UE neu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn debygol o godi yn sgil y cyfarwyddiadau (er y dylid gadael esboniad manwl tan yn ddiweddarach).

c. crybwyll os oes unrhyw reswm penodol i feddwl y gallai'r cynigion newid. Er enghraifft, dylid sôn os oes unrhyw rai o'r cynigion sydd heb gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog eto, os nad yw Gweinidogion eraill wedi cytuno arnynt, neu os ydynt yn destun ymgynghoriad parhaus.

d. cyflwyno unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdur yn meddwl y byddai o gymorth i'r drafftiwr ei gwybod o'r cychwyn. Er enghraifft, gallai fod o gymorth crybwyll unrhyw acronymau neu fyrfoddau a ddefnyddir yn y cyfarwyddiadau. Gallai fod yn syniad da darparu dolen rhyngrwyd i unrhyw ddogfennau ymgynghori neu gyhoeddiadau perthnasol eraill.

### Rhan 2 y Cyfarwyddiadau – Y Gyfraith bresennol

7.61 Dylai'r rhan hon o'r cyfarwyddiadau nodi ac esbonio'r gyfraith bresennol sy'n berthnasol i'r cynigion. Mae drafftwyr yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn tueddu i beidio ag arbenigo mewn meysydd penodol o'r gyfraith. Efallai y bydd angen i'r drafftiwr ddibynnu ar y rhan hon o'r cyfarwyddiadau er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r dirwedd gyfreithiol y gofynnir iddo weithredu ynddi. Hyd yn oed os bydd y drafftiwr yn digwydd meddu ar rywfaint o

brofiad o faes y gyfraith dan sylw, gall datganiad o'r gyfraith gan rywun sy'n gyfarwydd â hi fod yn hynod werthfawr.

7.62 Bydd angen i'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau:

a. fod yn ofalus wrth benderfynu pa gyfreithiau presennol ddylid eu cynnwys a faint o fanylder i fynd iddo. Bydd yr hyn sy'n briodol mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar natur y cynigion a'r hyn y gofynnir i'r drafftiwr ei wneud. Er enghraifft, os bydd natur y cynigion yn golygu y gofynnir i'r drafftiwr baratoi amrywiaeth eang o ddiwygiadau i drefn statudol sy'n bodoli eisoes, bydd angen darparu esboniad trylwyr o'r drefn sy'n canolbwyntio, yn benodol, ar yr agweddau arni y bydd angen eu diwygio. Mewn cyferbyniad, os bydd y cynigion yn golygu diddymu trefn statudol bresennol efallai mai'r cwbl y bydd angen ei roi i'r drafftiwr yw awgrym o le y gellir dod o hyd i'r drefn bresennol ac esboniad cryno o'r hyn y mae'r drefn yn ymwneud ag ef.

b. ceisio esbonio'r gyfraith bresennol yn hytrach na dim ond copïo neu aralleirio pob darpariaeth statudol yr ystyrir sy'n berthnasol. Yr hyn a fydd o gymorth i'r drafftiwr yw rhywbeth sydd, yn benodol: yn nodi nodweddion amlycaf y gyfraith bresennol ac yn hwyluso dealltwriaeth gyflym o'i strwythur a'i heffaith; yn nodi mân wahaniaethau mewn ystyr yn y gyfraith bresennol a allai gael eu methu'n rhwydd; yn tynnu sylw at unrhyw benderfyniadau neu farn sy'n mynd yn groes i'w gilydd ac yn effeithio ar y dehongliad o'r gyfraith bresennol; yn amlygu nodweddion o'r gyfraith bresennol sydd o bwysigrwydd arbennig yng nghyd-destun y cynigion.

c. esbonio sut y mae'r gyfraith bresennol yn gweithio'n ymarferol os nad yw hyn yn amlwg. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r gyfraith bresennol, fel sy'n digwydd weithiau, yn gweithredu mewn ffordd a allai synnu'r drafftiwr.

d. ystyried a fyddai'n ddefnyddiol darparu rhywfaint o hanes y gyfraith bresennol. Er enghraifft, pe bai'r ddeddfwriaeth bresennol yn ganlyniad ymarfer cydgrynhoi, efallai y byddai'n ddefnyddiol dweud hyn wrth y drafftiwr a dweud wrtho ymhle y gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth wreiddiol y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn deillio ohoni. Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i'r drafftiwr os mai diben y ddeddfwriaeth bresennol oedd rhoi effaith i gynigion a geir mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith. Weithiau, gallai fod o gymorth i'r drafftiwr pe bai'n cael esboniad o pam y gwnaed diwygiad blaenorol i'r ddeddfwriaeth bresennol (e.e. i wrthdroi effaith penderfyniad llys annymunol neu i weithredu rhwymedigaeth ryngwladol).

e. crybwyll unrhyw newidiadau perthnasol i'r gyfraith bresennol sydd yn yr arfaeth. Er enghraifft, dylid hysbysu'r drafftiwr os yw'r gyfraith

bresennol yn mynd i gael ei newid gan Fil arall neu gan offeryn statudol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio arno neu y mae Llywodraeth y DU yn ei ddatblygu.

7.63 Er ei bod yn bwysig bod y drafftiwr yn cael digon o gefndir y maes y mae'n mynd i fod yn gweithredu ynddo, nid oes angen darparu traethawd ar y gyfraith bresennol. Mae angen cymryd gofal i osgoi syrthio i'r fagl o gynnwys deunydd yn y rhan hon o'r cyfarwyddiadau nad yw'n berthnasol o gwbl i'r cynigion dim ond er mwyn bod yn gynhwysfawr. Mae'n wastraff amser yr awdur i lunio disgrifiad hirfaith o ddeddfwriaeth neu gyfraith achosion os na fydd yn cael unrhyw effaith ar y gwaith drafftio yn y pen draw.

7.64 Os nad yw'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau yn siŵr faint o fanylion i'w cynnwys yn y rhan hon o'r cyfarwyddiadau, gallai fod o gymorth trafod y mater gyda'r drafftiwr neu (os nad oes drafftiwr wedi ei neilltuo i'r Bil eto) y Prif Gwnsler Deddfwriaethol.

### Rhan 3 y Cyfarwyddiadau – Cynigion manwl

7.65 Dylai'r rhan hon o'r cyfarwyddiadau esbonio'n fanwl:

a. yr amcan polisi y mae'r Grŵp yn dymuno ei fodloni

b. y newidiadau i gyfraith y mae'r Grŵp eisiau eu gwneud er mwyn bodloni'r amcan hwnnw.

7.66 Mae'n demtasiwn weithiau i hepgor yr elfen gyntaf a mynd yn syth i ddisgrifio'r newidiadau i'r gyfraith y mae'r Grŵp eisiau eu gwneud. Ceir dau reswm pam mae'n bwysig cynnwys esboniad manwl o amcan y polisi. Y cyntaf yw y bydd yr esboniad yn galluogi'r drafftiwr i asesu a fydd y newidiadau y gofynnir amdanynt i'r gyfraith yn bodloni'r amcan. Yr ail reswm yw y gallai'r esboniad alluogi'r drafftiwr i awgrymu newid arall i'r gyfraith pe bai'r drafftiwr yn nodi anhawster gyda'r newid a awgrymwyd yn y cyfarwyddiadau.

7.67 Pan ddaw i ddisgrifio'r newidiadau i'r gyfraith y mae'r Grŵp eu heisiau, canolbwyntio ar sylwedd y newidiadau arfaethedig yw'r peth pwysig. Mewn geiriau eraill, ar ba effaith gyfreithiol y mae'r Grŵp eisiau i'r Bil ei chyflawni (e.e. *"dylai'r Bil ei gwneud yn drosedd i wneud A, B neu C*"; "dylai'r Bil roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud A, B, ac C"; "dylai'r Bil ddiddymu corff A" etc).

7.68 Fodd bynnag, ar ôl i'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau gyflwyno sylwedd y newidiadau arfaethedig, nid oes unrhyw reswm pam na ddylid crybwyll hefyd unrhyw safbwyntiau sydd ganddo ynghylch y ffurf y dylid ei dilyn ar gyfer y newidiadau. Er enghraifft, os bydd yr awdur yn meddwl y dylai'r newidiadau arfaethedig fod ar ffurf darpariaeth annibynnol yn hytrach na diwygiad i Ddeddf bresennol, yna dylai'r

awdur deimlo'n rhydd i ddweud hynny. Os bydd y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau yn credu y dylai'r newidiadau arfaethedig fod ar ffurf debyg i ddarpariaeth statudol bresennol, dylai gyfeirio'r drafftiwr at y ddarpariaeth dan sylw. Os oes gan y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau ffurf benodol o eiriau a allai gyfleu hanfod prawf neu reol arfaethedig, ni ddylai oedi o gwbl cyn cynnwys y geiriau yn y cyfarwyddiadau. Os yw awdur y cyfarwyddiadau yn dewis gwneud awgrymiadau drafftio o'r fath, bydd y drafftiwr yn fwy na bodlon i'w hystyried.

7.69 Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw cynnig awgrymiadau drafftio o'r math hwn yn golygu y gellir hepgor rhoi esboniad eglur o sylwedd y newid arfaethedig a ddymunir. Ni fydd y drafftiwr yn gallu llunio darpariaethau drafft, nac asesu rhinweddau unrhyw awgrymiadau drafftio a wneir oni bai bod y drafftiwr wedi derbyn esboniad eglur o ba newid o sylwedd i'r gyfraith y ceisir ei gyflawni.

7.70 Wrth ddisgrifio'r newidiadau o sylwedd i'r gyfraith a ddymunir, mae angen cyflwyno'r manylion yn llawn. Os oes bylchau yn y manylion a ddarperir, efallai y bydd angen i'r drafftiwr droi at y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau a swyddogion polisi i'r bylchau gael eu llenwi cyn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith drafftio. Fel arall, gall y drafftiwr barhau i ddrafftio ar sail ei amcan gorau o'r hyn y bydd ei eisiau - ond bydd perygl wedyn y bydd ei amcan yn anghywir ac y bydd angen diwygio'r drafft.

7.71 Wrth ddisgrifio'r newidiadau arfaethedig i'r gyfraith, bydd angen, wrth gwrs, i'r swyddog sy'n llunio'r cyfarwyddiadau wneud dyfarniad ynghylch faint o fanylion sy'n ofynnol. Ond mae'n fan cychwyn da i'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau feddwl am yr hyn y byddai'n dymuno ei wybod pe gofynnir iddo ddrafftio darpariaethau i roi effaith i'r newid. Mae'r canlynol yn dangos lefel y manylder sydd ei hangen, trwy gyfeirio at fathau penodol o newidiadau cyfreithiol y gofynnir amdanynt yn aml:

a. *Trosedd newydd* – bydd angen i'r cyfarwyddiadau nodi'r gweithredoedd neu'r anweithiau na ddylid eu caniatáu, elfen feddyliol y drosedd, y math o dreial ar gyfer y drosedd (h.y. crynodeb yn unig, profadwy y naill ffordd neu'r llall neu dditiadwy yn unig), y gosb arfaethedig ar gyfer y drosedd ac a oes angen cydsyniad unrhyw berson i erlyn. Os oes eisiau amddiffyniadau, bydd angen cyflwyno'r amgylchiadau pan ddylai amddiffyniadau fod ar gael. Bydd hefyd yn angenrheidiol cyflwyno, o ran y drosedd ac unrhyw amddiffyniadau, ymhle y gorwedd y baich profi, a safon y prawf sydd i'w gymhwyso. Dylai'r cyfarwyddiadau hefyd ddweud a oes eisiau darpariaethau arbennig i ymdrin ag atebolrwydd dirprwyol neu atebolrwydd cyfarwyddwyr cwmni.

b. *Pŵer newydd i wneud is-ddeddfwriaeth* – bydd angen i'r cyfarwyddiadau egluro'r union gwmpas y bwriedir i'r pŵer ei gael, sut yr ystyrir y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio, y person y dylid rhoi'r pŵer iddo ac a ddylai'r person hwnnw allu dirprwyo'r pŵer i rywun arall, y math o graffu gan y Cynulliad y bydd y pŵer yn ddarostyngedig iddo (gan ystyried y ffactorau ar gyfer gweithdrefn gadarnhaol neu negyddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler Pennod 10)), ac a fydd y pŵer yn cael ei arfer trwy offeryn statudol (fel bod Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys).

c. *Dyletswyddau newydd* – bydd angen i'r cyfarwyddiadau nodi'r amgylchiadau pan fydd y ddyletswydd yn codi, union natur y ddyletswydd ac ar ba berson y bydd y ddyletswydd yn cael ei gorfodi. Ond bydd hefyd angen i'r cyfarwyddiadau esbonio sut y bydd y ddyletswydd yn cael ei gorfodi. Efallai mai'r bwriad yw gorfodi trwy gosb droseddol neu gosb sifil, neu drwy wneud cydymffurfio â'r ddyletswydd yn rhag-amod ar gyfer cael unrhyw hawl neu fudd. Os bydd y ddyletswydd yn ddyletswydd cyfraith gyhoeddus, efallai mai'r bwriad fydd dibynnu ar adolygiad barnwrol i'w gorfodi. Os yw'r ddyletswydd yn ddyletswydd i gydymffurfio â gorchymyn llys, gellid cynnig dibynnu ar y gyfraith sy'n llywodraethu dirmyg llys. Hyd yn oed pan na fydd angen mynegi'r dull gorfodi yn y Bil, dylid cyflwyno esboniad o'r dull gorfodi yn y cyfarwyddiadau er gwaethaf hynny, fel bod y drafftiwr yn deall yn glir beth a fwriedir.

d. *Pwerau gwneud penderfyniadau newydd* – pan fwriedir i'r Bil roi pŵer gwneud penderfyniad i rywun, bydd rhaid i'r cyfarwyddiadau nodi, ymhlith pethau eraill, fanylion unrhyw ofynion gweithdrefnol y dylai'r Bil eu gorfodi fel rhag-amod ar gyfer arfer y pŵer. Bydd yn ofynnol i'r cyfarwyddiadau ddweud a ddylid gallu dirprwyo'r pŵer i wneud penderfyniad. Bydd hefyd yn angenrheidiol i'r cyfarwyddiadau nodi manylion unrhyw fecanwaith apelio neu adolygu y mae angen darparu ar ei gyfer yn y Bil.

7.72 Wrth ddisgrifio paramedrau newid arfaethedig i'r gyfraith mae weithiau o gymorth i gyflwyno enghreifftiau o'r math o achos y bydd y newid i'r gyfraith yn effeithio arno a'r math o achos na ddylai gael ei effeithio. Felly, wrth wneud cais i greu trosedd, gallai fod o gymorth rhoi enghreifftiau o'r math o ymddygiad ddylai ac na ddylai gael ei wneud yn drosedd. Pan fydd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu, dylai'r cyfarwyddiadau hefyd gynnwys dadansoddiad o'r hyn sy'n gwahaniaethu'r ddau fath o achos.

7.73 Weithiau, bydd sawl ffordd y gellid newid y gyfraith er mwyn bodloni'r amcan polisi. Mewn sefyllfa fel hon, dylai'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau esbonio'n gryno pam mae'r opsiwn a ddewiswyd wedi cael ei ffafrio dros y lleill. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol os gallai un o'r opsiynau eraill ymddangos ar yr olwg gyntaf yn fwy deniadol neu syml na'r opsiwn a ddewiswyd.

7.74 Dylai'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau ystyried a oes angen dweud unrhyw beth am unrhyw un o'r materion atodol a chysylltiedig a restrir isod.

7.75 Os yw cyfarwyddiadau ar y Bil yn cael eu gwneud fesul dipyn, efallai y gellir rhoi sylw i rai o'r materion atodol a chysylltiedig mewn set gyffredinol o gyfarwyddiadau sy'n berthnasol i'r Bil cyfan fel nad oes angen rhoi sylw iddynt ar wahân ym mhob un o'r setiau o gyfarwyddiadau sy'n weddill.

7.76 O ran rhai o'r materion atodol a chysylltiedig – fel cychwyn – bydd angen dweud rhywbeth bob amser yn y cyfarwyddiadau (oni bai bod y materion hynny wedi cael eu trafod mewn set gyffredinol eisoes). Ond dim ond yn achlysurol y bydd angen rhoi sylw i rai o'r materion hyn.

7.77 Mae'r materion atodol a chysylltiedig fel a ganlyn:

a. materion yn ymwneud â chyfraith yr UE;[8]
b. cydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
c. rhychwant tiriogaethol y cynigion (gan gynnwys pa un a ddylai'r cynigion ymestyn i'r môr tiriogaethol);
d. materion cymhwysedd deddfwriaethol;
e. cymhwyso i'r Goron;
f. diwygiadau canlyniadol a diddymiadau;
g. darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed;
h. cychwyn;
i. ôl-weithredu.

7.78 Nid oes angen mwy o eglurhad ar lawer o'r materion a restrir uchod, neu maent yn destun canllawiau manwl rywle arall. Ond mae angen gwneud sylwadau ychwanegol ar nifer o'r materion:

a. *materion yn ymwneud â chyfraith yr UE* – weithiau, bydd materion yn ymwneud â chyfraith yr UE yn gwbl ganolog i'r cynigion. Er enghraifft, efallai mai gweithredu Cyfarwyddeb yw'r union ddiben. Ar yr adegau hyn, bydd yn fwy priodol i'r gyfraith yr UE berthnasol gael ei thrin yn gynharach yn y cyfarwyddiadau; ar adegau eraill, bydd yn fwy priodol ymdrin â materion yn ymwneud â chyfraith yr UE yn y set hon o gyfarwyddiadau. Os hoffech ganllawiau pellach ar gyfraith yr UE yn gyffredinol ac ar ei gweithrediad domestig, gweler y rhan ar Gyfraith Ewrop ar LION (Rhwydwaith Gwybodaeth

[8] Er bod Llywodraeth y DU wedi tanio Erthygl 50 Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2017, mae'r DU yn dal i fod yn rhan o'r UE ar adeg ysgrifennu'r geiriau hyn ac yn dal i ufuddhau i gyfraith yr UE, ac mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i Ddeddfau'r Cynulliad fod yn gydnaws â chyfraith yr UE. Bydd y llawlyfr yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r mater hwn yn y dyfodol.

Gyfreithiol Ar-lein), y gellir cael mynediad ato drwy Gwasanaethau Cyfreithiol.

- Un enghraifft o fater yn ymwneud â chyfraith yr UE a allai godi o dro i dro yw cydnawsedd â'r Gyfarwyddeb E-fasnach (2000/12/EC). Mae'r Gyfarwyddeb hon yn cynnwys darpariaethau yn cyfyngu ar bŵer aelod-wladwriaethau i orfodi rhwymedigaethau, yn gyffredinol, ar weithgarwch ar y rhyngrwyd. Pan allai'r cynigion effeithio ar weithgarwch rhyngrwyd, dylai'r cyfarwyddiadau esbonio a yw'r Gyfarwyddeb yn effeithio ar y cynigion ac a oes angen unrhyw ddarpariaethau i wneud y Bil yn gydnaws â hi.

- Cyfarwyddeb arall y gallai fod angen ei hystyried yw'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol (Cyfarwyddeb 98/34/EC, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 98/48/EC). Mae'r Gyfarwyddeb hon yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau hysbysu'r Comisiwn am unrhyw "safonau technegol" y maent yn bwriadu eu creu. (Mae enghreifftiau o safonau technegol yn cynnwys gosod y nodweddion sy'n ofynnol gan gynnyrch cyn y gellir ei farchnata; ei gwneud yn ofynnol i gynnyrch gael ei gymeradwyo cyn y gellir ei farchnata; gwahardd cynnyrch rhag cael ei farchnata; a gorfodi gofynion o ran cyfansoddiad cynnyrch.) Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gael ei hysbysu am ofynion penodol sydd i'w gorfodi ar y defnydd o wasanaethau cymdeithas wybodaeth (gwasanaethau ar y rhyngrwyd yn bennaf). Yr Adran sy'n gyfrifol am nodi'r safonau technegol, a hysbysu'r Comisiwn amdanynt, ond dylai'r cyfarwyddiadau ddweud os bydd cynigion gyfystyr â safon dechnegol.

b. *Cydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol* – mae angen i'r drafftiwr ddeall y dadansoddiad o ran pa un a yw'r cynigion yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac, os felly, a ydy'r cynigion yn cyd-fynd â'r hawliau hynny. Nid yw'n rhan o swyddogaeth y drafftiwr i gadarnhau a yw dadansoddiad o'r fath yn gywir, ond mae angen esboniad cryno o'r dadansoddiad er mwyn rhoi gwybod i'r drafftiwr bod y materion angenrheidiol wedi cael eu hystyried.

c. *Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau* – yn aml bydd darpariaethau statudol presennol yn destun diwygiadau canlyniadol neu ddiddymiadau o ganlyniad i'r cynigion. Dylid cynnwys y diwygiadau canlyniadol a'r diddymiadau sydd eu hangen yn y Bil ei hun. Os ceir pryder y bydd yr angen am ddiwygiadau canlyniadol neu ddiddymiadau yn codi ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, yna gallai hefyd fod yn briodol i'r Bil gynnwys pŵer i wneud mwy o ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau trwy reoliadau.

- O dan amgylchiadau eithriadol, gall y Bil roi grym sy’n golygu bod modd gwneud yr holl ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau angenrheidiol trwy reoliadau. Efallai y bydd yr opsiwn hwn yn ymddangos yn ddeniadol i gychwyn pan fo amser yn brin ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau. Ond mae’n bwysig cofio hefyd os caiff y gwaith o ddrafftio diwygiadau canlyniadol a diddymiadau ei adael tan ar ôl Cydsyniad Brenhinol, ni fydd Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn gyfrifol am baratoi’r drafft. Yn fwy uniongyrchol, gallai manwysiadu dull o’r fath arwain at feirniadaeth o’r llywodraeth, yn arbennig oherwydd y gallai fod angen gweld y diwygiadau canlyniadol i ddeall yn iawn y newid i’r gyfraith a geisir. Hefyd, mae weithiau’n wir fod problemau gyda phrif ddarpariaethau’r Bil, neu hepgoriadau, yn dod i’r amlwg yn ystod y broses o ddrafftio’r diwygiadau canlyniadol a’r ddiddymiadau – os bydd y gwaith drafftio hwn yn cael ei adael tan ar ôl Cydsyniad Brenhinol, bydd yn rhy hwyr i ddatrys y problemau neu’r hepgoriadau hynny. Yn olaf, dylid cofio os bydd drafftio’r diwygiadau canlyniadol a’r diddymiadau yn cael ei adael tan ar ôl Cydsyniad Brenhinol, gall achosi oedi cyn gweithredu.

- Efallai y bydd yn ddigonol darparu rhestr syml o’r holl ddarpariaethau presennol sydd angen eu diwygio neu eu diddymu yn y cyfarwyddiadau ar ddiwygiadau canlyniadol a chysylltiedig. Er enghraifft, os mai’r cynnig yw diddymu corff statudol presennol a throsglwyddo ei swyddogaethau i gorff newydd efallai y bydd yn ddigonol i’r cyfarwyddiadau ddarparu rhestr syml o’r holl ddarpariaethau presennol sy’n cyfeirio at yr hen gorff ar y sail y bydd yn amlwg i’r drafftiwr bod angen diwygio’r darpariaethau rhestredig i gyfeirio at y corff newydd. Fodd bynnag, ar rai achlysuron, ni fydd yn amlwg ar unwaith sut y dylid diwygio’r darpariaethau rhestredig felly dylid esbonio yn y cyfarwyddiadau yn union pa effaith sy’n cael ei cheisio.

d. *Darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed* – dylai’r cyfarwyddiadau ddweud a oes angen darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed yn sgil y cynigion.

- *Darpariaeth drosiannol* yw darpariaeth sy’n ymdrin â sut y bydd achos sy’n dechrau o dan y gyfraith bresennol yn cael ei drin pan fydd y gyfraith newydd yn y Bil yn cael ei chychwyn. Er enghraifft, os yw’r Bil yn disodli trefn drwyddedu bresennol gyda threfn drwyddedu newydd, efallai y bydd angen darpariaeth drosiannol i sicrhau bod cais am drwydded o dan y drefn bresennol na chafwyd penderfyniad yn ei gylch yn cael ei drin fel cais am drwydded o dan y drefn newydd.

- *Darpariaeth ddarfodol* yw un sy’n datgan y bydd darpariaeth yn y Bil yn cael effaith gydag addasiadau am gyfnod cyfyngedig (tan i ddeddfiad arall ddod i rym efallai). Un enghraifft fyddai darpariaeth

sy’n dweud y bydd cyfeiriad yn un o ddarpariaethau’r Bil at uchafswm o 12 mis o garchar yn cael effaith fel cyfeiriad at 6 mis tan y bydd cynnydd cyffredinol mewn cosbau y rhoddir iddo effaith gan Ddeddf arall yn dod i rym.

- *Darpariaeth arbed* yw darpariaeth sy’n cadw deddfiad sy’n cael ei ddiddymu gan y Bil yn fyw at ddibenion penodol, cyfyngedig. Un enghraifft o ddarpariaeth arbed yw un sy’n dweud nad yw diddymu deddfiad presennol gan y Bil yn effeithio ar unrhyw hawl o’r fath (fel yr hawl i dâl) a gafwyd o dan y deddfiad cyn cychwyn y diddymiad.

Yn yr un modd â diwygiadau canlyniadol a diddymiadau, dylid cynnwys y darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed sydd eu hangen yn y Bil ei hun pan fo hynny’n bosibl (gyda phŵer gwneud rheoliadau efallai os ceir pryder y gallai ddod i’r amlwg ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol bod angen darpariaethau o’r fath). Gweler hefyd baragraff 10.15 ar orchmynion cychwyn. Fel posibilrwydd arall, gallai’r Bil roi pŵer yn galluogi i ddarpariaethau o’r fath gael eu gwneud yn ddiweddarach trwy reoliadau. Unwaith eto, gallai’r opsiwn hwn ymddangos yn ddeniadol ar yr olwg gyntaf pan fo amser yn brin ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau. Ond mae’n bwysig cofio, os bydd y gwaith o ddrafftio darpariaethau o’r fath yn cael ei adael tan ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, gallai arwain at oedi cyn gweithredu. Dylid hefyd cofio bod y darpariaethau trosiannol sydd eu hangen yn aml yn gymhleth iawn ac os caiff y gwaith drafftio ei ohirio tan ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, ni fydd Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn gyfrifol am y gwaith drafftio hwnnw.

Dylai’r cyfarwyddiadau ddweud wrth y drafftiwr pa opsiwn y dylid ei ddilyn.

e. *Cychwyn* – dylai’r cyfarwyddiadau ddweud wrth y drafftiwr yr hyn sydd ei eisiau o ran cychwyn y darpariaethau y gofynnwyd amdanynt. Ceir amrywiaeth o opsiynau yma ond mae’n arferol i ddarpariaethau gael eu cychwyn ar ddiwrnod a nodwyd trwy orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru; ar ddyddiad calendr a nodir yn y Bil; ar y diwrnod ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol; ar ddiwedd cyfnod penodedig yn cychwyn gyda Chydsyniad Brenhinol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am gychwyn ym Mhennod 18.

Pan fo’n bosibl, dylai’r diwrnod pan fydd y darpariaethau y gofynnwyd amdanynt yn dod i rym gael ei bennu gan y Bil ei hun (yn hytrach na chan orchmynion a wneir o dan y Bil) – mae hyn yn rhoi mwy sicrwydd i’r rheini sy’n mynd i gael eu heffeithio gan y darpariaethau ac mae hefyd yn arbed trafferth i’r darllenwr o orfod chwilio am orchmynion. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen hyblygrwydd i allu pennu’r diwrnod cychwyn mewn gorchmynion. Dylai’r swyddog sy’n llunio cyfarwyddiadau gofio’r confensiwn yn ymwneud â chychwyn darpariaeth mewn Biliau/Deddfau yn gynnar

– gweler Pennod 18.

### Rhan 5 y Cyfarwyddiadau – materion trin y Cynulliad ac eraill

7.79 Dylai'r rhan hon o'r cyfarwyddiadau nodi unrhyw beth y mae'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau yn credu y dylai'r drafftiwr ei wybod am y ffordd y disgwylir mynd ati i ymdrin â'r Bil. Er enghraifft, dylai nodi (i'r graddau eu bod yn hysbys i'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau):

- unrhyw gynlluniau i'r Bil gael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghori neu graffu cyn y broses ddeddfu a'r amserlen ar gyfer hyn;
- unrhyw faterion sy'n debygol o ddenu ystyriaeth benodol, a'r safbwynt polisi presennol;
- unrhyw angen brys i'r Bil gyrraedd Cydsyniad Brenhinol erbyn dyddiad penodol.

### Awdurdodiad Gweinidogol i'r polisi

7.80 Bydd rhaid i'r polisi terfynol gael ei awdurdodi gan y Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil. Mae'n arfer da i'r Gweinidogion gael clywed yn uniongyrchol gan gyfreithwyr am unrhyw fater cyfreithiol sylweddol sy'n codi neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r gallu i gyflawni agweddau o'r ddeddfwriaeth wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Pan fydd yr arweinydd yn Ddirprwy Weinidog, mae'n rhaid i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb portffolio awdurdodi'r polisi hefyd. Pan fydd Gweinidog portffolio arall yn gyfrifol am elfen o'r Bil, bydd angen iddo yntau hefyd awdurdodi'r polisi. Gweler baragraff 3.5 am enghreifftiau o achosion o'r fath.

7.81 Y Prif Weinidog sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen ddeddfwriaethol a bydd angen iddo awdurdodi'r polisi terfynol hefyd (gan gynnwys unrhyw bolisi mewn cyfarwyddiadau atodol o bwys).

## Drafftio'r Bil

### Cyfarfod cychwynnol gyda'r drafftwyr

7.82 Cyn i'r cyfarwyddiadau neu'r set gyntaf ohonynt gael eu hanfon i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, neu ychydig wedi hynny, gallai fod o gymorth cynnal cyfarfod rhwng y drafftwyr, y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau, yr arweinwyr polisi a Rheolwr y Bil. Gellid defnyddio cyfarfod o'r fath i drafod: yr hyn y mae'r drafftiwr ac aelodau eraill o dîm y Bil yn ei ddisgwyl gan ei gilydd; y cefndir gwleidyddol i'r Bil; yr amserlen ar gyfer anfon y cyfarwyddiadau sy'n weddill a drafftio'r Bil (a sut y gellir rheoli unrhyw risgiau i'r amserlen); dulliau arfaethedig o weithio (er enghraifft, pan fo cyfarwyddiadau yn cael eu hanfon fesul dipyn, ym mha drefn y bydd y drafftiwr yn ymdrin â'r cyfarwyddiadau, y cyfarfodydd a gynhelir etc).

### Ymateb i'r cyfarwyddiadau

7.83 Fel arfer, bydd dau Gwnsler Deddfwriaethol yn cael eu neilltuo i edrych ar bob set o gyfarwyddiadau – bydd un yn arwain y gwaith o ddrafftio a'r cyngor cysylltiedig a, phan fo adnoddau'n caniatáu, bydd un o'r drafftwyr neu'r ddau yn rhugl yn y Gymraeg (os nad yw hynny'n ymarferol, bydd drafftiwr arall yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn ymdrin â materion terminoleg ac yn sicrhau bod testunau Cymraeg a Saesneg y Bil yn cael yr un effaith ar yr adeg briodol). Gweler paragraffau 7.120-121 isod am fanylion y broses gyfwerthedd.

7.84 Wrth i'r drafftwyr astudio'r cyfarwyddiadau, mae'n bosibl iawn y bydd ganddynt gwestiynau i ddechrau y bydd angen eu hateb cyn y gellir gwneud cynnydd gyda'r drafftio. Er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen, mae'n bwysig bod cyfreithiwr a swyddog polisi yn gallu ateb y cwestiynau hyn yn gyflym.

7.85 Bydd y drafftiwr yn llunio darpariaethau drafft wedyn mewn ymateb i'r cyfarwyddiadau. Dylai Rheolwr y Bil deimlo'n rhydd i drafod gyda'r drafftiwr pryd y gellid disgwyl y drafft cyntaf hwn.

7.86 Ac eithrio yn yr achosion mwyaf syml, bydd memorandwm yn cyd-fynd â'r drafft cyntaf a fydd yn gwneud dau beth:

a. esbonio agweddau ar y gwaith drafftio pan fydd y drafftiwr yn credu y gallai hyn helpu eraill i ddeall sut y mae'r darpariaethau wedi cael ei llunio.

b. cyflwyno unrhyw gwestiynau sydd gan y drafftiwr am y polisi, sefyllfa bresennol y gyfraith a materion cysylltiedig.

### Gwneud sylwadau ar ddarpariaethau drafft ac ymateb i'r memo cysylltiedig

7.87 Yn aml, bydd amrywiaeth o swyddogion y mae'n rhaid rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau ar y darpariaethau drafft a rhoi atebion i gwestiynau'r drafftiwr. Mae angen i'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau a Rheolwr y Bil sicrhau bod yr holl ymatebion wedi eu cyd-drefnu.

7.88 Er ei bod yn bwysig bod cwestiynau'r drafftiwr yn cael eu hateb, ar y darpariaethau drafft y dylid rhoi'r prif bwyslais. Ni ddylid ystyried mai cyfrifoldeb y drafftiwr yn unig yw'r darpariaethau drafft. Mae'n hanfodol bod y drafft yn cael ei astudio'n ofalus i wirio ei fod yn gwneud yr hyn a ddymunir yn union. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r drafft yn cyflawni'r polisi, dylid codi hyn yn yr ymateb i'r drafftiwr.

7.89 Bydd angen i swyddogion polisi a chyfreithwyr pwnc feddwl yn ofalus am ddrafftiau yng nghyd-destun eu harbenigedd pwnc, gyda'r bwriad o nodi canlyniadau na fwriadwyd na all y drafftwyr eu darganfod yn rhesymol ar eu pen eu hunain. Argymhellir bod yr adrannau drafft yn

cael eu profi yn erbyn senarios ymarferol i sicrhau eu bod yn bodloni nodau'r polisi; mae hyn yn galluogi tîm y Bil i wneud sylwadau trwy esbonio'r hyn y maent eisiau i ddarpariaeth ei wneud a'r hyn y maent yn credu na allai ei wneud a pham (yn hytrach na gofyn beth mae'n ei wneud).

7.90 Dylid osgoi gofyn unrhyw gwestiynau am effaith darpariaeth ddrafft yn yr ymatebion i'r drafftiwr heb wneud yn eglur hefyd pa effaith sy'n cael ei cheisio mewn gwirionedd, gan y bydd y drafftiwr yn ansicr a fydd angen addasu. Felly, er enghraifft, yn hytrach na gofyn, "a yw'r adran yn ei gwneud yn drosedd i wneud ABC?" dylai'r Grŵp ddweud, "hoffem iddi fod yn drosedd gwneud ABC; ai dyna effaith yr adran fel y'i drafftiwyd?".

7.91 Gellir gwneud mwy na dim ond rhoi sylwadau ar ba un a yw'r darpariaethau drafft yn cyflawni'r polisi yn yr ymateb i'r drafftiwr. Bydd y drafftiwr yn awyddus iawn i glywed unrhyw sylwadau ar ba mor ddarllenadwy ac eglur yw'r darpariaethau drafft. Os bydd tîm y Bil o'r farn bod unrhyw ffordd y gellid gwneud y darpariaethau drafft yn fwy eglur, dylent ddweud hynny ar unwaith. Yn yr un modd, os oes unrhyw bryderon ynghylch cyflwyniad y darpariaethau drafft, dylid esbonio'r rhesymau am y pryderon i'r drafftiwr.

7.92 Dylai tîm y Bil hefyd ddweud wrth y drafftiwr am y rhannau o'r Bil sydd o dan y pwysau mwyaf, neu a allai fod felly wrth iddo ddatblygu. Bydd y drafftiwr yn gallu helpu tîm y Bil gyda hyn, a bydd yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth baratoi drafftiau o'r adrannau perthnasol. Yn yr un modd, dylai'r drafftwyr ddweud wrth dimau Biliau am unrhyw agweddau ar y gwaith o ddrafftio'r Bil a allai achosi anawsterau yn eu barn nhw ac y gallai (er enghraifft) fod angen eu hegluro ymhellach yn y Nodiadau Esboniadol.

7.93 Unwaith y bydd ymateb i'r drafft cyntaf a'r memo cysylltiedig wedi cael ei ddarparu, bydd y drafftiwr yn dechrau gweithio ar ddrafft arall. Efallai y bydd angen sawl cynnig arni cyn i'r drafft gael ei gwblhau.

7.94 Gallai fod o gymorth i Reolwr y Bil greu Blwch Negeseuon E-bost ar gyfer y Bil i sicrhau bod yr holl ohebiaeth ynglŷn â drafftio yn cael ei derbyn ac yn cael ymateb trwy bwynt canolog; bydd hyn hefyd o help yn ystod proses ystyriaeth y Cynulliad pan fydd tipyn o draffig e-bost – yn aml wrth weithio'n unol ag amserlenni tynn iawn – a gallai e-bost canolog, sy'n cael ei fonitro gan fwy nag un person, fod o gymorth.

7.95 Efallai yr hoffai Rheolwyr Biliau ystyried hefyd defnyddio dulliau i olrhain pa elfennau o'r cyfarwyddiadau yr ymdriniwyd â nhw eisoes, gohebiaeth i/oddi wrth ddrafftwyr, y sefyllfa o ran pa mor gyflawn yw'r Bil, etc. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant gynnig enghreifftiau a ddefnyddiwyd gan dimau eraill. Mae angen

ymateb yn gyflym i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol hefyd, a bydd angen i Reolwyr Biliau fonitro hyn.

### Trosolwg Gweinidogol wrth ddrafftio

7.96 Dylai tîm y Bil gadarnhau ar ddechrau'r broses sut yn union y mae'r Gweinidog yn dymuno arfer ei gyfrifoldeb am y Bil, gan gynnwys sut y dylid rhoi gwybod iddo am gynnydd y gwaith drafftio. Mae'n rhaid cyfeirio materion pwysig sy'n codi at y Gweinidogion, ac mae'n rhaid eu hysbysu ar unwaith os nad yw'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno yn mynd i gael ei fodloni. Mae hefyd yn bwysig hysbysu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant cyn gynted ag y bydd materion o'r fath yn dod i'r amlwg.

7.97 Dylai timau Biliau sicrhau bod gan y Gweinidog ddigon o amser a gwybodaeth i ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Bil. Mae cyfleoedd i fynd drwy'r Bil gyda'r Gweinidog, gan gynnwys gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn bresennol, yn debygol o fod o gymorth i bawb.

## Enw cryno a hir y Bil

7.98 Bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn rhoi enw byr a hir i'r Bil, a hynny cyn gynted ag y bydd cynnwys y Bil yn hysbys (nid cyn hynny). Er enghraifft –

Enw byr – "Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)"
Enw hir – "Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â'r cydsyniad sy'n ofynnol ar gyfer tynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd dynol at ddiben trawsblannu; ac at ddibenion cysylltiedig."

7.99 Ni ddylid drysu'r enw byr gydag enw gweithredol y Bil; yr olaf o'r rhain yw'r enw cyffredin a ddefnyddir gan dîm y Bil ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ar gyfer y Bil cyn iddo gael ei ddrafftio a dod yn barod i'w gyflwyno. Mae'n demtasiwn i lynu at yr enw gweithredol, gan ei ddefnyddio wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol, ac mewn gohebiaeth Weinidogol. Mae hyn yn ddealladwy, ond dylid ei gwneud yn eglur i bawb (rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a'r Gweinidog) mai enw gweithredol yn unig ydyw, ac y gall newid (yn ddelfrydol, ni ddylid defnyddio enwau gweithredol yn allanol). O ganlyniad, mae'n well defnyddio'r ymadrodd "Bil ar X".

7.100 Yn ôl confensiwn, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n penderfynu ar enwau'r Biliau yn ystod y broses ddrafftio, yn amodol ar unrhyw safbwyntiau diweddarach a fynegir gan Weinidogion. Mae hyn oherwydd bod yr enw byr yn rhan o'r Bil, yn union fel unrhyw ddarpariaeth arall, a gellir ei ddefnyddio fel cymorth ar gyfer y saernïo – i'r perwyl hwnnw felly, mater technegol (drafftio) ydyw. Mae'n rhaid i'r

enw hefyd gydymffurfio â rheolau'r Llywydd ar 'ffurf briodol' Biliau (rhywbeth sydd hefyd yn rhan o gyfrifoldeb y drafftiwr). Gall y Gwasanaeth Cyfieithu helpu i benderfynu ynghylch fersiwn Gymraeg yr enw byr.

7.101 Rhaid cyflawni tri pheth wrth benderfynu ar eiriad yr enw cryno, dylai –

a. fod yn gryno fel ei fod yn label gyfeiriol gyfleus ar gyfer defnyddwyr y ddeddfwriaeth yn y dyfodol;
b. cwmpasu popeth sy'n digwydd yn y Bil (ac a allai fod yn digwydd yn y Bil pan nad yw'r polisi wedi ei bennu'n derfynol);
c. rhoi'r Bil yn eglur o fewn unrhyw gorpws o'r gyfraith sydd ag iddo gysylltiadau agos (er enghraifft, cyfraith amgylcheddol) a bod yn gyson ag enwau blaenorol a ddefnyddiwyd.

7.102 Bydd yr ystyriaethau hyn yn llywio cyngor Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i Weinidogion ar yr enw byr. Mae'r Gweinidog yn debygol o gymryd diddordeb arbennig yn yr enw byr, o ystyried materion posibl yn gysylltiedig â'r cyflwyniad. Pan na cheir cytundeb, y Prif Weinidog fydd â'r cyfrifoldeb am wneud y penderfyniad terfynol am enw byr arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer y Bil.

7.103 Yn y pen draw, fodd bynnag, gan fod y Llywydd o'r farn bod yr enw byr a'r enw hir yn rhan o ffurf briodol Bil, gall y Llywydd wrthod yr enwau a gynigir gan y Llywodraeth.

## Adrannau ac Is-adrannau offerynnau deddfwriaethol

7.104 Mae'r tabl canlynol (sydd, er mwyn bod yn gyflawn yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth) yn dangos yr enwau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer adrannau ac is-adrannau offerynnau deddfwriaethol.

| ***Offeryn*** | ***Is-adran gyntaf (wedi eu rhifo 1, 2, 3, etc)*** | ***Ail is-adran (wedi eu rhifo (1), (2), (3), etc)*** | ***Trydedd is-adran (wedi eu nodi â llythrennau (a), (b), (c), etc)*** |
|---|---|---|---|
| Deddf | adran | is-adran | paragraff |
| Bil (yn y Cynulliad) | adran* | is-adran | paragraff |
| Gorchymyn | erthygl | paragraff | is-baragraff |
| Rheoliadau | rheoliad | paragraff | is-baragraff |
| Rheolau | rheol | paragraff | is-baragraff |
| Atodlen | paragraff | is-baragraff | paragraff |

* cyfeirir at hwn fel cymal mewn Bil yn Senedd y DU

## Llunio testun Cymraeg y Bil

Ystyriaethau cychwynnol

7.105 Darperir Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r Llywydd benderfynu arno. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i Filiau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg (ac eithrio o dan amgylchiadau penodol) a bod Bil ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn y gellir ei basio (ac eithrio o dan amgylchiadau penodol). Mae testunau Cymraeg a Saesneg Deddfau'r Cynulliad yn cael yr un effaith gyfreithiol.

7.106 Os bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn penderfynu llunio dau destun y Bil, yn Gymraeg ac yn Saesneg, eu hunain, gall yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol gynorthwyo trwy ddarparu cyngor ar derminoleg Gymraeg a'r arddull tŷ a thrwy wirio'r testun Cymraeg a ddrafftiwyd gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

7.107 Os bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn penderfynu llunio testun y Bil yn Saesneg yn unig, gall yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol gyfieithu'r testun i'r Gymraeg.

7.108 Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ar sut y bydd y testun Cymraeg yn cael ei ysgrifennu, mae angen i dîm y Bil drafod gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol (os mai'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol sydd i ddarparu'r testun Cymraeg) faint o amser sydd ei angen i wneud hyn a chytuno ar amserlen a fydd yn cael ei chymeradwyo gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant i ganiatáu i'r broses a ddisgrifir yn yr adran hon gael ei chyflawni. Dylai'r camau a gymerir i lunio fersiwn Gymraeg y testun sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7.109 Bydd angen i'r holl bartïon sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gynhyrchu'r Bil gydymffurfio â'r amserlen y cytunwyd arni i sicrhau bod digon o amser ar gael i lunio'r testun Cymraeg, neu gytuno ar amserlen newydd gyda'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol. Os bydd yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio'r testun Cymraeg, bydd cyfieithwyr yn aelodau craidd o dîm y Bil a bydd angen eu cynnwys ym mhob trafodaeth sy'n effeithio ar lunio'r testun Cymraeg. Bydd angen i'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol gael diweddariad rheolaidd gyda'r wybodaeth ganlynol:

a. pa waith sy'n debygol o gael ei anfon i'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol;
b. natur y gwaith (e.e. a yw'n diwygio deddfwriaeth arall, a yw'n cynnwys terminoleg newydd neu gymhleth);
c. faint ohono fydd yna (mewn geiriau, nid tudalennau);
d. pryd y bydd yn cyrraedd yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol;
e. erbyn pryd y mae angen dychwelyd y gwaith.

7.110 Mae'r broses gyfieithu fel arfer yn cynnwys:

a. arwain ar y gwaith o safoni'r derminoleg Gymraeg ar gyfer Bil;
b. paratoi'r drafft cyntaf;
c. diwygio'r drafft;
d. dod â sawl drafft at ei gilydd yn ddogfen gyfan gyson ac ystyrlon;
e. sicrhau bod y testun ar y fformat cywir;
f. ymateb i faterion a godir gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fel rhan o'r broses gyfwerthedd.

7.111 Mae'n rhaid i dimau Biliau sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn yr amserlen a'i gadw ar gyfer ymgymryd â'r holl dasgau i'r safon ofynnol.

### Gwaith terminoleg paratoadol

7.112 Cyn gynted ag y bydd drafftiau cyntaf o rannau allweddol y Bil ar gael, dylai Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol eu hanfon at y prif ieithydd deddfwriaethol ar gyfer y Bil fel y gall eu hanfon at y Terminolegydd yn y Gwasanaeth Cyfieithu. Bydd hyn yn galluogi'r Terminolegydd i fod yn gydgysylltydd ar gyfer y gwaith paratoadol ar safoni'r termau allweddol ar gyfer testun Cymraeg y Bil. Bydd y Terminolegydd yn cadw mewn cysylltiad â'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol ac aelodau eraill o dîm y Bil fel rhan o'r broses safoni. Cyhoeddir y termau safonol ar TermCymru, cronfa ddata terminoleg Llywodraeth Cymru, sydd ar gael ar y fewnrwyd.

### Drafft cyntaf y testun Cymraeg

7.113 Mae'n llawer mwy effeithlon i'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol ddarparu testun Cymraeg gan ddefnyddio un testun Saesneg cyflawn y cytunwyd arno'n derfynol. Dyma fyddai'r opsiwn a fferfrir gan yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol bob tro, ond derbynnir nad yw hyn yn ymarferol bob amser.

7.114 Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn anfon y cais cyfieithu i'r Gwasanaeth Cyfieithu drwy'r ffurflen gais ar y Fewnrwyd.

7.115 Wrth i'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol gyfieithu'r testun Cymraeg, efallai y bydd gan y prif ieithydd deddfwriaethol neu gyfieithydd deddfwriaethol gwestiynau neu sylwadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol y mae angen eu datrys er mwyn cwblhau'r testun Cymraeg. Gallai hyn hefyd arwain at newidiadau i'r testun Saesneg.

### Newidiadau pellach i'r testun Cymraeg

7.116 Am nifer o resymau, gall testun Saesneg Bil newid wedi iddo gael ei anfon i gael ei gyfieithu a chyn iddo gael ei wirio. Bydd Swyddfa'r

Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn hysbysu’r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol am y newidiadau ac yn eu nodi’n eglur fel y gellir gwneud y newidiadau cyfatebol i’r testun Cymraeg.

### Gwiriad ieithyddol (dogfen gyfan)

7.117 Ar ôl i’r holl wahanol bynciau gael eu cyfieithu a chael gwiriad cyntaf efallai, bydd y prif ieithydd deddfwriaethol yn dod â’r holl destun Cymraeg at ei gilydd ac yn gwirio’r ddogfen gyfan ar gyfer cywirdeb a chysondeb ieithyddol. Mae hon yn rhan bwysig o’r broses a lleihau’r anfanteision a ddaw pan fydd gwahanol rannau o’r Bil yn cael eu cyfieithu gan wahanol gyfieithwyr dros gyfnod estynedig o amser yw’r bwriad. Rhaid cynnal y broses wirio derfynol cyn darparu drafft o’r testun Cymraeg i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfer y broses gyfwerthedd. Os na roddir amser i’r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol gynnal gwiriad terfynol o’r testun Cymraeg wedi i’r gwaith arno gael ei gwblhau, byddai’n ofynnol i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ddefnyddio’r amser a neilltuwyd ar gyfer y broses gyfwerthedd i olygu’r testun Cymraeg yn ogystal â chynnal y broses – dylid osgoi hyn gan fod perygl y gallai gwallau ymddangos yn y Bil.

7.118 Wrth i’r testun Cymraeg gael ei wirio, efallai y bydd gan y prif ieithydd deddfwriaethol gwestiynau neu sylwadau i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol y mae angen eu datrys er mwyn cwblhau’r testun Cymraeg. Gallai hyn hefyd arwain at newid y testun Saesneg.

### Gwiriad cyfwerthedd o’r Bil

7.119 Mae’r broses o wirio cyfwerthedd y testunau Cymraeg a Saesneg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn cael yr un effaith gyfreithiol yn y ddwy iaith. Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy’n arwain y broses hon ac mae’n ymgynghori â’r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol ar gwestiynau am y testun Cymraeg.

7.120 Dylai pob tîm drafftio gynnwys o leiaf un drafftiwr â’r sgiliau i gyflawni’r dasg hon a dylid sicrhau y bydd yr amserlen yn caniatáu digon o amser i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a’r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol allu cwblhau’r dasg i safon uchel. Os nad yw’r amserlen yn caniatáu ar gyfer hyn, dylid hysbysu Rheolwr y Bil ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Gallai safon y Bil gael ei beirniadu pe na bai cyfwerthedd y testun yn cael ei wirio’n llawn, a gallai fod angen gwella i unioni’r diffygion. Gall hefyd olygu fod perygl na fydd y Bil yn cael ei ddehongli gan y cyhoedd a’r llysoedd yn y ffordd a fwriedir a gall hynny, yn ei dro, danseilio amcanion polisi’r Llywodraeth. Bydd yn aml angen diwygiadau i’r testun Cymraeg (a’r testun Saesneg weithiau hefyd) wrth ddilysu. Mae’n bwysig bod y ffenestr ar gyfer y broses gyfwerthedd yn caniatáu amser i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol gynnig cyfle i’r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol ystyried unrhyw sylwadau ar y testun Cymraeg ac

unrhyw ddiwygiadau arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn ieithyddol gywir ac yn gyson â gweddill y testun.

## Materion eraill i'w cadw mewn cof wrth baratoi'r Bil

### Ffrydiau refeniw a deddfwriaeth (neilltuo)

7.121 O dan amgylchiadau penodol gallai deddfwriaeth gynnig mesurau a fydd yn cynhyrchu refeniw. Efallai mai hwn fydd bwriad penodol y ddeddfwriaeth neu, yn amlach, mae cosbau ariannol yn cael eu cynnwys i annog cydymffurfio.

7.122 Os yw'r ddeddfwriaeth ei hun yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch y ffrwd refeniw sydd i'w defnyddio i gefnogi gwariant penodol, ystyrir ei bod wedi ei neilltuo'n uniongyrchol. Felly, caiff y ffrwd incwm honno ei chymryd o reolaeth Weinidogol a chonfensiynau cyllidebol arferol y Cynulliad i bob pwrpas.

7.123 Mae'r Llywodraeth yn gweithredu ar sail yr egwyddor gyffredinol bod penderfyniadau cyllidebol yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a bod unrhyw incwm yn cael ei gyfarwyddo trwy Gynigion Cyllidebol y Llywodraeth. Mae neilltuo uniongyrchol yn peri'r risg o gymhlethu cyllideb y Llywodraeth, lleihau hyblygrwydd a chlymu'r Llywodraeth bresennol a Llywodraethau'r dyfodol yn ddiangen.

7.124 Er y gallai neilltuo ymddangos yn ddeniadol o safbwynt yr amcan polisi unigol, mae Gweinidogion wedi ei gwneud yn eglur nad ydynt yn dymuno neilltuo incwm yn uniongyrchol trwy Filiau unigol, ond yn hytrach cadw'r hyblygrwydd i ddyrannu unrhyw adnoddau fel sy'n briodol trwy weithdrefnau cyllidebol presennol.

7.125 Mae rhagor o wybodaeth am ffrydiau refeniw, neilltuo a phroses y gyllideb ar gael gan Gyllidebu Strategol.

### Gweithio gydag Arolygiaethau wrth i'r Bil ddatblygu

7.126 Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r prif gyrff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru. Gallant fod yn adnodd hynod werthfawr i dimau Biliau ar faterion fel pwy sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, pwy fydd eu hangen yn y dyfodol, a sut y mae'r gwasanaethau hynny yn gweithio ar lawr gwlad, ond hefyd fel arbenigwyr yn y broses a'r methodolegau sy'n sail i arolygu, archwilio ac adolygu. Anogir timau Biliau felly i weithio'n agos gyda'r cyrff hyn pan fydd polisi'r Bil yn effeithio ar y meysydd gwaith lle mae gan AGC, AGIC, Estyn neu Swyddfa Archwilio Cymru brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd.

7.127 Gellid meithrin cysylltiadau mewn amrywiol ffyrdd – o weithio gydag arolygwyr neu adolygwyr unigol i ddeall profiadau o ddydd i ddydd, hyd at ennyn diddordeb Prif Weithredwyr ac uwch-reolwyr eraill i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynigion, ac wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt.

7.128 Mae'n aml yn wir fod AGC, AGIC, Estyn neu Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Cynulliad yn ystod ei waith craffu ar Fil, a bydd ennyn diddordeb ar draws strwythur rheoli'r cyrff hefyd yn cynorthwyo'r aelodau hynny o'r arolygiaethau sy'n rhoi tystiolaeth i ymgyfarwyddo â'r sail resymegol gyffredinol ar gyfer y polisi a'r bwriad, yn ogystal ag hanfodion y Bil.

Ymgysylltu â'r Arglwydd Brif Ustus

7.129 Ceir adegau hollbwysig yn ystod y broses ymgynghori, cyflwyno'r Bil, hynt y Bil drwy'r Cynulliad ac wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth pan y gellir bod angen ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus ar wahân i, ac yn ychwanegol at, y gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i gwblhau asesiad o'r effaith ar gyfiawnder (gweler Pennod 6), er y gall yr ymgynghoriad hwn gael ei ddefnyddio yn yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder. Mae'r ymgynghoriad hwn â'r Arglwydd Brif Ustus yng nghyswllt unrhyw gynigion sy'n effeithio ar weinyddiaeth y system llysoedd a'r system tribiwnlysoedd, sy'n debygol o arwain at newidiadau i gyfraith trosedd, neu sy'n debygol o gael unrhyw effaith ar weithrediad y system farnwrol. Gall timau Biliau ofyn am gyngor gan Gwasanaethau Cyfreithiol o ran pryd y gallai fod yn briodol ymgysylltu â'r Arglwydd Brif Ustus.

Rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid wrth baratoi'r Bil

7.130 Mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd manwl rhwng darparu digon o wybodaeth i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r sefyllfa ddiweddaraf a sicrhau cyfathrebu da ar y naill law a darparu gormod o fanylion am y cynigion yn rhy gynnar cyn cyflwyno ar y llaw arall.

7.131 Ceir risgiau pan nad yw bwriad y polisi eisoes wedi cael ei brofi gan Gwasanaethau Cyfreithiol neu pan nad yw'r Bil wedi cael ei ddrafftio gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, neu os nad yw'r Memorandwm Esboniadol wedi ei gwblhau neu ei awdurdodi eto. Gallai'r holl sefyllfaoedd hyn arwain at newidiadau erbyn yr adeg gyflwyno.

7.132 Dylai swyddogion gadw Cod y Gweinidogion mewn cof mewn perthynas â chyhoeddiadau cyhoeddus am ddeddfwriaeth arfaethedig y llywodraeth, a sicrhau bod y cyngor a ddarperir i'w Gweinidog, gan gynnwys datganiadau a nodiadau annerch, yn cydymffurfio â'i ofynion.

Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant gynnig rhagor o gyngor.

## Pennod 8 – Memorandwm Esboniadol

**Mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg o'r gofynion ar gyfer y Memorandwm Esboniadol, y bydd rhaid ei gynnwys gyda'r Bil wrth ei gyflwyno i'r Cynulliad.**

**Pan gyflwynir y Memorandwm Esboniadol i'r Cynulliad bydd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol a chopi o'r Nodiadau Esboniadol.**

**Mae Pennod 6 yn darparu canllawiau manwl ar baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae Pennod 9 yn ymdrin â pharatoi'r Nodiadau Esboniadol a'u diwygio.**

### Gofynion y Rheolau Sefydlog

8.1 Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo'r Aelod Cyfrifol yn cyflwyno Bil, ei fod ef neu hi hefyd yn gosod Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad. Rhaid gosod y Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

8.2 Dyfynnir manylion Rheol Sefydlog 26.6 isod:

*"… rhaid [i'r Memorandwm Esboniadol]...:*

*(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;*

*(ii) nodi amcanion polisi y Bil;*

*(iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;*

*(iv) nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:*

*(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;*

*(b) manylion y Bil, ac*

*(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);*

*(v) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;*

*(vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;*

*(vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;*

*(viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;*

*(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;*

*(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;*

*(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac*

*(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;*

*(ix) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;*

*(x) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:*

*(a) y person neu'r corff y rhoddir y pwer [sic] iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;*

*(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac*

*(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);*

*(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio; a*

*(xii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf."*

8.3 Mae'r hyn a ganlyn hefyd yn ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog:

*(26.6A) Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall.*

*(26.6B) Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.*

*(26.6C) Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.*

8.4 Sylwer y caiff Rheol Sefydlog 26.6(vii) ei bodloni drwy amgáu'r Nodiadau Esboniadol fel Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol (gweler Pennod 9), a Rheol Sefydlog 26.6(viii) a Rheol Sefydlog 26.6(ix) drwy gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol (gweler Pennod 6).

8.5 Os bydd Swyddfa Gyflwyno Comisiwn y Cynulliad yn barnu na fodlonwyd gofynion y Rheolau Sefydlog ni fydd yn derbyn y ddogfen ar gyfer ei gosod, gan olygu, felly, fod perygl na gaiff Bil Cynulliad ei gyflwyno.

## Datganiad yr Aelod Cyfrifol

8.6 Er mwyn bodloni Rheol Sefydlog 26.6(i), datganiad gan yr Aelod Cyfrifol fydd tudalen gyntaf y Memorandwm Esboniadol:

*"Yn fy marn i byddai darpariaethau [enw byr y Bil], a gyflwynir gennyf i ar [dyddiad cyflwyno], o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."*

8.7 Er mwyn i'r Gweinidog – sef yr Aelod Cyfrifol am y Bil – wneud y datganiad hwn, bydd angen darparu cyngor iddo, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil.

8.8 At hynny, yn y cyngor ynghylch ceisio awdurdodiad ar gyfer cyflwyno’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol, mae’n bwysig:

a. tynnu sylw’r Gweinidog yn benodol at y datganiad, a cheisio cytundeb i wneud hyn;
b. bod cyngor ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei gynnwys.

## Cynnwys a ffurf y Memorandwm Esboniadol

8.9 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn darparu templed presennol y Memorandwm Esboniadol i’r timau Bil. Mae’r templed wedi ei gynllunio i fodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6, a gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant gynorthwyo gyda llenwi’r ffurflen hefyd os oes angen.

8.10 Ar hyn o bryd, rhennir y Memorandwm Esboniadol yn ddwy Ran:

a. Rhan 1 – Memorandwm Esboniadol;
b. Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol (gweler Pennod 6).

8.11 Cynhwysir y Nodiadau Esboniadol (gweler Pennod 9) fel un o’r Atodiadau i’r ddogfen. Rhoddir amlinelliad o’r atodiadau eraill sy’n ofynnol ym mharagraffau 8.41-8.44.

### Paratoi’r Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg

8.12 Mae’r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i’r Memorandwm Esboniadol gael ei baratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y timau Bil wedi ystyried o ddechrau’r prosiect sut y caiff y testunau Cymraeg a Saesneg eu paratoi. Os penderfynwyd defnyddio’r Gwasanaeth Cyfieithu i ddarparu, neu gynorthwyo i ddarparu, testunau bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn ymgymryd â’r gwaith hwnnw. Rhaid i dîm y Bil ganiatáu digon o amser ar gyfer y broses hon – gweler paragraff 3.40 uchod.

8.13 Bydd cysylltu â’r Gwasanaeth Cyfieithu yn gynnar yn y broses a pharhau i gadw mewn cysylltiad gydol y broses yn hwyluso’r gwaith o gyfieithu’n effeithiol ac yn brydlon ddogfen a allai fod yn hir a chymhleth iawn. Drwy wneud hynny, gellir cynllunio a chytuno ymlaen llaw ar ddulliau megis cyfieithu fesul Pennod a chadw rheolaeth ar wahanol fersiynau o’r dogfennau, a fydd yn helpu i gynhyrchu dogfen o ansawdd uchel yn unol â’r amserlen ddeddfwriaethol.

## Cynnwys Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol

### Pennod 1 – Disgrifiad

8.14 Mae’r bennod ddisgrifio yn cael ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol er mwyn rhoi amlinelliad cryno, a fydd dim mwy na

pharagraff fel arfer, o’r hyn y mae’r Bil yn ei wneud, a pham. Dylid ei hysgrifennu heb gyfiawnhau polisi, a’r nod yw rhoi crynodeb ffeithiol syml.

8.15 Gellir ystyried y Bennod hon fel un sy’n pennu egwyddorion cyffredinol y Bil – ond ni fydd egwyddorion o’r fath yn cael eu tynnu ohoni at ddibenion y ddadl ar egwyddorion cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod 1.

### Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol

8.16 Fel y nodwyd eisoes, mae’r Bennod hon yn rhoi manylion y pwerau galluogi sy’n rhoi i’r Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i basio’r Bil. Ni ddylid defnyddio’r Bennod hon i roi hanes deddfwriaethol maes polisi penodol, ond pe byddai gwybodaeth ehangach o’r fath o gymorth, gellid ystyried cynnwys gwybodaeth o’r fath mewn Atodiad.

8.17 Gellir casglu’r wybodaeth a ddefnyddir i baratoi’r Bennod hon o’r cyfarwyddiadau cyfreithiol ac o’r elfennau cyfreithiol yn y cyngor i’r Gweinidog.

8.18 Gellir cael testun templed gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a dylid defnyddio'r testun safonol hwn ar gyfer pob Bil. Gall fod angen cynnwys rhagor o wybodaeth am ddeddfwriaeth ac amgylchiadau sy'n benodol i'r Bil. Mae’n arferol i Gwasanaethau Cyfreithiol arwain y gwaith o baratoi’r Bennod hon, ac yn ddiamau, dylai gael ei hawdurdodi gan Gwasanaethau Cyfreithiol.

### Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

8.19 Dylid paratoi’r Bennod hon fel ei bod yn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6(ii), a hefyd, yn rhannol, Reol Sefydlog 26.6(iii).

8.20 Mae’n demtasiwn weithiau i ysgrifennu’r Bennod hon ar ffurf Nodiadau Esboniadol – sef esboniad fesul adran o’r Bil. Fodd bynnag, nid dyna ddiben y Bennod. Diben y Bennod, yn hytrach, yw nodi’r amcanion polisi. Wrth wneud hynny, dylai tîm y Bil baratoi esboniad manwl pam yr ystyrir bod ymyrraeth y Llywodraeth yn angenrheidiol (pa broblem neu faterion y mae’r Bil yn ceisio’u datrys, a’r dystiolaeth dros hynny) a’r hyn y bwriedir i’r Bil ei gyflawni (gan gynnwys y dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer y dull a ddilynir). Dylai’r esboniad hefyd:

- nodi hyd a lled y mater dan sylw a datgan ar bwy neu beth yr effeithir;
- darparu datganiad cryno ac eglur o’r amcanion – os oes llawer o amcanion, dylid eu blaenoriaethu a nodi unrhyw wrthdaro;
- pennu cynllun gweithredu a chyflenwi manwl;
- nodi unrhyw enghreifftiau o ddiffyg yn y farchnad sydd wedi arwain at ymyrraeth gan y llywodraeth e.e. lle nad yw’r farchnad wedi gwireddu canlyniadau effeithlon i ddinasyddion, defnyddwyr a chynhyrchwyr, a lle na all wireddu hynny. Gall economegwyr

Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad mwy manwl o ystyr diffyg yn y farchnad.

8.21 Dylid hefyd ystyried y ffactorau a ganlyn:

- beth yw, neu beth fydd, y risgiau neu'r peryglon os na wneir y ddeddfwriaeth;
- a fydd y ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon, ac os felly, sut?
- a fydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad i grwpiau mewn cymdeithas sy'n ddifreintiedig neu sydd wedi'u heithrio, neu'n gwella'r canlyniadau ar eu cyfer, ac os felly, sut?
- os oes gan y Bil rychwant daearyddol penodol, dylech nodi hynny yma (h.y. os yw'n effeithio ar rai ardaloedd o Gymru yn unig);
- os oes angen pasio'r Bil yn unol ag amserlen benodol, neu erbyn dyddiad penodol, nodwch hynny gan roi'r rhesymau.

8.22 Mae'n briodol, ac yn angenrheidiol weithiau, ailadrodd rhai o elfennau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, er enghraifft wrth nodi rhywfaint o'r sylfaen dystiolaeth y dibynnir arni, neu rai o'r opsiynau eraill a ystyriwyd. Mae'n dderbyniol hefyd croesgyfeirio at elfennau o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

8.23 Pan fo Bil yn ymdrin â mwy nag un elfen o bolisi, mae'n bwysig esbonio pob un o'r amcanion polisi a'u seiliau rhesymegol. Ar yr un pryd, mae'n bwysig cofio mai Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil cyfan yw hwn, ac felly dylai'r Bennod hon sicrhau bod y Bil cyfan yn cael ei esbonio.

8.24 Os bydd y Bennod hon yn ymdrin â nifer o wahanol faterion, bydd yn fuddiol cynnwys trosolwg cyffredinol o'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud, ynghyd â chrynodeb o'r hyn a gynhwysir yn y Bennod.

8.25 Dylai'r cyfarwyddiadau polisi fod o gymorth wrth lunio'r Bennod hon.

### Pennod 4 – Ymgynghori

8.26 Er mwyn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6(iv), dylid rhoi yma grynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar yr amcanion polisi, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Yn achos rhai Biliau, bydd nifer o ymgyngoriadau ffurfiol wedi eu cynnal, ar Bapur Gwyrdd, Papur Gwyn, neu Fil drafft er enghraifft. Mae'n briodol darparu gwybodaeth am bob un o'r rhain.

8.27 Fodd bynnag, gellir sôn am fwy nag ymgyngoriadau ffurfiol yn unig yn y Bennod hon. Gellir cynnwys gwybodaeth hefyd am y modd y gwnaeth tîm y Bil a/neu'r Gweinidog ennyn diddordeb yn ehangach wrth ddatblygu a mireinio'r cynigion polisi.

8.28 Er mwyn bodloni Rheol Sefydlog 26.6(v), bydd angen i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd

llawer o dimau Bil eisoes wedi cyhoeddi adroddiadau cryno ynghylch yr ymgynghoriad cyn cyflwyno Bil i'r Cynulliad. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd cynnwys dolenni i'r adroddiadau cyhoeddedig ym Mhennod 4 y Memorandwm Esboniadol yn bodloni'r Rheolau Sefydlog. At hynny, yn unol â'r Rheol Sefydlog hon, mae hefyd yn ofynnol bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi sut y diwygiwyd unrhyw Fil Drafft sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad. Mae templed y Memorandwm Esboniadol yn darparu tabl lle y gellir nodi'r wybodaeth hon. Nid oes angen nodi pob newid, ond dylai'r tabl nodi newidiadau o sylwedd o ran y polisi neu'r drafftio ac unrhyw newidiadau i'r derminoleg allweddol a'r cysyniadau allweddol.

8.29 Mewn achosion pan nad ymgynghorwyd ar Fil Drafft, neu yr ymgynghorwyd ar ran yn unig o ddrafft o'r Bil sydd i'w gyflwyno, mae gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(vi) i esbonio yn eglur pam y dewisodd y Llywodraeth beidio â chynnal ymgynghoriad o'r fath. Os cynhaliwyd ymgynghoriad ar Fil Drafft, ond bod y Bil sydd i'w gyflwyno yn cynnwys adrannau newydd neu rannau pwysig na chawsant eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gellir amlygu'r adrannau neu'r Rhannau ychwanegol yn y tabl o ddiwygiadau i'r Bil Drafft, gan nodi'r rhesymau pam na chawsant eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

8.30 Wrth ystyried pa bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth y dylid eu cynnwys, yr hyn y dylid ei ystyried gyntaf yw 'beth yw ystyr is-ddeddfwriaeth'. Yn ôl y Rheolau Sefydlog, yr ystyr yw:

> *"…Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, gorchmynion, rheolau, rheoliadau, cynlluniau, gwarantau, is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wnaed neu sydd i'w gwneud o dan unrhyw un o Ddeddfau Senedd y DU neu Ddeddf Cynulliad, neu a wnaed neu sydd i'w gwneud o dan is-ddeddfwriaeth;"*

8.31 Ar y sail hon, argymhellir y dylid nodi ym Mhennod 5 yr is-ddeddfwriaeth sydd yn amlwg yn dod o fewn y diffiniad yn y Rheolau Sefydlog (h.y. rheoliadau, rheolau a gorchmynion), a'u cynnwys yn y tabl cyntaf yn y templed a ddarperir gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant i fodloni Rheol Sefydlog 26.6(x).

8.32 Yn y tabl cyntaf hwn, ar gyfer pob un o'r pwerau sydd yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth, dylid nodi (yn y drefn yr ymddangosant yn y Bil):

a. y ddarpariaeth yn y Bil y cynhwysir y pŵer ynddi (er enghraifft "adran 14(b)(iii)" neu "Atodlen 2, paragraff 8");

b. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo (er enghraifft "Gweinidogion Cymru");

c. y ffurf a gymerir gan yr is-ddeddfwriaeth pan y'i gwneir, hynny yw, y math o offeryn (er enghraifft “Rheoliadau”, “Gorchymyn”, etc.);

d. y rheswm pam y mae'n briodol rhoi'r pŵer hwn, yn hytrach na nodi'r wybodaeth, y manylion neu gynllun yn y Bil ei hun (er enghraifft “Addas ar gyfer rheoliadau gan y cynhwysir manylion sylweddol a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil”, neu “Addas ar gyfer rheoliadau gan fod angen i'r trefniadau fod yn hyblyg i ymateb i newidiadau mewn ymarfer proffesiynol yn y dyfodol”, etc.);

e. y weithdrefn ar gyfer gwneud yr is-ddeddfwriaeth – fel arfer, bydd hon yn negyddol, cadarnhaol neu ni fydd gweithdrefn;

f. y rheswm dros gymhwyso'r weithdrefn honno – dylai'r rhesymau fod yn gydnaws â'r rhesymau dros gymhwyso'r weithdrefn negyddol neu gadarnhaol fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru (gweler Pennod 10).

8.33 Gellir cymryd y sail resymegol ar gyfer priodoldeb y pwerau dirprwyedig, ac yn wir, y weithdrefn i'w chymhwyso, o'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfer paratoi'r Bil.

8.34 Mae angen nodi'r rhesymau am unrhyw bwerau yn y Bil sy'n caniatáu gwneud darpariaeth ategol mewn gorchymyn cychwyn. Bydd y Cynulliad wedi cymeradwyo'r darpariaethau o sylwedd mewn Deddf, gan adael i Weinidogion Cymru fel arfer bennu'r dyddiad cychwyn mewn gorchymyn nad yw'n ddarostyngedig i weithdrefn Cynulliad. Gan y byddai'n rhaid i ddarpariaethau ategol mewn gorchymyn cychwyn gael eu gwneud mewn cysylltiad â chychwyn, mae'n briodol iddynt gael eu cynnwys mewn gorchymyn cychwyn. Yn benodol, yn aml iawn mae angen gwneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed er mwyn gwneud yn eglur ai'r hen gyfraith ynteu'r Ddeddf newydd fydd yn gymwys i faterion sy'n cyd-ddigwydd ag adeg cychwyn. Yn llai aml, gall ddigwydd hefyd y bydd angen mathau eraill o ddarpariaethau canlyniadol, cysylltiedig ac atodol mewn perthynas â chychwyn. Disgwylir i ystyriaeth ofalus gael ei rhoi i ba un a oes angen pwerau i wneud y mathau hyn o ddarpariaeth mewn gorchmynion cychwyn ai peidio, ac i'r Memorandwm Esboniadol nodi pam y mae angen pwerau o'r fath yn y Bil.

8.35 Pan fo Bil hefyd yn cynnwys pwerau i gyhoeddi canllawiau, codau neu gyfarwyddiadau, crybwyllir y rheini ar wahân yn y tabl nesaf ym Mhennod 5 y templed.

8.36 Yn yr ail dabl hwn, nodir pob un o'r elfennau a restrir ym mharagraff 8.33 uchod, ond ar gyfer lled-ddeddfwriaeth (sef y mathau hynny nas rhestrir yn benodol yn y diffiniad o is-ddeddfwriaeth yn y Rheolau Sefydlog, gan gynnwys cyfarwyddiadau, canllawiau a chodau ymarfer).

8.37 Gan fod yr wybodaeth yn y Bennod hon o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei chyflwyno ar ffurf tablau, argymhellir y dylid bod yn gryno wrth ddrafftio.

8.38 Pan gynhwysir pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, bydd angen i'r darllenydd gyfeirio hefyd at Bennod 10 ar bwerau dirprwyedig a Phennod 11 ar ddatganiadau o fwriad y polisi.

## Cynnwys Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol (Asesiad Effaith Rheoleiddiol)

8.39 Rhoddir canllawiau manwl ar ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Rhan 2), a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys ym mhob Pennod o'r Rhan hon o'r Memorandwm Esboniadol, ym Mhennod 6 y Llawlyfr hwn. Yn gryno, rhennir Rhan 2 yn Benodau fel a ganlyn –

a. Pennod 6 – mae'r templed yn cynnwys y testun safonol i ddangos a yw'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 26.6(xi) am adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch pa mor briodol ydyw i godi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru o ddarpariaethau yn y Bil, yn gymwys ai peidio i'r Bil. Mae'r templed hefyd yn cynnwys Tabl Cryno sy'n rhoi crynodeb byr o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol;

b. Pennod 7 – Opsiynau: yn rhoi manylion yr opsiynau a ystyriwyd er mwyn bodloni'r amcanion polisi;

c. Pennod 8 – Costau a manteision: yn nodi costau a manteision pob un o'r opsiynau a ystyriwyd;

d. Pennod 9 – Asesu cystadleuaeth: crynhoi'r asesiadau o effaith y polisi a chynnwys manylion canfyddiadau'r ymarfer hidlo'r gystadleuaeth ac, os y'u defnyddiwyd, canfyddiadau'r ymarfer i asesu'r gystadleuaeth;

e. Pennod 10 – Adolygu ar ôl gweithredu: crynodeb o'r dull a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygu'r dull gweithredu.

## Atodiadau i'r Memorandwm Esboniadol

8.40 Fel y nodwyd yn gynharach yn y Bennod hon, bydd y Nodiadau Esboniadol yn Atodiad i'r brif ddogfen, a dylid eu cynnwys fel **Atodiad 1**.

8.41 Mae'n ofynnol hefyd (o dan Reol Sefydlog 26.6A) gynnwys Mynegai yn dangos lle yn union yn y Memorandwm Esboniadol y bodlonir gofynion Rheolau Sefydlog 26.6, 26.6B a 26.6C, a dylid ei gynnwys fel **Atodiad 2**.

8.42 Gan ddibynnu ar fanylion a chynnwys y Memorandwm Esboniadol a/neu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'n bosibl y bydd atodiadau eraill hefyd yn ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog:

a. tabl tarddiadau (gweler **Atodiad 3** templed y Memorandwm Esboniadol) – mae gwybodaeth am darddiadau (sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6B) yn darparu dolen gyswllt rhwng yr hen gyfraith a'r newydd pan fo statud yn cael ei diddymu a'i chydgrynhoi mewn statud newydd. Mae tabl tarddiadau yn galluogi darllenwyr i olrhain yn ôl o'r gyfraith newydd i'r hen. Bydd y cyfreithiwr pwnc ar gyfer y Bil yn cynghori a oes angen tabl tarddiadau ai peidio, ac fel arfer bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn paratoi'r wybodaeth hon. Wrth lenwi'r tabl dylid gweithredu'n gymesur; h.y. bydd yn ddigon nodi manylion y penodau, rhannau a/neu'r atodlenni o'r Bil sy'n tarddu o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Pan restrir Deddfau yn y tabl fwy nag unwaith, gall fod yn fuddiol darparu crynodeb o'r byrfoddau a ddefnyddir. Dylid nodi, pan na ddarperir tabl tarddiadau, mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi gofyn bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi pam nad oes angen tabl. Gellir cynnwys yr wybodaeth hon yn Atodiad 2, sef y mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog;

b. Atodlen o ddiwygiadau (gweler **Atodiad 4** templed y Memorandwm Esboniadol) – o dan Reol Sefydlog 26.6C, dylid darparu atodlen o'r fath os yw'r Bil yn cynnig newid y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, ac os yw'n haws deall effaith arfaethedig y diwygiadau yn well o'u gweld yng nghyd-destun darpariaethau'r ddeddfwriaeth honno. Dylai swyddogion mewn adrannau polisi baratoi atodlen yn y lle cyntaf. Mae rhagor o wybodaeth am baratoi atodlen i'w chael yn nhempled y Memorandwm Esboniadol. Nid yw'n debygol y bydd angen atodlen neu atodlenni yn yr amgylchiadau a ganlyn:

   i. pan fo'r diwygiadau a wneir i'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn fach neu'n ganlyniadol eu natur, er enghraifft ar gyfer adlewyrchu newid enw swydd neu sefydliad a ysgogir gan y Bil;
   ii. pan fo'r effaith y bwriedir i'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ei chael yn eglur ar wyneb y Bil, hyd yn oed os ydynt yn sylweddol, er enghraifft dileu Rhan gyfan o Ddeddf, neu Atodlen gyfan iddi;

   Os nad yw'n eglur o hyd a oes angen atodlen ai peidio, dylid hysbysu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, a all ofyn am gyngor gan y Swyddfa Gyflwyno os yn briodol. Pan na ddarperir atodlen, dylid cynnwys eglurhad pam na wneir hynny yn y mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog yn Atodiad 2 i'r Memorandwm Esboniadol.

c. adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, os yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6(xi), os yw Pennod 6 y Memorandwm Esboniadol

yn datgan bod angen yr adroddiad hwn (cyfeirier at baragraff 8.39(a)).

8.43 Nid oes dim sy'n atal tîm y Bil rhag dewis cynnwys atodiadau ychwanegol fel yr ystyriant sy'n briodol – e.e. siartiau llif, rhestr o gyfeiriadau neu dablau manwl o gostau.

## Fformat y Memorandwm Esboniadol

8.44 Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu'r canllawiau print clir 'See it Right' a gyhoeddwyd gan RNIB. Mae RNIB yn argymell defnyddio ffont Arial 12 pwynt fel y maint ffont lleiaf ar gyfer hygyrchedd gweledol; ac argymhellir felly y dylai testun y Memorandwm Esboniadol a'r atodiadau (ac eithrio'r Nodiadau Esboniadol) fod mewn ffont Arial o faint 12 pwynt o leiaf.

8.45 Gellir amrywio'r ffont trwy ddefnyddio meintiau mwy, neu ffont trwm, er enghraifft ar gyfer penawdau, ond dylid osgoi defnyddio ffont italig. Mae canllawiau RNIB yn argymell defnyddio penawdau sydd tua 15% yn fwy na maint y ffont a ddefnyddir ar gyfer corff y testun.

8.46 Wrth baratoi'r penawdau a chorff y testun, argymhellir defnyddio'r swyddogaeth "Arddulliau" yn Word. Bydd hynny'n sicrhau dull cyson yn y ddogfen, yn helpu i ymgymryd â'r gwaith fformatio, ac yn gwneud y dasg o baratoi tabl o'r cynnwys ar ddechrau'r ddogfen yn llawer haws.

8.47 Dylid alinio'r testun i'r chwith, ac nid ei ganoli na'i unioni. Mae gwneud hyn, ac felly hefyd ddefnyddio gofod gwyn yn briodol (ar y dudalen yn ogystal â rhwng paragraffau ac mewn celloedd tablau) yn golygu bod y testun yn fwy hygyrch yn weledol.

8.48 Dylid rhifo pob paragraff o'r Memorandwm Esboniadol, gan ddefnyddio rhifau yn eu trefn olynol ar gyfer y paragraffau yn y ddogfen gyfan, drwyddi draw. Mewn geiriau eraill, paragraff 1 fydd paragraff cyntaf y ddogfen, a bydd rhif pob Pennod o'r ddogfen yn dilyn ymlaen o rif y paragraff sy'n ei ragflaenu.

8.49 Dylid rhoi rhif a theitl i dablau, diagramau a siartiau llif, a'u gosod yn unol â chorff y testun. Dylid paratoi tablau fel tablau (gan ddefnyddio'r swyddogaeth tabl yn Word), yn hytrach na defnyddio bylchau a thabiau. Fodd bynnag, efallai y dylid ystyried paratoi'r tabl yn Excel ac yna ei fewnosod – gall hynny ei wneud yn haws i'w ddiweddaru os bydd angen.

8.50 Os bydd angen delweddau ar gyfer y Memorandwm Esboniadol, gellir cael arweiniad manylach (gan gynnwys cyngor ynglŷn â chyfreithiau hawlfraint) gan y Tîm Dylunio.

8.51 Rhoddir cyngor ar wahân ar gyfer fformatio’r Nodiadau Esboniadol (gweler Pennod 9 y Llawlyfr hwn), er mwyn cydymffurfio â gofynion yr Archifau Gwladol.

8.52 Gan y bydd y Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol mewn un ddogfen, a’r Nodiadau’n defnyddio fformat gwahanol, argymhellir y dylid bod yn gyfarwydd â defnyddio toriadau adran. Bydd hynny’n golygu y gellir defnyddio gwahanol arddulliau yn y gwahanol ddogfennau.

### Arddull ysgrifennu

8.53 Er mai i fodloni gofynion y Rheolau Sefydlog y paratoir y Memorandwm Esboniadol, mae’n gyfle allweddol i helpu’r darllenydd i ddeall nodau ac amcanion allweddol y Bil a egluro’r negeseuon y mae’r Gweinidog a thîm y Bil yn dymuno’u cyfleu. Yng nghanllawiau drafftio’r Llywodraeth, pwysleisir y dylid defnyddio Cymraeg a Saesneg clir, sef defnyddio arddull sy’n llwyddo i gyfleu’r neges heb or-symleiddio.

8.54 Cynulleidfa’r Memorandwm Esboniadol yw unrhyw un a fydd â diddordeb yn y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys yr Aelodau Cynulliad a fydd yn ystyried y Bil, boed yn aelodau o’r Pwyllgor Cyfrifol, y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, neu’n Aelodau a fydd yn ystyried y Bil mewn Cyfarfodydd Llawn.

8.55 Mae’r gynulleidfa hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid y Bil: y bobl a’r cyrff yr effeithir arnynt gan y cynigion deddfwriaethol. Bydd rhai o’r rhanddeiliaid hyn yn rhoi tystiolaeth i’r Pwyllgor Cyfrifol, ac felly’n rhoi sylw penodol i’r Memorandwm Esboniadol a gallent hefyd gyfeirio ato yn eu tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar.

## Awdurdodi ar gyfer cyflwyno

### Awdurdodiad gan swyddogion

8.56 Yn ogystal â chael ei awdurdodi gan y Prif Berchennog Cyfrifol ar gyfer y Bil ac unrhyw awdurdodiad safonol o fewn Grwpiau unigol, rhaid i’r Memorandwm Esboniadol a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael eu hawdurdodi gan –

a. Cyllidebu Strategol;
b. Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant;
c. Gwasanaethau Cyfreithiol;
d. Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol;
e. y Prif Economegydd (mewn perthynas ag Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn unig).

8.57 Drwy gydweithio â'r holl dimau hyn wrth ddatblygu'r dogfennau gellir cyflymu'r broses awdurdodi ar y diwedd. Yn wir, bydd pob un o'r timau yn croesawu trafod y dull o ddrafftio yn gynnar yn y broses, ac yn barod i gynorthwyo'r cyfnod datblygu drwy ystyried drafftiau gweithredol.

8.58 Bydd angen i Gwasanaethau Cyfreithiol fod yn fodlon ynghylch Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol yn benodol, ond mae'n debygol y bydd ganddynt ddiddordeb hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd neilltuo amser ar gyfer eu hystyriaeth yn ffactor pwysig yn y cyfnod datblygu.

8.59 Dylid nodi y bydd gan rai Grwpiau ofynion awdurdodi ychwanegol – dylai Rheolwyr Bil gysylltu ag Arweinydd Deddfwriaethol eu Grŵp i gael rhagor o wybodaeth.

8.60 Dylid ceisio awdurdodiad ar lefel swyddogion cyn gofyn am awdurdodiad gan Weinidogion.

8.61 At hynny, dylid rhoi cyfle i gynghorwyr arbennig perthnasol wneud sylwadau ar y Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, cyn ei anfon i'w awdurdodi gan y Gweinidogion.

### Awdurdodiad gan Weinidog

8.62 Rhaid i'r Gweinidog Arweiniol, y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog awdurdodi'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn eu cyflwyno. Yn ymarferol, caiff y rhain eu hawdurdodi bum neu chwe wythnos cyn y dyddiad cyflwyno, oherwydd unwaith y byddant wedi eu hawdurdodi, anfonir hwy at y Llywydd ar gyfer ei phenderfyniad (gweler Pennod 14). Gofynnir am awdurdodiad Gweinidogol fel rhan o'r broses o geisio awdurdodiad ar gyfer cyflwyno.

8.63 Argymhellir bod Rheolwyr Bil yn trafod gyda'r Swyddfa Breifat a fyddai'r Gweinidog yn dymuno gweld fersiynau gweithredol cynnar o agweddau allweddol ar y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae rhai Gweinidogion wedi gweld bod hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ymgyfarwyddo â manylion y Memorandwm Esboniadol yn ogystal â'r Bil, a hefyd wedi manteisio ar hyn fel cyfle i dynnu sylw tîm y Bil at bwyntiau penodol yr ystyria'r Gweinidog y gellid bod angen ymhelaethu arnynt yn y Memorandwm Esboniadol.

## Diwygio'r Memorandwm Esboniadol

### Diwygiadau cyn cyflwyno

8.64 Yn ystod y cyfnod pan fo'r Memorandwm Esboniadol gyda'r Llywydd i gael ei phenderfyniad arno, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cysylltu ag

Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ynglŷn ag unrhyw newidiadau y maen nhw'n ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn cysylltu â thîm y Bil i sicrhau y gwneir y newidiadau hyn ac y'u darperir i'r Swyddfa Gyflwyno o fewn yr amserlen ar gyfer cyflwyno.

8.65 At hynny, gallai tîm y Bil weld bod angen mân ddiwygio ar y ddogfen. Mae'n bosibl gwneud mân newidiadau o'r math hwn i'r Memorandwm Esboniadol, ar yr amod y'u gwneir yn y fersiwn sy'n cael ei gwirio gan y Swyddfa Gyflwyno. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn tynnu sylw'r Swyddfa Gyflwyno at y rhain pan gaiff wybod amdanynt gan dîm y Bil.

### Diwygio pan fo'r Bil yn symud i Gyfnod 3 ac i'r Cyfnod Adrodd

8.66 Os diwygir y Bil yng Nghyfnod 2 o'i ystyriaeth gan y Cynulliad, bydd yn ofynnol i'r Gweinidog baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni fydd y Pwyllgor yn penderfynu fel arall (gweler Rheol Sefydlog 26.67).

8.67 Hyd yn oed pan fo'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i ystyried y newidiadau yng Nghyfnod 2, gellir gwneud newidiadau hefyd yng ngoleuni tystiolaeth a gafwyd yn ystod Cyfnod 1 o'i ystyriaeth gan y Cynulliad (er enghraifft: os daw'n amlwg yn ystod Cyfnod 1 fod mân anghysondebau neu wallau yn y ddogfen, fod angen ymhelaethu ar wybodaeth, neu y dylid darparu esboniad pellach; neu er mwyn ymateb i argymhelliad oddi wrth un o'r Pwyllgorau a fu'n ystyried y Bil ar gyfer eglurhad neu wybodaeth ychwanegol). Gellir hefyd gwneud gwelliannau i'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau, fel diweddaru costau yn sgil adolygu'r data a ddefnyddiwyd yn sylfaen dystiolaeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

8.68 Yn yr un modd, os bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod Adrodd, bydd angen paratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig a fydd yn ystyried newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 3, oni fydd y Cynulliad yn penderfynu fel arall (gweler Rheol Sefydlog 26.46A). Dylai Memorandwm Esboniadol a ddiwygir ac a osodir ar ôl Cyfnod 2 (a Chyfnod 3 pan geir Cyfnod Adrodd) gynnwys yr holl elfennau sy'n ofynnol gan Reolau Sefydlog.

8.69 Bydd angen i'r newidiadau hyn eto gael eu hawdurdodi fel a ddisgrifir ym mharagraffau 8.56 – 8.61. Rhaid anfon y Memorandwm Esboniadol diwygiedig i gael ei awdurdodi gan y Gweinidog, y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog cyn ei gyflwyno.

8.70 Rhaid gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad ei ystyriaeth gan y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 3 neu'r Cyfnod Adrodd, fel y digwydd (gweler Rheol Sefydlog 26.28).

8.71 Pan osodir Memorandwm Esboniadol diwygiedig sy'n cynnwys newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gerbron y Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ysgrifennu i'r Pwyllgor pwnc sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil, a'r Pwyllgor Cyllid, gan nodi'r newidiadau a wnaed.

8.72 Ystyrir hefyd mai’r ymarfer gorau yw diwygio’r Memorandwm Esboniadol yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod yna Femorandwm Esboniadol sy’n adlewyrchu ffurf derfynol y Ddeddf.

### Cyfieithu

8.73 Bydd angen paratoi’r Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae’r Gwasanaeth Cyfieithu yn gofyn am fersiwn o’r Memorandwm Esboniadol i’w dilyn sy’n cynnwys y newidiadau wedi eu marcio.

# Pennod 9 – Nodiadau Esboniadol

**Paratoir y Nodiadau Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w cyflwyno gyda'r Bil pan gyflwynir y Bil i'r Cynulliad. Cyhoeddir hwy hefyd yn Gymraeg ac yn Saesneg gan yr Archifau Gwladol, gyda'r Ddeddf Cynulliad derfynol. Nid ydynt yn rhan o'r Bil nac o'r Ddeddf. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn esbonio adrannau o'r Bil neu'r Ddeddf yn wrthrychol mewn iaith glir a hygyrch, ac yn rhoi gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y ddeddfwriaeth.**

**Mae'r Bennod hon yn esbonio diben y Nodiadau Esboniadol, a phwy fydd yn eu darllen, sut y dylai'r Nodiadau Esboniadol edrych, sut i'w llunio gan sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn dda, a pha bryd y bydd angen eu diweddaru.**

## Diben ac effaith Nodiadau Esboniadol

9.1 Ar gyfer Biliau'r Cynulliad, mae Nodiadau Esboniadol yn cael eu cynnwys fel Atodiad 1 i'r Memorandwm Esboniadol er mwy bodloni'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(vii) Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

"*Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo […g]rynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil […]*"

9.2 Prif ddibenion y Nodiadau Esboniadol yw:

a. cynorthwyo darllenwyr, gan gynnwys rhai sydd heb gymhwyster cyfreithiol, neu sydd heb wybodaeth arbenigol o'r maes pwnc, i ddeall y Bil neu'r Ddeddf y maent yn gysylltiedig â hwy;

b. cynorthwyo i esbonio'r Bil (fel y'i cyflwynir ac fel y'i diwygir) i Aelodau'r Cynulliad, gan gefnogi'r broses o graffu;

c. cynorthwyo i esbonio unrhyw faterion cyfreithiol cymhleth sy'n ymwneud â'r Bil neu'r Ddeddf, ar gyfer darllenwyr cyffredinol, arbenigwyr sydd heb gymhwyster cyfreithiol, ac aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol;

d. darparu gwybodaeth gefndirol arall sydd o gymorth i esbonio diben ac effaith y Bil neu'r Ddeddf.

9.3 Nid yw'n fwriad i'r Nodiadau roi disgrifiad hollgynhwysol, na chymryd lle'r Bil neu Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau ar y cyd â'r Bil neu Ddeddf ac felly dylid osgoi dim ond ailadrodd neu aralleirio'r darpariaethau.

### Y darllenwyr

9.4 Wrth baratoi Nodiadau Esboniadol bydd angen ystyried gwahanol gynulleidfaoedd: darllenwyr cyffredinol, gweithwyr proffesiynol a allai fod â gwybodaeth benodol i sector, megis athrawon, landlordiaid neu swyddogion llywodraeth leol; a chyfreithwyr a darllenwyr a hyfforddwyd yn y gyfraith. Rhaid ystyried deunydd pwnc Bil unigol wrth benderfynu pwy fydd ei brif gynulleidfa debygol (neu gynulleidfaoedd tebygol).

### Statws cyfreithiol y Nodiadau

9.5 Nid yw'r Nodiadau yn ddeddfwriaeth ac nid ydynt yn cael eu diwygio gan y Cynulliad. Nid datrys amwyseddau yn nhestun y Bil neu'r Ddeddf yw eu diben.

9.6 Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, cyhoeddir y fersiwn derfynol o'r Nodiadau ochr yn ochr â'r Ddeddf. Bydd y Nodiadau yn cael eu darllen gan ymarferwyr sydd angen gweithredu'r gyfraith a chan farnwyr ac eraill y mae angen iddynt ddehongli'r gyfraith. O bryd i'w gilydd, efallai bydd llysoedd yn dibynnu ar y Nodiadau. Mae'n bwysig, felly, nad yw'r Nodiadau yn camarwain, ac nad ydynt yn cynnwys deunydd sy'n estyn y gyfraith ymhellach nag y gwna'r Bil neu'r Ddeddf.

### Biliau sy'n diwygio Deddfau presennol (y Senedd neu'r Cynulliad)

9.7 Ar gyfer y Bil yn unig y bydd y Nodiadau Esboniadol yn cael eu paratoi. Pan fo Bil yn diwygio Deddf Senedd y DU neu Ddeddf Cynulliad bresennol, neu Fesurau'r Cynulliad, ni ddiwygir y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Deddfau a'r Mesurau hynny.

9.8 Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod y Nodiadau ar gyfer y Bil yn esbonio pa newidiadau a wneir i ddeddfwriaeth arall ac effaith y newidiadau hynny (ac efallai pam y mae angen newidiadau o'r fath). Gall darparu esboniad o gyd-destun Bil neu Ddeddf drwy groesgyfeirio at ddeddfwriaeth arall y mae'r Bil neu'r Ddeddf yn ymwneud â hi fod o gymorth i ymarferwyr, gan gynnwys cyfreithwyr, sy'n darllen Nodiadau Esboniadol.

9.9 Mae Rheol Sefydlog 26.6C yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo Bil yn cynnig gwneud diwygiadau mawr i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, bod rhaid cynnwys atodlen sy'n nodi geiriad y ddeddfwriaeth bresennol a ddiwygir gan y Bil, ac sy'n nodi'n eglur sut y diwygir y geiriad hwnnw gan y Bil, gyda'r Memorandwm Esboniadol. Mae'n bosibl y bydd timau Bil yn dymuno ystyried pa wybodaeth o'r atodlen honno y byddai'n fuddiol ei chynnwys yn y Nodiadau Esboniadol. Fel arfer, fodd bynnag, ni fyddai'r atodlen gyfan yn cael ei chynnwys yn y Nodiadau Esboniadol.

9.10 Mae'n hanfodol bod y Nodiadau Esboniadol yn niwtral o ran eu mynegiant. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn ddogfen y Cynulliad, ac aseinir yr hawlfraint i'r Cynulliad tra bo'r Bil gerbron y Cynulliad. Mae'n agored i Glercod y Cynulliad wrthod cyhoeddi'r Nodiadau os yw'r Nodiadau'n ceisio 'gwerthu' y Bil, hynny yw, os ydynt yn gwneud mwy na rhoi disgrifiad niwtral o'r Bil ac yn ei hyrwyddo. Er enghraifft, mae'n bwysig dweud beth y bwriedir i'r darpariaethau ei wneud, ond ni chaniateir dweud bod darpariaeth yn "cynnig ymateb cynhwysfawr i'r broblem drwy …".

9.11 Mae'n bwysig hefyd osgoi jargon ac 'iaith gyfreithiol' yn y Nodiadau. Dylent gynorthwyo darllenwyr sydd heb hyfforddiant cyfreithiol, ac sydd hefyd yn anghyfarwydd â maes pwnc y Bil neu'r Ddeddf. Mae profiad yn dangos mai Nodiadau mewn iaith glir a brawddegau a pharagraffau byr sydd orau.

9.12 Mae enghreifftiau o Nodiadau Esboniadol ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

9.13 Nid oes rheolau pendant ynglŷn â chynnwys y Nodiadau: bydd yr union bethau a grybwyllir yn dibynnu ar y Bil. Ond fel arfer dylent gynnwys yr eitemau a ganlyn, sy'n cael eu trafod yn fanylach fesul un isod: Cyflwyniad; Crynodeb a'r Cefndir; a Sylwebaeth.

### Cynnwys – cyflwyniad

9.14 Dylai Nodiadau Esboniadol ddechrau bob amser gyda chyflwyniad sy'n datgan yn glir eu bod wedi eu paratoi gan y Grŵp ac nad ydynt yn rhan o'r Bil. Dylai'r cyflwyniad fod yn y ffurf ganlynol yn Gymraeg:

> *Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer [mewnosoder enw llawn y Bil] a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [mewnosoder dyddiad ei gyflwyno]. Fe'u lluniwyd gan [enw'r adran] Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.*

Ac yn Saesneg:

> *These Explanatory Notes are for the [insert Bill title] which was introduced into the National Assembly for Wales on [insert date of introduction]. They have been prepared by the [insert department name] of the Welsh Government in order to assist the reader of the Bill. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Bill but are not part of it.*

### Cynnwys – crynodeb a'r cefndir

9.15 Er mwyn darparu digon o wybodaeth i'r darllenydd allu deall at beth y mae'r ddeddfwriaeth yn gyfeirio, dylai'r Nodiadau gynnwys crynodeb byr o ddiben ac effaith y ddeddfwriaeth gyfan. Dylai'r crynodeb gynnwys unrhyw wybodaeth gefndirol berthnasol a allai fod o gymorth i'r darllenydd ddeall diben, effaith neu gynnwys y Bil neu'r Ddeddf, a disgrifio mewn termau cyffredinol sut y mae'r ddeddfwriaeth yn mynd ati i gyflawni ei nodau.

9.16 Ni ddylai hyn fod yn drafodaeth fanwl ynghylch yr opsiynau polisi a ystyriwyd, er y gellir cyfeirio at ddeunydd polisi (e.e. Papurau Gwyrdd a Gwyn; datganiadau Gweinidogol). Y Memorandwm Esboniadol yw'r lle priodol ar gyfer trafodaeth o'r fath.

9.17 Techneg ddefnyddiol yw disgrifio'r sefyllfa bresennol a sut y byddai'r Bil yn ei newid. Dylid darparu enghreifftiau neu drafod beth fyddai'r goblygiadau ymarferol tebygol.

### Cynnwys – sylwebaeth fesul adran

9.18 Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fanylach am y ddeddfwriaeth. Darparu rhagor o wybodaeth ac esbonio'r hyn y byddai'r Bil yn ei wneud, mewn geiriau syml yw'r diben.

9.19 Wrth baratoi'r sylwebaeth, dylid cadw mewn cof y pwyntiau cyffredinol a ganlyn:

a. Bydd y Nodiadau Esboniadol yn cael eu darllen ar y cyd â'r Bil neu'r Ddeddf, felly peidiwch ag aralleirio'r darpariaethau sydd yn y Bil neu'r Ddeddf (hynny yw, peidiwch ag ailddweud yr hyn sydd mewn darpariaethau mewn geiriau gwahanol);

b. Ni ddylai Nodiadau Esboniadol fod yn hwy nag sy'n ofynnol yn achos unrhyw Fil penodol – gellir hwyluso hyn weithiau drwy drafod nifer o adrannau (ac atodlenni cysylltiedig) gyda'i gilydd fel un grŵp;

c. Nid oes raid i'r Nodiadau Esboniadol esbonio adrannau o Fil neu Ddeddf pan nad oes angen unrhyw esboniad pellach;

d. Mae esbonio materion neu brosesau cymhleth yn werthfawr – dylech ddefnyddio'r deunydd presennol i nodi pa faterion y gellid bod angen eu hesbonio mewn Nodiadau Esboniadol, ac weithiau gall deunydd o'r fath gynnwys esboniadau buddiol eisoes, y gellid eu defnyddio fel man cychwyn. Byddai'r canlynol yn ffynonellau posibl:

   i. Dogfennau ymgynghori;
   ii. Cyfarwyddiadau polisi;
   iii. Cyfarwyddiadau cyfreithiol;
   iv. Memoranda o Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol;

v. Deunydd esboniadol;
vi. Asesiadau effaith;
vii. Areithiau;
viii. Nodiadau annerch.

e. Wrth esbonio cyd-destun cyfreithiol adran benodol, neu grŵp o adrannau, gallai fod yn briodol weithiau ddarparu esboniad cyffredinol yn gyntaf yn y Nodiadau Esboniadol, a dilyn hynny gyda rhagor o fanylion a allai fod o fudd i ddarllenwyr arbenigol neu ddarllenwyr a hyfforddwyd yn y gyfraith;

f. Gall fod o gymorth i ymarferwyr sy'n darllen y Nodiadau Esboniadol, gan gynnwys cyfreithwyr, os esboniwch gyd-destun adran o'r Bil neu Ddeddf drwy groesgyfeirio at ddeddfwriaeth arall y mae'n berthnasol iddi;

g. Gellid bod angen gwahanol ddulliau o baratoi Nodiadau Esboniadol ar gyfer gwahanol fathau o ddeddfwriaeth – mae'n bosibl y bydd Bil neu Ddeddf sy'n diwygio yn galw am ddull gwahanol yn ei Nodiadau Esboniadol, o gymharu â Bil sy'n ailddatgan darpariaethau o Ddeddfau eraill, ac efallai y bydd angen dull gwahanol eto wrth gydgrynhoi deddfwriaeth;

h. Mae'n bwysig darparu esboniad o dermau technegol, terminoleg neu fyrfoddau a ddefnyddir yn y BIl (gan gadw mewn cof y gall hyn fod yn wahanol yn nhestunau Cymraeg a Saesneg y Nodiadau Esboniadol – pan fo materion penodol yn codi ynghylch terminoleg mewn un iaith, gall y testunau Cymraeg a Saesneg wahaniaethu o ran eu cynnwys, er mwyn ymateb i anghenion y ddau gorff o ddarllenwyr, a fydd yn wahanol i'w gilydd);

i. Gwerthfawrogir enghreifftiau 'bywyd go iawn' ymarferol mewn Nodiadau Esboniadol o'r ffordd y byddai Bil yn gweithredu, a gallant fod yn fuddiol iawn:

j. Pan nad oes modd rhestru pob enghraifft berthnasol, mae'n bwysig gwneud yn eglur nad yw unrhyw restr o enghreifftiau yn hollgynhwysol, er mwyn osgoi'r perygl o gamddehongli'r rhestr;

k. Drwy ddefnyddio tablau, siartiau llif, diagramau eraill neu luniau, gellir cyfleu esboniadau cymhleth yn eglur;

l. Wrth ddrafftio Nodiadau Esboniadol, dylid eu trin fel dogfen sy'n sefyll ar ei phen ei hun – nid oes angen ceisio osgoi ailadrodd rhwng y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol os oes rheswm dilys dros y cynnwys yn y ddwy ddogfen;

m. Mae'n bwysig ystyried sut y caiff y Nodiadau Esboniadol eu darllen ochr yn ochr â'r Ddeddf yn y dyfodol, ac nid dim ond pan fyddant yn cael eu drafftio neu pan fo'r Bil gerbron y Cynulliad.

9.20 Nid yw'r uchod yn rhestr haearnaidd, ac ni fydd pob un o'r pwyntiau sydd ynddi yn berthnasol i bob Bil. Dylid neilltuo digon o amser i feddwl am sut i gyflwyno materion cymhleth yn y Nodiadau Esboniadol.

### Fformat a gosod y testun

9.21 Mae gofynion penodol ar gyfer fformat a gosodiad y Nodiadau Esboniadol, y cytunwyd arnynt gyda'r Archifau Gwladol. Rhaid i'r timau Bil ddilyn y gofynion fformatio a gosod hynny yn fanwl. Mae'n bwysig bod y Nodiadau Esboniadol ar gyfer Deddf wedi eu fformatio'n gywir; os methir â chydymffurfio â'r gofynion, caiff y Nodiadau eu dychwelyd ar gyfer eu hailfformatio.

9.22 Gellir cael templed i'w lenwi oddi wrth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Fodd bynnag, mae'r gofynion sylfaenol yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

a. tudalen maint A4, gyda'r ddalen 'ar i fyny', ac ymylon dogfen o 2.54 cm ar bob ochr (brig, gwaelod, chwith a de);

b. dylid defnyddio'r ffont Book Antiqua;

c. mae maint y ffont ar gyfer is-benawdau yn y Nodiadau yn amrywio (rhoddir y manylion yn y templed ar gyfer y Nodiadau Esboniadol), ond ffont maint 11 pwynt, gyda bwlch sengl rhwng llinellau, wedi ei unioni, a ddefnyddir ar gyfer y prif destun;

d. dylai testun is-bennawd y Nodiadau fod mewn priflythrennau, ffont trwm. Dylai penawdau'r adrannau unigol hefyd fod mewn ffont trwm, ffurf brawddeg yn unig. Dylai testun penawdau ac is-benawdau fod mewn ffont maint 12 pwynt, gyda bwlch sengl rhwng llinellau, wedi ei unioni;

e. dylai mewnoliad y paragraffau fod yn gyson drwy'r ddogfen gyfan;

f. dylid rhifo pob paragraff, gan roi'r rhif 1 i baragraff cyntaf y Nodiadau Esboniadol. Dylid mewnoli is-baragraffau o un bwlch tab, a defnyddio bwledi neu rifau gyda mewnoliadau crog;

g. dylid amgáu diagramau, tablau a siartiau mewn blwch o linell 0.5;

h. defnyddir priflythyren ar ddechrau'r gair "Bil" bob amser ond nid ar ddechrau 'adran' nac 'atodlen' (oni chyfeirir at atodlen benodol);

i. dylid rhoi dyddiadau ar gyfer unrhyw ddiwrnod o fis gan nodi'r rhif yn y mis yn unig: ni ddylid defnyddio 'af', 'il' 'ydd', 'ed', 'fed', 'eg' nac 'ain', er enghraifft '17 Mawrth' ac nid '17eg Mawrth';

j. dylai teitlau papurau y cyfeirir atynt yn y Nodiadau fod mewn ffont italig yn hytrach na rhwng dyfynodau;

k. dylid darparu unrhyw ddelweddau sydd i'w cynnwys, megis siartiau llif a lluniau, fel ffeiliau TIFF eglur iawn.

9.23 Rhaid cynnwys pennyn ar bob tudalen; yn Gymraeg, dylai fod yn y ffurf safonol ganlynol:

> *Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at [enw'r Bil] a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [dyddiad].*

Ac yn Saesneg:

> *These notes refer to the [name of] (Wales) Bill which was introduced to the Assembly on [date].*

## Y dull o baratoi Nodiadau Esboniadol

### Paratoi'r Nodiadau Esboniadol

9.24 Mae'r pwyntiau canlynol yn rhai pwysig i'w hystyried wrth ysgrifennu Nodiadau Esboniadol:

a. Tîm y Bil sy'n gyfrifol am baratoi'r Nodiadau Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Swyddogion polisi sydd â dealltwriaeth eglur o fwriad polisi'r Bil a ddylai arwain y broses o'u paratoi. Mae drafftwyr y Nodiadau yn cael eu hannog yn gryf i drafod bwriad a manylion yr adrannau o'r Bil gyda Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i sicrhau, yn gyntaf, fod yr adrannau yn bodloni'r gofynion, ac yn ail, er mwyn cynorthwyo i baratoi Nodiadau Esboniadol effeithiol;

b. Dechreuwch yn brydlon – ni ddylai swyddogion aros hyd nes y bydd drafft llawn o'r Bil yn barod cyn dechrau ar y gwaith. Yn hytrach, dylent ddechrau paratoi deunydd a ddaw'n rhan o'r Nodiadau Esboniadol cyn gynted ag y bo cyfarwyddiadau ar gael (gan gydnabod nad oes modd creu drafft terfynol y pryd hwnnw);

c. Dylid neilltuo digon o amser a lle i feddwl sut y dylid cyfleu materion cymhleth yn y Nodiadau Esboniadol – gan gadw mewn cof y pwyntiau y tynnwyd sylw atynt yn gynharach yn y Bennod hon;

d. Bydd bob amser yn fuddiol cael pâr arall o lygaid i adolygu'r drafft cyntaf o'r Nodiadau Esboniadol, er mwyn ystyried a yw'n cyflawni ei ddibenion, yn bodloni anghenion y darllenwyr ac yn gydnaws ag arferion da– gallai hyn gael ei wneud o bosibl gan aelod o dîm Bil arall, a fydd yn gallu rhoi mewnbwn gwrthrychol;

e. Dylai swyddog sy'n gweithredu fel golygydd Nodiadau Esboniadol oruchwylio'r gwaith o'u paratoi, er mwyn rheoli a chynnal y paramedrau mewn perthynas ag arddull, cynnwys, cyd-destun, rheoli fersiynau ac amserlenni;

f. Dylai Prif Berchenogion Cyfrifol a golygyddion ystyried sut y byddant yn sicrhau cysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg wrth gynllunio i baratoi Nodiadau Esboniadol;

g. Dylai'r Prif Berchenogion Cyfrifol sicrhau hefyd fod aelodau eraill tîm Bil yn deall sut i baratoi Nodiadau Esboniadol, a bod y gwaith yn cael ei wneud ganddynt ar y cyd. Dylent sicrhau y defnyddir byrddau prosiect i fonitro cynnydd wrth ddatblygu'r Nodiadau Esboniadol;

h. Sicrhewch fod gan yr holl swyddogion polisi sy'n cymryd rhan ddealltwriaeth gyffredin o'r cyfraniad y gallant ei wneud i'r gwaith o baratoi Nodiadau Esboniadol;

i. Cysylltwch yn brydlon â chyfreithwyr Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, Uned y Rhaglen Deddfwriaethol a'i Llywodraethiant a'r ieithyddion deddfwriaethol yn yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol, a chydweithio â nhw, i ddod i gytundeb eglur ar y cyd o sut y dylai'r Nodiadau Esboniadol edrych, a sut y dylid eu paratoi yng nghyd-destun y Bil unigol (ar sail y pwyntiau cyffredinol a drafodwyd eisoes yn y Bennod hon);

j. Dylid ystyried y prif bwyntiau mewn Bil y bydd angen eu hesbonio ymhellach fel rhan o'r trafodaethau cynnar hyn. Dylai swyddogion gytuno ar bwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu esboniadau o'r fath, ar sail ystyriaeth o'r adnoddau yn ogystal ag addasrwydd. Fel arfer y tîm polisi a fyddai'n darparu'r esboniadau, ond gall cyfreithwyr wneud hynny mewn rhai achosion;

k. Dylai'r trafodaethau hyn hefyd nodi:
   i. Y gynulleidfa/cynulleidfaoedd a'r dull a ddilynir ar gyfer pob Rhan o'r Bil;
   ii. Pa ddeunydd oedd eisoes ar gael i dynnu ohono ar gyfer Nodiadau Esboniadol;
   iii. Ym mha le nad yw'n debygol y bydd angen Nodiadau Esboniadol;
   iv. Sut y paratoir y Nodiadau Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg;
   v. Yr amserlenni ar gyfer paratoi drafftiau o'r Nodiadau Esboniadol a'u hadolygu;

l. Dilynwch hyn drwy barhau i gadw mewn cysylltiad cyson, gan sicrhau bod cyfreithwyr ac ieithyddion deddfwriaethol yn cael cyfle i adolygu a newid drafftiau o’r Nodiadau Esboniadol yn unol ag amserlenni sydd wedi eu cytuno ymlaen llaw gan bawb sy’n gysylltiedig â’r gwaith;

m. Mae’n anochel weithiau y bydd angen i gyfreithwyr ac ieithyddion deddfwriaethol adolygu a newidiad amrywiol fersiynau. Mewn achosion o’r fath, dylai newidiadau wedi’u marcio ddangos yn eglur yr holl newidiadau a wnaed i’r Nodiadau Esboniadol er pan yr adolygwyd a newidiwyd fersiwn y tro diwethaf gan y cyfreithwyr a’r ieithyddion deddfwriaethol hynny (a’r newidiadau hynny yn unig, nid unrhyw newidiadau cynharach). Dylid dilyn yr un drefn yn ystod y camau diwygio ac ar ôl i’r Bil gael ei pasio. Dylai pob fersiwn fod yn gyflawn ac yn ystyrlon. Dylai hyn fod yn rhan o swyddogaeth golygydd y Nodiadau Esboniadol.

## Paratoi Nodiadau Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg

9.25 Rhaid i’r Nodiadau Esboniadol fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd timau Bil wedi bod yn ystyried o ddechrau’r prosiect sut i baratoi’r testunau Cymraeg a Saesneg. Os penderfynwyd defnyddio’r Gwasanaeth Cyfieithu i ddarparu neu helpu i ddarparu testunau, yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol fydd yn ymgymryd â’r gwaith hwnnw. Rhaid i dîm y Bil ganiatáu digon o amser ar gyfer cyfieithu’r Nodiadau Esboniadol a gwneud trefniadau ar gyfer gwirio testunau Cymraeg a Saesneg y Nodiadau, yn erbyn ei gilydd ac yn erbyn y Bil. Gweler Pennod 3 am gyngor pellach. Bydd hyn hefyd yn gymwys wrth baratoi’r Nodiadau Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2 neu Gyfnod 3 o’r ystyriaeth gan y Cynulliad, a hefyd pan gyhoeddir y Nodiadau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol (gweler isod).

9.26 Os bydd y Gwasanaeth Cyfieithu yn ymwneud â pharatoi’r Nodiadau, bydd cysylltu â’r Gwasanaeth o ddechrau’r broses, a chadw mewn cysylltiad cyson, yn helpu i sicrhau bod y ddogfen yn cael ei pharatoi’n effeithiol ac yn brydlon. Mae’n well gan y Gwasanaeth Cyfieithu gael dogfennau cyflawn a therfynol i’w cyfieithu. Fodd bynnag, os na chaniatawyd digon o amser ar gyfer hynny, gellir paratoi Nodiadau fesul cam. Os mabwysiedir y dull hwnnw:

a. rhaid cynllunio’r camau a chytuno arnynt ymlaen llaw gyda’r Gwasanaeth Cyfieithu;
b. rhaid cadw rheolaeth lem ar wahanol fersiynau o’r dogfennau a sicrhau bod yr holl newidiadau perthnasol wedi eu marcio;
c. rhaid caniatáu digon o amser i’r Gwasanaeth Cyfieithu gasglu’r ddogfen gyfan ynghyd er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn gyflawn a chydlynus cyn ei gwirio.

### Awdurdodi

9.27 Bydd rhaid i'r swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant awdurdodi'r drafftiau o'r Nodiadau Esboniadol, oni fyddant yn hysbysu'r timau Bil fel arall.

9.28 Rhaid i'r Nodiadau Esboniadol gael eu hawdurdodi yn fewnol (h.y. cyn eu hanfon at Weinidogion):

a. cyn cyflwyno'r Bil;

b. ar ôl Cyfnod 2, a chyn eu cyflwyno cyn Cyfnod 3;

c. ar ôl Cyfnod 3, a chyn eu cyflwyno cyn y Cyfnod Adrodd – os defnyddir Cyfnod Adrodd;

d. ar ôl pasio'r Bil.

9.29 Ni fydd modd i swyddog(ion) cyfarwyddo Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant awdurdodi'r Nodiadau Esboniadol oni fyddant yn fodlon:

a. bod y Nodiadau Esboniadol yn y fformat cywir (gweler paragraffau 9.21 – 9.23 uchod) ac yn dilyn y templed cywir (fel y darperir gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant);

b. nad yw'r Nodiadau Esboniadol yn cynnwys deunydd a gynlluniwyd i argyhoeddi darllenwyr o rinweddau'r polisi, neu i 'werthu'r Bil' (yn hytrach nag esbonio beth yw'r polisi);

c. nad yw'r Nodiadau Esboniadol yn camliwio effaith neu ddiben unrhyw rai o ddarpariaethau'r Bil (fel y cytunwyd arnynt mewn trafodaeth gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol), neu'n cynnwys unrhyw anghywirdeb.

9.30 Yn ogystal â bodloni eu hunain ynglŷn â'r materion uchod, mae'r swyddog(ion) cyfarwyddo, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn debygol o dynnu sylw at unrhyw ddarnau yn y Nodiadau Esboniadol y maen nhw'n ystyried sydd yn anodd eu deall, neu a allai beri dryswch i ddarllenwyr lleyg, neu sy'n dangos efallai y bu camddealltwriaeth o bosibl rhwng y drafftiwr a thîm y Bil.

### Diwygiadau pan fo'r Bil yn symud i Gyfnod 3 (neu i'r Cyfnod Adrodd)

9.31 Mae gofyniad yn y Rheolau Sefydlog (gweler Rheol Sefydlog 26.27) i ddiwygio'r Nodiadau (fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol) pan fo'r Bil yn cael ei ddiwygio yng Nghyfnod 2 (neu, o dan Reol Sefydlog 26.46A,

yng Nghyfnod 3 pan fo'r Bil yn symud ymlaen i'r Cyfnod Adrodd) er mwyn ystyried, pan fo angen:

a. pob gwelliant a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2 (neu Gyfnod 3);

b. unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau yn y Nodiadau y gall fod eu hangen, er enghraifft i wella'u cywirdeb neu'u heglurder, neu i gynnwys ffeithiau neu esboniadau newydd sydd wedi dod i'r amlwg wrth i'r Pwyllgor Cyfrifol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol graffu ar y Bil.

9.32 Weithiau gwneir gwelliant yng Nghyfnod 2 y bydd y Llywodraeth wedi dweud y bydd yn ceisio ei wrthdroi yng Nghyfnod 3. Mewn amgylchiadau o'r fath dylai'r Nodiadau roi disgrifiad niwtral o'r gwelliant a'i effaith.

9.33 Rhaid cyflwyno'r nodiadau diwygiedig, yn Gymraeg ac yn Saesneg o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dadl Cyfnod 3 neu'r Cyfnod Adrodd (fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig). Dylid cynllunio amser ac adnoddau ar gyfer cynnwys y newidiadau i'r Nodiadau Esboniadol yn ystod y cyfnodau diwygio, a'r gofynion cyfieithu cysylltiedig.

9.34 Bydd angen diwygio'r cyflwyniad a'r pennyn i'r geiriad Cymraeg a ganlyn:

> *Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer [mewnosoder enw llawn y Bil] a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [mewnosoder dyddiad ei gyflwyno] ac a ddiwygiwyd ar ôl trafodion Cyfnod 2/Cyfnod 3 [dileer yn ôl yr angen] ar [mewnosoder y dyddiad]. Fe'u luniwyd gan [enw'r adran] Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.*
>
> *Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at [enw'r Bil] a ddiwygiwyd ar ôl trafodion Cyfnod 2/Cyfnod 3 [dileer yn ôl yr angen] ar [dyddiad].*

Ac yn Saesneg:

> *These Explanatory Notes are for the [insert Bill title] which was introduced into the National Assembly for Wales on [insert date] and amended following Stage 2/Stage 3 [delete as appropriate] proceedings on [insert date]. They have been prepared by [insert department name] of the Welsh Government to assist the reader. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Bill but are not part of it.*
>
> *These notes refer to the [insert name of Bill] which was amended following Stage 2/Stage 3 [delete as appropriate] proceedings on [insert date].*

9.35 Pan fydd y Cynulliad yn pasio’r Bil, bydd angen i dîm y Bil baratoi’r Nodiadau Esboniadol ar gyfer eu cyhoeddi. Bydd angen cynllunio amser ac adnoddau i sicrhau y gellir gwneud y newidiadau terfynol hyn. Bydd rhaid dilyn y rheolau ynglŷn â fformatio a gosod y testun (mae’r templed cywir ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant), a bydd angen cynnwys rhai paragraffau o destun safonol.

9.36 Dylai tîm y Bil ddiwygio’r Nodiadau Esboniadol i adlewyrchu’r newidiadau a wnaed yn ystod y Cyfnod diwygio olaf, a sicrhau bod y fformat yn gywir. Bydd y newidiadau eraill yn cynnwys:

a. diwygio’r pennyn ar bob tudalen i’r geiriad Cymraeg:

> *Mae’r nodiadau hyn yn cyfeirio at [enw’r Ddeddf] [blwyddyn] (dccc [rhif]) a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar [dyddiad].*

Ac yn Saesneg:

> *These notes refer to the [name of] Act [year] (anaw [number]) which received Royal Assent on [date].*

Noder – yn y pennyn hwn ystyr yr acronym ‘dccc’ yn y testun Cymraeg yw Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ystyr ‘anaw’ yn y testun Saesneg yw Act of the National Assembly for Wales. Ym mhob blwyddyn galendr rhoddir rhif i bob un o’r Deddfau sy’n cael ei phasio – dechreuir gyda’r rhif 1 a rhoddir rhifau i’r Deddfau yn y drefn y byddant yn cael eu gwneud. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant roi gwybod ichi pa rif dccc i’w ddefnyddio at ddibenion ddiwygio’r Nodiadau.

b. Dylid diwygio’r cyflwyniad i’r geiriad Cymraeg fel a ganlyn:

> *Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer [enw’r Ddeddf] a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [mewnosoder y dyddiad] ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar [mewnosoder y dyddiad]. Fe'u lluniwyd gan [mewnosoder enw’r adran] Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.*

Ac yn Saesneg:

> *These Explanatory Notes are for the [name of Act] which was passed by the National Assembly for Wales on [insert date] and received Royal Assent on [insert date]. They have been prepared by the [insert department name] of the Welsh Government to assist the reader of the*

*Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.*

c. Dylai cyfeiriadau at 'y Bil' yn nhestun Cymraeg y Nodiadau gael eu newid yn gyfeiriadau at 'y Ddeddf', ac yn y testun Saesneg, dylai cyfeiriadau at 'Bill' gael eu newid yn gyfeiriadau at 'Act', gan wneud y newidiadau gramadegol angenrheidiol a ddaw yn sgil hynny;

d. Dylid diwygio testun y Nodiadau i adlewyrchu'r ffaith y byddant yn parhau i gael eu darllen drwy gydol oes y Ddeddf. Er enghraifft, gallai'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer Bil gyfeirio at ddisodli "system bresennol", ond bydd Nodiadau Esboniadol y Ddeddf yn canolbwyntio yn hytrach ar esbonio'r system a sefydlir gan y Ddeddf;

e. Ar ddiwedd y Nodiadau, dylid mewnosod Tabl sy'n rhoi manylion hynt y Ddeddf drwy'r Cynulliad, ynghyd â dolen i dudalen we'r Cynulliad ar gyfer y Bil. Mae'r testun safonol ar gyfer y paragraff a'r tabl wedi ei gynnwys yn y templed a ddarperir gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

## Nodiadau Esboniadol ar gyfer Biliau Anllywodraethol

9.37 Bydd yr Aelod Cyfrifol am Fil Anllywodraethol yn paratoi'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer cyflwyno ei Fil ac yn eu diwygio ar ôl y Cyfnodau diwygio. Fodd bynnag, unwaith y bydd y Bil wedi ei basio, bydd yr Archifau Gwladol yn disgwyl i'r Llywodraeth adolygu'r Nodiadau a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'w cysoni â'r fformat a'r safonau sy'n ofynnol gan yr Archifau Gwladol ar gyfer cyhoeddi. Byddai'n gam doeth, felly, pe bai'r swyddogion sy'n gweithio ar Fil Anllywodraethol yn ymgyfarwyddo â'r Nodiadau tra bo'r Bil dan ystyriaeth gan y Cynulliad, ac yn ceisio nodi pa feysydd y bydd angen eu diwygio os caiff y Bil ei basio.

9.38 Unwaith y bydd y Bil wedi ei basio, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn comisiynu'r swyddogion hynny yn ffurfiol i ddiwygio'r Nodiadau, yn barod ar gyfer eu cyhoeddi pan roddir Cydsyniad Brenhinol i'r Bil.

## Cyhoeddi a hawlfraint (ar gyfer Deddfau)

9.39 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn anfon y fersiwn derfynol o'r Nodiadau Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w cyhoeddi ochr yn ochr â'r Ddeddf. Bydd y Ddeddf a'r Nodiadau Esboniadol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wefan legislation.gov.uk. Cydnabyddir y fersiynau a gyhoeddir ar wefan legislation.gov.uk gan y llysoedd, a bydd unrhyw gywiriadau y bydd eu hangen yn ddiweddarach, yn y Ddeddf neu'r Nodiadau Esboniadol, yn

cael eu hymgorffori yn y testunau a gyhoeddir ar legislation.gov.uk. Dylai Grwpiau, felly, ddarparu dolenni o’u gwefannau eu hunain i’r testunau hyn, yn hytrach na chyhoeddi’r testunau ar wahân ar eu gwefannau eu hunain.

# Pennod 10 – Pwerau dirprwyedig mewn Biliau'r Cynulliad

**Ymdrinnir yn aml â materion manwl mewn rheoliadau neu mewn mathau eraill o is-ddeddfwriaeth. Yn y Bennod hon, darperir canllawiau ynglŷn â phwerau dirprwyedig (h.y. y pwerau mewn Biliau'r Cynulliad i wneud y rheoliadau hyn neu fathau eraill o is-ddeddfwriaeth).**

## Gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth

10.1 Mae amryw o ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a ddylai darpariaeth gael ei gwneud mewn deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth. Gall y rhain gynnwys y ffactorau a ganlyn:

a. gallai fod angen addasu'r materion dan sylw yn amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Cynulliad wneud deddfwriaeth sylfaenol at y diben hwnnw;

b. gall fod yn well gwneud rhai rheolau ar ôl cael profiad o weinyddu'r Ddeddf newydd, ac nad oes raid eu cael y funud y dechreuir gweithredu'r Ddeddf;

c. weithiau mae cynsail cryf ar gyfer defnyddio pwerau dirprwyedig mewn maes penodol, ac nid yw'r syniad yn un dadleuol o gwbl;

d. gallai fod yn briodol ymdrin â rhai materion trosiannol a thechnegol trwy bwerau dirprwyedig.

10.2 Bydd angen ystyried yn ofalus –

a. a yw'r materion, er mor fanwl ydynt, yn gymaint o hanfod y Bil, fel y dylai'r Cynulliad eu hystyried ochr yn ochr â gweddill y Bil;

b. a allai'r materion godi cwestiynau dadleuol a fyddai'n treiddio drwy'r Bil, ac y byddai'n well i'r Cynulliad benderfynu arnynt unwaith mewn egwyddor yn hytrach na dychwelyd atynt droeon drachefn (a gwastraffu amser prin y Cynulliad yn y broses).

Gweler hefyd Bennod 7 sy'n ymwneud â chyfarwyddiadau ar gyfer Biliau

### Ffurf yr is-ddeddfwriaeth

10.3 Gwneir yr is-ddeddfwriaeth fel arfer drwy Offerynnau Statudol, sy'n amrywio o ran eu ffurf; y mathau mwyaf cyffredin mewn Biliau'r

Cynulliad yw rheoliadau, rheolau a gorchmynion. Fel arfer rhagnodir yr union ffurf yn y Ddeddf alluogi.

10.4 Gall Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol gynghori ar ffurf briodol yr is-ddeddfwriaeth

## Gweithdrefn ar gyfer craffu gan y Cynulliad ar is-ddeddfwriaeth

10.5 Bydd y Cynulliad yn cymryd diddordeb mawr yn natur a chwmpas rheolaeth y Cynulliad ar is-ddeddfwriaeth, a bydd gofyn i'r Llywodraeth gyfiawnhau unrhyw bwerau dirprwyedig a'r lefel o graffu gan y Cynulliad a ddymunir. Dylai tîm y Bil, felly, sicrhau bod y Gweinidog yn fodlon â'r hyn a gynigir ac yn cael gwybod am unrhyw ddefnydd o bwerau dirprwyedig a allai brofi'n ddadleuol.

### Ffurfiau o weithdrefn

10.6 Y 'weithdrefn penderfyniad negyddol' yw'r math mwyaf cyffredin o weithdrefn. Nid yw'r weithdrefn hon yn gohirio rhoi offeryn ar waith ond, os o fewn 40 diwrnod i osod yr offeryn gerbron y Cynulliad (gan ddiystyru unrhyw gyfnod o doriad yn y Cynulliad sy'n hwy na 4 diwrnod), caiff cynnig diddymu ei gyflwyno yn erbyn yr offeryn gan Aelod Cynulliad, a'r cynnig hwnnw yn cael ei gymeradwyo, bydd yr offeryn yn peidio â chael effaith.

10.7 Y 'weithdrefn penderfyniad cadarnhaol' yw'r brif ffurf arall ar weithdrefn. Yn unol â'r weithdrefn hon, ni ellir gwneud yr offeryn oni fydd drafft ohono wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad a'r cynnig i gytuno arno wedi cael ei gymeradwyo.

10.8 Mae rhai offerynnau nad ydynt yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad ac nad oes gweithdrefn yn gysylltiedig â hwy. Mae hyn yn digwydd yn gyffredin yn achos gorchmynion cychwyn ar gyfer Deddfau.

10.9 Mewn rhai achosion eraill, eithriadol, gall fod darpariaeth ar gyfer mwy o reolaeth gan y Cynulliad (gweithdrefn 'uwchgadarnhaol'). Mae darpariaeth o'r fath yn cymhlethu prosesau'r Cynulliad fwyfwy ac yn cael effaith sylweddol ar reolaeth busnes yn y dyfodol. O'r herwydd, nid yw gweithdrefnau o'r fath fel arfer yn briodol.

10.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y ffactorau a fyddai'n tueddu i ddangos ai'r weithdrefn gadarnhaol ynteu'r negyddol y dylid ei chymhwyso.

10.11 Mae'r ffactorau a ganlyn yn dangos mai'r weithdrefn gadarnhaol y dylid ei chymhwyso –

a. pwerau sy'n galluogi i ddarpariaeth gael ei gwneud a all effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Senedd y DU, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad;
b. pwerau sydd â'r prif ddiben o alluogi Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol i roi mwy o bwerau o sylwedd iddynt hwy eu hunain;
c. pwerau i weithredu yng Nghymru ddarpariaethau Deddfau Senedd y DU sydd, er enghraifft, yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn gynwysedig yn y Ddeddf ei hun (boed gydag addasiadau neu hebddynt);
d. pwerau i orfodi neu gynyddu trethi neu feichiau ariannol sylweddol eraill ar aelodau o'r cyhoedd;
e. darpariaeth sy'n galw am wariant sylweddol gan y Llywodraeth;
f. pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol;
g. pwerau i roi pwerau mynediad, archwilio neu arolygu anarferol, neu i ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi;
h. pwerau sy'n gosod dyletswyddau beichus ar y cyhoedd (e.e. gofyniad i adneuo symiau ariannol fel sicrwydd, neu derfynau amser cyfyng iawn ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth).
i. pwerau sy'n cynnwys ystyriaethau o bwys arbennig, nad ydynt yn dod o dan y penawdau uchod (e.e. lle dim ond y diben a bennir gan y Ddeddf alluogi, a bydd prif sylwedd y cynllun deddfwriaethol yn cael ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer).

10.12 Mae'r ffactorau a ganlyn yn dangos mai'r weithdrefn negyddol y dylid ei chymwyso –

a. pan fo deunydd pwnc yr is-ddeddfwriaeth yn fanylyn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol, neu'n dechnegol;
b. pan fyddai'n briodol diweddaru deunydd pwnc yr is-ddeddfwriaeth yn rheolaidd;
c. pan allai fod yn briodol deddfu ar frys (e.e. i osgoi achosion llys, neu i ddiogelu iechyd pobl neu anifeiliaid neu ddiogelu'r amgylchedd);
d. pan fo disgresiwn Llywodraeth Cymru dros gynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn gyfyngedig (e.e deddfwriaeth sy'n rhoi effaith i rai darpariaethau cyfraith yr UE);
e. pan fyddai'n briodol cyfuno'r ddarpariaeth i'w gwneud o dan y pŵer â darpariaeth y gellir ei gwneud o dan bŵer arall, ac y gallai'r olaf fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

10.13 Dylai'r timau Bil ystyried y ffactorau hyn yn ofalus, a'u trafod gyda'r swyddog sy'n llunio'r cyfarwyddiadau. Dylai profiad Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fod o gymorth gyda hyn hefyd.

10.14 Dylid nodi'r angen am is-ddeddfwriaeth, y math o is-ddeddfwriaeth yn ogystal â'r weithdrefn debygol yn y cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfer paratoi'r Bil. Mae'n bwysig hefyd esbonio at ba ddiben y defnyddir y pwerau, fel y gall Swyddfa'r

Cwnsleriaid Deddfwriaethol ddrafftio’r pwerau yn ddigon eang i gyflawni’r diben ond nid mor eang fel bod y Cynulliad yn debygol o ystyried bod natur neu gwmpas y pwerau yn amhriodol.

### Gorchmynion cychwyn

10.15 Safbwynt y llywodraeth yw bod cynnwys darpariaethau mewn Biliau, i wneud darpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed mewn gorchmynion cychwyn yn ymarfer arferol. Pan fo pwerau yn caniatáu i ddarpariaeth ganlyniadol, atodol neu gysylltiedig gael ei gwneud mewn gorchmynion cychwyn, dylid esbonio hynny ym Memorandwm Esboniadol y Bil (h.y. ym Mhennod 5 o’r ddogfen honno).

10.16 Rhoddir canllawiau pellach ar orchmynion cychwyn ym Mhennod 18 o’r Llawlyfr hwn. Gall Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol hefyd gynghori ar bwerau i gynnwys darpariaethau ategol mewn gorchmynion cychwyn.

## Ystyriaeth o’r pwerau yn ystod hynt y Bil

10.17 Mae’n debygol y bydd gan y Pwyllgor Cyfrifol (yng Nghyfnod 1) ddiddordeb yn natur a chwmpas y pwerau is-ddeddfwriaeth sydd yn y Bil, a bydd hyn (fel yr amlinellir ym Mhenodau 11 a 15) o ddiddordeb penodol i’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

10.18 Mae Rheol Sefydlog 26.6(x) yn ei gwneud yn ofynnol bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi, mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth –

*(a) y person neu’r corff y rhoddir y pwer [sic] iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;*

*(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac*

*(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall) …*

10.19 Ar gyfer Biliau’r Llywodraeth, mae’r wybodaeth hon i’w chael ym Mhennod 5 y Memorandwm Esboniadol (rhoddir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 8 y Llawlyfr hwn).

# Pennod 11 – Is-ddeddfwriaeth ddrafft a Datganiadau o Fwriad y Polisi

**Mae'r Bennod hon yn darparu canllawiau ar baratoi is-ddeddfwriaeth ddrafft, a datganiadau o fwriad y polisi gan Weinidogion, mewn perthynas â phwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth mewn Biliau'r Cynulliad.**

## Gofyniad am is-ddeddfwriaeth ddrafft neu ddatganiad o fwriad y polisi

11.1 Bydd o gymorth i'r Cynulliad gael gweld y rheoliadau drafft sy'n ganolog i effaith Bil pan fo'r Pwyllgor Cyfrifol yn ystyried y Bil. Safbwynt y llywodraeth yw y bydd is-ddeddfwriaeth o'r fath, pan fo modd, ar gael i'r Pwyllgor Cyfrifol sy'n ystyried y Bil yng Nghyfnod 1, ar ffurf drafft. Os na fydd hynny'n bosibl, bydd rhaid i Weinidogion nodi eu bwriadau polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth.

11.2 Y dulliau a ddefnyddir gan Weinidogion i esbonio bwriadau'r polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth yw'r datganiad o fwriad y polisi.

## Diben y datganiad o fwriad y polisi

11.3 Bydd y Cynulliad, a rhanddeiliaid eraill, eisiau deall sut y bydd y Bil, os caiff ei basio, yn gweithio yn ymarferol. Bydd gwneud is-ddeddfwriaeth yn aml yn rhan o hynny, ac felly dylai'r datganiad o fwriad y polisi geisio esbonio beth sy'n cael ei gynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth a sut y bydd yn gweithio. Os bydd y Bil yn dod yn ddeddf, gall Pwyllgorau gyfeirio yn ôl at y datganiad o fwriad polisi wrth graffu ar yr is-ddeddfwriaeth ddilynol.

## Is-ddeddfwriaeth ddrafft

11.4 Os yw'r Gweinidog yn bwriadu darparu rheoliadau drafft ar gyfer yr holl bwerau o sylwedd sydd yn y Bil, ni fydd yn ofynnol paratoi datganiad o fwriad y polisi hefyd (ond gellir ei ddarparu – gweler isod).

11.5 Pan fo rheoliadau drafft gael ar gyfer rhai pwerau o sylwedd, dylid paratoi datganiad o fwriad y polisi sy'n berthnasol i'r pwerau o sylwedd eraill, ac unrhyw wybodaeth eraill.

11.6 Yn y ddau achos, gellir paratoi datganiad o fwriad y polisi i ddarparu esboniad ychwanegol, ynghyd â chyd-destun, ar gyfer y rheoliadau drafft.

11.7 Os na fydd rheoliadau drafft ar gael, bydd rhaid paratoi datganiad o fwriad y polisi.

11.8 Wrth roi cyngor i Weinidogion ai is-ddeddfwriaeth ddrafft ynteu datganiad o fwriad y polisi fydd fwyaf priodol, bydd angen i dîm y Bil ystyried amryw o ffactorau, gan gynnwys:

a. nifer y darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth a gynhwysir yn y Bil, a natur y pwerau (er enghraifft, gallai fod yn fwy priodol bod fersiynau drafft o'r is-ddeddfwriaeth sy'n anhepgor ar gyfer cyflawni'r Bil ar gael i graffu arnynt, er mwyn i'r Pwyllgor gael dealltwriaeth lawn o'r bwriadau, o ran polisi a gweithredu);

b. a ydy'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn un i'w arfer yn ôl disgresiwn neu a ydy'n orfodol;

c. faint o waith datblygu polisi a gyflawnwyd, neu y bydd angen ei gyflawni, mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth;

d. y goblygiadau o ran adnoddau os paratoir yr is-ddeddfwriaeth ddrafft ar yr un pryd â'r Bil, yn enwedig i gydweithwyr yn Gwasanaethau Cyfreithiol, ac ym meysydd Polisi a Chyfieithu;

e. yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r Bil.

## Cynnwys y datganiad o fwriad y polisi

11.9 Ar hyn o bryd nid oes fformat wedi ei ragnodi ar gyfer y datganiad o fwriad y polisi, ond o ran ei gynnwys, dylai:

a. nodi'r darpariaethau ar gyfer deddfwriaeth ddirprwyedig sydd yn y Bil (weithiau gall pwerau i roi cyfarwyddiadau, cyhoeddi Codau Ymarfer, etc fod yn bwerau deddfwriaethol dirprwyedig);

b. esbonio pam y mae'r pŵer yn ofynnol a sut y bwriedir ei ddefnyddio, drwy gyfeirio at y polisi y disgwylir iddo ei gyflawni. Drwy ddefnyddio enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gynnwys yn y rheoliadau, cyfeirio at ymgyngoriadau polisi a gynhaliwyd ar y pwnc, neu gyfeirio at reoliadau tebyg a wnaed o dan ddeddfwriaeth bresennol, gellir hwyluso'r gwaith o ddisgrifio ac esbonio'r hyn y bwriada'r Llywodraeth ei wneud gyda'r pwerau.

11.10 Cofiwch y bydd Pennod 5 y Memorandwm Esboniadol hefyd ar gael i'r Pwyllgor. Mae Pennod 5 yn cynnwys tablau o'r holl bwerau sydd yn y Bil, ynghyd â manylion y ffurf a'r weithdrefn sydd i'w chymhwyso wrth arfer y pwerau hynny. Felly, nid oes angen ailadrodd yr wybodaeth honno yn y datganiad o fwriad y polisi ond, os bydd o gymorth, gellir croesgyfeirio yn briodol.

11.11 Wrth strwythuro datganiad o fwriad y polisi, mae hyblygrwydd gan y timau Bil i amlinellu hyn yn y ffordd fwyaf eglur ar gyfer esbonio

bwriadau'r Llywodraeth. Er enghraifft, bydd yn briodol weithiau i ymdrin â phob pŵer fesul un yn y drefn y mae'n ymddangos yn y Bil, ond ar gyfer Biliau eraill gellir trafod pwerau gyda'i gilydd o dan benawdau pwnc neu themâu.

11.12 Mae nifer o'r timau Bil wedi cynnwys gwybodaeth yn y datganiad o fwriad y polisi am yr amserlen ar gyfer gweithredu wedi i'r Bil gael ei basio – er enghraifft, dyddiadau dangosol pan fyddai elfennau o'r Ddeddf yn dod i rym, a phan y byddai'r is-ddeddfwriaeth gyfatebol yn cael ei gwneud, neu ymgyngoriadau'n cael eu cynnal. Yn ôl y timau hynny, mae hyn wedi cynorthwyo'r Pwyllgor i ddeall sut y bydd y Bil yn gweithio yn ymarferol, ac mae Gweinidogion wedi gallu cyfeirio at yr wybodaeth hon yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor.

11.13 Dylai gwybodaeth sydd yn y cyfarwyddiadau polisi a chyfreithiol ar gyfer y Bil fod o gymorth wrth ddatblygu'r datganiad o fwriad y polisi, ac felly hefyd y memoranda a fydd yn dod oddi wrth Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wrth iddynt baratoi'r Bil.

11.14 Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn rhan o'r pecyn gwybodaeth a chyfathrebu a anfonir gan y Llywodraeth i'r Cynulliad, pan fydd Bil yn cael ei gyflwyno. Fel y cyfryw, mae angen ei ystyried yng nghyd-destun y strategaeth gyfathrebu. Prif gynulleidfa'r datganiad o fwriad y polisi yw'r Pwyllgor Cyfrifol, ond bydd Aelodau Cynulliad eraill hefyd yn cael gweld yr wybodaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol pan gyhoeddir hi gan y Pwyllgor.

11.15 Mae enghreifftiau o ddatganiadau o fwriad y polisi ar gael oddi wrth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

## Ystyriaethau ymarferol

11.16 Bydd angen i dîm y Bil baratoi'r datganiad o fwriad y polisi cyn cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad, a bydd angen ei gytuno gyda'r swyddog sy'n llunio'r cyfarwyddiadau, ei wirio gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a'i awdurdodi gan y Prif Berchennog Cyfrifol.

11.17 Bydd angen i'r Gweinidog awdurdodi'r datganiad o fwriad y polisi cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifol.

11.18 Dylai'r datganiad o fwriad y polisi fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a dylid caniatáu digon o amser ar gyfer hynny yn amserlen y prosiect.

11.19 Mae'n arferol sicrhau bod y datganiad o fwriad y polisi ar gael i'r Pwyllgor Cyfrifol ar ddechrau Cyfnod 1 o'r ystyriaeth gan y Cynulliad, ond yn y pen draw, mater i'r Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil benderfynu yn ei gylch yw hwn.

11.20 Ni osodir y datganiad o fwriad y polisi gerbron y Cynulliad, yn hytrach, mae'n cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Cyfrifol ynghyd â llythyr eglurhaol oddi wrth y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor (gyda chopi i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol).

11.21 Nid oes raid i'r datganiad o fwriad y polisi gael ei ystyried gan y Llywydd, nac ychwaith gan y Swyddfa Gyflwyno, cyn ei anfon at y Pwyllgor. Felly nid oes raid iddo fod yn barod erbyn yr adeg yr anfonir y Bil a'r Memorandwm Esboniadol at y Llywydd cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad (gweler Pennod 14).

11.22 Nid oes raid i'r datganiad o fwriad y polisi gael ei ddiweddaru yn dilyn diwygiadau a wneir i'r Bil yng Nghyfnodau 2 neu 3, er efallai y byddai timau Bil yn dymuno gwneud hynny os byddai o gymorth i gyfathrebu (yn enwedig â rhanddeiliaid allanol).

## Canllawiau pellach

11.23 Gallai fod o fudd i dimau Bil drafod cynnwys y datganiad o fwriad y polisi, a'r dull o'i drin a'i gyflwyno, gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant wrth ddechrau datblygu'r ddogfen. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd roi'r timau mewn cysylltiad â swyddogion a fu'n gweithio ar ddatganiadau o fwriad y polisi yn y gorffennol, fel y gellir rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

## Pennod 12 – Cydsyniadau, a gofynion i ymgynghori â Gweinidogion y DU ar ddarpariaethau Deddf Cynulliad

**Mae'r Bennod hon yn darparu canllawiau mewn perthynas â'r gofynion i ymgynghori â Gweinidogion y DU neu geisio eu cydsyniad a chydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a/neu gydsyniad Dug Cernyw, ynghylch darpariaethau penodol o Ddeddf Cynulliad.**

12.1 Hyd yn oed os nad yw Deddf Cynulliad yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl a nodir yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall fod y tu allan i gymhwysedd os yw'n torri'r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B (oni bai bod un o'r eithriadau yn Rhan 2 o Atodlen 7B yn gymwys).

12.2 Mae'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B yn cynnwys rhai sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion y DU ar gyfer rhai darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, ac eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion y DU.

12.3 Ceir crynodeb o'r cyfyngiadau hyn isod, ond os ystyrir bod darpariaeth Bil arfaethedig o bosib yn cyffwrdd un o'r rhain, dylai timau Biliau drafod â'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn gynnar yn y broses. Gall Gwasanaethau Cyfreithiol roi rhagor o gyngor, gan gynnwys ynghylch a oes unrhyw eithriadau o'r angen am gydsyniad yn gymwys.[9]

12.4 Mae'n bwysig nodi os yw Bil yn rhoi, gorfodi, addasu neu ddiddymu swyddogaeth Gweinidog y Goron heb gael y cydsyniad sy'n ofynnol, bydd hynny'n golygu nad yw'r Bil, neu ran ohono, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (os caiff ei basio gan y Cynulliad).

12.5 Fel arfer, dylai'r holl gydsyniadau sy'n ofynnol ar gyfer y Bil fel y'i cyflwynir fod wedi eu sicrhau cyn cyflwyno'r Bil. Dylid caniatáu digon o amser ar gyfer y broses hon. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymateb i geisiadau am gydsyniad o fewn 60 diwrnod gwaith fan bellaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ganiatáu digon o amser i Lywodraeth y DU benderfynu a yw'n cytuno i'r newid, ac yn ymarferol dylai gysylltu â'r adran(nau) penodol a Swyddfa Cymru fel rhan o'r broses datblygu polisi.

### Cydsyniad Gweinidog y Goron - Awdurdodau a gedwir yn ôl

12.6 Rhaid cael cydsyniad Gweinidog priodol y DU[10] er mwyn i Ddeddf Cynulliad wneud y canlynol (yn ddarostyngedig i restr o eithriadau penodol[11]):

[9] Gweler baragraffau 9 a 10(2) o Atodlen 7B.
[10] Pan mai'r awdurdod dan sylw yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, y Trysorlys; fel arall, yr Ysgrifennydd Gwladol.
[11] Gellir gweld yr eithriadau ym mharagraff 9 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

a. rhoi i, neu orfodi ar, awdurdod a gedwir yn ôl unrhyw swyddogaeth newydd (neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud hynny);

b. addasu cyfansoddiad awdurdod a gedwir yn ôl, neu roi pŵer i wneud hynny (bydd hyn yn cynnwys addasiadau yn ymwneud â'i asedau a'i rwymedigaethau, ei gyllid a'i dderbyniadau);

c. rhoi, gorfodi, addasu neu ddiddymu swyddogaethau sydd i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir yn ôl, (neu roi pŵer i wneud hynny).

12.7 Ystyr "awdurdod a gedwir yn ôl" yn y cyd-destun hwn yw:
a. Gweinidog y Goron; neu
b. adran o Lywodraeth y DU; neu
c. unrhyw awdurdod cyhoeddus arall[12] ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig.

12.8 Ceir diffiniad o "awdurdod datganoledig Cymreig" at y dibenion hyn (hynny yw awdurdod cyhoeddus nad yw'n ddarostyngedig i'r gofynion cydsynio) yn adran 157A o Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn gryno, ystyr awdurdodau datganoledig Cymru yw:

a. awdurdod sydd wedi'i restru yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
b. awdurdod y mae ei swyddogaethau yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, a'r swyddogaethau hynny yn gyfan gwbl neu'n bennaf ddim yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl;
c. corff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg uwch (o fewn ystyr adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) y mae ei weithgarwch yn cael eu cyflawni yn gyfan gwbl neu yn bennaf yng Nghymru.

12.9 Hefyd nid oes modd i ddarpariaeth Deddf Cynulliad ddileu nac addasu (na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud hynny) unrhyw swyddogaeth awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig, oni bai bod Gweinidog priodol y DU yn cydsynio i'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae awdurdodau penodol wedi'u heithrio o'r cyfyngiad hwn ac o'r angen i ofyn am gydsyniad wrth ddileu neu addasu swyddogaethau.[13]

[12]Ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus.
[13]Gellir gweld eithriadau eraill ym mharagraff 10(2)-(6) o Atodlen 7B.

## Dileu neu addasu swyddogaethau penodol Gweinidogion y DU - gofynion am gydsyniad Gweinidog y DU

12.10 Rhaid cael cydsyniad Gweinidog priodol y DU er mwyn i Ddeddf Cynulliad wneud y canlynol:[14]

a. dileu neu addasu unrhyw swyddogaeth Gweinidog y Goron[15] sy'n ymwneud â "swyddogaeth ddatganoledig amodol"[16] neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud hynny;

b. dileu neu addasu unrhyw swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n arferadwy mewn perthynas â'r Gymraeg, neu roi pŵer i wneud hynny;

c. dileu neu addasu unrhyw swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n arferadwy mewn perthynas â'r cyflenwad dŵr, ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr, carthffosiaeth, rheoli llygredd dŵr, afonydd a chyrsiau dŵr eraill, draenio tir, rheoli risg llifogydd neu fesurau diogelu'r arfordir, neu roi pwerau i wneud hynny;

d. dileu neu addasu unrhyw swyddogaethau Gweinidog y Goron dan Bennod 1 o Ran 3, neu adran 58, o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, neu roi pŵer i wneud hynny;

e. dileu neu addasu unrhyw bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 6 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 (cymorth ariannol mewn perthynas â gwasanaethau trenau etc), neu roi pŵer i wneud hynny;

f. dileu neu addasu unrhyw swyddogaethau'r Trysorlys dan adran 138(2) neu 141(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu roi pŵer i wneud hynny.

## Dileu neu addasu swyddogaethau eraill Gweinidogion y DU - gofynion i ymgynghori â'r Gweinidog priodol

12.11 Nid oes modd i ddarpariaeth Deddf Cynulliad ddileu nac addasu unrhyw un o swyddogaethau eraill Gweinidog y Goron (hynny yw ac eithrio'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 12.10), na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud hynny, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Gweinidog priodol ynghylch y ddarpariaeth dan sylw.

[14] Y Gweinidog priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ymarferol, mae'n debygol mai Ysgrifennydd Gwladol Cymru fydd hwn), oni bai bod y swyddogaethau perthnasol yn ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac os felly y Trysorlys fydd dan sylw.

[15] Gweinidog y Goron yw Gweinidog yn Llywodraeth y DU, gan gynnwys Trysorlys EM.

[16] Caiff "swyddogaeth ddatganoledig amodol" ei ddiffinio ym mharagraff 11(3) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Canllawiau pellach

12.12 Dylai timau Bil sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllaw, *'Liaison with the UK Government on Assembly Bills, Parliamentary Bills, Orders modifying the Assembly's legislative competence and changes to the Welsh Ministers' executive functions'*.

12.13 Mae'r canllaw uchod yn ategu canllawiau Llywodraeth y DU ar gyfer adrannau'r llywodraeth honno ar *'Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales'* .

12.14 Dylid hefyd ddarllen y Canllaw hwn ar y cyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

12.15 Mae rhagor o gyngor ar gael hefyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a'r Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (CAIGR).

### Hysbysu'r Cynulliad yn ffurfiol o gydsyniad

12.16 Pan anfonir y Bil at y Llywydd iddi benderfynu arnynt (gweler Pennod 14), dylai'r llythyr eglurhaol oddi wrth y Prif Weinidog nodi pa gydsyniadau sy'n ofynnol a darparu copïau os oes rhai ar gael. Ar yr adeg hon, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, y gallai fod yn amhosibl rhoi hysbysiad ffurfiol o'r holl gydsyniadau.

### Diwygiadau i Filiau

12.17 Gall fod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion y DU hefyd ar gyfer diwygiadau i Fil – gweler Pennod 15.

## Cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a/neu Dug Cernyw

12.18 Bydd yn ofynnol cael cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines (y cyfeirir ato yn gyffredin fel 'Cydsyniad y Frenhines') lle byddai Bil, darpariaeth mewn Bil neu ddiwygiad i Fil yn:

a. effeithio ar uchelfraint y Goron;

b. effeithio ar refeniw etifeddol, eiddo personol neu fuddiannau personol y Goron, a Dugiaeth Caerhirfryn ac, os nad oes Dug Cernyw neu os nad yw Dug Cernyw eto wedi dod i oed, Dugiaeth Cernyw.

12.19 Mae Uchelfraint y Goron (y cyfeirir ati yn amlach fel 'yr uchelfraint frenhinol') yn cyfeirio at y pwerau hynny sy'n perthyn i'r sofran yn unig.

Mae enghreifftiau o'r pŵer hwn yn cynnwys yr hawl i wneud rhai penodiadau (gan gynnwys comisiynau brenhinol) neu i arfer y frenhinfraint drugaredd (er enghraifft rhoi pardwn i droseddwyr a euogfarnwyd).

12.20 Mae proses Cydsyniad y Frenhines yn fater ar wahân i'r Cydsyniad Brenhinol, sef y modd y mae'r teyrn yn cytuno y caiff Bil ddod yn Ddeddf – gweler Pennod 17.

12.21 Mae'n ofynnol cael cydsyniad Dug Cernyw ar gyfer Biliau sy'n cyfeirio'n benodol at Ddugiaeth Cernyw neu sy'n cael eu cymhwyso'n arbennig iddi mewn rhyw ffordd arall.[17] Etifeddir y teitl Dug Cernyw ac ystad Dugiaeth Cernyw gan yr hynaf sy'n fyw o feibion y teyrn ac a fydd hefyd yn Etifedd Eglur y Goron. Pan nad oes gan y teyrn fab, nid oes Dug Cernyw a dychwelir Dugiaeth Cernyw i'r Goron.

12.22 Mae'r gofyniad i gael Cydsyniad y Frenhines yn gymwys hefyd yn Seneddau'r DU a'r Alban.

### Hysbysu'r Cynulliad yn ffurfiol o Gydsyniad y Frenhines

12.23 Yn unol ag adran 111 of Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac o dan Reol Sefydlog 26.67, rhaid i'r Cynulliad beidio â phasio Bil y mae'n ofynnol pasio Cydsyniadau o'r fath ar ei gyfer, hyd nes y bydd Aelod o'r Llywodraeth yn hysbysu'n ffurfiol bod Cydsyniad wedi ei roi yn ystod cyfarfod o'r Cynulliad. Yn achos y Biliau hynny yr hysbyswyd yn ffurfiol bod Cydsyniad wedi ei roi, gellir gwneud hyn ar ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

12.24 Er nad yw Cydsyniad y Frenhines yn ofynnol ar gyfer cyflwyno Bil, pan anfonir y Bil at y Llywydd iddi benderfynu arnynt, dylai'r llythyr eglurhaol oddi wrth y Prif Weinidog nodi lle y gallai fod yn ofynnol cael cydsyniadau gan y Frenhines a/neu Ddug Cernyw. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn darparu templed o'r llythyr hwn a fydd yn cynnwys testun ynglŷn â'r cydsyniadau hyn.

### Diwygiadau

12.25 Gall Cydsyniad y Frenhines a/neu Ddug Cernyw fod yn ofynnol hefyd ar gyfer diwygiadau i Fil – gweler Pennod 15.

### Cyngor pellach

12.26 Mae rhagor o gyngor ar y materion hyn ar gael gan yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

---

[17] Ar gyfer y Bil Taliadau Llywio ym 1987 yr hysbyswyd yn ffurfiol o/am Gydsyniad y Tywysog yn unig cyn hyn; roedd y cydsyniad hwnnw'n ofynnol gan mai Dug Cernyw yw'r awdurdod harbwr ar gyfer Ynysoedd Scilly.

# Pennod 13 – Trosolwg ar Gyfnodau ystyriaeth y Cynulliad

**Diben y Bennod hon yw darparu trosolwg cryno a hwylus o Gyfnodau'r Cynulliad. Nid yw'n hollgynhwysol, ac felly dylai'r timau Bil hefyd ddarllen:**

a. **Pennod 14, sy'n ymdrin â chyflwyno Bil i'r Cynulliad;**
b. **Pennod 15, sy'n ymdrin â phob un o'r Cyfnodau Cynulliad yn fanylach, ynghyd â'r camau gweithredu allweddol a'r materion y dylid eu hystyried. Ym Mhennod 16, darperir canllawiau ar wahân ar y Cyfnodau Cynulliad ar gyfer Biliau llwybr carlam a brys.**

**Ym Mhennod 17 rhoddir canllawiau ar yr hyn sy'n digwydd i Fil ar ôl cwblhau Cyfnod 4; ac ym Mhennod 18 ymdrinnir â chychwyn Deddf Cynulliad.**

**Mae Rheol Sefydlog 26 yn llywodraethu'r gweithdrefnau Cynulliad sy'n gysylltiedig â chyflwyno ac ystyried Biliau cyhoeddus.**

## Crynodeb o'r Cyfnodau Cynulliad

13.2 Mae'r cyfnodau arferol o ystyriaeth o Fil gan y Cynulliad yn cael eu galw yn Gyfnod 1, Cyfnod 2, Cyfnod 3 a Chyfnod 4. Gall rhai Biliau fynd drwy gyfnod diwygio arall hefyd, cyn Cyfnod 4, sy'n cael ei galw yn Gyfnod Adrodd.

### Trosolwg cryno

| ***Cyfnod*** | ***Camau Gweithredu*** |
|---|---|
| Cyflwyno | Cyflwyno'r Bil a'i gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (Datganiadau ysgrifenedig a llafar yn cael eu gwneud gan y Gweinidog Arweiniol) |
| Cyfnod 1 | Ystyriaeth o'r Bil gan Bwyllgor Cynulliad |
| Egwyddorion Cyffredinol | Gofyn i'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil (os cytunir, mae'r Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, ond os na chytunir mae'r Bil yn methu) |
| Cyfnod 2 | Ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor Cynulliad (gellir diwygio'r Bil yn ystod y Cyfnod hwn) |
| Cyfnod 3 | Ystyriaeth fanwl gan y Cyfarfod Llawn (gellir diwygio'r Bil yn ystod y Cyfnod hwn) |

| *Cyfnod* | *Camau Gweithredu* |
|---|---|
| Cyfnod 4 | Gofyn i'r Cynulliad basio'r Bil fel y'i diwygiwyd (os cytunir, mae'r Bil yn mynd ymlaen ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, os na chytunir, mae'r Bil yn cael ei wrthod) |

### Cyflwyno

13.3 Er mwyn i'r Cynulliad ystyried Bil, rhaid cyflwyno'r Bil yn ffurfiol i'r Cynulliad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gosod y Bil gyda swyddogion yn y Swyddfa Gyflwyno, a fydd wedyn yn trefnu i gyhoeddi'r Bil ar wefan y Cynulliad erbyn y diwrnod canlynol.

13.4 Mae'n rhaid i Filiau fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a rhaid i'r Llywydd gyhoeddi datganiad sy'n nodi a yw'r Bil a'i ddarpariaethau, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Rhaid hefyd cyflwyno Memorandwm Esboniadol gyda phob Bil a fydd yn nodi ei amcanion polisi, manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd eisoes ar y Bil, amcangyfrifon o gostau gweithredu'r Bil ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

13.5 Yn y Cyfarfod Llawn cyntaf o'r Cynulliad ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, bydd y Gweinidog Arweiniol fel arfer yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol. Mae'r datganiad hwnnw yn nodi prif ddiben ac effaith y Bil. Nid yw datganiad o'r fath yn ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog, ond mae'n gyfle i roi gwybodaeth am y Bil i'r Cynulliad.

### Cyfnod 1 – Ystyried yr egwyddorion cyffredinol

13.6 Fel arfer bydd egwyddorion cyffredinol y Bil yn cael eu hystyried gan Bwyllgor (neu Bwyllgorau) yn ystod y cyfnod hwn, cyn i'r Cynulliad gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar brif ddiben(ion) y Bil yn hytrach nag ar ei fanylion (a fydd yn fater i'w ystyried yn ystod y Cyfnodau a ddaw wedi hwn). Caiff y Pwyllgor hefyd wahodd sylwadau gan bartïon â buddiant, a chymryd tystiolaeth ysgrifenedig neu ar lafar er mwyn llywio ei waith.

13.7 Unwaith y bydd y Pwyllgor wedi rhoi ei adroddiad, gofynnir i'r Cynulliad drafod a chytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil – y ddadl Cyfnod 1.

### Cyfnod 2 – Ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor

13.8 Mae'r Cyfnod hwn yn dilyn cwblhau Cyfnod 1 ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor, o'r Bil ac o unrhyw welliannau a gynigir gan Aelodau Cynulliad. Gall unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno gwelliannau i'r Bil, ac nid oes cyfyngiad ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno. Fodd bynnag, aelodau o'r Pwyllgor yn unig a gaiff cynnig

gwelliannau gerbron y Pwyllgor a phleidleisio arnynt. Daw'r Cyfnod hwn i ben pan fydd yr holl welliannau wedi eu hystyried.

### Cyfnod 3 – Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad

13.9 Mae Cyfnod 3 yn dilyn cwblhau Cyfnod 2 ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad, o'r Bil ac o unrhyw welliannau a gynigir gan Aelodau Cynulliad. Caiff unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno gwelliannau i'r Bil, ond y Llywydd a fydd yn penderfynu pa welliannau y bydd y Cynulliad yn eu hystyried.

### Y Cyfnod Adrodd

13.10 Gall fod yn ofynnol bod rhai Biliau yn cael rhagor o ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad. Y Cyfnod Adrodd yw'r enw am gyfnod o'r fath, ac mae'n debyg i Gyfnod 3. Bydd y Cyfnod Adrodd yn dilyn cwblhau Cyfnod 3 ac yn ystod y Cyfnod Adrodd ystyrir unrhyw welliannau a gynigiwyd gan Aelodau'r Cynulliad ac a ddewiswyd gan y Llywydd.

### Cyfnod 4 – Y Cyfnod Terfynol

13.11 Hwn yw'r Cyfnod olaf yn y broses, a bydd yn dilyn cwblhau Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd, yn ôl fel y digwydd). Yn y Cyfnod hwn, cynhelir pleidlais gofnodedig gan y Cynulliad, i basio testun terfynol y Bil.

13.12 Os bydd y Llywydd o'r farn bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â phynciau gwarchodedig (fel enw'r Cynulliad, y personau sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, a maint y Cynulliad)[18], bydd rhaid i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm Aelodau'r Cynulliad bleidleisio o blaid er mwyn iddo gael ei basio. Gelwir hyn yn uwch-fwyafrif.

13.13 Os nad oes angen uwch-fwyafrif, mae mwyafrif syml yn ddigon i basio'r Bil (hynny yw mwy o aelodau yn pleidleisio o blaid pasio'r Bil nag yn erbyn). Os bydd y bleidlais yn gyfartal, rhaid i'r Llywydd roi ei phleidlais fwrw yn erbyn y Bil, ac fe fydd y Bil yn cael ei wrthod.

## Ar ôl Cyfnod 4

13.14 Os yw'r Cynulliad yn pasio Bil yng Nghyfnod 4, bydd y Bil yn dechrau ar gyfnod o bedair wythnos yn ei hanes (y cyfeirir ato fel y cyfnod hysbysu) pan gaiff y Twrnai Cyffredinol a/neu'r Cwnsler Cyffredinol atgyfeirio'r Bil, neu unrhyw rai o'i ddarpariaethau, i'r Goruchaf Lys. Dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gallant atgyfeirio'r cwestiwn a fyddai'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth o'r Bil, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Dan adran 111B, gallant hefyd

[18] Mae'r pynciau gwarchodedig i'w gweld yn llawn yn adran 111A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

gyfeirio'r cwestiwn a fyddai unrhyw ddarpariaeth o'r Bil yn ymwneud â phynciau gwarchodedig am ddyfarniad gan y Goruchaf Lys.

13.15 Caiff Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd ymyrryd yn ystod y cyfnod hysbysu hwn, drwy wneud gorchymyn i atal y Bil rhag cael Cydsyniad Brenhinol.

13.16 Os atgyfeirir y Bil ac os yw'r Goruchaf Lys wedyn yn penderfynu bod y Bil neu ei ddarpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu bod darpariaeth o'r Bil hwnnw yn ymwneud â phynciau gwarchodedig, neu os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud gorchymyn sy'n atal y Bil rhag cael ei anfon am Gydsyniad Brenhinol, caiff y Cynulliad ailystyried y Bil yn ystod proses sy'n cael ei galw y Cyfnod Ailystyried. Rhoddir manylion pellach am y Cyfnod Ailystyried ym Mhennod 17 y Llawlyfr hwn.

13.17 Os na fydd y Bil yn cael ei atgyfeirio i'r Goruchaf Lys, neu os yw'r Goruchaf Lys yn canfod bod y Bil a'i ddarpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac os nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymyrryd, bydd y Bil yn mynd ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol. Bydd hyn yn cadarnhau bod y Teyrn yn cytuno i wneud y Bil yn Ddeddf Cynulliad. Rhoddir y Cydsyniad Brenhinol pan fydd y Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig yn cael eu llofnodi gan y Teyrn a Chlerc y Cynulliad yn cael ei hysbysu am hyn.

# Pennod 14 – Cyflwyno'r Bil

**Mae'r Bennod hon yn ymdrin â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn union cyn i'r Bil fod yn destun ystyriaeth gan y Cynulliad a chyn hysbysu'r ddeddfwrfa o'r Bil (sy'n cael ei alw yn cyflwyno).**

## Cyfarfodydd asesu cyn-gyflwyno

14.1 Mae'r dull mewnol o asesu cyn-gyflwyno ar gyfer Biliau, cyn cael cydsyniad Gweinidogol ffurfiol ar gyfer cyflwyno, wedi ei fireinio a'i gryfhau. Cynhelir cyfarfodydd asesu cyn-gyflwyno ar gyfer pob Bil Llywodraeth, er mwyn galluogi Gweinidogion i drafod y Bil a'r dogfennau cysylltiedig cyn cydsynio'n ffurfiol i gyflwyno.

## Ceisio cytundeb i gyflwyno'r Bil

14.2 Pan fydd y Bil wedi'i gwblhau ac yn barod i'w gyflwyno, rhaid ceisio cytundeb ffurfiol i gyflwyno'r Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, y Gweinidog Arweiniol[19] a'r Prif Weinidog. Ar yr un pryd, gofynnir i'r Gweinidog ac i'r Prif Weinidog awdurdodi'r Memorandwm Esboniadol[20] yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ei osod gyda'r Bil wrth gyflwyno.

14.3 Dylid caniatáu o leiaf un wythnos ar gyfer cael awdurdodiadau Gweinidogol ar ôl cyfarfod asesu cyn-gyflwyno Gweinidogol, er efallai bydd angen cyfnod hwy yn ystod toriadau'r Cynulliad. Bydd amser yn cael ei neilltuo ar gyfer hyn yn yr amserlen a ddarperir i dîm y Bil gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Fodd bynnag, bydd angen i'r timau Bil gysylltu â Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion mewn da bryd i drafod yr amserlen ar gyfer awdurdodi, yn enwedig yn ystod toriadau'r Cynulliad

## Penderfyniad y Llywydd

14.4 Rhaid cael datganiad gan y Llywydd yn Gymraeg ac yn Saesneg i gyd-fynd ag unrhyw Fil wrth ei gyflwyno i'r Cynulliad.  Rhaid i'r datganiad hwnnw –

a. ddynodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio;

---

[19] Mae'n cael ei adnabod hefyd fel yr Aelod Cyfrifol pan fydd y Bil wedi cael ei gyflwyno ond yn y Llawlyfr (mewn perthynas â Biliau'r Llywodraeth) cyfeirir ato fel y Gweinidog Arweiniol neu'r Gweinidog.

[20] Mae cyfeiriadau at y Memorandwm Esboniadol yn y Bennod hon yn gyfeiriadau at y ddogfen sy'n cynnwys y Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol.

b. dynodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a’r rhesymau am y farn honno.

14.5 Er mwyn i’r Llywydd baratoi’r datganiad hwn, rhaid i’r Prif Weinidog anfon y Bil a’r Memorandwm Esboniadol at y Llywydd ynghyd â llythyr eglurhaol. Mae’n ofynnol bod y Llywydd yn cael digon o amser i ffurfio ei barn, a chytunwyd y bydd y Llywodraeth yn caniatáu o leiaf bedair wythnos cyn cyflwyno ar gyfer gwneud hynny.

14.6 Bydd angen i dîm y Bil baratoi’r llythyr eglurhaol sydd i’w anfon at y Llywydd oddi wrth y Prif Weinidog; bydd angen ei baratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd angen cyfieithu, bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn trefnu hynny. Mae templed safonol ar gael oddi wrth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Dylid anfon y llythyr at y Prif Weinidog fel rhan o’r cyngor Gweinidogol sy’n ceisio cytundeb i gyflwyno’r Bil (gweler uchod).

14.7 Yn ystod cyfnod penderfyniad y Llywydd, gall y Gweinidog Arweiniol ymgysylltu â llefarwyr yr wrthblaid ynghylch cynnwys y Bil. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn darparu cyngor pellach i’r timau Bil ynglŷn â hyn cyn dechrau’r cyfnod penderfyniad.

14.8 Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Swyddfa Gyflwyno (yng Nghomisiwn y Cynulliad) hefyd yn ystyried y Memorandwm Esboniadol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Rheolau Sefydlog. Gall y Swyddfa Gyflwyno wneud ymholiadau ynghylch unrhyw ran neu elfen o’r Memorandwm Esboniadol, neu ofyn am newidiadau i unrhyw un ohonynt, a dylai’r timau Bil fod yn barod i ymateb ar unwaith i geisiadau o’r fath, er mwyn i’r Swyddfa Gyflwyno allu ei awdurdodi yn ddi-oed. Os na fydd Swyddfa Gyflwyno o’r farn bod y Memorandwm Esboniadol yn bodloni gofynion y Rheolau Sefydlog ni chaniateir ei osod, ac ni fydd modd cyflwyno’r Bil.

14.9 Ar ddiwedd ei phenderfyniad bydd y Llywydd yn ysgrifennu i ateb y Prif Weinidog, gan fynegi ei safbwyntiau; unwaith y derbynnir yr ateb hwnnw bydd tîm y Bil yn barod i gyflwyno’r Bil i’r Cynulliad. Wrth ysgrifennu at y Prif Weinidog, bydd y Llywydd fel arfer yn mynegi a fydd Penderfyniad Ariannol yn ofynnol ai peidio ar gyfer y Bil, yn ystod ei hynt drwy’r Cynulliad – gweler Pennod 15 am ragor o wybodaeth.

## Gosod y Bil

14.10 Rhaid cyflwyno Bil drwy ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno. Rhaid gwneud hyn ar ddiwrnod gwaith yn ystod wythnos eistedd. Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant sy’n gosod Biliau ar ran Llywodraeth Cymru.

14.11 Pan osodir Bil, rhaid bod Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd ag ef, a rhaid gosod y Bil a'r Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg ac yn Saesneg.[21] Rhaid hefyd bod datganiad y Llywydd i gyd-fynd a'r Bil (gweler uchod).

14.12 Ar gyfer gosod y Bil a'r Memorandwm Esboniadol bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn cysylltu â thîm y Bil a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i gael fersiynau pdf a fersiynau meddalwedd drafftio o'r Bil, a fersiynau pdf o'r Memorandwm Esboniadol (y cyfan yn Gymraeg ac yn Saesneg).

14.13 Gosodir Biliau'r Llywodraeth ar ddydd Llun fel arfer, fel y gellir gwneud y Datganiad Deddfwriaethol (gweler isod) y diwrnod canlynol mewn Cyfarfod Llawn.

14.14 Cyn gynted ag y bydd y Bil wedi ei osod, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn hysbysu tîm y Bil ac yn rhoi Datganiad Ysgrifenedig i holl Aelodau'r Cynulliad (gweler isod). Bydd y Llywydd yn gosod ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol ochr yn ochr â'r Bil. Gall y Llywydd ysgrifennu hefyd i'r Pwyllgor perthnasol a/neu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i roi crynodeb o'r materion y bu'n eu hystyried wrth ffurfio ei barn ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol, fel y gall yr aelodau benderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach i'r materion hynny ai peidio, fel rhan o'r broses graffu.

### Datganiad Ysgrifenedig ar gyfer pob Aelod Cynulliad

14.15 Mae'n arferol hysbysu Aelodau Cynulliad fod Bil wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad. Bydd Gweinidog Arweiniol Bil Llywodraeth yn gwneud hynny mewn Datganiad Ysgrifenedig.

14.16 Bydd angen paratoi'r Datganiad Ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg, a rhaid i'r Gweinidog gytuno'n ffurfiol ar y Datganiad. Os bydd angen cyfieithiad, bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn ei ddarparu. Gan fod Datganiad Llafar yn cael ei wneud hefyd (gweler isod), bydd angen ystyried y cydbwysedd o ran yr wybodaeth a geir yn y ddau ddatganiad. Mae enghreifftiau o Ddatganiadau Ysgrifenedig ar gyfer Biliau a wnaed cyn hyn ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

14.17 Ni ddylai gwaith y wasg a chyfathrebu ddechrau cyn y bydd Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu hysbysu ynghylch y Bil drwy Ddatganiad Ysgrifenedig, yn unol â pharagraff 7.9 o God y Gweinidogion. Nid oes

[21] Mae Rheol Sefydlog 26.5 yn darparu ar gyfer rhai amgylchiadau cyfyngedig pan ganiateir i Fil gael ei osod mewn un iaith yn unig; mae Rheol Sefydlog 26.96 yn darparu na fydd yn ofynnol o bosib cael Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Brys y Llywodraeth (os yw hynny wedi ei gytuno gan y Cynulliad).

modd dweud yn bendant pryd y gellir gwneud gwaith y wasg a chyfathrebu oherwydd bydd amser gosod Bil yn amrywio, ac ni ellir cyhoeddi'r Datganiad Ysgrifenedig cyn i Fil gael ei osod.

## Datganiad Deddfwriaethol

14.18 Mae'n arferol i'r Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil wneud Datganiad Llafar yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno. Yn achos Bil Llywodraeth a osodir ar ddydd Llun, byddai hynny'n golygu'r diwrnod canlynol, sef prynhawn dydd Mawrth.

14.19 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn sicrhau bod amser priodol (tua 60 munud fel arfer) ar gael yn rhaglen y Cyfarfod Llawn ar gyfer y Datganiad Llafar. Bydd datganiad a thrafodaeth 60 munud yn golygu y bydd gan y Gweinidog tua 10 munud o amser siarad. Bydd y 50 munud sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio gan Aelodau'r Cynulliad i wneud sylwadau ar y datganiad a holi'r Gweinidog ynghylch yr hyn sydd wedi ei gynnwys a heb ei gynnwys yn y Bil. I baratoi ar gyfer hynny, dylid rhoi digon o wybodaeth i'r Gweinidog ac egluro pa drywydd y dylid ei ddilyn.

14.20 Pan fydd Datganiad Llafar yn cael ei wneud, bydd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau yn rhannu copïau o'r datganiad â phob Aelod Cynulliad drwy Arweinydd y Tŷ. Fel arfer, ni fydd y datganiad yn fwy na 1,000 o eiriau.

14.21 Bydd y rhan fwyaf o'r Gweinidogion yn gwneud y Datganiad yn Saesneg, ac felly ni fydd angen cyfieithiad Cymraeg. Fodd bynnag, dylech ymgynghori â Swyddfa Breifat y Gweinidog ymlaen llaw, oherwydd gall rhai Gweinidogion ddewis wneud y Datganiad, neu ran ohono, yn Gymraeg. Mewn achos o'r fath, bydd angen cyfieithu'r Datganiad, gan y bydd angen darparu'r ddwy fersiwn i'r Cynulliad. Os bydd angen cyfieithiad, bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn ei ddarparu.

14.22 Mae'n bwysig cofio y bydd rhaid darparu unrhyw ddogfennau, nad ydynt eisoes yn gyhoeddus, ac y cyfeirir atynt yn ystod y Datganiad Llafar, i Aelodau'r Cynulliad cyn i'r Datganiad gael ei wneud. Bydd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol wedi eu darparu eisoes, ac ystyrir eu bod yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi eu gosod.

14.23 Dylai tîm y Bil roi sylw manwl i'r datganiad a'r ddadl ar y diwrnod, er mwyn:

a. ymateb i unrhyw ymrwymiadau a wneir gan y Gweinidog (er enghraifft, efallai y bydd y Gweinidog yn dymuno ysgrifennu at Aelod, neu gyfarfod ag Aelod);

b. nodi meysydd yn y Bil sydd o ddiddordeb arbennig i Aelodau (gall hyn ddylanwadu ar y modd y bydd y Pwyllgor Cyfrifol yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 1);

c. nodi unrhyw gamddealltwriaethau yn ymwneud â'r Bil, y Memorandwm Esboniadol, y goblygiadau ariannol neu'r polisi, y gellir eu hystyried wedyn yn y Strategaeth Gyfathrebu (yn ôl yr angen), neu roi sylw iddynt mewn ffordd arall, megis mewn gohebiaeth.

# Pennod 15 – Craffu gan y Cynulliad

**Mae'r Bennod hon yn darparu canllawiau manwl ar broses y Cynulliad ar gyfer ystyried Bil, unwaith y bydd y Bil wedi ei gyflwyno, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau a'r ystyriaethau allweddol y bydd angen i'r timau Bil eu dilyn yn ystod y cyfnod hwn. Er mai fel canllaw i dimau Bil sy'n gweithio ar Filiau'r Llywodraeth yr ysgrifennwyd y Bennod hon yn bennaf, bydd yn berthnasol hefyd i'r rheini sy'n gweithio ar Filiau Anllywodraethol, y dylent hefyd ddarllen Pennod 19.**

**Ymhlith materion eraill, mae'r Bennod hon yn ystyried:**

a. **yr amserlen ar gyfer ystyriaeth gan y Cynulliad;**
b. **Cyfnod 1;**
c. **Penderfyniad Ariannol;**
d. **diwygiadau i Fil;**
e. **Cyfnod 2;**
f. **nodiadau annerch ar gyfer y cyfnodau diwygio;**
g. **Cyfnod 3, gan gynnwys Cyfnod 3 pellach;**
h. **Cyfnod Adrodd, gan gynnwys Cyfnod Adrodd pellach;**
i. **Cyfnod 4;**
j. **diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol;**
k. **Cydsyniad y Frenhines a Dug Cernyw;**
l. **Bil yn methu, yn cael ei wrthod, neu'n cael ei dynnu'n ôl.**

## Amserlen ar gyfer ystyriaeth gan y Cynulliad

15.1 Datblygwyd yr amserlen ddangosol ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad o Filiau'r Llywodraeth gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant[22] ac mae'r amserlen yn ystyried gofynion tîm y Bil mewn cysylltiad â Chydsyniad Brenhinol, y Ddeddf yn dod i rym, busnes arall y Llywodraeth ac ymrwymiadau deddfwriaethol eraill.

15.2 Pennir yr amserlen derfynol ar gyfer ystyried Biliau gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad, y mae'n ofynnol iddynt o dan Reol Sefydlog 26.7 bennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer yr ystyriaeth o'r Bil (ac eithrio unrhyw Gyfnodau yn y Cyfarfod Llawn)[23]. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rhoi gwybod i dîm y Bil pan fydd yr amserlen wedi ei phennu gan y Pwyllgor Busnes.

### Cytuno ar yr amserlen

15.3 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn paratoi amserlen er mwyn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth

[22] Datblygwyd yr amserlen ddangosol ar gyfer Biliau Anllywodraethol gan Gomisiwn y Cynulliad
[23] Pennir y dyddiadau a'r amseroedd ar gyfer ystyried Biliau'r Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn gan y Llywodraeth; mae hyn yn digwydd ar brynhawn dydd Mawrth fel arfer.

ei rhoi gerbron y Pwyllgor Busnes.[24] Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyfarfod fel arfer ar fore dydd Mawrth yn ystod wythnosau eistedd. Bydd yr amserlen fel arfer wedi ei chytuno gan y Pwyllgor Busnes ddwy wythnos eistedd cyn cyflwyno, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Cyfrifol tebygol (gweler isod).

15.4 Bydd yr amserlen a bennir gan y Pwyllgor Busnes yn un a grëir ar lefel gymharol uchel, a phennir dyddiadau ac amseroedd gwirioneddol y trafodion gan Glercod y Pwyllgor ar ôl trafod gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn sicrhau bod tîm y Bil yn cael ei hysbysu o'r wybodaeth honno cyn gynted ag y bydd ar gael.

### Newidiadau i'r amserlen

15.5 Wedi i'r amserlen gael ei phennu gan y Pwyllgor Busnes, gellir ei newid ar gyfer cyfnodau o ystyriaeth y tu allan i'r Cyfarfod Llawn (ystyriaethau a thrafodiadau Pwyllgor), ond byddai angen cytundeb y Pwyllgor Busnes i wneud hynny. Gall yr amserlen hefyd newid ar gyfer ystyriaeth a thrafodion y Cyfarfod Llawn, ond byddai hynny'n fater i'r Llywodraeth i'w drafod â Chomisiwn y Cynulliad.

15.6 Gall y Pwyllgor Cyfrifol gynnig newidiadau i'r amserlen, er enghraifft pe baent yn dymuno cynyddu'r amser a neilltuwyd ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 yn sgil tystiolaeth a ddaw i'r amlwg gan randdeiliaid. Caiff y Llywodraeth hefyd gynnig newidiadau, ond ni ddylid rhagdybio y bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno i newid o'r fath, a byddai'n rhaid asesu a deall y goblygiadau ymarferol pe byddai'r Llywodraeth yn gwneud cais i newid amserlen a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Llywodraeth ei hun. Bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth yn cynnig newidiadau y bydd angen eu rhoi gerbron y Pwyllgor Busnes[25] a bydd angen i'r Gweinidog hwnnw ymuno hefyd mewn trafodaethau ynghylch pob newid i'r amserlen pan fydd y Bil wedi cael ei gyflwyno. Dylai timau Bil godi unrhyw bosibilrwydd y bydd angen newid yr amserlen gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant cyn gynted â phosibl, oherwydd bydd yr Uned yn cynnal trafodaethau am hyn gyda'r Comisiwn a'r Gweinidogion perthnasol, gan gynnwys y Prif Weinidog.

## Gwefan y Cynulliad

15.7 Unwaith y bydd Bil wedi ei gyflwyno, bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yng Nghomisiwn y Cynulliad) yn diweddaru gwefan y Cynulliad â'r

[24] Yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Anllywodraethol fydd yn cynnig yr amserlen i'r Pwyllgor Busnes.
[25] Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Anllywodraethol gynnig unrhyw newidiadau yn yr amserlen, ond mae'n agored hefyd i'r Llywodraeth gynnig newidiadau (drwy'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth).

wybodaeth a’r holl ddogfennau sy’n gysylltiedig â’r Bil.  Bydd gan bob Bil ei dudalen we ei hun.[26]

15.8 Pan fydd angen cynnwys dolen i’r Bil neu’r Memorandwm Esboniadol mewn gohebiaeth neu mewn Datganiadau Ysgrifenedig gan Weinidogion, dylai’r ddolen arwain at y dudalen we ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad (yn hytrach nag i dudalennau “Dogfennau a Osodwyd” y Cynulliad).

15.9 Dim ond dolenni i’r dudalen we berthnasol ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad, yn ogystal ag unrhyw dudalennau polisi lle y gellid bod wedi cyhoeddi deunyddiau eraill sy’n cefnogi’r Bil, megis asesiadau effaith neu astudiaethau achos, sydd i’w cael yn yr adran ar ddeddfwriaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

15.10 Unwaith y bydd y Bil wedi ei basio gan y Cynulliad a chael Cydsyniad Brenhinol, dylai dolenni i’r Ddeddf a’r Nodiadau Esboniadol arwain at y dudalen berthnasol ar http://www.legislation.gov.uk/cy

## Gohebu â Phwyllgorau

15.11 Yn ystod hynt y Bil drwy’r Cynulliad mae’n debygol y bydd y Gweinidog naill ai’n darparu tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i Bwyllgorau, neu y gofynnir iddo ysgrifennu ynglŷn â mater penodol.  Bydd rhaid i dimau Bil baratoi gohebiaeth a thystiolaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan fod y dogfennau hynny’n debygol o gael eu cyhoeddi fel dogfennau cyhoeddus, naill ar dudalen we’r Bil neu’r Pwyllgor. Os bydd angen cyfieithu, bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn trefnu hynny.

15.12 Dylai timau Bil wybod hefyd y dylai Gweinidogion ysgrifennu at Aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac eithrio wrth ateb Aelod unigol sydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os bydd angen cyfieithu, bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn trefnu hynny.

15.13 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn anfon gohebiaeth oddi wrth y Llywodraeth at y Clercod Pwyllgor. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd yn ddolen gyswllt, yn ôl yr angen, rhwng staff y Pwyllgorau a swyddogion y Llywodraeth.

## Cyfnod 1

15.14 Hwn yw’r Cyfnod cyntaf o ystyriaeth y Cynulliad, ac mae’n dechrau pan gyflwynir y Bil i’r Cynulliad. Fel arfer mae’n cynnwys archwiliad gan

[26] Gellir gweld gwybodaeth am hynt Biliau a gyflwynwyd i’r Cynulliad yn: http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-progress-bills/Pages/bus-legislation-progress-bills.aspx

Bwyllgor o egwyddorion cyffredinol y Bil (gan gynnwys y polisi, yr effaith y bwriedir iddo ei chael a'r costau).

### Ystyriaeth gan y 'Pwyllgor Cyfrifol'

15.15 Rhaid i'r Pwyllgor Busnes, o dan Reol Sefydlog 26.9, benderfynu a ddylid atgyfeirio ai peidio yr ystyriaeth o egwyddorion cyffredinol y Bil i 'Bwyllgor Cyfrifol'. Os gwneir atgyfeiriad o'r fath, bydd rhaid i'r Pwyllgor Cyfrifol ystyried yr egwyddorion cyffredinol ac adrodd arnynt.

15.16 Mae Cyfnod 1 fel arfer yn para tua 10 -12 wythnos eistedd (yn amodol ar ddyddiadau'r toriadau); ond y Pwyllgor Busnes fydd yn pennu am ba hyd y bydd y Cyfnod yn para mewn gwirionedd.

15.17 Mae'r Pwyllgorau sy'n ystyried Biliau yn cynnwys y canlynol –

a. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
b. Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
c. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
d. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
e. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
f. Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
g. Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

15.18 Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd wedi gweithredu fel Pwyllgor Cyfrifol ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Gall Pwyllgorau hefyd ffurfio is-bwyllgorau at ddibenion craffu ar Fil penodol. Ffurfiwyd is-bwyllgor o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol er mwyn ystyried y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yng Nghyfnod 1. Fe wnaeth y Pwyllgor llawn gytuno a chyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 a chynnal gwaith craffu Cyfnod 2.

15.19 Os bydd y Pwyllgor Busnes yn dewis peidio ag atgyfeirio'r ystyriaeth o'r egwyddorion sylfaenol i Bwyllgor Cyfrifol, ac wedi datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn unol â Rheol Sefydlog 26.10A, caiff yr Aelod Cyfrifol gynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.  Ceisir cytundeb o'r fath yn y 'ddadl ar egwyddorion cyffredinol' (gweler isod). Gweler hefyd y canllawiau ar Filiau 'llwybr carlam' a Biliau 'brys' ym Mhennod 16.

15.20 Ar adegau gallai fod gan fwy nag un Pwyllgor fuddiant mewn Bil – er enghraifft, yn ystod y Pedwerydd Cynulliad roedd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag oedolion yn ogystal â phlant. Y Pwyllgor Cyfrifol ar gyfer y Bil hwnnw oedd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel ag yr oedd, ond roedd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fel ag yr oedd hefyd fuddiant yn y Bil a'i ddarpariaethau o ran yr effaith ar blant a

phobl ifanc. Mewn achosion o'r fath, un Pwyllgor yn unig a fydd yn cael ei enwi o hyd gan y Pwyllgor Busnes yn Bwyllgor cyfrifol, ond ni fydd hyn yn rhwystro Pwyllgorau eraill rhag ystyried y Bil yn ystod yr un cyfnod o amser a bennwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Cyfrifol. Caiff y Pwyllgor arall, neu'r Pwyllgorau eraill, ofyn i'r Aelod Cyfrifol ac i randdeiliaid eraill roi tystiolaeth iddynt. Caiff y Pwyllgorau eraill hefyd baratoi adroddiad, neu ysgrifennu i'r Pwyllgor Cyfrifol i ddatgan eu canfyddiadau.

15.21 Pan fo mwy nag un Pwyllgor yn ystyried y Bil, dylai tîm y Bil fod yn ymwybodol o'r hyn a ganlyn:

a. ceir cynnal cyfarfodydd Pwyllgor gael yn agos at ei gilydd ac, ar wahân i'r angen i ddarparu amrywiol becynnau gwybodaeth a thrywydd i'w dilyn ar gyfer y Gweinidog, bydd hyn hefyd yn golygu y gellid ystyried tystiolaeth gan un Pwyllgor yn y cwestiynau a ofynnir gan Bwyllgor arall;

b. caiff aelod sy'n eistedd ar un Pwyllgor eistedd ar y Pwyllgor arall hefyd, ac felly gall barhau i ofyn cwestiynau ar themâu a drafodwyd eisoes, neu amlygu gwahaniaethau barn rhwng y ddau Bwyllgor.

Dull y Pwyllgor Cyfrifol o ymdrin â thystiolaeth rhanddeiliaid

15.22 Er mwyn ystyried ac adrodd ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'n arferol i'r Pwyllgor Cyfrifol ystyried y materion a ganlyn –

a. nodau ac amcanion polisi y Bill;
b. a oes angen dull deddfwriaethol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
c. a oes modd i'r Bil, fel y'i drafftiwyd, gyflawni'r nodau ac amcanion hynny.

15.23 Er mwyn llywio ei ystyriaeth, bydd y Pwyllgor Cyfrifol fel arfer yn cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan randdeiliaid allweddol. Ar ddechrau'r broses o ystyried, bydd y Pwyllgor Cyfrifol fel arfer yn anfon llythyr at randdeiliaid i'w gwahodd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig fel ymateb i amryw o gwestiynau. Bydd y cwestiynau ymgynghori yn amrywio ac yn dibynnu ar ddeunydd pwnc a darpariaethau'r Bil, ond gallant ymdrin â materion fel –

a. yr angen am y Bil;
b. a yw'r Bil yn cyflawni'r amcanion a bennwyd;
c. safbwyntiau ar ddarpariaethau neu rannau penodol o'r Bil;
d. rhwystrau posibl a allai atal gweithredu'r Bil ac a yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny;
e. sut y byddai'r Bil yn effeithio ar grwpiau penodol (o randdeiliaid);
f. beth, yn ymarferol, fyddai'n rhaid ei newid er mwyn i'r Bil weithio;
g. pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth;

h. goblygiadau ariannol;
i. cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

15.24 Wrth i'r dystiolaeth ysgrifenedig gyrraedd y Pwyllgor Cyfrifol, caiff ei chyhoeddi ar dudalen we y Cynulliad ar gyfer y Bil. Dylai'r timau Bil barhau i adolygu tystiolaeth o'r fath. Bydd gwneud hynny yn eu helpu i baratoi ar gyfer ymddangosiad y Gweinidog gerbron y Pwyllgor (gweler isod) a nodi'r meysydd posibl y gallai'r Pwyllgor adrodd arnynt ar ddiwedd Cyfnod 1 ac y gallai Aelodau ddymuno gweld gwelliannau'n cael eu gwneud iddynt yn y Bil yn ystod y Cyfnod nesaf.

15.25 Bydd y Pwyllgor Cyfrifol hefyd yn gwahodd rhanddeiliaid dethol i roi iddynt dystiolaeth lafar. Eto, bydd angen i dimau Bil fonitro'r sesiynau y rhoddir tystiolaeth ynddynt gan randdeiliaid. Y ffordd orau o wneud hynny fyddai drwy bod yn bresennol yn y sesiynau, ac eistedd yn oriel yr ystafell bwyllgora. Bydd hyn yn golygu bod modd arsylwi ar y rhyngweithio rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r tystion, a bydd yn amlwg ar unwaith pa faterion a godir.

15.26 Wrth adolygu'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a roddir i'r Pwyllgor gan randdeiliaid, bydd modd i dimau Bil ddod i wybod am unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch bwriad neu effaith y Bil, y Memorandwm Esboniadol, y goblygiadau ariannol neu'r polisi. Bydd cael gwybod am y rhain o gymorth i'r tîm ystyried a fyddai'r Gweinidog yn dymuno egluro a chofnodi safbwynt y Llywodraeth ar faterion o'r fath (er enghraifft, yn ei dystiolaeth ef/ei thystiolaeth hi gerbron sesiwn o'r Pwyllgor – gweler isod), neu ysgrifennu at y rhanddeiliad a/neu i'r Pwyllgor Cyfrifol i esbonio safbwynt y Llywodraeth, ynteu peidio â chymryd camau pellach. Beth bynnag am hynny, bydd yr wybodaeth a gesglir yn ddefnyddiol i'w hystyried yn y Strategaeth Gyfathrebu.

### Dull y Pwyllgor Cyfrifol o ymdrin â thystiolaeth y Gweinidog

15.27 Gwahoddir y Gweinidog i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifol yn ystod Cyfnod 1. Fel arfer anfonir dau wahoddiad i'r Gweinidog fod yn bresennol – un ar ddechrau ystyriaeth y Pwyllgor, ac un arall tua'r diwedd (fel arfer, wedi i'r tystion eraill roi eu tystiolaeth). Trefnir dyddiadau ar gyfer presenoldeb y Gweinidog gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant drwy drafod gyda'r Clercod Pwyllgor a Swyddfa Breifat y Gweinidog.

15.28 Yn sgil yr amser sydd ar gael i'r Pwyllgor graffu ar y Bil, ac yn enwedig os ystyrir rhaglen waith arall, ni fydd ganddo lawer o hyblygrwydd wrth bennu'r dyddiadau ar gyfer presenoldeb y Gweinidog, nac i newid y dyddiadau hynny ar ôl eu pennu.

15.29 Mae'n arferol i hyd at ddau swyddog eistedd wrth fwrdd y Pwyllgor i gynorthwyo'r Gweinidog, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor. Fel arfer, y swyddog polisi arweiniol a'r cyfreithiwr pwnc arweiniol fydd y

ddau swyddog, ond bydd hwn yn fater i’w drafod gyda’r Gweinidog. Caiff swyddogion annerch y Pwyllgor pan wahoddir hwy i wneud hynny gan y Gweinidog.

15.30 Pan fo angen, caiff Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant drafod gyda’r Clercod Pwyllgor y posibilrwydd o gael mwy na dau swyddog i gefnogi, er bod y Clercod wedi mynegi na fydd hynny’n bosibl fel arfer. Fodd bynnag, mae’n fwy tebygol o fod yn bosibl i ragor o swyddogion eistedd y tu ôl i’r Gweinidog yn ystod sesiwn y Pwyllgor. Byddai trefniant o’r fath yn caniatáu i nodiadau gael eu rhoi i’r Gweinidog pe bai angen. Ni fydd y swyddogion a fydd yn eistedd y tu ôl i’r Gweinidog yn gallu annerch y Pwyllgor.

15.31 I baratoi ar gyfer presenoldeb y Gweinidog yn y Pwyllgor, bydd angen paratoi pecyn gwybodaeth a’r trywydd i’w dilyn. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ddarparu cyngor ynghylch sesiynau tystiolaeth yn y gorffennol, ac enghreifftiau o feysydd o ddiddordeb tebygol. Efallai hefyd y bydd Rheolwyr Bil yn dymuno darllen trawsgrifiadau o drafodiadau Cyfnod 1 mewn perthynas â Biliau eraill, er mwyn gweld enghreifftiau o’r mathau o gwestiynau a ofynnir.

15.32 Dylid paratoi pecyn gwybodaeth sy’n rhoi sylw i’r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor yn ei gais am dystiolaeth (gweler paragraff 15.24 uchod), ac yn y datganiad deddfwriaethol agoriadol. Dylai’r gwaith a wnaed wrth baratoi’r Memorandwm Esboniadol fod o gymorth penodol i’r tîm baratoi’r pecyn hwn.

15.33 Dylai’r pecyn gwybodaeth ar gyfer ail ymddangosiad y Gweinidog gerbron y Pwyllgor roi sylw i’r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a roddwyd i’r Pwyllgor eisoes gan randdeiliaid.

15.34 Wedi i’r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor a chyflwyno tystiolaeth, efallai y bydd y naill yn gohebu â’r llall. Fel arfer, dylid anfon unrhyw ateb i’r Pwyllgor fel ei fod yn cyrraedd o fewn deng niwrnod gwaith i ddyddiad yr ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, neu ddyddiad y llythyr oddi wrth y Cadeirydd. Fodd bynnag, bu’n ofynnol ateb yn gynharach na hynny mewn rhai achosion.

15.35 Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Clercod Pwyllgor yn anfon trawsgrifiad drafft at y Gweinidog a’r swyddogion a fu’n bresennol ar gyfer ei wirio, gan bennu terfyn amser ar gyfer ymateb gyda sylwadau neu ddiwygiadau. Bydd angen i dîm y Bil ddarllen y fersiwn ddrafft o’r cofnod a thynnu sylw at unrhyw wallau. Mae dau fath o gywiriadau: cywiro materion o ffaith, pan fo cyfraniadau wedi eu cam-drawsgrifio neu eu cam-deipio; a chywiro enghreifftiau o dystiolaeth y gellid ei gwella drwy roi mwy o esboniad neu eglurhad, ond lle byddai gwneud hynny yn newid synnwyr cyffredinol unrhyw ateb yn sylweddol. Yn achos y math cyntaf, caiff swyddogion gysylltu â’r Clercod i awgrymu diwygiadau. Yn achos yr ail fath, gall y Llywodraeth geisio egluro’r dystiolaeth drwy ofyn am

ychwanegu troednodyn yn y trawsgrifiad. Yn ogystal â hynny, neu’n hytrach na defnyddio troednodiadau, dylai timau ystyried hefyd a fyddai’n fuddiol anfon llythyr o eglurhad i’r Pwyllgor oddi wrth y Gweinidog. Bydd hyn yn sicrhau bod sylw Aelodau’r Pwyllgor yn cael ei dynnu at yr eglurhad, a allent fethu â gweld troednodyn. Bydd y newidiadau arfaethedig wedyn yn cael eu hawdurdodi gan y Gweinidog, drwy Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, cyn eu dychwelyd at y Clercod.

### Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

15.36 Mae cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnwys ystyried priodoldeb darpariaethau mewn Biliau’r Cynulliad sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ac adrodd ar hyn. Pan fo Bil yn gwneud darpariaeth o’r fath, mae’n debygol y bydd y Pwyllgor hwn yn cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog ynglŷn â’r darpariaethau hynny. Gwneir hyn fel arfer yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar. Trefnir y dyddiad ar gyfer bod yn bresennol yn y Pwyllgor gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a fydd yn trafod â’r Clercod Pwyllgor a Swyddfa Breifat y Gweinidog.

15.37 Mae’r Pwyllgor hwn yn debygol o fod â diddordeb mewn materion megis –

a. y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a’r hyn sydd i’w bennu mewn is-ddeddfwriaeth;
b. y dewis o weithdrefn (cadarnhaol, negyddol, etc.) a gysylltir â’r is-ddeddfwriaeth;
c. darpariaethau cychwyn;
d. cymhwysedd deddfwriaethol;
e. newidiadau yn y Bil y gellir eu gwneud yng Nghyfnod 2, ac a fyddai’r rheini’n effeithio ar y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth;
f. unrhyw faterion trawsffiniol a allai effeithio ar yr is-ddeddfwriaeth;
g. Hawliau’r Confensiwn ac ystyriaethau rheolaeth y gyfraith;
h. cydsyniadau Gweinidog y Goron;
i. pwerau mewn is-ddeddfwriaeth i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (pwerau Harri VIII).

15.38 Wrth baratoi pecyn gwybodaeth a’r trywydd i’r Gweinidog ei ddilyn, bydd Pennod 5 y Memorandwm Esboniadol a’r Datganiad o Fwriad y Polisi (ar gyfer is-ddeddfwriaeth) yn arbennig o ddefnyddiol i dîm y Bil. Dylai’r tîm hefyd fod yn gyfarwydd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y ffactorau a fyddai’n dueddol o olygu ai’r weithdrefn gadarnhaol ynteu’r weithdrefn negyddol y dylid ei chymhwyso (gweler Pennod 10).

15.39 Fel yn y Pwyllgor Cyfrifol, caiff hyd at ddau o swyddogion fod yn bresennol gyda’r Gweinidog yn sesiwn y Pwyllgor, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor. Caiff y swyddogion hyn annerch y Pwyllgor pan wahoddir hwy i wneud hynny gan y Gweinidog.

15.40 Mae’r cyngor ym mharagraffau 15.32 i 15.36 uchod yn gymwys hefyd mewn perthynas ag ymddangosiad y Gweinidog yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

### Y Pwyllgor Cyllid

15.41 Mae’r adran hon yn gymwys os nad y Pwyllgor Cyllid yw’r Pwyllgor Cyfrifol.

15.42 Caiff y Pwyllgor Cyllid ddewis gwahodd y Gweinidog i ymddangos ger ei fron i ateb cwestiynau ynghylch, yn bennaf, oblygiadau ariannol y cynigion deddfwriaethol. Mae’r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi ceisio tystiolaeth drwy ohebiaeth ysgrifenedig mewn rhai achosion.

15.43 Wrth baratoi pecyn gwybodaeth a thrywydd i’r Gweinidog ei ddilyn, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn arbennig o ddefnyddiol i dîm y Bil, yn ogystal â’r dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig a roddwyd i’r Pwyllgor gan randdeiliaid ynglŷn â’u barn am y goblygiadau ariannol.

### Adroddiadau’r Pwyllgor(au)

15.44 Bydd pob Pwyllgor sy’n ystyried y Bil yn gallu paratoi adroddiad arno, ond bydd rhaid i’r Pwyllgor Cyfrifol wneud adroddiad. Caiff y pwyllgorau eraill hefyd fwydo eu canfyddiadau i mewn i adroddiad y Pwyllgor cyfrifol; er enghraifft, gallai’r Pwyllgor Cyllid ysgrifennu i’r Pwyllgor Cyfrifol i’w hysbysu o’i ganfyddiadau ar gyfer eu cynnwys yn y prif adroddiad.

15.45 Rhaid cyhoeddi pob adroddiad erbyn y dyddiad a bennir gan y Pwyllgor Busnes.

15.46 Fel arfer, bydd yr adroddiadau yn crynhoi’r dystiolaeth a gasglwyd a safbwyntiau’r Pwyllgor ar ystod o wahanol agweddau ar y Bil, y Memorandwm Esboniadol a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gall yr adroddiadau gynnwys argymhelliad na ddylai’r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil, neu y dylai anghytuno â hwy, a gall wneud argymhellion ar gyfer diwygio’r Bil ac ar gyfer cymryd camau anneddfwriaethol eraill.

15.47 Bydd angen i’r timau Bil ddarparu cyngor i’r Gweinidog ar yr adroddiad, gan gynnwys a ddylid derbyn yr argymhellion, eu derbyn mewn egwyddor, neu beidio â’u derbyn. Dylid darparu cyngor o’r fath yn brydlon, a bydd o gymorth felly os bydd timau Bil yn rhagweld pa feysydd y mae’n debygol yr adroddir arnynt, ac ystyried (ar y cyd â’r swyddogion cyfarwyddo a Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol) lle y gellid bod angen gwneud gwelliannau i’r Bil.

15.48 Bydd y Llywodraeth yn cael y cyfle i ymateb i adroddiadau'r Pwyllgorau yn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol (gweler isod) – gall ei hymatebion gynnwys ymrwymiadau i geisio diwygio'r Bil, neu adolygu'r Memorandwm Esboniadol, cymryd camau eraill neu wrthod yr hyn a argymhellwyd. Mewn rhai achosion, mae llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor wedi cael ei gynnwys gydag ymateb y Llywodraeth yn y ddadl. Gall mabwysiadu dull o'r fath fod o fudd, er mwyn darparu esboniad manwl neu gynnig pwyntiau o esboniad. Fodd bynnag, yn wahanol i'r ffordd y mae'r Llywodraeth fel arfer yn ymateb i adroddiadau gan Bwyllgorau (nad ydynt yn ymwneud â deddfwriaeth), nid yw'n ofynnol darparu ateb ysgrifenedig ffurfiol i bob argymhelliad.

Y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol

15.49 O dan y Rheolau Sefydlog rhaid cael bwlch o 5 diwrnod gwaith o leiaf rhwng dyddiad adroddiad y Pwyllgor Cyfrifol a dyddiad y ddadl Cyfnod 1. Yn ymarferol, fodd bynnag, bydd bwlch o tua 10 diwrnod calendr rhwng y terfyn amser ar gyfer adroddiad y Pwyllgor a dyddiad y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

15.50 Yn ystod yr amser hwnnw bydd angen i dîm y Bil ddarparu i'r Gweinidog: gyngor ynghylch adroddiad(au)'r Pwyllgor(au); pecyn gwybodaeth a'r trywydd i'w ddilyn; ac araith i'w thraddodi yn y ddadl ei hun.

15.51 Fel arfer, caiff y ddadl ei rhestru i barhau am 60 munud, ac felly bydd gan y Gweinidog tua 15 munud o amser siarad. Rhennir yr amser hwnnw, yn ôl dewis y Gweinidog, rhwng ei sylwadau agoriadol a sylwadau cloi. Yn ei sylwadau cloi, bydd disgwyl i'r Gweinidog ymateb i bwyntiau a godir gan Aelodau yn ystod y ddadl. Mae'n hanfodol, felly bod y timau Bil yn rhagweld y meysydd y mae cwestiynau yn debygol o gael eu codi yn eu cylch, ac yn paratoi trywydd i'w ddilyn priodol ar gyfer y Gweinidog.

15.52 Wrth baratoi areithiau ar gyfer y Gweinidog, mae'n bwysig bod y trywydd i'w ddilyn yn dadlau o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil, yn ogystal ag ymateb i argymhellion allweddol y Pwyllgor.

15.53 Yn ystod y ddadl, gall Aelodau godi cwestiynau neu wneud sylwadau mewn perthynas â goblygiadau ariannol y Bil, neu gallai'r materion hynny gael eu cadw'n ôl tan unrhyw drafodaeth ar y Penderfyniad Ariannol (gweler isod); byddai'n gam doeth pe bai tîm y Bil yn sicrhau bod y pecyn gwybodaeth a'r trywydd i'w ddilyn yn cynnwys gwybodaeth am gostau, ac yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiadau.

15.54 Dylai tîm y Bil roi sylw manwl i'r ddadl ei hun, yn bennaf er mwyn gallu ymateb i unrhyw ymrwymiadau Gweinidogol, ac yn ail oherwydd bod Aelodau yn aml yn nodi'r materion y byddent yn disgwyl iddynt gael eu

diwygio yng Nghyfnod 2. Gall hyn gynorthwyo'r tîm i ragweld y gwelliannau anllywodraethol sy'n debygol, a gwneud cynlluniau priodol i ymateb i'r rheini.

15.55 Ar ddiwedd y ddadl gofynnir i'r Cynulliad gytuno i'r cynnig, a fynegir mewn geiriad tebyg i'r canlynol –

*"Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil [enw byr] (Cymru)"*

15.56 Gellir diwygio'r cynnig hwn; mewn geiriau eraill, gall Aelodau'r Cynulliad gyflwyno gwelliannau i'r cynnig, sy'n golygu y dadleuir ynghylch y gwelliannau hynny yn ystod y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol, ac yna pleidleisir arnynt gan yr Aelodau cyn iddynt bleidleisio ar y cynnig ei hun. Rhaid cyflwyno unrhyw welliannau dri diwrnod gwaith o leiaf cyn dyddiad y ddadl, a bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rhoi gwybod i dîm y Bil os digwydd hynny. Bydd angen i dîm y Bil sicrhau bod yr araith ar gyfer y Gweinidog yn rhoi sylw i unrhyw welliannau i'r cynnig.

15.57 Os na fydd gwrthwynebiad i'r cynnig, caiff ei gytuno heb bleidlais; os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar y cynnig:

a. bydd mwyafrif syml yn penderfynu a gaiff y cynnig ei gytuno ai peidio. Os caiff ei gytuno bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2; os na chaiff y cynnig ei gytuno, bydd y Bil yn methu;

b. os na cheir y mwyafrif gofynnol, bydd y Llywydd yn defnyddio ei phleidlais fwrw. Mewn achos o'r fath bydd yn rhoi ei phleidlais fwrw yn gadarnhaol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(i)). Mae hyn yn golygu y bydd y cynnig wedi ei gytuno a bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2.

15.58 Cyn gynted ag y bydd Cofnod y Trafodion ar gael (h.y. o fewn 24 i'r ddadl) bydd angen i dîm y Bil wirio'r Cofnod er mwyn dod o hyd i unrhyw wallau ac ystyried a ellid bod wedi rhoi ymateb mwy eglur (gweler paragraff 15.36). Dylid hysbysu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ar unwaith ynghylch unrhyw wallau, fel y gall Ysgrifenyddiaeth y Siambr (yng Nghomisiwn y Cynulliad) eu cywiro.

## Penderfyniad Ariannol

15.59 O dan Reol Sefydlog 26.69, mae'n ofynnol cyflwyno cynnig Penderfyniad Ariannol os yw Bil wedi cael effaith ar Gronfa Gyfunol Cymru, neu'n debygol o'i heffeithio. Y Llywydd sy'n penderfynu a fydd angen penderfyniad o'r fath.

15.60 Bydd y Llywydd yn ystyried a oes angen Penderfyniad Ariannol yr un pryd â'r materion a fydd yn arwain at ei phenderfyniad ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'n arferol i'r Llywydd hysbysu'r Prif Weinidog o'i phenderfyniad ynghylch yr angen am Benderfyniad Ariannol pan gyflwynir y Bil, ond gall ddewis gohirio'i phenderfyniad er mwyn ystyried canlyniad yr ystyriaeth o'r Bil gan y Pwyllgor Cyfrifol.

15.61 Os bydd yn ofynnol cael Penderfyniad Ariannol, ni cheir cynnal unrhyw drafodion Cyfnod 2 ar y Bil cyn cytuno ar y Penderfyniad Ariannol.

15.62 Pan fydd Penderfyniad Ariannol yn ofynnol, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn paratoi'r cynnig ac yn ceisio awdurdodiad ffurfiol gan y Gweinidog i gyflwyno'r cynnig. Bydd y cyngor yn cynnwys crynodeb o oblygiadau ariannol y Bil ar sail yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Trefnir amser yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer cynnal dadl ar y Penderfyniad Ariannol: pan fo modd, bydd hyn yn digwydd ar yr un diwrnod â'r ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol, ac fel arfer yn union ar ôl y ddadl honno.

15.63 Cyflwynir y cynnig yn enw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth, ond y Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil fydd mewn gwirionedd yn cynnig y cynnig ar gyfer y ddadl. Efallai y bydd angen i dimau Bil baratoi nodiadau annerch i'w defnyddio gan y Gweinidog mewn cysylltiad â'r cynnig Penderfyniad Ariannol, yn enwedig os oes arwyddion y gallai Aelodau fod yn amharod i gytuno ar y cynnig. Gellir cael cyngor pellach gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

15.64 Os nad oes gwrthwynebiad i'r cynnig, caiff ei gytuno heb cynnal pleidlais; os oes gwrthwynebiadau, bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar y cynnig, a bydd yr un rheolau yn gymwys â'r rhai a nodir ym mharagraff 15.58.

15.65 Os na chaiff Penderfyniad Ariannol ei gyflwyno a'i gytuno o fewn 6 mis o gwblhau Cyfnod 1, bydd y Bil yn methu.

## Diwygio Bil ar ôl ei gyflwyno

15.66 Unwaith y bydd Bil wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad, dim ond â chytundeb y Cynulliad y ceir ei ddiwygio. Gwneir hyn fel arfer yn ystod Cyfnodau 2 a 3 o'r ystyriaeth gan y Cynulliad; gellir gwneud hefyd ddiwygiadau yn ystod y Cyfnod 3 Pellach a'r Cyfnod Adrodd, pan gynhelir y Cyfnodau hynny.

### Pam y gallai'r Llywodraeth geisio diwygio Bil

15.67 Dylai'r Llywodraeth geisio sicrhau y bydd y Bil yn cyflawni'r polisi a fwriadwyd yn effeithiol. Er mwyn gwneud hynny, bydd rhaid i'r Bil

weithio'n iawn a chyfleu'r polisi yn eglur. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Llywodraeth gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cyflawni hyn.

15.68 Fodd bynnag, drwy gyflwyno gwelliannau'r Llywodraeth, gellir rhoi'r argraff nad yw'r Bil wedi ei baratoi yn briodol. Gallai hyn hefyd arafu hynt y Bil drwy'r Cynulliad, gwastraffu amser mewn Pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn ac achosi drwgdeimlad yn y Cynulliad. Hyd yn oed os yw'r gwelliannau eu hunain yn rhai bach, nad ydynt yn ddadleuol, ac yn annhebygol o gymryd llawer o amser, gall eu heffaith gynyddol fod yn fwy difrifol. Dylai'r Llywodraeth, felly, wneud cyn lleied o welliannau â phosibl i Filiau. Dim ond os ydynt yn angenrheidiol i gyflawni ei pholisi yn effeithiol, neu rhag i'r Llywodraeth gael ei threchu, neu fel arall fel cymorth i drin y Bil neu fusnes arall y Llywodraeth yn effeithiol yn y Cynulliad, y dylai'r Llywodraeth geisio gwelliannau i Fil.

15.69 Mae nifer o sefyllfaoedd posibl a allai beri i'r Llywodraeth geisio diwygio Bil:

a. Gall amgylchiadau fod wedi codi ers i'r Bil gael ei gyflwyno a fydd yn golygu bod angen dybryd i ddiwygio'r Bil er mwyn cyflawni'r polisi a fwriedir yn effeithiol. Efallai hefyd y bydd angen diwygio i fewnosod darpariaethau nad oedd modd eu cynnwys pan gyflwynwyd y Bil;

b. Gall fod angen gwneud newidiadau technegol er mwyn i'r Bil weithio'n iawn a chyfleu'r polisi yn eglur; er enghraifft, cywiriadau teipograffyddol, newidiadau i sicrhau bod fersiynau Cymraeg a Saesneg y Bil yn cyfleu'r un ystyr, ailrifo neu aildrefnu, newidiadau i sicrhau cysondeb mynegiant yn y Bil a/neu gysondeb â deddfwriaeth bresennol, neu newidiadau i ddiweddaru cyfeiriadau yn y Bil (e.e. at gyrff y newidiwyd eu henw ers i'r Bil gael ei gyflwyno);[27]

c. Gallai fod angen gwneud consesiynau er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r Bil. Gellir eu datblygu fel ymateb uniongyrchol i bwynt a godwyd yng Nghyfnod 1, neu fel dewis arall yn lle gwelliannau anllywodraethol a ddisgwylir pan fo'r Llywodraeth yn ystyried ei bod hi'n debygol o gael ei threchu. Gellir ystyried hefyd fod gwelliant yn gonsesiynol os caiff ei ddatblygu fel ymateb i bwynt a godwyd ynglŷn â'r Bil o'r tu allan i'r Cynulliad – ond dim ond os yw'n debygol byddai'r pwynt hwnnw'n cael ei godi gan Aelodau yng Nghyfnodau 2 neu 3;

[27] Bydd ailrifo o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i'r Bil, a rhai mathau o gywiriadau teipograffyddol, yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses ailargraffu ar gais Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i'r Swyddfa Ddeddfwriaeth, ac nid oes angen gwneud gwelliannau penodol i'r Bil ar gyfer y newidiadau hynny.

d. Dileu elfennau o’r Bil na chawsant eu croesawu gan randdeiliaid a/neu’r Pwyllgor Cyfrifol, os ystyrir y byddai’n ddoeth eu dileu er mwyn sicrhau cefnogaeth i’r Bil;

e. Er mwyn cynnwys meysydd polisi newydd (neu feysydd yr ymhelaethwyd arnynt gan fynd i fwy o fanylder) hyd yn oed os nad ydynt yn ehangu cwmpas y Bil.

15.70 Bydd angen i’r timau Bil ystyried yn ofalus y materion a grybwyllir uchod wrth benderfynu a ddylid datblygu gwelliannau’r Llywodraeth ac ystyried hefyd y rheolau ynglŷn â derbyniadwyedd gwelliannau(gweler paragraff 15.75).

### Yr amserlen ar gyfer paratoi gwelliannau

15.71 Cytunir ar yr amserlen ar gyfer paratoi gwelliannau rhwng Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, tîm y Bil, Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Bydd hyn yn cynnwys yr amserlen ar gyfer cyfarwyddo Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol (sy’n paratoi gwelliannau’r Llywodraeth), llunio’r gwelliannau yn y ddwy iaith, cwblhau gwiriadau cyfwerthedd Cymraeg/Saesneg ac awdurdodiadau Gweinidogol a’r Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno’r gwelliannau. Os ystyrir cyflwyno gwelliannau fesul ‘tranche’ (gweler paragraff 15.98 isod) bydd yr amserlen yn adlewyrchu hynny.

### Ffurf y gwelliannau

15.72 Bydd y gwelliannau yn nodi rhif yr adran, y dudalen a’r llinell o’r Bil y maent yn berthnasol iddynt, a byddant yn cynnig gwneud un o’r canlynol:

a. hepgor geiriau;
b. hepgor rhai geiriau a mewnosod rhai eraill;
c. mewnosod neu ychwanegu geiriau newydd.

15.73 Caiff gwelliant gynnig hepgor adran neu atodlen benodedig, neu elfen o fewn adran neu atodlen, megis is-adran, paragraff neu is-baragraff.

### Derbyniadwyedd gwelliannau

15.74 Mae Rheol Sefydlog 26.61 yn datgan mewn perthynas â phob gwelliant (a ystyrir yn ystod unrhyw un o’r Cyfnodau diwygio) nad yw gwelliant yn dderbyniadwy[28]:

[28] Yn y cyd-destun hwn, ystyr ‘derbyniadwy’ yw y caniateir iddo gael ei ystyried (h.y. mae gwelliant yn dderbyniol ac felly caniateir iddo gael ei ystyried yn ystod trafodion).

*"…*

*i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26.58;*

*ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil neu ddarpariaethau'r Bil y byddai'n ei ddiwygio;*

*iii) os yw'n anghyson ag egwyddorion cyffredinol y Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu*

*iv) os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y Cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig."*

15.75 Yn ychwanegol, mae'n debygol y dyfernir gwelliant yn annerbyniol:

a. os yw yr un fath â gwelliant a gyflwynwyd eisoes;

b. os nad yw'n sylweddol wahanol o ran ei effaith gyfreithiol i welliant arall a gyflwynwyd eisoes;

c. os yw'n ceisio diwygio'r cyfarwyddyd ar gyfer gwelliant arall (e.e. fel y mewnosodir is-adran newydd mewn lle gwahanol yn yr adran berthnasol);

d. os yw'n diwygio gwelliant arall mewn ffordd sy'n rhy sylweddol wahanol i'r gwelliant gwreiddiol.

Mae gan y Cynulliad hefyd ei ganllawiau ei hun ar dderbyniadwyedd gwelliannau, sydd i'w gweld ar y wefan.

15.76 Yn ogystal â'r rhai y gellir eu hystyried yn 'rheolau cyffredinol' ar gyfer derbyniadwyedd gwelliannau (sef y rhai a restrir ym mharagraffau 15.75 a 15.76 uchod), ceir rheolau eraill ynglŷn â derbyniadwyedd yn ystod Cyfnodau diwygio, yn benodol:

a. Yng Nghyfnod 3 neu'r Cyfnod Adrodd (ond nid yng Nghyfnod 2) caiff y Llywydd dderbyn 'gwelliant hwyr', sef gwelliant a gynigir wedi i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno fynd heibio. Dim ond os, yn ogystal â'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26.61, y bydd y Llywydd yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol o blaid derbyn y gwelliant (fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26.35) y mae gwelliant o'r fath yn dderbyniadwy. Mater i'r Llywydd yw penderfynu a yw'r rhesymau dros geisio gwelliant hwyr gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol.

b. Mewn Cyfnod 3 pellach neu Gyfnod Adrodd pellach (ond nid yng Nghyfnod 2, Cyfnod 3 nac yn y Cyfnod Adrodd) mae gwelliant yn dderbyniadwy os yw, yn ogystal â'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26.61, at y diben o: egluro darpariaeth mewn Bil (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg); neu roi effaith i ymrwymiadau a roddwyd yn y trafodion Cyfnod 3 neu Gyfnod Adrodd cynharach, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26.41.

c. Mewn Cyfnod Ailystyried (gweler Pennod 17) mae gwelliant yn dderbyniadwy os, yn ogystal â'r meinir prawf yn Rheol Sefydlog 26.61, ac ym marn y Llywydd, y mae at y diben, yn unig, o ddatrys y mater sy'n destun: y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol; penderfyniad y Goruchaf Lys; neu'r Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf – fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26.55.

15.77 Sylwer nad yw'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys darpariaeth ynghylch a fyddai gwelliant sy'n cael ei gyflwyno (pe byddai'r Cynulliad yn cytuno arno) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynilliad, felly bydd angen ystyried hyn ar wahân.

15.78 Mae cyngor pellach ar dderbyniadwyedd gwelliannau ar gael gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

### Gwelliannau anllywodraethol

15.79 Bydd gwelliannau anllywodraethol i'r Bil hefyd yn cael eu cyflwyno yn ystod Cyfnodau 2 a 3 (a'r Cyfnod Adrodd os yn berthnasol). Dylai timau Bil ragweld meysydd tebygol y gwelliannau anllywodraethol, drwy ystyried y sesiynau tystiolaeth yng Nghyfnod 1, adroddiadau'r Pwyllgorau ar ddiwedd Cyfnod 1, monitro dadleuon yn y Cyfarfod Llawn, edrych ar Gwestiynau'r Cynulliad a chadw ar drywydd barn rhanddeiliaid am y Bil (drwy sesiynau tystiolaeth yng Nghyfnod 1, cyswllt uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol, a monitro gwefannau rhanddeiliaid allweddol i weld yr wybodaeth a rennir rhwng y rhanddeiliaid) a'r cyfryngau. Mae safbwyntiau rhanddeiliaid a diddordeb ymhlith y cyfryngau yn debygol o ddylanwadu ar y gwelliannau a gyflwynir gan Aelodau anllywodraethol.

15.80 Dylid cadw mewn cof y caiff Aelod gyflwyno gwelliannau y mae'n ymddangos eu bod yn gwrth-ddweud ei gilydd – er enghraifft, un gwelliant sy'n ceisio dileu adran gyfan a gwelliant arall sy'n ceisio newid yr adran. Mae'n amlwg bod gweithredu felly yn rhoi i'r Aelod ddau gyfle (neu ragor) i ddadlau o blaid pwynt, ac yn rhoi 'safbwynt wrth gefn' os na chytunir ar ei ddewis cyntaf ar gyfer newid. Bydd angen i'r nodiadau annerch gael eu paratoi gan ystyried y ddau ganlyniad posibl (neu bob canlyniad posibl).

### Diwygio gwelliannau

15.81 Gellir cynnig gwelliannau i welliant. Er enghraifft, pan fydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant ac yna aelod o'r Wrthblaid yn cyflwyno gwelliant i welliant y Llywodraeth. Byddai'r prif welliant a'r newid arfaethedig iddo yn cael eu hystyried yn y trafodion Cyfnod 2, Cyfnod 3 neu Gyfnod Adrodd (fel y bo'n gymwys).

15.82 Gall y Llywodraeth hefyd gyflwyno gwelliant i welliannau; ond pe bai'r Llywodraeth yn dymuno newid un o'i gwelliannau ei hun, byddai'n gwneud hynny drwy dynnu'n ôl y gwelliant gwreiddiol a chyflwyno gwelliant newydd.

### Rhifo gwelliannau

15.83 Bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yn y Comisiwn) yn neilltuo rhif adnabod unigryw i bob gwelliant, a defnyddir y rhif hwnnw i gyfeirio ato bob amser. Mae'r system rifo'n adlewyrchu'r drefn y cyflwynwyd y gwelliannau ynddi.

15.84 Rhifir gwelliannau i welliannau gan ddefnyddio rhif y prif welliant a'i ddilyn gyda llythyren (gan ddechrau gydag A). Er enghraifft, os cyflwynir dau welliant i welliant 17, rhifau'r rheini fydd 17A ac 17B, yn eu trefn.

15.85 Efallai bydd Rheolwyr Biliau yn dymuno neilltuo rhif neu lythyren 'ffug' i welliannau'r Llywodraeth nad ydynt eto wedi eu cyflwyno a'u cyhoeddi, fel y gellir eu rhannu i grwpiau dros dro a'u hanfon er mwyn i nodiadau annerch gael eu drafftio (gweler y canllawiau ar grwpiau a nodiadau annerch isod). Drwy ddefnyddio cyfeirnod ffug o'r fath gellir osgoi dryswch rhyngddynt a rhifau gwelliannau go iawn, sydd yn aml yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir.

## Cyfnod 2

15.86 Hwn yw'r Cyfnod sy'n dilyn yn syth ar ôl cwblhau Cyfnod 1, ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl, gan Bwyllgor, o'r Bil ac unrhyw welliannau'r Llywodraeth ac anllywodraethol a gynigir gan Aelodau'r Cynulliad (nid gan aelodau'r Pwyllgor yn unig). Hwn yw'r Cyfnod diwygio cyntaf ar gyfer y Bil.

### 'Pwyllgor Cyfrifol'

15.87 Y 'Pwyllgor Cyfrifol' yw'r Pwyllgor a fydd yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 2; os bydd Pwyllgor Cyfrifol wedi ystyried y Bil yng Nghyfnod 1, yr un Pwyllgor fydd hwn.

15.88 Os na fu ystyriaeth gan Bwyllgor yng Nghyfnod 1, bydd y Pwyllgor Busnes yn atgyfeirio'r Bil i Bwyllgor cyfrifol at ddibenion Cyfnod 2. Fel arall, caiff y Pwyllgor Busnes atgyfeirio'r Bil i 'Bwyllgor y Cynulliad Cyfan', sef Pwyllgor sy'n cynnwys pob un o Aelodau'r Cynulliad ac a gynhelir fel arfer yn y Siambr.

15.89 Ar gyfer Bil Brys y Llywodraeth bydd Pwyllgor y Cynulliad Cyfan yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 2; Pwyllgor fydd hwn o hyd (h.y. nid Cyfarfod Llawn mohono) – gweler Pennod 16.

15.90 Dylai timau Bil sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu trafodion y Pwyllgorau (yn enwedig Rheol Sefydlog 17).

15.91 Nid yw'r Gweinidog Arweiniol ar gyfer y Bil yn aelod o'r Pwyllgor (ac eithrio pan fo'n Bwyllgor y Cynulliad Cyfan), ond bydd yn bresennol yn yr holl drafodion Cyfnod 2 ar gyfer y Bil, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor.

### Dechrau a diwedd Cyfnod 2

15.92 Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben. Yn achos Biliau'r Llywodraeth mae hyn fel arfer yn golygu bod Cyfnod 2 yn dechrau ar ddydd Mercher. Fodd bynnag, rhaid gadael bwlch o 15 diwrnod gwaith o leiaf rhwng dechrau Cyfnod 2 a dyddiad y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cyfrifol.

15.93 Y Pwyllgor Busnes sy'n pennu'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r ystyriaeth Cyfnod 2, ond ni osodir unrhyw gyfyngiad gan y Pwyllgor hwnnw ar y nifer o weithiau y caiff y Pwyllgor Cyfrifol gyfarfod yn ystod cyfnod yr ystyriaeth. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rhoi gwybod i dimau Bil ar ba ddyddiadau yn union y cynhelir y trafodion. Ni fydd unrhyw hyblygrwydd o ran presenoldeb y Gweinidog yn y trafodion, oherwydd pennir y dyddiadau hynny gan y Pwyllgor ar ddechrau'r cyfnod o ystyried y Bil gan y Pwyllgor, ac (ar gyfer Biliau'r Llywodraeth) mae'r dyddiadau'n adlewyrchu'r amserlen a gynigiwyd gan y Llywodraeth i'r Pwyllgor Busnes. Bydd Cyfnod 2 yn dod i ben pan fydd yr holl welliannau wedi cael eu hystyried.

### Cyflwyno gwelliannau

15.94 Caiff unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno gwelliannau o ddiwrnod cyntaf Cyfnod 2 (h.y. y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau Cyfnod 1).

15.95 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.59, mae'n ofynnol bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn iddynt gael eu hystyried, a hwnnw felly yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn y Cyfnod hwn. Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i gyflwyno gwelliannau ddim hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y bwriedir iddynt fod yn destun dadl. Sefydlwyd y confensiwn hwn er mwyn sicrhau bod digon o amser i'r Aelodau ystyried y gwelliannau cyn i'r ddadl arnynt gael ei chynnal, a chaniatáu iddynt gynnig gwelliannau i welliannau'r Llywodraeth o fewn y terfynau amser ar gyfer cyflwyno.

15.96 Mae'n bwysig nodi y bydd timau Bil fel arfer yn dechrau paratoi gwelliannau yn ystod Cyfnod 1, er mwyn eu cyflwyno o ddechrau Cyfnod 2 (h.y. nid yw'r timau Bil yn gweithio tuag at fodloni'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno). Gweithredir fel hyn am amryw o resymau:

a. gallai'r Llywodraeth ddymuno dangos i'r Aelodau bod ei hymrwymiadau i ddiwygio'r Bil yn cael eu cyflawni er mwyn i hynny, yn ei dro, helpu i roi sicrwydd i'r Aelodau ynghylch ymroddiad y Llywodraeth i gyflawni polisi'r Bil a/neu sicrhau bod y Bil yn gweithio;

b. gall cyflwyno'n gynnar leihau'r risg y bernir bod gwelliant y Llywodraeth yn annerbyniadwy (ac na ellir ei gyflwyno felly) oherwydd bod iddo'r un effaith gyfreithiol, neu effaith gyffelyb, â gwelliant a gyflwynwyd eisoes (gweler paragraff 15.76 uchod).

15.97 Weithiau, gallai fod yn briodol ystyried cyflwyno'r gwelliannau fesul 'tranche'. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, er mwyn sicrhau y cyflwynir y gwelliannau polisi sylweddol mor gynnar ag y bo modd (am y rhesymau uchod). Gall eu rhannu fesul 'tranche' fel hyn gynorthwyo tîm y Bil i reoli'r amser prin iawn a fydd ar gael iddo yng Nghyfnod 2. Dylid trafod y dull o gyflwyno gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, fel y gellir cynghori'r Gweinidog a phennu amserlen addas ar gyfer paratoi'r gwelliannau (gweler paragraff 15.72 uchod).

15.98 Cyflwynir gwelliannau'r Llywodraeth gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, unwaith y bydd y Cwnsler Cyffredinol wedi eu hystyried a'r Gweinidog Arweiniol a'r Prif Weinidog wedi cymeradwyo eu cyflwyno. Dylid caniatáu digon o amser i'r ystyriaeth gan y Gweinidogion cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno, ac felly mae'n fuddiol cysylltu â'r Swyddfeydd Preifat i drafod terfynau amser ar gyfer awdurdodi gan y Gweinidiogion.

### Tabl 'diben ac effaith' gwelliannau'r Llywodraeth

15.99 Bob tro y cyflwynir gwelliannau'r Llywodraeth, bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth yn ysgrifennu at bod Aelod Cynulliad i ddarparu gwybodaeth am y gwelliannau ac esbonio'u diben a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael. Mae'r templed ar gyfer y llythyr a'r tabl o wybodaeth ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, a dylid awdurdodi hwn fel rhan o'r cyngor a fydd yn gofyn am awdurdodiad gan y Gweinidog i gyflwyno'r gwelliannau. Rhaid darparu'r tabl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd angen cyfieithiad, bydd yr Uned Gyfieithu Cyffredinol yn ei drefnu.

15.100 Mae paratoi'r 'tabl diben ac effaith' yn dasg fawr, sy'n galw am fod yn fanwl gywir wrth gynrychioli union eiriad a fformat pob gwelliant (a ddangosir yn Gymraeg ac yn Saesneg), ac o ran drafftio'r testun sy'n esbonio diben y gwelliant a'i effaith. Yn y cyd-destun hwn:

a. **diben** y gwelliant yw esboniad o'r hyn y mae'r gwelliant yn ei wneud i gynnwys y Bil (er enghraifft *"Diben y gwelliant hwn yw cynnwys rhieni maeth yn y diffiniad o ofalwyr yn adran 5 y Bil"*);

b. **effaith** y gwelliant yw esboniad o'r canlyniad a fwriedir yn deillio o'r gwelliant. Dylid disgrifio hyn mewn termau polisi niwtral (er enghraifft *"Effaith y gwelliant hwn yw sicrhau bod y diffiniad o ofalwyr yn cynnwys, lle y bo'n briodol, riant maeth fel y'i penodwyd gan yr awdurdod lleol"*).

15.101 Bydd angen i Reolwyr Bil sicrhau y caniateir digon o amser i baratoi, gwirio ac awdurdodi'r tabl hwn cyn ei anfon i'w awdurdodi gan y Gweinidogion. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn awdurdodi'r tabl cyn ei anfon, ac yna bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn cadw'r fersiwn weithredol yn ôl hyd nes y bydd yn barod i'w rannu yn enw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth. Gwneir hyn oherwydd, rhwng yr awdurdodi a chyflwyno'r gwelliannau, gall Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wneud mân newidiadau technegol i'r gwelliannau (wedi iddynt drafod ffurf y gwelliant gyda'r Swyddfa Ddeddfwriaeth yn y Comisiwn). Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn sicrhau yr adlewyrchir y mân addasiadau hyn yn y fersiwn derfynol o'r tabl diben ac effaith cyn ei rannu; bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd yn sicrhau y diweddarir unrhyw rifau 'ffug' ar gyfer gwelliannau sydd yn y tabl gyda'r rhifau gwirioneddol ar gyfer y gwelliannau a neilltuwyd gan y Clercod, gan gynnwys unrhyw groesgyfeiriadau, cyn rhannu'r tabl.

15.102 Unwaith y rhennir y tabl, bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yng Nghomisiwn y Cynulliad) yn ei gyhoeddi ar y dudalen we ar gyfer y Bil. Bydd ar gael wedyn i'r cyhoedd ei weld, a gall tîm y Bil ddymuno'i ddwyn i sylw'r rhanddeiliaid sydd â diddordeb penodol mewn un neu ragor o welliannau arfaethedig y Llywodraeth.

15.103 Nid yw'n ofynnol i Aelodau baratoi tablau diben ac effaith ar gyfer eu gwelliannau ond maent yn cael eu hannog, wrth gyflwyno'u gwelliannau, i ddarparu mwy o wybodaeth am yr hyn y bwriedir i'w gwelliannau ei gyflawni. Os bydd yr wybodaeth hon ar gael, bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth yn ei chynnwys yn y Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli (gweler paragraffau 15.116 i 15.118 isod), yn hytrach na chyda'r Hysbysiad o Welliannau dyddiol, neu fel dogfen ar wahân.

### Cefnogi gwelliannau

15.104 O dan Reol Sefydlog 26.60, caiff unrhyw Aelod Cynulliad ychwanegu ei enw at welliant drwy hysbysu'r Clerc (sef, y Swyddfa Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad yn ymarferol) ar unrhyw adeg tan ddiwedd y diwrnod gwaith cyn y cyfarfod Pwyllgor yr ystyrir y gwelliant ynddo. Rhoddir enw'r Aelod wedyn ar yr Hysbysiad o Welliannau wedi'i adolygu, i ddangos ei fod yn cefnogi'r gwelliant.

15.105 Oherwydd y rheolau ynglŷn â thynnu gwelliannau yn ôl (gweler isod), prif effaith ychwanegu enw Aelod at y gwelliant yw y bydd yn rhaid gofyn am ei gydsyniad i dynnu'r gwelliant yn ôl cyn trafodion y Pwyllgor.

15.106 Y gwrthbleidiau mewn perthynas â gwelliannau'r wrthblaid sy'n dueddol o gefnogi gwelliannau fel hyn; o safbwynt timau Bil, mae hefyd yn arwydd o gefnogaeth wleidyddol i welliant, a fydd o gymorth wrth baratoi cyngor pleidleisio, llinellau annerch ac wrth baratoi cyngor i'r Gweinidog ar sut i ymdrin â'r gwelliannau.

15.107 Ar achlysuron prin iawn, gall fod yn synhwyrol i'r Gweinidog Arweiniol ychwanegu ei enw i gefnogi gwelliant. Fel a nodwyd uchod, pan gynigir gwelliant sydd â'r un effaith gyfreithiol â gwelliant a gyflwynwyd eisoes, neu effaith gyfreithiol debyg, ni fydd y gwelliant arfaethedig yn dderbyniadwy. Felly, os bydd gwelliant anllywodraethol wedi ei gyflwyno, y byddai'r Llywodraeth ei hun wedi dymuno ei gyflwyno, gallai'r Llywodraeth ddewis cefnogi'r gwelliant anllywodraethol, er mwyn osgoi bod yr Aelod a'i cyflwynodd yn ei dynnu'n ôl wedyn (ac yn enwedig ei dynnu'n ôl ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno, pan na fyddai modd i'r Llywodraeth gyflwyno'i gwelliant ei hun). Gan mai'n anaml iawn y mae sefyllfaoedd fel hyn yn codi, dylai timau Bil drafod yr opsiwn hwn gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant cyn cynghori Gweinidog a ddylid cefnogi unrhyw welliant ai peidio.

### Tynnu gwelliannau yn ôl

15.108 Ceir tynnu gwelliannau yn ôl cyn, ac yn ystod, trafodion y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r rheolau ar gyfer gwneud hyn yn amrywio, yn ôl pa un a dynnir y gwelliant yn ôl:

a. Cyn cynnal trafodion y Pwyllgor – caiff yr Aelod a gyflwynodd y gwelliant dynnu'r gwelliant hwnnw yn ôl ar unrhyw adeg cyn y diwrnod yr ystyrir y gwelliant. Pan fo Aelod arall wedi ychwanegu ei enw i gefnogi'r gwelliant hwnnw (gweler isod), ni cheir tynnu'r gwelliant yn ôl ac eithrio gyda chytundeb yr Aelod arall hwnnw (a chytundeb unrhyw Aelodau eraill sydd hefyd wedi cefnogi'r gwelliant). Os na cheir cytundeb o'r fath, bydd y gwelliant yn dod yn welliant yn enw'r Aelod a ychwanegodd ei enw gyntaf (ac nad yw'n cytuno i dynnu'r gwelliant yn ôl).

b. Yn ystod trafodion Pwyllgor – ceir tynnu gwelliant a gynigiwyd yn ôl, gan yr Aelod a'i cynigiodd, ond dim ond os nad oes Aelod arall o'r Pwyllgor hwnnw yn gwrthwynebu. Caiff Aelod hefyd ddewis peidio â chynnig ei welliant pan fydd yn cael ei alw i wneud hynny, ond, yn yr amgylchiadau hynny, gall Aelod arall o'r Pwyllgor hwnnw gynnig y gwelliant.

15.109 Mewn perthynas â gwelliannau'r Llywodraeth, bydd gwelliannau yn cael eu tynnu yn ôl:

a. cyn trafodion y Pwyllgor, gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol (drwy ysgrifennu at y Swyddfa Ddeddfwriaeth), unwaith y bydd y Gweinidog wedi cymeradwyo'n ffurfiol dynnu yn ôl y gwelliant a gyflwynwyd yn ei enw;

b. yn ystod trafodion y Pwyllgor, gan Gadeirydd y Pwyllgor, ar gais y Gweinidog.

15.110 Sylwer: os cynigiwyd diwygiad i welliant (gweler paragraff 15.87 uchod), bydd y diwygiad hwnnw yn methu os tynnir y gwelliant gwreiddiol yn ôl.

### Hysbysiad o welliannau

15.111 Ar gyfer pob diwrnod pan gyflwynir gwelliannau, bydd Swyddfa Ddeddfwriaeth Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi Hysbysiad o Welliannau, a fydd yn rhoi manylion o'r gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw. Bydd gwelliannau a gyflwynir cyn 12.30pm yn cael eu cynnwys yn yr Hysbysiad o Welliannau a gyhoeddir ar y diwrnod gwaith canlynol; bydd gwelliannau a gyflwynir ar ôl 12.30pm yn cael eu cynnwys yn yr Hysbysiad o Welliannau a gyhoeddir ar y diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod gwaith canlynol. Bydd newidiadau i welliannau unwaith y byddant wedi eu cyflwyno (er enghraifft, Aelod Cynulliad yn cefnogi'r gwelliant, neu dynnu'r gwelliant yn ôl) yn cael eu nodi ar yr Hysbysiad o Welliannau gyda seren (*). Fel arfer, pan ailgyhoeddir yr Hysbysiad o Welliannau ar gyfer diwrnod penodol, bydd rhif fersiwn yn cael ei gynnwys yn y troedyn yn yr Hysbysiad diwygiedig.

15.112 Gall timau Bil weld yr Hysbysiad o Welliannau ar y dudalen berthnasol ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad. Dylai timau Bil wirio'r dudalen we honno yn ddyddiol, er mwyn ymateb yn ddiymdroi i welliannau newydd. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i'r timau ystyried gwneud gwelliannau i welliannau anllywodraethol. Bydd angen cyflwyno is-welliannau o'r fath o fewn y terfynau amser cyflwyno arferol.

### Tabl 'pob gwelliant'

15.113 Mae'n ofynnol bod timau Bil yn paratoi tabl 'pob gwelliant' i'r Gweinidog, fel rhan o'r cyngor ar gyfer trafodion y Pwyllgor. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn darparu templed ar gyfer hyn. Mae'r ddogfen hon yn rhestru'r holl welliannau a gyflwynwyd, yn y drefn y'u cyflwynwyd, ac yn rhoi esboniad cryno o'r hyn y mae pob gwelliant yn ceisio'i wneud. Bydd y tabl hwn yn sicrhau bod gan y Gweinidog gyngor ar bob gwelliant.

15.114 Bydd y tabl diben ac effaith yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer y timau Bil er mwyn esbonio pob gwelliant y llywodraeth. Fodd bynnag, nid oes angen i destun yr esboniad ar gyfer pob gwelliant yn y tabl 'pob gwelliant' ddilyn yr un drefn â'r tabl diben ac effaith (h.y. diben, ac wedyn effaith); llinell neu ddwy syml i esbonio'r gwelliant yw'r cyfan sydd ei angen fel arfer.

### Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli

15.115 Bydd rhifau'r gwelliannau yn adlewyrchu'r drefn y'u cyflwynwyd ynddi. Mae rhestr o welliannau wedi'u didoli yn dangos yr holl welliannau yn y drefn yr ystyrir hwy gan y Pwyllgor, ac y pleidleisir arnynt, sef yn y drefn y byddant yn cael effaith ar y Bil fel arfer. Yn y rhestr o welliannau wedi'u didoli bydd pob gwelliant yn cadw ei rif adnabod unigryw (a neilltuwyd iddo pan gafodd ei gyflwyno).

15.116 Pleidleisir fel arfer yn nhrefn y rhestr welliannau wedi'u didoli ac nid yn nhrefn cyflwyno'r gwelliannau.

15.117 Bydd y rhestr o welliannau wedi'u didoli yn cael ei llunio a'i chyhoeddi gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yn y Cynulliad). Mae'n bosibl y paratoir ac y cyhoeddir amrywiol fersiynau o'r rhestr (wrth i welliannau gael eu cyflwyno), ond fel arfer bydd y rhestr derfynol ar gael dri neu bedwar diwrnod cyn i'r Pwyllgor gyfarfod. Gall timau Bil ddod o hyd i'r rhestr o welliannau wedi'u didoli ar y dudalen ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad.

### Trefn yr ystyriaeth

15.118 O dan Reol Sefydlog 26.21 "*Mae'r gwelliannau i'w gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 wedi penderfynu fel arall.*" Mae'n agored felly i'r Pwyllgor benderfynu ar drefn yr ystyriaeth; gallant ddewis trafod adrannau ac atodlenni mewn trefn wahanol i'r drefn sydd yn y Bil, er enghraifft fel bod Atodlen yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r adran sy'n ei chyflwyno, neu fel bod gwelliannau i ddarpariaethau o sylwedd yn cael eu hystyried cyn unrhyw welliannau cysylltiedig mewn adrannau sy'n darparu trosolwg ar gynnwys Bil.

### Grwpio

15.119 Bydd gwelliannau yn cael eu grwpio ar gyfer eu trafod os byddant i gyd yn ymwneud â'r un maes pwnc mewn dadl. 'Grwpio' felly yw'r term cyffredin am ymdrin â grŵp o welliannau cysylltiedig gyda'i gilydd ar gyfer dadl. Gall grŵp gynnwys gwelliannau'r Llywodraeth yn ogystal â gwelliannau anllywodraethol.

15.120 Cadeirydd y Pwyllgor sydd â'r hawl i benderfynu'n derfynol ar y grwpiau.

15.121 Cyhoeddir y grwpiau terfynol dri diwrnod gwaith cyn i'r Pwyllgor gyfarfod.

15.122 Rhestrir y gwelliannau ym mhob grŵp yn y drefn y cânt eu hystyried, ac nid yn nhrefn eu rhifau. Bydd trefn yr ystyriaeth o'r gwelliannau yn y Grŵp yn dilyn y rhestr o welliannau wedi'u didoli; bydd trefn yr ystyriaeth o'r grwpiau hefyd yn dilyn y rhestr o welliannau wedi'u didoli.

### Derbyn gwelliannau anllywodraethol

15.123 Rhaid i'r swyddogion ddarparu cyngor i'r Gweinidog mewn perthynas â gwelliannau anllywodraethol. Dylai'r cyngor hwnnw gymryd i ystyriaeth drefn y rhestr o welliannau wedi'u didoli, y grwpiau ac unrhyw welliannau 'sy'n achub y blaen' (gweler paragraffau 15.151 i 15.153).

15.124 Bydd angen cynnwys Gwasanaethau Cyfreithiol mewn unrhyw drafodaethau i ystyried a ddylai'r Gweinidog dderbyn gwelliant anllywodraethol.

### Nodiadau annerch

15.125 Mae'r Rheolau Sefydlog yn cyfeirio at y Cyfnod hwn fel 'ystyriaeth fanwl y Pwyllgor', a gellid dehongli hynny fel ystyriaeth fanwl o bob llinell o'r Bil. Ond mewn gwirionedd, y gwelliannau sy'n cael eu hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor. Oherwydd hynny, rhaid i dimau Bil sicrhau bod y nodiadau annerch a'r wybodaeth gefndirol sydd ar gael i'r Gweinidog yn gynhwysfawr mewn perthynas â'r holl welliannau, ac nid y rheini a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn unig. Bydd rhaid iddynt gynnwys pob gwelliant, unrhyw adrannau newydd ac unrhyw atodlenni newydd, gan y bydd popeth a gyflwynir yn y Cyfnod hwn yn destun dadl yn y Pwyllgor.

15.126 Rhoddir canllawiau ar baratoi nodiadau annerch ar gyfer y Cyfnodau diwygio, gan gynnwys Cyfnod 2, ym mharagraffau 15.139 i 15.155 isod.

### Trafodion y Pwyllgor, gan gynnwys presenoldeb a phleidleisio

15.127 Nid yw'r Gweinidog yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifol[29], ac felly ni chaiff gyflwyno'r gwelliannau a wneir yn ei enw, nac ychwaith bleidleisio ar welliannau.

15.128 Caiff swyddogion fod yn bresennol yn y Pwyllgor i gynorthwyo'r Gweinidog. Yn wahanol i Gyfnod 1, fodd bynnag, ni chaiff swyddogion

[29] Oni chynhelir trafodion Cyfnod 2 gerbron Pwyllgor y Cynulliad Cyfan.

annerch y Pwyllgor ac ni chânt gyfarch Aelodau. Mae eistedd wrth y Bwrdd gyda'r Gweinidog fel arfer yn dderbyniol gan y Pwyllgor, ond nid yw hynny'n rhoi hawl i annerch. Ychydig iawn o le sydd ar gael wrth y Bwrdd (e.e. dau swyddog yn unig yw'r nifer disgwyliedig, ond ar ambell achlysur yn y gorffennol mae mwy o swyddogion wedi gallu eistedd y tu ôl i'r Gweinidog). Gan gadw hyn mewn cof, bydd angen i dîm y Bil ystyried yn ofalus sut yr eir ati i gefnogi'r Gweinidog.

15.129 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd ymlaen i ymdrin â'r gwelliannau a grwpiwyd, drwy ofyn i'r Aelod sydd â'r gwelliant arweiniol mewn Grŵp gynnig y gwelliant hwnnw a, thrwy hynny, agor y ddadl. Bydd y ddadl yn cynnwys yr holl welliannau yn Grŵp hwnnw.

15.130 Bydd pleidleisio'n digwydd ar ddiwedd y drafodaeth ar bob grŵp. Fel a nodwyd uchod, bydd pleidleisio yn digwydd yn nhrefn y rhestr o welliannau wedi'u didoli, ac felly ni fydd pleidlais wedi'i chynnal ar bob un o'r welliannau erbyn diwedd y drafodaeth ar y grŵp. Y rheswm am hyn yw y gall rhai gwelliannau mewn Grŵp ymddangos wedi hyn ar y Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli (h.y. ar ôl dechrau'r Grŵp nesaf neu Grŵp dilynol). Yn y Cyfnod hwn, mae gwelliant:

a. wedi ei gytuno, os yw mwyafrif yr aelodau'n pleidleisio o blaid y gwelliant. Golyga hyn y bydd y Bil yn newid;

b. heb ei gytuno, os nad yw mwyafrif yr aelodau sy'n pleidleisio o blaid y gwelliant, neu pan fo niferoedd y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yn gyfartal. Pan fo'r niferoedd y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yn gyfartal, mae Cadeirydd y Pwyllgor o dan rwymedigaeth i fwrw ei bleidlais yn erbyn y gwelliant (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)).

15.131 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn paratoi nodyn canllaw 'Trefn Debygol y Trafodion' ar gyfer y Gweinidog a'r swyddogion a fydd yn bresennol – bydd hwn yn esbonio pa bryd y cynigir y gwelliannau, ac y pleidleisir arnynt, a bydd hefyd yn ymdrin â'r drefn annerch ac effaith 'achub y blaen' (gweler paragraffau 15.151 i 15.153 isod).

15.132 Ceir cynnal trafodion mewn Pwyllgor dros fwy nag un cyfarfod.

15.133 Ar ôl pob cyfarfod Pwyllgor, paratoir cofnod o'r cyfarfod. Bydd angen i dîm y Bil ddarllen y fersiwn ddrafft o'r cofnod ar ran y Gweinidogion,a nodi unrhyw wallau. Cyfeirier hefyd at y cyngor a roddir ym mharagraff 15.36.

15.134 Ar ddiwedd ystyriaeth y Pwyllgor, efallai y bydd y Gweinidog yn dymuno anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, yn crynhoi'r ymrwymiadau a wnaed, a/neu egluro unrhyw bwyntiau ymhellach. Nid yw hyn yn rhan ofynnol o'r broses, ond gall y timau Bil ystyried

cynghori'r Gweinidog ynglŷn â'r opsiwn hwn os rhoddwyd nifer o ymrwymiadau.

15.135 Dylai tîm y Bil gadw rhestr o'r ymrwymiadau a wneir gan y Gweinidog yn y Pwyllgor, a dylid gweithredu ar unwaith ar y pwyntiau sy'n codi: er enghraifft gellir gofyn i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ddrafftio gwelliannau angenrheidiol; neu ofyn i swyddogion ddrafftio llythyrau i'r Gweinidog eu hanfon at Aelodau unigol, yr anfonir copïau ohonynt fel arfer at y Cadeirydd ac Aelodau eraill o'r Pwyllgor.

### Cytuno ar adrannau

15.136 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.24, pan gyflwynir unrhyw welliant i adran neu atodlen o'r Bil, ar ôl gwaredu'r gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno, ystyrir bod yr adran neu'r atodlen honno wedi ei chytuno.

15.137 Yn yr un modd, mae Rheol Sefydlog 26.25 yn gwneud yn eglur, pan na chyflwynir gwelliant i adran neu atodlen, yr ystyrir bod yr adran neu'r atodlen honno wedi cael ei chytuno gan y Pwyllgor pan fydd yr adran neu'r atodlen honno wedi'i chyrraedd yn nhrefn yr ystyriaeth.

## Paratoi Nodiadau Annerch ar gyfer y Cyfnodau diwygio

### Dull o baratoi

15.138 Argymhellir cysylltu yn aml â'r Gweinidog a'r cynghorwr arbennig, er mwyn dod i gytundeb ar y trywydd i'w ddilyn mewn perthynas â phob gwelliant. Gan fod amser yn aml mor brin yn y Cyfnod hwn, mae sicrhau bod dealltwriaeth dda gan y Gweinidog ynghylch beth sydd angen a beth nad oes angen iddo eu hawdurdodi yn werthfawr. Trwy drefnu rhag-gyfarfodydd gyda'r Gweinidog yn yr wythnos cyn trafodion y Pwyllgor neu Gyfarfod Llawn, gellir hwyluso a chyflymu'r gwaith.

15.139 Ceir cyflwyno llawer iawn o welliannau yn ystod pob Cyfnod diwygio. Felly, mae'n hanfodol cael system dda i gadw ar drywydd pob gwelliant, yn enwedig o gofio na fydd union rif y gwelliant yn hysbys pan fydd Swyddfa Ddeddfwriaeth y Cynulliad wedi prosesu'r gwelliannau ac wedi cyhoeddi'r Hysbysiad (dyddiol) o Welliannau. Gall hyn gymhlethu'r gwaith o gadw trefn ar y gwelliannau a'r grwpiau sy'n esblygu, a drafftio nodiadau annerch.

15.140 Gall y timau Bil ddewis defnyddio taenlen i gofnodi gwelliannau wrth iddynt gael eu cyflwyno, a sicrhau bod modd gwirio bod nodiadau annerch paratoadol wedi eu drafftio ar gyfer pob gwelliant. Mae taenlen yn golygu bod modd didoli gwelliannau yn grwpiau, a neilltuo'r grwpiau hynny i swyddog ar gyfer drafftio. Mae hefyd yn galluogi rheolwyr Bil i roi rhif neu lythyren 'ffug' i'r gwelliannau sydd heb ymddangos eto ar yr Hysbysiad o Welliannau, fel y gellir eu rhannu yn grwpiau dros dro a'u

hanfon allan ar gyfer drafftio nodiadau annerch. Pan fydd y rhestr o welliannau wedi'u didoli yn cyrraedd, dylai tîm y Bil groeswirio'n ofalus, gan newid unrhyw rifau/llythrennau 'ffug' a ddefnyddiwyd mewn nodiadau annerch ac edrych eto ar y grwpiau.

15.141 Rheoli'r gwaith o ddrafftio nodiadau annerch ar gyfer gwelliannau yw un o gyfrifoldebau mwyaf heriol tîm y Bil. 'Nodyn annerch ar y Grŵp' – sef y ddogfen a fydd yn darparu y trywydd i'w ddilyn ar gyfer y Gweinidog mewn perthynas â grŵp o welliannau – fydd ffrwyth llafur y gwaith hwn, a bydd 'nodyn annerch' yn cael ei baratoi ar gyfer pob grŵp.

### Cynnwys y nodyn annerch ar bob grŵp

15.142 Mae gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant dempled safonol ar gyfer drafftio nodiadau annerch ar gyfer y grwpiau, sy'n defnyddio fformat a y mae'r Gweinidogion a'r swyddogion yn ei ddeall. Yn ogystal â'r agweddau fformatio a dylunio, yr elfennau pwysig yw:

a. Crynodeb o'r Grŵp – ar ddalen flaen pob nodyn annerch mae crynodeb byr o'r hyn y mae'r Grŵp o welliannau'n ei gynnwys. Mae hyn yn galluogi'r Gweinidog i ymgyfarwyddo'n gyflym â chynnwys y Grŵp, a'r agweddau allweddol y dylid eu cyfleu os na ddefnyddir y nodyn annerch yn llawn;

b. Trywyddau i'w dilyn – Dylai'r trywyddau roi sylw i'r gwelliannau allweddol o fewn y Grŵp, a darparu rhesymau cymhellol dros dderbyn/gwrthod y gwelliannau. Pan fo gwelliannau yn ganlyniadol i welliannau eraill, mae'n dderbyniol cyfeirio atynt fel rhai canlyniadol (er hynny, gall y Pwyllgor ddymuno cael manylion am y gwelliannau canlyniadol);

c. Cwestiynau ac Atebion Atodol – yn ystod dadl ar Grŵp o welliannau gellir gofyn cwestiynau i'r Gweinidog y bydd angen eu hateb yn y ddadl ar y Grŵp hwnnw. Felly, dylid ystyried y cwestiynau posibl ac unrhyw drywydd i'w ddilyn arall, a'u cynnwys yn y nodyn annerch.

15.143 Dylai sylwedd y nodiadau ar welliannau fod yn ffrwyth meddwl gofalus. Yn achos gwelliannau'r Llywodraeth, dylai hon fod yn dasg gymharol hawdd; ond gyda gwelliannau anllywodraethol, nid oes modd deall bob amser beth yn union y mae'r aelod yn ceisio ei gyflawni, na pham. Ar gyfer y rhan fwyaf o welliannau, byddai strwythur y nodyn fel a ganlyn:

a. Mae'r gwelliant hwn... [ac yna crynhoi'r hyn y mae'n ei ddweud];
b. Effaith ymarferol y gwelliant fyddai… [ac yna egluro'r canlyniadau];
c. Bernir mai'r bwriad yw... [ac yna dyfalu beth fyddai'r bwriad ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, gan nodi ar ba sail, e.e. trafodaethau yn ystod Cyfnod 1].

15.144 Ar ôl dadansoddi'r gwelliant fel hyn, dylid nodi'r trywydd neu'r trywyddau rhesymu a argymhellir.

15.145 Cofier, erbyn Cyfnod 2, bydd y Pwyllgor yn dra chyfarwydd â manylion y Bil ac â safbwyntiau'r rhanddeiliaid arno, ar ôl gweithio ar y Bil yng Nghyfnod 1. Fel arfer, bydd yr Aelodau i gyd yn awyddus i weld y Bil yn cael ei wella yn sgil gwaith craffu'r Pwyllgor. Bydd y Gweinidog yn dymuno ymateb yn unol â hyn.

15.146 Cofiwch ddarparu dadansoddiad ffeithiol llawn, a rhoi cymaint o fanylion â phosibl wrth nodi'r rhesymau pam y dylid gwrthwynebu gwelliant. Yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil a Chod y Gweinidogion, ni ddylai gweision sifil baratoi unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth plaid yn rhan o'r pecyn gwybodaeth, ond gall cynghorwyr arbennig ddarparu deunydd o'r fath ar gyfer ei gynnwys. Yn yr un modd, ni ddylai trywyddau awgrymu bod y Gweinidog yn ymrwymo i ailedrych ar fater oni chaiff y polisi ei ailystyried mewn gwirionedd, ac y caiff y pwyntiau ynghylch gwelliannau anllywodraethol a nodir ym mharagraffau 15.124 i 15.125 hefyd eu hystyried.

15.147 Pan fydd amryw o welliannau yn ganlyniadol i welliant o sylwedd a gyflwynwyd yn gynharach ac yn debygol o gael eu hystyried i gyd ar y cyd fel grŵp, gellir eu cynnwys i gyd yn yr un nodyn. Os gwneir hyn, rhaid gwneud yn eglur bod y nodyn yn cwmpasu nifer o welliannau.

### Trefn annerch

15.148 Os mai'r Gweinidog sydd â'r gwelliant arweiniol yn y Grŵp (y gwelliant hwnnw, fel arfer, yw'r gwelliant cyntaf) caiff ei wahodd i siarad yn gyntaf. Gwahoddir yr aelodau i siarad wedyn, ac yna bydd y Gweinidog yn dwyn y trafodaethau i ben. Os Aelod ac eithrio'r Gweinidog sydd â'r gwelliant arweiniol, y Gweinidog fydd y siaradwr olaf ond un ar gyfer y Grŵp.

15.149 Rhaid i nodiadau annerch adlewyrchu'r drefn annerch:

a. pan fo'r Gweinidog yn agor ac yn cloi'r grŵp, bydd angen araith agoriadol a chloi;

b. pan fo'r Gweinidog yn ymateb, cyn i'r Aelod sydd â'r gwelliant arweiniol gloi, araith i ymateb yn unig fydd ei hangen.

Beth bynnag y bo'r drefn annerch, mae'n bwysig bod y Gweinidog yn ymdrin â phob gwelliant yn y Grŵp (nid gwelliannau'r Llywodraeth yn unig).

## Effaith achosion o 'achub y blaen'

15.150 Fel nodwyd uchod, mae gwelliant yn annerbyniol *"…os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y Cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig."* (Rheol Sefydlog 26.61(iv)). Bwriad y maen prawf hwn yw sicrhau na chaiff penderfyniadau a wneir ynghylch un gwelliant eu gwrthdroi i bob pwrpas gan welliant dilynol yn yr un Cyfnod.

15.151 Mae'n bosibl, felly, y gallai gwelliant, a oedd yn dderbyniadwy ar yr adeg y'i cyflwynwyd, ddod yn anghyson â phenderfyniad a wnaed ar welliant blaenorol, h.y. yn ystod y trafodion yn y Pwyllgor neu'r Cyfarfod Llawn, fel y bo'n berthnasol. Mewn achosion o'r fath, byddai'r gwelliant blaenorol yn achub y blaen ar y gwelliant dilynol, ac ni fyddai'r gwelliant dilynol yn cael ei alw i gael penderfyniad yn ei gylch (h.y. pe bai eisoes wedi bod yn destun dadl, ni fyddai pleidlais yn cael ei chynnal arno; neu byddai'n methu hyd yn oed heb ei drafod o gwbl).

15.152 Bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yng Nghomisiwn y Cynulliad) yn nodi unrhyw achosion o achub y blaen ac yn hysbysu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant wedyn yn hysbysu tîm y Bil ac yn rhoi gwybod iddynt a allai achosion o achub y blaen olygu y bydd yn ofynnol paratoi mwy nag un fersiwn o nodyn annerch ar gyfer grŵp o welliannau. Oherwydd mai dim ond yn ystod y trafodion eu hunain y bydd gwelliannau yn dod yn annerbyniadwy, yn yr amgylchiadau hyn, ni cheir cyfle fel arfer i ailysgrifennu'r nodiadau annerch yn ystod y gweithrediadau hynny[30]. Felly, rhag i'r Gweinidog gyfeirio at welliannau a fydd wedi dod yn annerbyniadwy yn ystod y trafodion, bydd angen cadw nodiadau annerch eraill wrth gefn, i'w defnyddio os bydd gofyn.

## Awdurdodi nodiadau annerch

15.153 Bydd angen i nodiadau annerch gael eu hystyried a'u hawdurdodi gan y swyddog sy'n llunio'r cyfarwyddiadau ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, a dylid caniatáu digon o amser i Reolwyr y Bil ymateb i'w sylwadau cyn llunio'r fersiwn derfynol o'r nodiadau, a lofnodir gan y Prif Berchennog Cyfrifol. Gall fod o gymorth os bydd y timau yn rhannu lleoliad gwaith wrth i'r nodiadau annerch gael eu paratoi – er enghraifft, efallai y bydd cydweithwyr o Gwasanaethau Cyfreithiol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn dewis ymuno â'r swyddogion polisi ar y diwrnodau pan gytunir ar y nodiadau annerch terfynol.

15.154 Dylid anfon y nodiadau annerch at y Gweinidog mewn da bryd fel y bydd digon o amser i'r Gweinidog eu hystyried cyn y trafodion, ac er

[30] Yr eithriad, wrth gwrs, yw pan gynhelir y trafodion dros fwy nag un cyfarfod a bydd yr achosion o achub y blaen yn effeithio ar welliannau yr ymdrinnir â hwy mewn ail gyfarfod neu gyfarfod dilynol.

mwyn gallu gwneud unrhyw newidiadau y bydd y Gweinidog yn eu dymuno.

## Diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2

15.155 Os caiff y Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 2 rhaid i'r Aelod Cyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni fydd y Pwyllgor Cyfrifol yn penderfynu nad oes angen Memorandwm diwygiedig (gweler Rheol Sefydlog 26.27 a pharagraffau 8.64 - 8.73 ym Mhennod 8).

15.156 Bydd angen i Reolwr y Bil sicrhau y paratoir y Memorandwm Esboniadol diwygiedig ac y bydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd angen cyfieithiad, mae'r Uned Gyfieithu Cyffredinol wedi gofyn am fersiwn o'r Memorandwm Esboniadol i weithio arni a fydd yn cynnwys y newidiadau wedi eu marcio. Bydd angen i'r newidiadau gael eu hawdurdodi gan Gwasanaethau Cyfreithiol, Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ac eraill fel y bo angen (er enghraifft economegwyr Llywodraeth Cymru a Chyllidebu Strategol os newidiwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol). At hynny, bydd rhaid i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol awdurdodi unrhyw newidiadau i'r Nodiadau Esboniadol. Rhaid wedyn anfon y Memorandwm Esboniadol diwygiedig i gael ei awdurdodi gan y Gweinidog a'r Prif Weinidog cyn ei osod.

15.157 Os yw'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a osodir gerbron y Cynulliad yn cynnwys newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil, a'r Pwyllgor Cyllid, gan nodi'r newidiadau a wnaed. Lle bo hyn yn berthnasol, dylid darparu llythyrau drafft i'r Gweinidog eu cytuno fel rhan o'r broses awdurdodi ar gyfer gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

15.158 Rhaid gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y bydd yn cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 3 (gweler Rheol Sefydlog 26.28).

15.159 Yn ogystal â diwygio'r Memorandwm Esboniadol, dylid hefyd adolygu'r asesiad o effaith y polisi yng ngoleuni'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, ac ystyried cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig, neu gyhoeddi'r asesiad lle na dybiwyd cyn hynny fod angen gwneud hynny.

## Paratoi Bil diwygiedig ar ôl Cyfnod 2

15.160 Bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yng Nghomisiwn y Cynulliad) yn paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Bil a fydd yn cynnwys yr holl welliannau y cytunwyd arnynt. Bydd y Swyddfa'n darparu copi o'r Bil diwygiedig i

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfer ei wirio, ac yna yn ei gyhoeddi ar y dudalen ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad. Nid oes unrhyw gamau gweithredu'n codi mewn perthynas â hyn ar gyfer tîm y Bil (ac eithrio Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol).

## Cyfnod 3

15.161 Mae'r Cyfnod hwn yn dilyn yn union ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben ac yn cynnwys ystyriaeth fanwl, yn y Cyfarfod Llawn, o'r Bil a'r gwelliannau a gynigir gan Aelodau'r Cynulliad a'u dewis gan y Llywydd. Hwn yw'r Cyfnod diwygio olaf ar gyfer y Bil fel arfer.

### Dechrau a diwedd Cyfnod 3

15.162 Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben. Fodd bynnag, rhaid gadael bwlch o 15 diwrnod gwaith o leiaf rhwng dechrau Cyfnod 3 a dyddiad yr ystyriaeth gyntaf o'r Bil yn y Cyfarfod Llawn.

15.163 Yn achos Biliau'r Llywodraeth mater i'r Llywodraeth ydy amserlennu ar gyfer ystyriaeth yn y Cyfarfod Llawn (yn hytrach na mater i'r Pwyllgor Busnes). Bydd angen rhoi Hysbysiad o'r ystyriaeth yn y Cyfarfod Llawn, yn y ffordd arferol o roi hysbysiad ynghylch busnes. Bydd Cyfnod 3 yn dod i ben pan fydd yr holl welliannau wedi cael eu hystyried.

### Ystyriaethau wrth baratoi gwelliannau

15.164 Gan ei bod yn debygol mai Cyfnod 3 fydd y Cyfnod diwygio olaf cyn pasio'r Bil, mae'n bwysig bod tîm y Bil yn asesu pa welliannau'r Llywodraeth (os o gwbl) sydd eu hangen ar gyfer Cyfnod 3, pa mor ddadleuol y bu'r Bil, a pha welliannau anllywodraethol sy'n debygol. Dylid cynnwys Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant mewn trafodaeth ar faterion o'r fath.

15.165 Bydd rhan o'r drafodaeth honno yn cael ei neilltuo ar gyfer ystyried a oes digon o amser wedi ei ganiatáu ar gyfer yr hyn sy'n weddill o hynt y Bil drwy'r Cynulliad, a pha mor debygol ydyw y bydd angen cynnal trafodion Cyfnod 3 pellach neu Gyfnod Adrodd (gweler isod). Un ffactor allweddol i'w ystyried wrth benderfynu fydd faint o welliannau'r Llywodraeth sydd yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd angen derbyn gwelliannau anllywodraethol y gallai fod angen eu diwygio ymhellach er mwyn sicrhau bod y Bil yn effeithiol. Gellir gofyn am estyn yr amser a neilltuwyd ar gyfer y ddadl Cyfnod 3 os ystyrir y bydd angen mwy nag un cyfarfod ar gyfer cynnal trafodion Cyfnod 3, a gellid hefyd adolygu'r amserlen gyffredinol ar gyfer yr ystyriaeth. Bydd hynny yn galw am drafodaeth rhwng y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth

ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, ar ôl ymgynghori â swyddogion y Cynulliad.

15.166 Mae angen ystyried yn ofalus a yw gwelliannau a gynigir yn y Cyfnod hwn yn codi'r mater o gael cydsyniad (Cydsyniad Gweinidog y Goron neu Gydsyniad y Frenhines/Dug Cernyw) oherwydd ni ellir pasio'r Bil os na fydd cydsyniadau o'r fath wedi eu sicrhau. Dylid cynnwys Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant mewn trafodaethau lle y gallai hyn godi.

15.167 Yn yr un modd, os na wnaed Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil hwn (oherwydd na fu'n ofynnol hyd yma), ni all unrhyw welliannau a fyddai'n golygu bod rhaid cael Penderfyniad Ariannol fynd yn eu blaen, hyd nes bydd cynnig am y Penderfyniad Ariannol wedi ei basio. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ddarparu cyngor pellach i dimau Bil ar y goblygiadau o ran proses ac amserlen, os bydd sefyllfa o'r fath yn codi.

### Cyflwyno gwelliannau

15.168 Gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau, o ddiwrnod cyntaf Cyfnod 3 ymlaen (h.y. o'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau Cyfnod 2). Yn ymarferol, fodd bynnag, mae gwelliannau yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno pan fo'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 ar gael (sef o fewn 48 awr i gwblhau Cyfnod 2 fel arfer).

15.169 Fel yng Nghyfnod 2, mae'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog bod unrhyw welliannau yn cael eu cyflwyno ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn iddynt gael eu hystyried, er bod y Llywodraeth wedi cytuno i gyflwyno gwelliannau ddim hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y dyddiad y trefnwyd iddynt fod yn destun dadl. Cyflwynir gwelliannau'r Llywodraeth gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, unwaith y ceir cymeradwyaeth i'w cyflwyno gan y Cwnsler Cyffredinol, y Gweinidog Arweiniol a'r Prif Weinidog. Tîm y Bil sy'n ceisio'r awdurdodiad hwn. Dylid caniatáu digon o amser i'r Gweinidogion ystyried y gwelliannau cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno.

15.170 Pan fydd gwelliannau'r Llywodraeth wedi eu cyflwyno, bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth yn ysgrifennu eto at bob Aelod Cynulliad i ddarparu gwybodaeth am y gwelliannau, eu diben a'u heffaith arfaethedig. Rhoddir canllawiau ar baratoi'r wybodaeth hon ym mharagraffau 15.100 i 15.102 uchod.

15.171 Mewn amgylchiadau eithriadol yng Nghyfnod 3, gall y Llywydd dderbyn gwelliant ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno (nid yw hyn yn wir yng Nghyfnod 2). Gelwir gwelliant o'r fath yn 'welliant hwyr'. Mater i'r Llywydd yw penderfynu a yw'r rhesymau dros geisio gwelliant hwyr gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol. Os bydd yn ymddangos yn bosibl

y gallai fod angen i’r Llywodraeth gyflwyno gwelliant hwyr, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn trafod hyn gyda Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a swyddogion y Cynulliad. Rhoddir canllawiau isod ar ‘drafodion Cyfnod 3 pellach’ (a allai gynnig dewis arall yn hytrach na cheisio cyflwyno gwelliant hwyr).

### Trefniadau ar gyfer Cyfnod 3

15.172 Mewn perthynas â –

a. cefnogi gwelliannau;
b. tynnu gwelliannau yn ôl;
c. hysbysiad ynghylch gwelliannau;
d. tabl ‘pob gwelliant’;
e. rhestr o welliannau wedi’u didoli;
f. grwpio;
g. cyngor pleidleisio,

mae’r canllawiau a roddir uchod mewn perthynas â Chyfnod 2 yn gymwys hefyd i Gyfnod 3 (os bydd unrhyw gyfeiriad at ‘y Pwyllgor’ yn cael ei newid yn gyfeiriad at ‘y Cyfarfod Llawn’).

15.173 Yn yr un modd, mewn perthynas â chytuno ar adrannau, mae’r canllawiau uchod hefyd yn gymwys i Gyfnod 3, ond dylid darllen y cyfeiriadau at Reolau Sefydlog fel 26.42 a 26.43, yn eu trefn.

15.174 Fel Cyfnod 2, mae'n agored i'r Cynulliad bennu trefn ystyried y gwelliannau yng Nghyfnod 3. Fodd bynnag, yng Nghyfnod 3, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Fusnes y Llywodraeth (ar gyfer Biliau'r Llywodraeth) neu'r Pwyllgor Busnes (ar gyfer Biliau Anllywodraethol) sy'n cyflwyno cynnig ynghylch y drefn. Byddai cynnig o'r fath fel rheol yn cael ei gytuno cyn cyfarfod cyntaf y Cynulliad lle bydd y gwelliannau'n cael eu hystyried, er mwyn i'r rhestr wedi'i gosod mewn trefn adlewyrchu'r drefn newydd. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn arwain y trefniadau ar gyfer y cynnig hwn.

15.175 Yng Nghyfnod 3 gall y Llywydd ddewis y gwelliannau sydd i'w hystyried, (dan Reol Sefydlog 26.36) ond ni fabwysiedir y drefn honno fel arfer.

### Derbyn gwelliannau anllywodraethol

15.176 Gan ei bod yn debygol mai hwn fydd y Cyfnod diwygio olaf ar gyfer y Bil, bydd angen rhoi sylw gofalus i welliannau anllywodraethol cyn gynted ag sy’n bosibl. Mae’n hanfodol ceisio cyngor gan Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a yw’r geiriad mewn ffurf briodol; os nad yw, efallai y bydd angen ystyried trafodion Cyfnod 3 pellach. Yn yr un modd, yr unig gyfle a gaiff y Gweinidog i ‘ddod yn ôl at y mater yn

ystod Cyfnod diweddarach' (h.y. pan fo polisi'r gwelliant yn un yr hoffai'r Gweinidog ei dderbyn, ond bod angen ystyried y gwaith drafftio ymhellach) fydd yn ystod Cyfnod diwygio pellach neu newydd. Bydd goblygiadau i'r amserlen ar gyfer yr ystyriaeth gan y Cynulliad waeth pa opsiwn a ddewisir; mae cyngor ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

### Nodiadau annerch

15.177 Fel yng Nghyfnod 2, er bod y Rheolau Sefydlog yn cyfeirio at y Cyfnod hwn fel 'ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad', mewn gwirionedd y gwelliannau i'r Bil yn unig a ystyrir yn fanwl gan yr Aelodau. Mae angen i'r timau Bil, felly, sicrhau bod nodiadau annerch a phecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gael i'r Gweinidog ar bob un o'r gwelliannau, nid y gwelliannau a gyflwynir gan y Llywodraeth yn unig.

15.178 Mae'r cyngor a roddir uchod mewn perthynas â Nodiadau Annerch hefyd yn gymwys i Gyfnod 3. Gan fod amryw o'r gwelliannau anllywodraethol a gyflwynir yng Nghyfnod 2 (ond nas derbynnir) yn aml yn cael eu cyflwyno drachefn yng Nghyfnod 3, dylid diweddaru'r nodiadau annerch i adlewyrchu'r ddadl yng Nghyfnod 2, gan gynnwys y gwrth-ddadleuon. Gallai fod angen hefyd ddarparu mwy o fanylion, gan y bydd y Gweinidog yn annerch pob Aelod, ac nid dim ond yr Aelodau hynny a oedd yn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor.

15.179 Unwaith eto, argymhellir y dylid cysylltu'n aml â'r Gweinidog a'r cynghorwr arbennig, er mwyn dod i gytundeb ar y trywydd i'w ddilyn mewn perthynas â phob gwelliant. Gan ei bod yn debygol mai hwn fydd y Cyfnod diwygio olaf, mae'n eithriadol o bwysig i beidio â chrybwyll ymrwymiad i "ddod yn ôl at hyn mewn Cyfnod diweddarach" oni fydd Cyfnod Adrodd yn cael ei gynnig.

### Trafodion y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys cefnogaeth i'r Gweinidog

15.180 Yn wahanol i Gyfnod 2, gall y Gweinidog gynnig gwelliannau a phleidleisio arnynt yng Nghyfnod 3.

15.181 Ni all swyddogion fod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn, ond efallai y gallant gynorthwyo'r Gweinidog drwy e-bost. Rhaid gwneud trefniadau i'r swyddogion wylio trafodion y Cyfarfod Llawn, a darparu cyngor i'r Gweinidog (fel y bo angen), drwy e-bost neu fel sydd orau gan y Gweinidog. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn paratoi nodyn canllaw 'Trefn Debygol y Trafodion' ar gyfer y Gweinidog, i esbonio pa bryd y cynigir y gwelliannau, ac y dadleuir a phleidleisir arnynt, a bydd y nodyn hwn hefyd yn ymdrin â'r drefn annerch ac effaith achosion o achub y blaen (gweler paragraffau 15.149 i 15.153 uchod).

15.182 Bydd y Llywydd yn mynd ymlaen trwy’r grwpiau o welliannau, a bydd y pleidleisio’n digwydd ar ddiwedd trafodaeth ar grŵp. Fel yng Nghyfnod 2, pleidleisir yn nhrefn y Rhestr o Welliannau Wedi’u Didoli, ac felly ni fydd yr aelodau yn pleidleisio ar bob gwelliant ar ddiwedd trafodaeth grŵp. Bydd gwelliant:

a. wedi cael ei gytuno, pan fo mwyafrif yr aelodau sy’n pleidleisio o blaid y gwelliant. Golyga hyn y bydd y Bil yn newid;

b. heb ei gytuno, pan nad yw mwyafrif yr aelodau sy’n pleidleisio o blaid y gwelliant, neu pan fo niferoedd y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yn gyfartal. Pan fo’r niferoedd yn gyfartal, mae’r Llywydd o dan rwymedigaeth i fwrw ei phleidlais yn erbyn y gwelliant (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)).

15.183 Gall y Cynulliad benderfynu gosod terfynau amser ar ddadleuon ar grwpiau o welliannau (o dan Reol Sefydlog 26.37), ond ni fabwysiedir y drefn honno fel arfer. Y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Fusnes y Llywodraeth (ar gyfer Biliau'r Llywodraeth), neu'r Pwyllgor Busnes (ar gyfer Biliau Anllywodraethol) sy'n cynnig y terfynau hyn. Yn gyffredinol bydd y Llywydd yn caniatáu tua 10 munud i bob siaradwr; a bydd yr Aelod sy’n agor ac yn cloi cyfraniadau’r Grŵp yn cael hyd at 10 munud ar gyfer pob araith yn y Grŵp hwnnw.

15.184 Caiff Cofnod y Trafodion ei gyhoeddi cyn pen 24 awr o ddiwedd y Cyfarfod Llawn; bydd angen i dîm y Bil wirio’r Cofnod a nodi unrhyw wallau.

## Diwygio’r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 3

15.185 Os caiff y Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 3 a’r Cynulliad yn cytuno i ystyried gwelliannau mewn Cyfnod Adrodd (gweler isod), rhaid i’r Aelod Cyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni fydd y Cynulliad yn penderfynu nad yw’n ofynnol cael Memorandwm diwygiedig (gweler Rheol Sefydlog 26.46A a pharagraffau 8.64 - 8.72 ym Mhennod 8). Rhaid gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad yr ystyriaeth gan y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cyfnod Adrodd (gweler Rheol Sefydlog 26.46B).

15.186 Os yw'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a osodir gerbron y Cynulliad yn cynnwys newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil, a'r Pwyllgor Cyllid, gan nodi'r newidiadau a wnaed. Lle bo hyn yn berthnasol, dylid darparu llythyrau drafft i'r Gweinidog eu cytuno fel rhan o'r broses awdurdodi ar gyfer gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

15.187 Os Cyfnod 3 yw'r Cyfnod diwygio terfynol, ac ystyrir y Bil nesaf yng Nghyfnod 4, ni fydd yn ofynnol diweddaru'r Memorandwm Esboniadol cyn (nac ar ôl) Cyfnod 4. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n fuddiol diweddaru'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu gwelliannau yng Nghyfnod 3, ac ystyrir mai gwneud hynny yw'r ymarfer gorau.

15.188 Yn ogystal â diwygio'r Memorandwm Esboniadol, dylid hefyd adolygu asesiadau effaith y polisi yng ngoleuni'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 3, ac ystyried cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig, neu gyhoeddi asesiad lle nas ystyriwyd cyn hynny bod angen gwneud hynny.

## Trafodion pellach ar ddiwedd Cyfnod 3

15.189 Mae trafodion Cyfnod 3 pellach yn caniatáu i'r Aelod Cyfrifol neu unrhyw aelod o'r Llywodraeth (yn unig) gyflwyno gwelliannau i'w hystyried mewn trafodion Cyfnod 3 pellach. Ni fydd gwelliannau o'r fath yn dderbyniadwy oni bai, yn ychwanegol at y gofynion derbyniadwyedd arferol (gweler paragraffau 15.75 i 15.76 uchod) eu bod –

a. at y diben o egluro darpariaeth o'r Bil;
b. yn rhoi effaith i ymrwymiad a roddwyd yn ystod y trafodion Cyfnod 3 (cynharach).

15.190 Gallai fod angen trafodion Cyfnod 3 pellach o'r fath, er enghraifft, os yw gwelliant anllywodraethol yn cael ei dderbyn yng Nghyfnod 3 sy'n golygu ei bod hi'n ofynnol cael gwelliant pellach i sicrhau bod y Bil yn dechnegol effeithiol, a bydd angen i'r Llywodraeth unioni hyn cyn i'r Bil gael ei basio – h.y. er mwyn egluro'r ddarpariaeth. Fel enghraifft arall, os daw i'r amlwg yn ystod Cyfnod 3 nad yw'r gwelliannau a ddatblygwyd gan y Llywodraeth yn debygol o gael eu cytuno, a bod y Gweinidog yn ymrwymo yn ystod y trafodion Cyfnod 3 i ailedrych ar y gwelliannau hynny, gallai hynny ysgogi trafodion Cyfnod 3 pellach.

15.191 Er mwyn mynd ymlaen i gynnal trafodion Cyfnod 3 pellach, mae'n ofynnol cael cytundeb y Cynulliad. O dan Reol Sefydlog 26.39 caiff yr Aelod Cyfrifol, neu unrhyw aelod o'r Llywodraeth, heb roi hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Cyfnod 3 pellach. Rhaid gwaredu'r holl welliannau cyn i'r cynnig gael ei gynnig, ond rhaid ei gynnig cyn i'r Llywydd gyhoeddi bod trafodion Cyfnod 3 wedi dod i ben.

15.192 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn darparu cyngor manwl ar y Cyfnod 3 pellach, gan gynnwys:

a. y trywyddau sydd i'w defnyddio gan y Gweinidog, yn y nodiadau annerch perthnasol, i fynegi'r bwriad i sbarduno Cyfnod 3 pellach;
b. yr effaith ar yr amserlen (gan gynnwys cyflwyno gwelliannau a'r dyddiad y cynhelir y trafodion Cyfnod 3 pellach).

## Paratoi Bil diwygiedig ar ôl Cyfnod 3

15.193 Bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yng Nghomisiwn y Cynulliad) yn paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Bil a fydd yn cynnwys yr holl welliannau y cytunwyd arnynt. Bydd y Swyddfa'n darparu copi ohono i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfer ei wirio, a chaiff ei gyhoeddi wedyn ar y dudalen ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad. Nid oes unrhyw gamau gweithredu yn codi ar gyfer tîm y Bil (ac eithrio Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol). Bydd rhaid cael cytundeb rhwng Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a'r Swyddfa Ddeddfwriaeth mewn da bryd ar gyfer cyhoeddi'r Bil o leiaf un diwrnod gwaith cyn y trafodion Cyfnod 4. Fel arall, ni ellir cynnal y trafodion hynny.

## Y Cyfnod Adrodd

15.194 Mae Rheol Sefydlog 26.45 yn darparu ar gyfer Cyfnod diwygio arall yn y broses o graffu, y gellir ei ddefnyddio os bydd ei angen – mae'r cyfnod hwn yn cael ei alw yn Gyfnod Adrodd. Nid yw'n rhan reolaidd o'r broses o ystyriaeth gan y Cynulliad.

15.195 Mae'r Cyfnod Adrodd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r broses graffu, fel y gall y Cynulliad, os yw'n dymuno, ddychwelyd at faterion penodol mewn perthynas â Bil, yn enwedig pan y cytunwyd ar newidiadau o sylwedd neu bwysig (megis mewnosod Rhan neu Bennod newydd) yng Nghyfnod 3.

15.196 Os ystyrir y gallai fod angen Cyfnod Adrodd, rhaid hysbysu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ar unwaith, fel y gall wneud y trefniadau priodol gyda Chomisiwn y Cynulliad a dod o hyd i slot addas yn y Cyfarfod Llawn.

15.197 Yn ystod y Cyfnod Adrodd, yn wahanol i drafodion Cyfnod 3 pellach, mae'r Bil cyfan yn agored i gael ei ddiwygio, a chaiff unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau.

### Dechrau a diwedd y Cyfnod Adrodd

15.198 Unwaith y cwblheir Cyfnod 3, caiff yr Aelod Cyfrifol (a neb ond yr Aelod Cyfrifol) gynnig heb roi hysbysiad i'r Cynulliad ystyried gwelliannau yn ystod Cyfnod Adrodd. Nid oes raid cynnig y cynnig ar y diwrnod y cwblheir Cyfnod 3; mae hynny'n golygu bod modd penderfynu ar y camau nesaf gan ystyried canlyniad trafodion Cyfnod 3. Os bydd

mwyafrif syml o'r Cynulliad yn cytuno, bydd y Bil yn symud ymlaen i'r Cyfnod Adrodd. Mae Cyfnod Adrodd yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf y cytunir ar gynnig o dan Reol Sefydlog 26.45, ac mae'n dod i ben pan fydd yr holl welliannau wedi cael eu hystyried.

### Rheolau Sefydlog

15.199 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.46, rhaid darllen y Rheolau Sefydlog ar gyfer Cyfnod 3 (26.29 i 26.44) fel pe baent yn gymwys i Gyfnod Adrodd, a dehongli cyfeiriadau at 'Gyfnod 3' a 'Chyfnod 3 pellach' fel cyfeiriadau at 'Gyfnod Adrodd' a 'Chyfnod Adrodd pellach', yn eu trefn.

15.200 Felly, mae'r cyngor yn y Llawlyfr hwn mewn perthynas â Chyfnod 3 hefyd yn gymwys i Gyfnod Adrodd. Dylid nodi, fodd bynnag, na fydd unrhyw gyfnodau diwygio llawn pellach yn bosibl ar ôl Cyfnod Adrodd, er y gellir ystyried gwelliannau ychwanegol mewn Cyfnod Adrodd pellach, yn yr un modd yn union ag y gwneir mewn Cyfnod 3 pellach (gweler paragraffau 15.186 i 15.188).

## Hysbysiad ffurfiol o Gydsyniad y Frenhines/Dug Cernyw

15.201 Pan fo cydsyniad Ei Mawrhydi neu Ddug Cernyw yn ofynnol ar gyfer Bil (gweler Pennod 12), mae'r Rheolau Sefydlog yn atal y Cynulliad rhag ddadlau ynghylch y cwestiwn a ddylid pasio'r Bil ai peidio (h.y. Cyfnod 4), oni fydd aelod o'r Llywodraeth wedi rhoi hysbysiad ffurfiol o gydsyniad o'r fath.

15.202 Felly, pan effeithir ar Fil Llywodraeth yn y modd hwn, fel arfer bydd yr Aelod Cyfrifol yn hysbysu'r Cynulliad bod cydsyniad wedi cael ei roi yn union ar ôl y gwelliant olaf yng Nghyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd) neu'n union cyn Cyfnod 4 (er y gellir rhoi hysbysiad o gydsyniad mewn unrhyw gyfarfod o'r Cynulliad). Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn hysbysu swyddogion y Llywydd ymlaen llaw, er mwyn sicrhau y gall yr Aelod Cyfrifol wneud hynny. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant hefyd yn darparu'r geiriad cywir (fel y'i cytunwyd gyda Gwasanaethau Cyfreithiol) i'w ddefnyddio gan y Gweinidog.

## Cyfnod 4

15.203 Yn unol ag adran 111(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol bod y Rheolau Sefydlog yn cynnwys Cyfnod terfynol pan y gall y Cynulliad basio neu wrthod y Bil – sef Cyfnod 4. Mae Cyfnod 4 yn dilyn ar ôl i Gyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd os cynhelir Cyfnod Adrodd) ddod i ben a'r pleidlais ar y Bil fel y'i diwygiwyd yw'r cyfnod hwn. Hwn yw cyfnod olaf y Bil.

### Amseriad Cyfnod 4

15.204 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil, ond o dan Reol Sefydlog 26.47, ni ellir ystyried y cynnig tan o leiaf bum diwrnod gwaith ar ôl cwblhau Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd). Ceir cyflwyno'r cynnig ar unrhyw adeg hyd at y diwrnod gwaith cyn y cynhelir y ddadl ar y cynnig.

15.205 Fodd bynnag, caiff Cyfnod 4 ddilyn yn union ar ôl Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd) ar yr un diwrnod os yw unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, yn cynnig heb hysbysiad bod y Bil yn cael ei basio.

15.206 Oherwydd gofynion y Rheolau Sefydlog yr effaith arferol yw y bydd bwlch o wythnos o leiaf rhwng Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd) a thrafodion Cyfnod 4.

15.207 Ni ellir cynnig cynnig bod Bil yn cael ei basio oni fydd testun y Bil ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

15.208 Rhaid ystyried y cynnig yn y Cyfarfod Llawn; ni cheir ei ystyried mewn Pwyllgor na'i ddiwygio.

15.209 Mae'n arferol neilltuo tua 15 munud o amser y Cynulliad ar gyfer areithiau byr cyn y bleidlais ar y cynnig.

### Pleidlais yng Nghyfnod 4

15.210 Mae Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd wneud datganiad ynghylch a yw darpariaeth Bil Cynulliad yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, cyn medru pleidleisio ar y Bil yng Nghyfnod 4. Pynciau gwarchodedig yw'r rhai a fyddai'n addasu, neu roi'r pŵer i addasu, materion penodol sy'n cael eu rhestru yn y Bil, sef

a. enw'r Cynulliad,
b. y personau sy'n gymwys i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad ar gyfer aelodau'r Cynulliad,
c. y system ar gyfer ethol aelodau'r Cynulliad,
d. manyleb neu nifer yr etholaethau, rhanbarthau neu ardal etholiadol gyfatebol,
e. nifer yr aelodau i'w hethol ar gyfer pob etholaeth, rhanbarth neu ardal etholiadol gyfatebol, a
f. nifer y bobl a all ddal swydd Gweinidog Cymru a benodwyd dan adran 48 neu swydd Dirprwy Weinidog Cymru.

15.211 Rhaid i benderfyniad y Llywydd ynghylch a yw Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig gael ei wneud ar ôl y tro olaf y gellir diwygio Bil, ond cyn y penderfyniad ynghylch ei basio neu ei wrthod: mewn geiriau eraill rhwng Cyfnod 3/Cyfnod Adrodd a Chyfnod 4. Yr arfer presennol yw i'r Llywydd osod datganiad ar ddiwrnod trafodion Cyfnod 4.

15.212 Os bydd y Llywydd yn penderfynu bod unrhyw un o ddarpariaethau Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, mae adran 111A(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn datgan nad oes modd pasio'r Bil oni bai bod nifer Aelodau'r Cynulliad sy'n pleidleisio o'i blaid yn y cyfnod olaf o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Cynulliad (sef 40 neu fwy ar hyn o bryd).

15.213 Os bydd y Llywydd yn penderfynu nad oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, bydd mwyafrif syml yn penderfynu a gaiff cynnig Cyfnod 4 ei gytuno ai peidio.

15.214 Os caiff y cynnig ei gytuno, bydd y Bil yn cael ei basio; os na chaiff y cynnig ei gytuno, bydd y Bil yn cael ei wrthod.

15.215 Os bydd y bleidlais yn gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei phleidlais fwrw. Yn yr achos hwn, bydd yn rhoi ei phleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Golyga hynny na fydd y cynnig wedi ei gytuno, a gwrthodir y Bil.

15.216 Mae Rheol Sefydlog 26.50C yn ei gwneud yn ofynnol cael pleidlais gofnodedig yng Nghyfnod 4; nid yw'n bosibl pasio Bil heb gynnal pleidlais.

### Paratoi’r araith

15.217 Fel rhan o’r ddadl, bydd disgwyl i’r Gweinidog siarad yn union cyn y bleidlais. Bydd angen i dîm y Bil baratoi araith fer, a fydd yn cyflawni dwy swyddogaeth: yn gyntaf, bydd yn rhoi ar gofnod bwysigrwydd y Bil a’r rhesymau pam y dylid ei basio; ac yn ail, bydd yn rhoi cyfle iddynt ddiolch i’r Pwyllgorau, yr Aelodau a’r rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu at y gwaith o graffu ar y Bil. Os traddodir yr araith yn gyfan gwbl, neu’n rhannol, yn Gymraeg ac os bydd angen cyfieithiad, gall yr Uned Gyfieithu Cyffredinol drefnu hynny.

15.218 Dylai tîm y Bil gysylltu â Swyddfa Breifat y Gweinidog i weld a fydd angen unrhyw becyn gwybodaeth neu drywyddau ychwanegol i’w dilyn ar gyfer y ddadl Cyfnod 4.

### Effaith Cyfnod 4

15.219 Bydd cytuno ar y cynnig yng Nghyfnod 4 yn golygu bod y Cynulliad wedi pasio’r Bil. Ni fydd hyn yn golygu bod y Bil bellach yn Ddeddf, nac ychwaith fod ei ddarpariaethau mewn grym. Bydd angen i’r timau Bil sicrhau bod yr wybodaeth y byddant yn ei rannu yn adlewyrchu hynny.

15.220 Pan fydd y Bil wedi ei basio gan y Cynulliad, hynny fydd dechrau ei ‘gyfnod hysbysu’ – rhoddir canllawiau pellach ar hynny ym Mhennod 17.

## Paratoi Bil diwygiedig ar ôl Cyfnod 4

15.221 Pan fydd y Bil wedi ei basio, bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth (yng Nghomisiwn y Cynulliad) yn paratoi fersiwn ddiwygiedig o’r Bil a fydd yn cynnwys yr holl welliannau y cytunwyd arnynt. Bydd y Swyddfa wedyn yn darparu copi ohono i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i’w wirio ac wedyn yn ei gyhoeddi ar y dudalen ar gyfer y Bil ar wefan y Cynulliad. Er nad oes camau gweithredu ar gyfer tîm y Bil yn deillio o baratoi’r Bil diwygiedig, bydd angen i’r tîm sicrhau bod y Nodiadau Esboniadol i’r Bil yn cael eu diweddaru i adlewyrchu’r fersiwn derfynol o’r Bil (gweler Pennod 9).

## Methiant a Gwrthodiad Biliau neu dynnu Biliau yn ôl

15.222 Os yw Bil yn methu neu’n cael ei wrthod gan y Cynulliad, ni cheir cynnal unrhyw drafodion pellach ar y Bil hwnnw nac ar unrhyw Fil arall sydd, ym marn y Llywydd yn yr un termau neu mewn termau cyffelyb. Ni cheir cyflwyno’r Bil (neu Fil cyffelyb) drachefn i’r un Cynulliad o fewn y cyfnod o 6 mis o’r dyddiad y methodd y Bil neu y’i gwrthodwyd.

15.223 Mae eithriad i'r rheol hon yn ymwneud â Biliau a gafodd eu gwrthod gan fod angen uwch-fwyafrif ond na lwyddwyd i sicrhau hynny, os bydd y Goruchaf Lys wedyn yn penderfynu ar atgyfeiriad dan adran 111B(2)a o Ddeddf Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig. Gellid cynnig y dylid ailystyried Bil o'r fath (gweler Pennod 17).

15.224 Ceir tynnu Bil yn ôl gan yr Aelod Cyfrifol ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod 1, ond ni cheir ei dynnu’n ôl ar ôl cwblhau Cyfnod 1 ac eithrio gyda chytundeb y Cynulliad.

15.225 Pan fo Bil heb ei basio gan y Cynulliad neu heb ei gymeradwyo (ar ôl ei ailystyried) cyn diwedd y Cynulliad hwnnw, bydd yn methu. Ceir cyflwyno’r Bil, neu Fil cyffelyb, mewn unrhyw Gynulliad dilynol.

# Pennod 16 – Biliau Brys a Biliau ar 'lwybr carlam'

**Mae'r Bennod hon yn darparu trosolwg ar Filiau Brys y Llywodraeth, a Biliau sy'n mynd ymlaen drwy'r broses graffu yn y Cynulliad yn gyflymach nag arfer (h.y. ar lwybr carlam).**

**Nid yw'r Bennod hon yn ymdrin â pharatoi'r Bil a'r dogfennau ategol; trafodir hynny mewn rhannau eraill o'r Llawlyfr hwn. Yn yr un modd, wrth ddarparu canllawiau ar y broses o graffu yn y Cynulliad, mae'n cyfeirio'n unig at y gwahaniaethau allweddol o gymharu â'r broses graffu arferol (a amlinellir ym Mhennod 15).**

**Pan fo Grŵp yn ystyried a oes angen Bil Brys, neu a ddylid cyflymu'r amserlen ar gyfer ystyriaeth gan y Cynulliad, dylid gofyn yn gyntaf oll am gyngor a chymorth gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.**

## Bil Brys

16.1 Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei ddeddfu'n gyflymach nag a ganiateir gan broses ddeddfwriaethol arferol y Cynulliad. Ni ddarperir diffiniad o Fil Brys yn Neddf Llywodraeth Cymru (2006) nac yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad, er bod Rheol Sefydlog 26.95 yn datgan:

> *"Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth."*

16.2 Aelod o'r Llywodraeth yn unig a gaiff datblygu Bil Brys.

16.3 Rhoddir canllawiau isod ar yr ystyriaethau arbennig mewn perthynas â Biliau Brys, ym mharagraffau 16.19 i 16.24.

### Craffu ar Fil Brys

16.4 Gan mai diben cyflwyno Bil Brys yw caniatáu i ddarpariaethau brys gael eu deddfu'n gyflym, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn pennu fersiwn symlach o brosesau deddfwriaethol arferol y Cynulliad er mwyn osgoi unrhyw oedi.

16.5 Cyn cyflwyno Bil Brys i'r Cynulliad, rhaid i'r Gweinidog Arweiniol yn gyntaf gynnig cynnig yn gofyn am i'r Bil gael ei drin gan y Cynulliad fel Bil Brys. O dan Reol Sefydlog 26.95A, mae'n rhaid i'r cynnig gael ei ddarparu ynghyd â datganiad yn esbonio pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys, yn ogystal ag amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny. Mater i'r Gweinidog Arweiniol fyddai cynnwys y datganiad, ond byddai'n agored i'r Aelodau eraill graffu arno, ac felly gallai'r

datganiad lywio eu hystyriaeth ynghylch a ddylid caniatáu i'r Bil fynd ymlaen fel Bil Brys ai peidio. Gall y cynnig hefyd argymell y dylid:

a. cyflwyno'r Bil Brys heb Femorandwm Esboniadol (o dan Reol Sefydlog 26.96) – ond byddai'r Llywodraeth fel arfer yn ceisio paratoi Memorandwm Esboniadol (ynghyd ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol);

b. cyflwyno'r Bil mewn un iaith yn unig (o dan Reol Sefydlog 26.5) – ond byddai'r Llywodraeth fel arfer yn ceisio paratoi'r Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhaid i'r Cynulliad gytuno ar y cynnig cyn y gall Bil Brys fynd yn ei flaen.

16.6 Fel yn achos Biliau eraill a gyflwynir i'r Cynulliad, cyn y gellir ei gyflwyno, bydd angen i Fil Llywodraeth Brys gael ei ystyried gan y Llywydd, fel y caiff wneud datganiad o dan Reol Sefydlog 26.4; fodd bynnag, bydd cyfnod penderfyniad y Llywydd yn debygol o fod yn llawer llai na'r pedair wythnos arferol (gweler Pennod 14). Paratoir yr amserlen gyffredinol ar gyfer y Bil, gan gynnwys cyfnod penderfyniad y Llywydd, gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

16.7 Rhaid i Fil Brys, pan gyflwynir ef i'r Cynulliad, gael ei gyflwyno ynghyd â datganiad gan y Gweinidog Arweiniol i'r perwyl bod darpariaethau'r Bil, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (fel sy'n digwydd hefyd pan nad yw'r Bil yn Fil Brys).

16.8 Ar yr un pryd, rhaid i'r Gweinidog Arweiniol hefyd gynnig cynnig i gytuno ar amserlen ar gyfer ystyriaeth o Gyfnodau 1 i 4 y Bil Brys – mae hyn yn wahanol i'r broses arferol o bennu amserlen ar gyfer ystyried Bil nad yw'n Fil Brys, sy'n cael ei phennu gan y Pwyllgor Busnes. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y gellir cwblhau'r holl Gyfnodau ar un diwrnod yn ystod wythnos eistedd, er gallai'r Llywodraeth gynnig ystyriaeth dros gyfnod hwy (er enghraifft, wythnos neu ddwy), i ganiatáu amser i'r Aelodau edrych ar y Bil a pharatoi unrhyw welliannau iddo.

16.9 Mae'r ffordd y bydd y Cynulliad yn ystyried Bil Brys yn dilyn yn fras y pedwar cam arferol yn y broses ddeddfwriaethol, ond gyda rhai newidiadau arwyddocaol er mwyn eu cyflymu. Amlinellir y rhain isod:

a. Yng Nghyfnod 1, rhaid i'r Gweinidog Arweiniol gyflwyno cynnig i'r perwyl bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Brys. Nid oes opsiwn i atgyfeirio'r Bil i Bwyllgor y Cynulliad ar gyfer ystyriaeth fanwl;

b. Os oes angen Penderfyniad Ariannol ar gyfer y Bil bydd dal yn ofynnol cytuno ar hwnnw cyn y gellir cynnal trafodion Cyfnod 2; byddai'r ddadl ar gyfer cytuno ar y Penderfyniad Ariannol yn cael ei chynnal yn union ar ôl y ddadl Cyfnod 1.

c. Ar gyfer Cyfnod 2 mae'n ofynnol bod Bil Brys yn cael ei ystyried gan Bwyllgor y Cynulliad Cyfan (yn hytrach nag unrhyw Bwyllgor Cynulliad arall) a gadeirir gan y Llywydd. Bydd hyn yn digwydd yn y Siambr, ac yn unol â'r rheolau sy'n gymwys i fusnes Pwyllgor (fel y'u pennir yn Rheol Sefydlog 17);

d. Os diwygir Bil yng Nghyfnod 2, ni fydd gofyniad bod y Gweinidog Arweiniol yn paratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig;

e. Ni fydd bwlch o 15 diwrnod gwaith yn ofynnol rhwng Cyfnodau 2 a 3 pan ystyrir Bil Brys. Gellir cynnal trafodion Cyfnod 3 felly yn union ar ôl cwblhau Cyfnod 2. Ystyrir yr amserlenni ar gyfer y cyfnodau diwygio gan y Cynulliad pan ofynnir iddo gytuno ar yr amserlen gyffredinol;

f. Nid oes opsiwn i gynnal Cyfnod Adrodd yn ystod ystyriaeth o Fil Brys;

g. Ar gyfer yr ystyriaeth o Fil Brys, nid yw'r gofyniad arferol i gyflwyno gwelliannau bum niwrnod gwaith o leiaf cyn y dyddiad y bwriedir eu hystyried yn gymwys. Yn hytrach, rhoddir disgresiwn i'r Llywydd benderfynu faint o rybudd ymlaen llaw y mae'n ofynnol i Aelod Cynulliad ei roi cyn cyflwyno gwelliant i Fil Brys;

h. Nid oes raid i destun Bil Brys fod ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg er mwyn ei basio gan y Cynulliad yng Nghyfnod 4.

16.10 Ar achlysuron prin iawn y defnyddir Biliau Brys yn y deddfwrfeydd datganoledig eraill ac yn Senedd y DU.

## Gosod Biliau ar lwybr carlam

16.11 Mae'r term 'gosod ar lwybr carlam' yn disgrifio'r hyn sy'n digwydd i Fil sy'n dilyn y broses ddeddfwriaethol bedwar cyfnod arferol, ond yn gwneud hynny mewn cyn lleied o amser â phosibl. Nid yw Bil o'r fath yn Fil Brys, nac ychwaith yn ysgogi'r gofynion a'r gwahaniaethau yn y Rheolau Sefydlog a amlinellir uchod.

16.12 Mae Bil ar lwybr carlam yn mynd drwy'r Cyfnodau mor gyflym ag y bo modd, ond gwneir hynny yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Bil arferol. Felly, mater o reoli'r amserlen yn hytrach na gweithdrefn ffurfiol yw gosod deddfwriaeth ar lwybr carlam. Tra bo hynt Bil arferol drwy'r Cynulliad fel arfer yn cymryd rhwng 6 ac 8 mis, gallai Bil llwybr carlam gymryd tua 3 mis.

16.13 Rhoddir canllawiau ar yr ystyriaethau arbennig sy'n gysylltiedig â chyflymu hynt deddfwriaeth ym mharagraffau 16.19 i 16.24 isod.

16.14 Cyn cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad, bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth yn cynnig amserlen i'r Pwyllgor Busnes ar gyfer yr ystyriaeth o'r Bil. Byddai'r Gweinidog hefyd, yn ôl pob tebyg, yn cynnig na ddylid cyfeirio'r Bil at Bwyllgor Cynulliad i'w ystyried yn fanwl (byddai'r Bil felly, ar ôl ei gyflwyno, yn mynd yn syth i'r ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1).

16.15 Darperir Memorandwm Esboniadol (sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) yn y ffordd arferol pan fydd y Bil yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad.

16.16 Byddai'r ffordd yr ystyrid y Bil yn y Cynulliad wedyn yn dilyn y broses ddeddfwriaethol bedwar cyfnod arferol, ond bydd cyn lleied o amser â phosibl, fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog, rhwng pob Cyfnod. Amlinellir y rhain isod:

a. Ar ôl cyflwyno'r Bil ac yng Nghyfnod 1, rhaid i'r Gweinidog Arweiniol gyflwyno cynnig yn cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil;

b. Os oes angen Penderfyniad Ariannol ar gyfer y Bil, byddai'n rhaid cytuno ar hwnnw o hyd cyn y gellid cynnal trafodion Cyfnod 2. Byddai'r ddadl ar gyfer cytuno ar y Penderfyniad Ariannol yn cael ei chynnal yn union ar ôl y ddadl Cyfnod 1;

c. Ar ôl cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol (a Phenderfyniad Ariannol, pe byddai ei angen) byddai'r Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2. Mae'n debygol mai dim ond ar gyfer cynnal un cyfarfod o'r Pwyllgor yn unig y byddai'r amserlen yn caniatáu, i'w gynnal ddim cynharach na 15 diwrnod gwaith ar ôl y ddadl Cyfnod 1, ond cyn gynted ag y bo modd wedi i'r cyfnod hwnnw ddod i ben;

d. Byddai ail fwlch o 15 diwrnod gwaith wedyn, rhwng Cyfnodau 2 a 3, ac unwaith eto, byddai'r ystyriaeth Cyfnod 3 yn cael ei amserlennu i ddigwydd cyn gynted ag y bo modd;

e. Gellid cynnal Cyfnod Adrodd ar gyfer y Bil pe ystyrir bod angen gwneud hynny;

f. Yn ôl pob tebyg, byddai cytundeb y Llywydd yn cael ei geisio ar gyfer cynnal Cyfnod 4 ar yr un diwrnod ag y daw Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd) i ben.

16.17 Fel yn achos Biliau Brys, prin yw'r defnydd a wneir o Filiau llwybr carlam. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dau Fil o'r fath, a'r ddau ohonynt wedi cael eu pasio gan y Cynulliad. Daeth y ddau Fil

Brys yn Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 a Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

16.18 Yn achos y ddau Fil, er na chawsant eu hatgyfeirio i Bwyllgorau cyfrifol ar gyfer ystyriaeth yng Nghyfnod 1, bu'r Aelodau Cyfrifol ar gyfer y Biliau yn annerch y Pwyllgorau pwnc a oedd â buddiant yn y Biliau. Er nad oedd hynny'n rhan ffurfiol o'r broses o'r ystyriaeth o'r Biliau, rhoddodd gyfle i Aelodau ar y Pwyllgorau hynny ddysgu rhagor am y ddau Fil. Roedd gan yr Aelodau hynny wedyn ddigon o wybodaeth am y Biliau i ymgymryd â'r ystyriaeth Cyfnod 2. Rhoddwyd tystiolaeth hefyd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

## Ystyriaethau arbennig ar gyfer biliau brys a biliau ar lwybr carlam

16.19 Fel y nodwyd uchod, nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 na'r Rheolau Sefydlog yn darparu diffiniad o'r hyn y dylid ei ystyried yn Fil brys. Mae ymchwil i'r biliau brys a ddatblygwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig eraill a Senedd y DU yn datgelu eu bod yn digwydd gan amlaf fel ymateb i argyfyngau, digwyddiadau penodol neu ddyfarniadau llys.

16.20 Yn 2009 bu Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn ystyried deddfwriaeth o'r fath,[31] a rhestrodd nifer o resymau pam y rhoddwyd Biliau ar y llwybr carlam yn Senedd y DU. Roeddent yn cynnwys:

a. unioni anghysondeb, amryfusedd, gwall neu ansicrwydd a ddaeth i'r amlwg mewn deddfwriaeth;

b. ymateb i effeithiau dyfarniad llys;

c. sicrhau bod deddfwriaeth mewn grym mewn da bryd ar gyfer digwyddiad sydd ar fin cael ei gynnal;

d. delio ag argyfwng economaidd;

e. newid y terfynau ar fenthyciadau y caiff awdurdod cyhoeddus eu cymryd neu eu rhoi, neu faterion cyllido eraill;

f. delio ag argyfwng mewn carchardai o ganlyniad i weithredu diwydiannol;

g. ymateb i gytundebau rhyngwladol;

h. gweithredu cyhoeddiadau'r Trysorlys yn y Gyllideb neu ddatganiad yr hydref.

[31] Tŷ'r Arglwyddi: Pwyllgor Dethol ar y Cyfansoddiad *'Fast-track Legislation: Constitutional Implications and Safeguards'* (Gorffennaf 2009) Papur Tŷ'r Arglwyddi 116-1.

16.21 Fodd bynnag, roedd y categori mwyaf oll ymhlith y biliau a gafodd eu cyflymu drwy'r broses yn Senedd y DU yn ymwneud â'r broses heddwch a'r setliad datganoli yng Ngogledd Iwerddon.

16.22 Os yw'r Llywodraeth yn cynnig bod Bil i gael ei drin fel Bil Llywodraeth Brys, rhaid bodloni'r Cynulliad bod wir angen ystyried Bil o'r fath yn y ffordd honno. Er nad yw'n derfynol, mae'n debygol y byddai'r Cynulliad yn ystyried bod Bil yn addas i'w drin mewn modd wedi'i gyflymu fel hyn, pe byddai'r rhesymau a roddid yn cyfateb yn eglur i'r rhesymau pam y mae deddfwrfeydd eraill wedi derbyn darpariaethau brys – er enghraifft, y rhai a restrir uchod ym mharagraff 16.20.

16.23 Os yw'r Llywodraeth yn cynnig bod Bil i fynd drwy'r broses o ystyriaeth ar lwybr carlam (yn hytrach na chael ei drin fel Bil Llywodraeth Brys), mae'n debygol bydd y Cynulliad am fod yn fodlon bod seiliau cadarn dros beidio â chynnal ystyriaeth Cyfnod 1 llawn. Gallai'r seiliau hynny gynnwys:

a. bod cynnwys y Bil yn ystyried un pwnc, ar ffurf gyfyngedig, yn unig;

b. bod polisi'r Bil yn un a ystyriwyd eisoes gan Bwyllgor o'r Cynulliad (er enghraifft fel rhan o ymchwiliad gan Bwyllgor, a phan fo'r Bil dan sylw'n ymateb i argymhellion yr ymchwiliad hwnnw);

c. bod y Bil yn ymdrin â materion sy'n dilyn cynseiliau, systemau neu ddeddfwriaeth hir-sefydledig, ac nad yw fel y cyfryw yn cyflwyno unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau presennol.

16.24 Gall gosod deddfwriaeth ar y llwybr carlam roi pwysau aruthrol ar dimau Bil, a chynyddu'r galwadau ar ddrafftwyr, cyfieithwyr ac eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â'r timau Bil. Bydd angen ail-asesu'r effaith ar dîm y Bil, ac ar Filiau eraill yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth wrth ystyried ai'r dull a gynigir yw'r un priodol ym mhob un o'r amgylchiadau. Yn ystod datblygiad a hynt Bil Brys neu Fil sy'n cael ei roi ar Lwybr Carlam, mae'n hanfodol cadw mewn cysylltiad cyson â Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a'r Gwasanaeth Cyfieithu ynghylch y gwaith sydd yn yr arfaeth, fel y gallant gynllunio'u hadnoddau i ymdopi â'r galw.

## Pennod 17 – Y Cyfnod Hysbysu, Ailystyried a’r Cydsyniad Brenhinol

**Mae’r Bennod hon yn darparu canllawiau ar y cyfnod yn union ar ôl pasio neu wrthod Bil gan y Cynulliad, a’r broses ar gyfer ceisio Cydsyniad Brenhinol. Nid yw’r Bennod hon wedi’i chynllunio i fod yn ganllaw hollgynhwysol, ac mae rhagor o gyngor ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol.**

### Cyfnod hysbysu – pan fo Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad

17.1 Ar ôl pasio Bil gan y Cynulliad, bydd cyfnod hysbysu yn dilyn. Cyfnod o bedair wythnos yw hwn, sy’n dechrau gyda phasio’r Bil, pan gaiff y Cwnsler Cyffredinol neu’r Twrnai Cyffredinol, o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006), atgyfeirio’r Bil i’r Goruchaf Lys. Byddai atgyfeiriad o’r fath yn cael ei wneud er mwyn cael dyfarniad a yw’r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Gall y Goruchaf Lys, yn ei dro, atgyfeirio’r mater am wrandawiad rhagarweiniol yn Llys Cyfiawnder Ewrop os yw’r mater cymhwysedd yn ymwneud â mater o gyfraith yr UE.

17.2 Yn ystod y cyfnod hysbysu hwn, gall y Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol hefyd o dan adran 111B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 atgyfeirio i’r Goruchaf Lys y cwestiwn a oes unrhyw un o ddarpariaethau Bil sy’n ymwneud â phwnc gwarchodedig[32] i gael ei benderfyniad.

17.3 Yn ystod yr un cyfnod hysbysu, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol (Cymru) wneud gorchymyn o dan adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gorchymyn[33] o’r fath yn rhwystro’r Bil rhag cael ei gyflwyno i Ei Mawrhydi ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol, ar y sail:

a. y byddai’n cael effaith andwyol ar fater a gedwir yn ôl;

b. y byddai'n cael effaith andwyol ar weithredu'r gyfraith fel y mae'n gymwys yn Lloegr; neu

c. y byddai’n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol neu na fyddai o fudd o safbwynt amddiffyn neu ddiogelwch gwladol.

---

[32] Rhestrir y pynciau gwarchodedig yn adran 111A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac maent yn cynnwys materion fel enw'r Cynulliad, y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad ar gyfer aelodaeth y Cynulliad, a'r system yr etholir aelodau y Cynulliad drwyddi.

[33] Mae’r gorchymyn yn ddarostyngedig i’w ddiddymu yn unol â phenderfyniad y naill Dŷ neu’r llall o Senedd y DU, sef y weithdrefn y cyfeirir ati yn gyffredin fel y weithdrefn negyddol.

### Cyfnod hysbysu – pan fo Bil yn cael ei ailystyried gan y Cynulliad neu pan fo Bil wedi cael ei ystyried gan y Goruchaf Lys

17.4 Yn ogystal â'r cyfnod hysbysu sy'n dilyn pasio'r Bil, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn ystod cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau gydag:

a. y Cynulliad yn cymeradwyo Bil sydd wedi bod drwy'r Cyfnod Ailystyried; neu

b. y Goruchaf Lys yn penderfynu ar, neu rywfodd arall yn gwaredu, atgyfeiriad o Fil gan y Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol o dan adrannau 111B neu 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

17.5 Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn os bydd eisoes wedi hysbysu'r Llywydd na fydd gorchymyn yn cael ei wneud mewn perthynas â'r Bil (bydd llythyr i'r perwyl hwnnw fel arfer yn cael ei dderbyn cyn diwedd y cyfnod hysbysu sy'n dechrau gyda phasio'r Bil). Yn yr amgylchiadau hynny, ni fydd yn ofynnol aros am bedair wythnos arall unwaith y bydd y Goruchaf Lys wedi penderfynu ar yr atgyfeiriad.

### Cyfnod hysbysu – pan fo'r Llywydd wedi penderfynu bod darpariaeth o'r Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig ac mae'r Cynulliad wedi hynny yn gwrthod y Bil

17.6 O dan adran 111B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol wneud atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys mewn perthynas â Bil ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau gyda gwrthod y Bil, os yw'r Llywydd wedi penderfynu bod darpariaeth o'r Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig (gweler penodau 13 a 15).

### Y broses

17.7 Wedi i'r Bil gael ei basio gan y Cynulliad (neu ei gymeradwyo yn dilyn Cyfnod Ailystyried (gweler isod)), bydd y Llywydd yn ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol (gyda chopi i Swyddfa Cymru) i'w hatgoffa bod ganddynt bedair wythnos ar gyfer atgyfeirio'r mater o gymhwysedd y Cynulliad i'r Goruchaf Lys. Bydd y Llywydd hefyd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'i bŵer i wneud gorchymyn i rwystro Bil rhag cael ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.

17.8 Os yw'r Cwnsler Cyffredinol, y Twrnai Cyffredinol (neu'r Cyfreithiwr Cyffredinol) a'r Ysgrifennydd Gwladol oll yn cadarnhau, cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos, na wneir atgyfeiriad nac ymyriad, gellir anfon y Bil ymlaen am Gydsyniad Brenhinol yr adeg honno. Unwaith y bydd y

Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol (neu'r Cyfreithiwr Cyffredinol) wedi dweud wrth y Clerc nad ydynt yn bwriadu gwneud atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys, ni chânt wneud atgyfeiriad wedi hynny.

17.9 Dylai tîm y Bil gynllunio ar y sail y bydd angen aros am y pedair wythnos lawn cyn y gellir anfon y Bil am Gydsyniad Brenhinol. Unwaith y daw'r pedair wythnos i ben, gellir anfon y Bil am Gydsyniad Brenhinol – mae hynny'n wir hyd yn oed os nad yw'r Cwnsler Cyffredinol, y Twrnai (neu'r Cyfreithiwr) Cyffredinol neu'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymateb.

## Atgyfeirio i'r Goruchaf Lys

17.10 Os bydd y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol yn atgyfeirio Bil Cynulliad i'r Goruchaf Lys, bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn trefnu bod adnoddau priodol ar gael gan Wasanaethau Cyfreithiol ar gyfer yr ymgyfreithiad.

17.11 Bydd y Goruchaf Lys yn clywed sylwadau gan y Twrnai Cyffredinol, y Cwnsler Cyffredinol ac unrhyw bartïon eraill sydd â buddiant mewn gwrandawiad ac yna – ymhen cyfnod o amser – bydd yn rhoi ei ddyfarniad.

17.12 Pan fo'r Goruchaf Lys yn canfod bod y Bil a/neu ei ddarpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, bydd y Bil – mewn da bryd – yn mynd ymlaen i'r broses o gael Cydsyniad Brenhinol (gweler isod) oni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn i atal hyn (gweler paragraff 17.3 uchod). Pan fo'r Goruchaf Lys yn canfod bod y Bil a/neu ei ddarpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu pan dynnir yr atgyfeiriad yn ôl o dan yr amgylchiadau a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd cyfle i'r Cynulliad ailystyried y Bil (cyfeirir at hyn fel 'Ailystyried Biliau a Basiwyd' yn y Rheolau Sefydlog – gweler isod).

## Ymyrraeth yr Ysgrifennydd Gwladol

17.13 Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymyrryd o dan adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn gwneud Gorchymyn sy'n gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno'r Bil am Gydsyniad Brenhinol, gellir ystyried y Bil unwaith eto, yn y Cyfnod Ailystyried.

## Y Cyfnod Ailystyried

17.14 Mewn achosion –

a. pan fo'r Goruchaf Lys yn penderfynu ynghylch atgyfeiriad a wnaed o dan adran 111B(2)a o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â Bil a wrthodwyd gan y Cynulliad, nad oes unrhyw ddarpariaeth o'r Bil sy'n destun yr atgyfeiriad yn ymwneud â phwnc gwarchodedig;

b. pan fo’r Bil wedi ei atgyfeirio i’r Goruchaf Lys, a’r Llys wedi gwneud atgyfeiriad am wrandawiad rhagarweiniol yn Llys Cyfiawnder Ewrop, ond nid yw’r naill atgyfeiriad na’r llall wedi ei benderfynu na’i waredu;

c. pan fo’r Goruchaf Lys wedi penderfynu nad yw’r Bil, neu nad yw darpariaeth o’r Bil, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

d. pan fo’r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud gorchymyn o dan 114 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai’r Cynulliad ailystyried y Bil.

17.15 Yn y sefyllfa a ddisgrifir ym mharagraff 17.14(b), os yw’r Cynulliad yn penderfynu ei fod yn dymuno ailystyried y Bil, rhaid i’r Clerc hysbysu’r Cwnsler Cyffredinol a’r Twrnai Cyffredinol, a rhaid i’r person a wnaeth yr atgyfeiriad mewn perthynas â’r Bil ofyn am gael tynnu’r atgyfeiriad yn ôl.

17.16 Ym mhob achos, os yw’r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, bydd y Bil yn mynd ymlaen i’r Cyfnod Ailystyried. Cynhelir y Cyfnod hwnnw yn y Cyfarfod Llawn, ac mae’n Gyfnod diwygio.

17.17 Ni cheir cyflwyno unrhyw welliannau i’r Bil ac eithrio’r rheini sydd, yn ogystal â bodloni’r rheolau derbyniadwyedd arferol – gweler paragraffau 15.74 ac 15.75 uchod – at y diben o ddatrys y mater dan sylw. Y mater dan sylw yw’r rheswm pam nad yw’r Bil wedi mynd ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol.

17.18 Unwaith y bydd y Cynulliad wedi delio â’r gwelliannau, caiff unrhyw Aelod gynnig wedyn fod y Cynulliad yn cymeradwyo’r Bil fel y’i diwygiwyd. Sylwer mai cymeradwyo’r Bil, yn hytrach na phasio’r Bil, y tro hwn.

17.19 Ni ellir cynnig cynnig bod Bil a ailystyriwyd yn cael ei gymeradwyo hyd nes y bydd y Llywydd wedi dweud a oes unrhyw ddarpariaeth o'r Bil sy'n ymwneud â phwnc gwarchodedig ai peidio. Mae pleidlais i gymeradwyo Bil wedi iddo gael ei ailystyried yn ddarostynedig i'r un rheolau â'r rheini i basio Bil yng Nghyfnod 4, gweler paragraffau 15.210 - 15.216 ym Mhennod 15 uchod.

17.20 Os cymeradwyir y Bil, bydd yn mynd i mewn wedyn i gyfnod hysbysu pellach (pan y gellid gwneud atgyfeiriad neu ymyriad pellach) cyn y Cydsyniad Brenhinol. Os na chymeradwyir y Bil, bydd y Bil yn methu.

17.21 Ar ôl ei ailystyried, gallai’r Bil fod yn agored i’w herio’n gyfreithiol drachefn, ac nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y ceir ailystyried Bil ar ôl ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

17.22 Pan fydd y Cynulliad wedi cytuno ar destun terfynol y Bil, a'r cyfnod hysbysu wedi dod i ben, anfonir y Bil am Gydsyniad Brenhinol (a phan ddigwydd hynny bydd y Bil yn dod yn Ddeddf).

Paratoi'r Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol

17.23 Bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth yng Nghomisiwn y Cynulliad yn paratoi 'fersiwn Cydsyniad Brenhinol' o'r Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hwn yn cynnwys yr holl welliannau i'r Bil y cytunwyd arnynt, yr ailrifo perthnasol ar gyfer yr adrannau a'r Atodlenni, ac unrhyw newidiadau argraffu.

17.24 Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn paratoi'r Breinlythyrau (y ddogfen a lofnodir â llaw Ei Mawrhydi ei hun) ac yn eu hanfon i'r Swyddfa Ddeddfwriaeth, fel arfer yn ystod trydedd wythnos y cyfnod hysbysu.

17.25 Bydd y Swyddfa Ddeddfwriaeth wedyn yn trosglwyddo'r Bil a'r Breinlythyrau yn Gymraeg ac yn Saesneg at Brif Ysgrifennydd Preifat Ei Mawrhydi. Ar yr un pryd, anfonir copi ardystiedig o'r argraffiad swyddogol o'r Ddeddf i'r Archifau Gwladol, a rhoddir gwybod iddynt ar ba ddyddiad y disgwylir cael y Cydsyniad Brenhinol. Hysbysir Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd o'r dyddiad yr anfonwyd y Breinlythyrau. Bydd yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol yn gwirio'r testun Cymraeg os oes angen.

Y Sêl Gymreig

17.26 Unwaith y bydd y Breinlythyrau wedi'u llofnodi a'r fersiwn Cydsyniad Brenhinol o'r Bil wedi eu dychwelyd, bydd y Prif Weinidog yn rhoi'r Sêl Gymreig ar y Breinlythyrau. Pan hysbysir y Cynulliad gan Glerc y Cynulliad fod y Sêl Gymreig wedi ei rhoi ar y Breinlythyrau, bydd y Bil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol, a bydd yn Ddeddf Cynulliad.

17.27 Caiff y Ddeddf a'r Breinlythyrau eu hanfon i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, lle byddant yn cael eu cadw ac ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn unol ag adran 115(5F) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

17.28 Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn trefnu i'r Breinlythyrau gael eu cyhoeddi yn yr Edinburgh Gazette, y London Gazette a'r Belfast Gazette – i roi gwybod i'r cyhoedd am y Ddeddf newydd. Bydd y Clerc yn hysbysu'r Cynulliad fod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, drwy osod Datganiad Ysgrifenedig. Fel arfer, bydd y Llywydd yn gwneud cyhoeddiad byr ynghylch hyn yn y Cyfarfod Llawn nesaf.

17.29 Bydd yr Archifau Gwladol yn cyhoeddi'r Ddeddf a'r Nodiadau Esboniadol (gweler isod) ar www.legislation.gov.uk lle y bydd ar gael yn

ei ffurf derfynol, ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol a wneir iddynt yn hwyrach gan ddeddfwriaeth.

### Nodiadau Esboniadol

17.30 Fel y nodwyd ym Mhennod 9, bydd angen i’r fersiwn derfynol o’r Nodiadau Esboniadol gael ei pharatoi gan dîm y Bil, yn barod ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol, a’i chyhoeddi gan yr Archifau Gwladol. Mae hwn, fel arfer, yn weithgarwch allweddol i’r tîm yn ystod y cyfnod hysbysu.

### Diddymu’r Cynulliad

17.31 Gall Bil sydd wedi ei basio gan y Cynulliad, ac nas heriwyd ar sail cymhwysedd, gael Cydsyniad Brenhinol ar ôl diddymu’r Cynulliad.

17.32 Bryd hynny, swyddogaeth y Llywydd, nid y Cynulliad, fydd anfon y Bil ymlaen am Gydsyniad Brenhinol, ac i’r Clerc y bydd hysbysiad o Gydsyniad Brenhinol yn cael ei roi (adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Felly, os yw Bil yn cael ei basio yn union cyn diddymu’r Cynulliad, caiff y Llywydd ei anfon ymlaen am Gydsyniad Brenhinol ar unrhyw adeg wedi hynny (yn ddarostyngedig, wrth gwrs, i’r cyfyngiadau o ran yr amserlen yn adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

### Atgyfeiriadau at y Goruchaf Lys

17.33 Pan ddyfernir bod Bil o fewn cymhwysedd, neu pan fydd y Goruchaf Lys wedi penderfynu ynghylch atgyfeiriad a wnaed o dan adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw ddarpariaeth o'r Bil sy'n ymwneud â phwnc gwarchodedig, neu pan dynnir ei atgyfeiriad yn ôl, yna, cyhyd â bod y Bil wedi ei basio gan y Cynulliad y cyflwynwyd y Bil ynddo, gellir cael Cydsyniad Brenhinol i’r Bil ar unrhyw adeg wedi hynny (yn ddarostyngedig i’r cyfyngiadau yn adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). O dan Reol Sefydlog 26.77, dim ond os yw heb ei basio neu heb ei gymeradwyo pan ddiddymir y Cynulliad y mae Bil yn methu. Mater i’r Llywydd wedyn fydd anfon y Bil ymlaen am Gydsyniad Brenhinol a'r Clerc fydd yn derbyn yr hysbysiad bod y Cydsyniad Brenhinol wedi ei roi, fel y disgrifir uchod.

17.34 Os yw’n ofynnol ailystyried Bil, mae Rheol Sefydlog 26.77 yn datgan bod Bil yn methu os bydd heb ei basio neu heb ei gymeradwyo erbyn diwedd y Cynulliad y’i cyflwynwyd ynddo.

# Pennod 18 – Cychwyn

**Unwaith y bydd Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, ac wedi dod yn Ddeddf Cynulliad, gellir ei gychwyn. Mae'r Bennod hon yn darparu canllawiau ar y confensiynau sy'n gysylltiedig â chychwyn, ac ar sut y gellir cychwyn Deddf.**

18.1 Mae cychwyn yn rhan o'r broses o weithredu Deddf, ac mae'n hanfodol ystyried y rhaglen gyflawni wrth ddechrau datblygu prosiect y Bil. Bydd yr amserlenni a'r trefniadau gweithredu yn effeithio ar faterion eraill: y cyfarwyddiadau i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfer paratoi'r Bil; y cynlluniau ar gyfer gwerthuso'r prosiect, a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol; y ffordd y bydd yr is-ddeddfwriaeth a'r Datganiadau o Fwriad y Polisi yn cael eu datblygu; a'r ffordd y bydd y strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith. Mae'n hollbwysig, felly, fod tîm y Bil yn parhau i ystyried cychwyn a gweithredu'r Bil, a'r canllawiau yn y Bennod hon, drwy gydol oes a datblygiad y Bil ac yn ystod ystyriaeth y Cynulliad ohono – yn hytrach nag aros hyd nes bydd y Cynulliad wedi pasio'r Bil cyn rhoi sylw i'r materion hynny.

## Confensiynau sy'n gysylltiedig â chychwyn y Bil

18.2 Mae rheolaeth y gyfraith yn ddibynnol ar i'r gyfraith fod yn deg a phendant. Dylai fod gan unrhyw berson y mae cyfraith yn effeithio arno fynediad at y gyfraith honno, er mwyn gwybod beth yw'r gyfraith a chael cyfle i addasu ei ymddygiad i gydymffurfio â hi.

18.3 Mae rhagdybiaeth y bydd pob deddfwriaeth yn cael effaith ragolygol – hynny yw, y bydd yn newid y gyfraith mewn perthynas â digwyddiadau sy'n digwydd ar y diwrnod y daw'r ddeddfwriaeth i rym ac wedi hynny.

## Cychwyn Deddf

18.4 Wrth gyfarwyddo Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil, bydd angen i dîm y Bil ddarparu cyfarwyddiadau ynghylch cychwyn. Dylai'r cyfarwyddiadau esbonio'r cynlluniau ar gyfer gweithredu, a sut y bwriedir symud ymaith o'r system bresennol i'r drefn newydd. Bydd angen i'r cyfarwyddiadau nodi unrhyw ddarpariaethau sydd i'w cychwyn yn gynharach na dau fis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, neu sydd i gael effaith ôl-weithredol.

18.5 Bydd yr adran gychwyn yn y Ddeddf yn egluro sut y bydd y Ddeddf (neu ddarpariaethau sydd ynddi) yn cychwyn. Mae enghreifftiau i'w gweld isod –

a. ar unwaith pan fydd y Ddeddf yn cael ei gwneud (h.y. wrth iddi gael Cydsyniad Brenhinol);

b. ar adeg benodol yn y dyfodol (h.y. rhagnodir y dyddiad ar wyneb y Ddeddf);

c. gydag effaith ôl-weithredol (h.y. o ddyddiad yn y gorffennol);

d. dim ond os a phryd fydd rhywbeth yn digwydd yn y dyfodol, megis gwneud gorchymyn cychwyn.

### Gorchmynion cychwyn

18.6 Gorchymyn sy'n arfer pŵer i bennu'r diwrnod y bydd Ddeddf, neu ran o Ddeddf, yn dod i rym yw gorchymyn cychwyn. Mae pwerau o'r fath yn cael eu harfer mewn gorchymyn unigol neu gyfres o orchmynion, ac nid mewn offeryn statudol sy'n ymdrin â materion eraill.

18.7 Bydd y pwerau galluogi (sydd yn y Ddeddf) weithiau yn caniatáu ar gyfer cynnwys materion trosiannol, darfodol, arbed, canlyniadol, cysylltiedig ac atodol (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel materion ategol). Esbonnir y termau hyn fel a ganlyn:

a. trosiannol – darpariaeth ynghylch symud o un sefyllfa i sefyllfa arall, e.e. ynghylch pa bryd a sut y bydd y gyfraith newydd yn gymwys i amgylchiadau presennol;

b. darfodol – darpariaeth y bwriedir iddi fod yn gymwys dros dro yn unig, e.e. hyd nes daw darpariaethau newydd i rym yn llawn;

c. arbed – darpariaeth i gadw effeithiau pethau a wnaed o dan yr hen gyfraith, unwaith y bydd y gyfraith newydd wedi dod i rym;

d. canlyniadol – darpariaeth sy'n ganlyniad i'r prif ddarpariaethau;

e. cysylltiedig – darpariaeth sy'n agwedd fach o'r prif ddarpariaethau, neu sy'n gysylltiedig â hwy;

f. atodol – darpariaeth sy'n ychwanegu rhywbeth at y prif ddarpariaethau er mwyn rhoi rhagor o fanylion.

18.8 Bydd angen i'r tîm sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi un neu ragor o orchmynion cychwyn yn y modd arferol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Dylid gofyn am gyngor, yn y lle cyntaf, gan y cyfreithiwr pwnc perthnasol.

### Ystyriaeth o'r darpariaethau cychwyn gan y Cynulliad

18.9 Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod darpariaethau mewn Biliau i wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn gorchmynion cychwyn yn ymarfer arferol. Pan fo unrhyw bwerau yn cynnwys gwneud darpariaeth ganlyniadol, atodol neu gysylltiedig mewn gorchmynion

cychwyn, esbonnir y rheini yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil (h.y. ym Mhennod 5 y ddogfen honno).

# Pennod 19 – Biliau Anllywodraethol

**Y Llywodraeth sy'n cyflwyno'r rhan fwyaf o Filiau i'r Cynulliad, ond caiff Aelod Cynulliad unigol, Comisiwn y Cynulliad neu Bwyllgor Cynulliad hefyd gyflwyno Bil. Mae'r Bennod hon yn darparu canllawiau ar Filiau Aelodau, y Comisiwn a Phwyllgor.**

## Biliau Anllywodraethol: Y Cyfnodau Cyflwyno a Diwygio

19.1 Biliau anllywodraethol yw'r Biliau sy'n cael eu cynnig gan Aelod Cynulliad (AC), Pwyllgor Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad. Gall AC unigol geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil (a elwir yn 'ganiatâd i gyflwyno') os yw'n llwyddiannus mewn balot a gynhelir gan y Llywydd. Gall Bil Pwyllgor neu Fil Comisiwn gael ei gyflwyno gan Aelod sydd wedi'i awdurdodi gan y Pwyllgor perthnasol neu'r Comisiwn (er, o dan y Rheolau Sefydlog mae cylch gorchwyl y Comisiwn o ran hyn wedi'i gyfyngu i swyddogaethau'r Comisiwn).

19.2 Dydy'r cyfle i Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth ddim yn rhywbeth sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o ddeddfwrfeydd. Fodd bynnag, mae biliau anllywodraethol wedi bod yn fwy tebygol o ddod yn gyfraith yn y Cynulliad na mewn nifer o ddeddfwrfeydd eraill.

19.3 Mae gan hyn oblygiadau pwysig i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru, yn sgil cyfrifoldeb cyffredinol y Llywodraeth dros reolaeth y gyfraith. Y Llywodraeth sy'n bennaf gyfrifol am y llyfr statud, felly rhaid iddi geisio sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth (boed y Llywodraeth yn cytuno â'i effaith neu beidio) yn dechnegol gadarn ac ymarferol.

## Biliau Aelod

### Balot y Llywydd

19.4 Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan "*O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod*".

19.5 Rhaid i'r balot gynnwys enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol cyn cynnal balot (gweler isod).

19.6 Cynhelir y balot yn ôl disgresiwn y Llywydd. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad y tueddiad oedd ei gynnal unwaith y tymor (h.y. deirgwaith ym mhob blwyddyn ddeddfwriaethol), ac yn y Pumed Cynulliad, cynhaliwyd

balot tua unwaith ym mhob blwyddyn ddeddfwriaethol. Bydd canlyniad y balot yn cael ei gyhoeddi gan y Llywydd yn y Cyfarfod Llawn a'i roi ar wefan y Cynulliad.

19.7 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn monitro proses y balot, ac yn cysylltu â'r Grŵp polisi a'r tîm perthnasol yn Gwasanaethau Cyfreithiol pan ddewisir enw'r Aelod.

## Gwybodaeth cyn y balot

19.8 Rhaid i unrhyw Aelod Cynulliad nad yw'n aelod o Lywodraeth Cymru, ac nad yw wedi'i ddewis mewn balot yn ystod y Cynulliad, ond sy'n dymuno cyflwyno Bil yn y Cynulliad, yn gyntaf oll wneud cynnig am Fil i'w gynnwys mewn balot.

19.9 Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol bod Aelodau sy'n dymuno cael eu cynnwys yn y balot yn darparu gwybodaeth benodol cyn y balot, sef:

a. enw arfaethedig y Bil;
b. amcanion polisi arfaethedig y Bil.

19.10 Cyhoeddir yr holl 'wybodaeth cyn y balot' a gyflwynwyd mewn rhestr ar wefan y Cynulliad. Un cynnig yn unig y caiff Aelod ei wneud ar gyfer unrhyw falot, ond gall wneud gwahanol gynigion ar gyfer gwahanol falotau.

19.11 Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn gwahardd Biliau Aelod rhag ceisio diwygio trethi presennol neu gyflwyno trethi newydd.

## Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil

19.12 Caiff Aelod sy'n llwyddiannus mewn balot gyflwyno cynnig (o fewn 25 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot) yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil.

19.13 Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i'r cynnig gael ei gyflwyno ynghyd â Memorandwm Esboniadol. Nid yw hwn gyfystyr â Memorandwm Esboniadol a osodir wrth gyflwyno Bil. Yn hytrach, mae angen cryn dipyn yn llai o fanylion, gan mai'r unig beth sydd angen ei nodi yw:

a. enw arfaethedig y Bil;
b. amcanion polisi arfaethedig y Bil;
c. manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgyngoriadau;
d. asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

19.14 Rhaid i'r amcanion polisi a'r enw arfaethedig a nodir fod yn gyson, yn fras, â'r rhai a ddarparwyd yn yr wybodaeth cyn y balot. Dylai’r Aelod esbonio’r rhesymau am unrhyw newidiadau yn y Memorandwm Esboniadol.

19.15 Mae’r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid trefnu bod amser ar gael i gynnig o’r fath fod yn destun dadl o fewn 35 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif y diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn eistedd). Diben y ddadl yw rhoi cyfle i’r Aelod gyflwyno’r achos o blaid y Bil a darbwyllo Aelodau eraill i gefnogi’r cynnig. [34]

19.16 Yna cynigir y cynnig: os nad oes gwrthwynebiadau i’r cynnig caiff ei gytuno heb bleidlais; os oes gwrthwynebiadau, bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar y cynnig:

a. bydd mwyafrif syml yn penderfynu a gaiff y cynnig ei gytuno ai peidio. Os caiff ei gytuno rhoddir caniatâd i gyflwyno’r Bil yn ffurfiol (yn ei bryd, gweler isod); os na chaiff y cynnig ei gytuno, ni roddir caniatâd ac ni chaiff y Bil ei gyflwyno;

b. os bydd nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn y cynnig yn gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei phleidlais fwrw. Mewn achos o’r math hwn bydd yn rhoi ei phleidlais fwrw yn gadarnhaol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(i)). Golyga hynny y bydd y cynnig wedi ei gytuno a rhoddir caniatâd i gyflwyno’r Bil yn ffurfiol (yn ei bryd).

19.17 Nid yw cytuno ar y cynnig yn golygu y caiff y Bil ei gyflwyno ar unwaith. Fodd bynnag, mae’r Rheolau Sefydlog yn darparu bod rhaid i’r Aelod gyflwyno’r Bil o fewn 13 mis o gael caniatâd; neu, fel arall, bydd y cyfle i ddatblygu’r Bil yn methu.

19.18 Sylwch hefyd fod y Rheolau Sefydlog yn gwahardd unrhyw Aelod rhag ailgyflwyno cynnig ag amcanion polisi cyffelyb o fewn 6 mis i fethu â chael cytundeb ar gyfer y cynnig gwreiddiol.

## Ymateb y Llywodraeth i’r balot

19.19 Fel y nodwyd uchod, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rhoi gwybod i’r Grŵp polisi perthnasol pan fydd Aelod wedi ei ddewis yn y balot, fel y gall swyddogion polisi a chyfreithwyr ddarparu cyngor i’r Gweinidog portffolio perthnasol ynglŷn â’r amcanion polisi a bennir yn y Memorandwm Esboniadol. Mae hyn

[34] Dylid nodi bod hefyd gyfleoedd ar wahân i ACau gyflwyno cynnig am ddadl ar gynnig deddfwriaethol yn ystod Busnes y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Yn wahanol i drafodaethau sy'n dilyn balot Bil Aelodau, nid yw'r trafodaethau hynny'n rhoi caniatâd i AC gyflwyno Bil ac nid yw'r Llywodraeth yn cael ei rhwymo gan unrhyw gynigion y bydd y Cynulliad yn cytuno arnynt.

yn cynnwys asesu manteision bob cynnig o safbwynt polisi, gwleidyddol ac ariannol. Rhaid darparu cyngor i'r Cabinet cyn y ddadl caniatâd i gyflwyno, er mwyn i'r llywodraeth benderfynu a yw am gefnogi'r Bil ai peidio.

19.20 Yn dilyn balot, a chyn ystyriaeth y Cabinet cyn y ddadl caniatâd i gyflwyno, argymhellir y dylai'r Gweinidog portffolio perthnasol (gyda chymorth swyddogion) gyfarfod yr Aelod llwyddiannus yn y balot. Mae hyn er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Bil arfaethedig ac i ddeall yn well beth yw bwriad y polisi, ac fe fydd yn helpu'r Cabinet i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y Bil.

19.21 Mae'n hollbwysig bod swyddogion polisi a chyfreithwyr yn dod i gysylltiad â'i gilydd yn ddiymdroi, ac yn trafod pob agwedd, er mwyn rhoi cyngor i'r Gweinidog yn y cyfnod yn union cyn trafodaeth y Cabinet a'r ddadl sy'n ceisio caniatâd i gyflwyno, fel bod goblygiadau allweddol parhau â'r Bil Aelod yn gwbl glir cyn i'r ddadl honno gael ei chynnal. Ymhlith materion eraill, bydd angen i'r Gweinidog gael cyngor ynghylch:

a. a yw'r cynnig yn gydnaws ai peidio â pholisi presennol y Llywodraeth;

b. unrhyw bryderon clir ynghylch a fyddai'r cynnig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, os oes modd gwybod hynny drwy'r wybodaeth a ddarparwyd;

c. goblygiadau ariannol y newid deddfwriaethol, i'r graddau y gellir eu casglu o'r wybodaeth a ddarparwyd;

d. yr effaith ar y Llywodraeth pe bai'r Bil yn mynd ymlaen i gael ei gyflwyno a'i ystyried gan y Cynulliad – bydd yr effeithiau perthnasol yn cynnwys adnoddau staff ar gyfer datblygu polisi, asesiadau ariannol, dadansoddiad cyfreithiol, drafftio unrhyw welliannau gan y Llywodraeth,[35] a chyfieithu, yn ogystal â chefnogi'r Gweinidog yn ystod proses yr ystyriaeth gan y Cynulliad. Mae profiad yn dangos bod galw am gryn dipyn o waith gan y swyddogion pan fo Bil Aelod yn mynd yn ei flaen, a dylid asesu hynny fel rhan o'r cyngor a roddir i'r Gweinidog;

e. yr effaith ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ei hun – bydd yr effeithiau perthnasol yn cynnwys y posibilrwydd y bydd adnoddau drafftio a chyfieithu yn cael eu tynnu oddi ar waith ar Filiau'r Llywodraeth, oedi posibl cyn cyflwyno Biliau'r Llywodraeth, a'r effaith bosibl ar yr amserlen ar gyfer yr ystyriaeth o Filiau'r Llywodraeth gan y Cynulliad:

[35] Comisiwn y Cynulliad sy'n paratoi'r Bil ar gyfer yr Aelod, ac nid Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, ond bydd angen cryn dipyn o waith unwaith y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno i asesu a ddylai'r Llywodraeth wneud cynigion i ddiwygio'r Bil ai peidio, ac i baratoi unrhyw welliannau'r Llywodraeth.

f. y tebygrwydd y byddai'r cynnig yn llwyddiannus pe bai'n cael ei gyflwyno.

19.22 Rhaid i'r Cabinet benderfynu a yw am gefnogi'r Bil neu ei wrthwynebu. Dylai aros yn ddi-duedd ond fod yn opsiwn os yw'r Bil yn ymwneud â mater o gydwybod.

19.23 Pe bai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi Bil, byddai goblygiadau o ran adnoddau a allai effeithio ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ei hun. Byddai angen ymrwymo arbenigedd polisi, cyfreithiol, drafftio a dadansoddiad ariannol i'r Bil. Byddai angen darparu'r un math o gymorth â'r hyn fyddai'n cael ei ddarparu i Weinidogion ar gyfer Bil Llywodraeth.

19.24 Yng ngoleuni cyfrifoldeb cyffredinol y Llywodraeth dros y Llyfr Statud a rheolaeth y gyfraith yn ehangach, byddai angen ymrwymo mwy neu lai yr un adnoddau hefyd pe bai siawns resymol, er gwaethaf gwrthwynebiad y Llywodraeth i'r Bil, iddo ddod yn gyfraith.

19.25 Wrth ymwneud ag unrhyw Fil anllywodraethol sy'n debygol o ddod yn gyfraith, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau'r canlynol o leiaf:

a. bod yr amcan polisi yn ddealladwy a bod y Bil yn rhoi effaith i hynny,
b. bod y Bil o fewn cymhwysedd ac yn gyson â rheolaeth y gyfraith,
c. bod y Bil wedi'i ddrafftio'n glir,
d. bod y goblygiadau ariannol a'r effaith rheoleiddiol yn ddealladwy.

19.26 Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant roi mwy o gyngor ar natur cefnogaeth y Llywodraeth, y goblygiadau o ran adnoddau, a sicrhau penderfyniad y Cabinet.

19.27 Bydd disgwyl i'r Gweinidog y mae polisi'r Bil o fewn ei bortffolio gymryd rhan yn y ddadl i geisio caniatâd i gyflwyno, fel bod safbwynt y Llywodraeth ar y Bil arfaethedig yn cael ei egluro i'r Cynulliad. Unwaith eto, bydd angen darparu cyngor a llinellau annerch i'r Gweinidog cyn y ddadl hon.

## Datblygu'r Bil

19.28 Os bydd Aelod yn cael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod, cyn cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad, efallai y bydd yr Aelod Cyfrifol am ymgynghori â rhanddeiliaid posibl. Er nad yw'n ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog fod Aelod yn ymgynghori ar gynnig deddfwriaethol, mae disgwyl y byddai'r Aelod yn debygol o ymgynghori ar Fil Drafft yn ystod y cyfnod o 13 mis ar ôl cael caniatad i gyflwyno a chyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol. Nid yw'n

ofynnol cynnal unrhyw ymgynghoriad yn y dull arferol a ddefnyddir gan y Llywodraeth.

19.29 Fel rheol, bydd Comisiwn y Cynulliad yn trefnu i'r Bil gael ei ddrafftio ar gyfer yr Aelod, yn hytrach na bod Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn ei ddrafftio. O ganlyniad, mae'n bosibl mai'r tro cyntaf i'r Llywodraeth weld y Bil fydd pan gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad.

Bydd rhaid i'r Aelod Cyfrifol hefyd baratoi Memorandwm Esboniadol, a fydd yn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6, er mwyn cyflwyno'r Bil. Nid yw'n ofynnol bod yr Aelod yn defnyddio'r un templed â hwnnw a ddefnyddir gan y Llywodraeth, ac ni fydd yn ofynnol ychwaith ei fod yn rhannu drafftiau o'r Memorandwm Esboniadol gyda'r Llywodraeth. Gellid gofyn i swyddogion ddarparu gwybodaeth am gostau, neu wybodaeth i helpu i ddatblygu'r Memorandwm Esboniadol. Bydd ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud drwy Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, a fydd wedyn yn cysylltu â'r Grŵp polisi. Dylid trin ceisiadau am wybodaeth yn yr un modd â cheisiadau am wybodaeth gan Aelodau Cynulliad neu eu staff cymorth.

19.30 Bydd lefel yr ymwneud â'r Llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn yn amrywio o Fil i Fil, gan ddibynnu ar ba un a yw'r Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig polisi ai peidio.

19.31 Unwaith y bydd fersiynau terfynol o'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol (yn Gymraeg ac yn Saesneg) wedi eu drafftio, bydd yr Aelod yn eu hanfon at y Llywydd ar gyfer ei phenderfyniad (yn yr un modd ag ar gyfer Bil Llywodraeth).

### Cyflwyno'r Bil

19.32 Fel yn achos Biliau'r Llywodraeth, cyflwynir Bil Aelod yn ffurfiol i'r Cynulliad drwy ei osod, ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig, yn Swyddfa Gyflwyno'r Cynulliad.

19.33 Yn fuan ar ôl ei gyflwyno, bydd yr Aelod Cyfrifol yn gwneud datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar brif nodau ac amcanion y Bil. Bydd hyn yn digwydd yn ystod amser Cynulliad (h.y. ar ddydd Mercher). Yn ystod yr amser a neilltuir i'r datganiad, gall Aelodau Cynulliad eraill ofyn cwestiynau i'r Aelod Cyfrifol ynglŷn â'r Bil, neu godi eu materion eu hunain ynghylch ei gynnwys, ei nodau a'i amcanion.

19.34 Disgwylir y bydd y Gweinidog hefyd yn gofyn cwestiwn, neu'n codi mater gyda'r Aelod Cyfrifol. Bydd angen, felly, i swyddogion ddarparu cyngor a llinellau annerch ar gyfer y ddadl hon. Mae'n debygol mai ychydig iawn o amser yn unig a gaiff y Gweinidog i siarad, 2 neu 3 munud efallai, ac felly dylai ei ymateb fod yn gryno. Mae'n bwysig cofio hefyd nad dadl yw hon, ond datganiad gan Aelod – dylai ymyriad y Gweinidog, felly, arwain at ofyn cwestiwn neu ddau i'r Aelod, yn hytrach

na dim ond datgan beth yw safbwynt y Llywodraeth (sef y dull a ddilynir pe bai'r achlysur yn ddadl).

19.35 Mae'n bwysig nodi efallai mai'r adeg y cyflwynir y Bil, a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, fydd y tro cyntaf y caiff y Llywodraeth weld y dogfennau hyn. Os felly, dylai swyddogion polisi a Gwasanaethau Cyfreithiol fod wrth law yn barod i ddadansoddi'r Bil yn gyflym unwaith y bydd ar gael, fel y gellir darparu cyngor i'r Gweinidog cyn i'r Aelod draddodi ei ddatganiad deddfwriaethol.

### Ystyriaeth o'r Bil gan y Cynulliad

19.36 Unwaith y bydd wedi ei gyflwyno, bydd Bil Aelod yn ddarostyngedig i'r un broses ddeddfwriaethol bedwar cyfnod yn y Cynulliad â Bil Llywodraeth (fel a ddisgrifir ym Mhennod 15).

19.37 Felly, bydd Bil fel arfer yn cael ei atgyfeirio i'w ystyried gan Bwyllgor Cyfrifol yn ystod Cyfnod 1. Fel arfer bydd ystyriaeth yn ystod y cyfnod hwnnw yn cymryd tua 10-12 o wythnosau eistedd, a gwahoddir yr Aelod Cyfrifol a rhanddeiliaid eraill i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Gwahoddir y Gweinidog hefyd i roi tystiolaeth. Bydd angen i swyddogion ddarparu cyngor ar gyfer hyn ac mae'n debygol y bydd gofyn iddynt fod yn bresennol yn y Pwyllgor i gefnogi'r Gweinidog.

19.38 Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n hanfodol eto fod swyddogion polisi a chyfreithwyr yn cyfrannu'n llawn i'r gwaith o werthuso'r Bil a datblygu'r cyngor a roddir i'r Gweinidog, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch beth fydd effaith y cynigion deddfwriaethol, yn ogystal â'r goblygiadau os bydd y Bil yn mynd ymlaen y tu hwnt i Gyfnod 1 o'r ystyriaeth gan y Cynulliad.

19.39 Bydd y Pwyllgor Cyfrifol yn adrodd ar y Bil wrth y Cynulliad cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod 1. Bydd disgwyl i'r Gweinidog siarad yn y ddadl hon, i ddatgan a fydd y Llywodraeth yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil (ac os bydd, i amlinellu o bosibl hefyd y meysydd lle y gallai'r Llywodraeth geisio gwneud gwelliannau yng Nghyfnodau 2 neu 3).

19.40 Cwblheir Cyfnod 1 pan fydd y Cynulliad yn pleidleisio ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd y Bil yn mynd yn ei flaen i Gyfnod 2. Os na fydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd y Bil yn methu ac ni ellir cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r Bil. Os bydd nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yng Nghyfnod 1 yn gyfartal, bydd y Llywydd yn rhoi ei phleidlais fwrw yn gadarnhaol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(i)). Golyga hynny fod y cynnig wedi ei gytuno a bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2.

19.41 Rhaid i bob Bil sy'n arwain at godi refeniw, neu sy'n golygu bod galw newydd neu fwy o alw am gyllid, gael cydsyniad y Cynulliad ar ffurf Penderfyniad Ariannol cyn y caiff y Bil fynd ymlaen y tu hwnt i Gyfnod 1. Mater i'r Llwydd yw penderfynu a oes angen Penderfyniad Ariannol ai peidio.

19.42 Er mai mater i'r Cynulliad cyfan drwy bleidlais yw caniatáu codi refeniw neu ddefnyddio adnoddau, y Llywodraeth sy'n derbyn canlyniadau ariannol unrhyw Fil. Y Llywodraeth sy'n gyfrifol am reoli arian cyhoeddus, a rhaid iddi felly gael rheolaeth dros godi refeniw a ddefnyddio adnoddau yn y meysydd datganoledig. Gan hynny, dim ond aelod o'r Llywodraeth gaiff gynnig cynnig Penderfyniad Ariannol, beth bynnag y bo tarddiad y Bil.

19.43 Fel yn achos Biliau arfaethedig y Llywodraeth, mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan y bydd Bil yn methu os na fydd y Penderfyniad Ariannol wedi ei sicrhau o fewn chwe mis ar ôl cwblhau Cyfnod 1. Felly os na fydd y Llywodraeth yn datblygu Penderfyniad Ariannol, bydd y Bil yn methu.

19.44 Rhaid i'r Prif Weinidog gytuno ar unrhyw benderfyniad i gynnig, neu i beidio â chynnig Penderfyniad Ariannol ar gyfer Bil anllywodraethol.

19.45 Yn ddarostyngedig i gytundeb ar Benderfyniad Ariannol (os yw'n ofynnol), bydd y Bil yn mynd ymlaen wedyn i Gyfnod 2. Gan fod hwnnw'n gyfnod diwygio, efallai y bydd y Llywodraeth yn dymuno cyflwyno gwelliannau i'r Bil.

19.46 Bydd angen bod rhain wedi cael eu paratoi gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfarwyddyd tîm y Bil. Rhoddir gwybodaeth ym Mhennod 15 ynghylch sut i ymdrin â Chyfnod 2, gan gynnwys paratoi, cyflwyno a rheoli gwelliannau.

19.47 Bydd y Gweinidog yn cael ei wahodd i drafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor, i gyflwyno safbwynt y Llywodraeth am welliannau arfaethedig i'r Bil.

19.48 Os mai Gweinidog sydd â'r gwelliant arweiniol yn y grŵp, bydd yn cael ei wahodd i siarad yn gyntaf. Gwahoddir yr Aelodau i siarad wedyn, gwahoddir yr Aelod Cyfrifol i ymateb, ac yna bydd y Gweinidog yn cau'r trafodaethau. Os mai Aelod Cyfrifol sydd â'r gwelliant arweiniol yn y grŵp, bydd yn cael ei wahodd i siarad yn gyntaf, ac yna bydd gwahoddiad i'r Aelodau eraill siarad. Y Gweinidog fydd y siaradwr olaf ond un, a'r Aelod Cyfrifol fydd yn cloi'r drafodaeth. Os mai Aelod yn hytrach na'r Gweinidog neu'r Aelod Cyfrifol sydd â'r diwygiad arweiniol, bydd y Gweinidog yn siarad cyn yr Aelod Cyfrifol, a fydd yn siaradwr olaf ond un. Bydd y drafodaeth yn cael ei chloi gan yr Aelod â'r gwelliant arweiniol.

19.49 Ar ôl cwblhau'r trafodion Cyfnod 2, bydd gofyn i'r Aelod Cyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig (oni fydd y Pwyllgor yn

penderfynu fel arall). Bydd angen ei osod o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn i'r Cynulliad gyfarfod i ystyried trafodion Cyfnod 3.

19.50 Cyfnod 3 yw'r ail Gyfnod diwygio; caiff unrhyw Aelod gyflwyno diwygiad, a bydd pob Aelod Cynulliad yn ystyried y gwelliannau ac yn pleidleisio arnynt yn y Cyfarfod Llawn. Unwaith eto, gall y Llywodraeth ddewis cyflwyno gwelliannau i'r Bil, ac mae gwybodaeth am Gyfnod 3 i'w chael ym Mhennod 15. Bydd y drefn siarad yn dilyn yr un patrwm ag yng Nghyfnod 2.

19.51 Bydd Cyfnod 4, sef y cyfnod olaf ym mhroses ddeddfwriaethol y Cynulliad, yn cynnwys pleidlais o blaid neu'n erbyn pasio testun terfynol y Bil. Mae'r gofynion am bleidlais yng Nghyfnod 4 ar gyfer Bil Aelod yr un fath â'r rhai ar gyfer Bil Llywodraeth, fel y gwelir ym Mhennod 15.

19.52 Daeth yn arferiad i'r Aelod Cyfrifol roi datganiad byr ar y Bil yng Nghyfnod 4 i nodi diwedd ei hynt drwy brosesau deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'n debygol y bydd y Gweinidog hefyd yn dymuno cyfrannu'n gryno i'r datganiad Cyfnod 4 cyn iddo gael ei gloi gan yr Aelod Cyfrifol.

19.53 Os bydd y Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad, bydd y Bil yn mynd i mewn i'r cyfnod hysbysu (gweler Pennod 17). Yn ddarostyngedig i'r cyfnod hysbysu, bydd y Bil yn cael ei anfon wedyn am Gydsyniad Brenhinol, ac unwaith y bydd wedi ei gael bydd y Bil yn dod yn Ddeddf Cynulliad.

19.54 Sylwer hefyd, yn ystod y cyfnod hysbysu, y Llywodraeth (ac nid yr Aelod Cyfrifol) sy'n gyfrifol am ddiweddaru a diwygio'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i pasiwyd – gweler Pennod 9 am ragor o wybodaeth.

## Biliau Pwyllgor

19.55 O dan Reol Sefydlog 26.81, *"Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno Bil pwyllgor sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y pwyllgor".* Felly i wneud hyn, nid oes angen i Bwyllgor gael balot na chaniatâd i gyflwyno gan y Cynulliad.

19.56 Mae'r broses o baratoi, cyflwyno a chraffu ar Fil Pwyllgor fel arall yr un fath â'r broses ar gyfer Bil Aelod. Mae hyn yn cynnwys y gofynion am Benderfyniad Ariannol. Bydd yr Aelod Cyfrifol am Fil Pwyllgor yn aelod enwebedig o'r Pwyllgor hwnnw.

19.57 Mae'r broses ar gyfer penderfynu ar ymateb y Llywodraeth i Fil Pwyllgor hefyd yr un fath ag ar gyfer Bil Aelod.

19.58 Os bydd y Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad, bydd yn mynd ymlaen i'r cyfnod hysbysu cyn cael Cydsyniad Brenhinol.

## Biliau Comisiwn

19.59 O dan Reol Sefydlog 26.84, *"Caiff y Comisiwn gyflwyno Bil sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn".* Felly i wneud hyn, nid oes angen i'r Comisiwn gael balot na chaniatâd i gyflwyno gan y Cynulliad.

19.60 Mae'r broses o baratoi, cyflwyno a chraffu ar Fil Comisiwn fel arall yr un fath â'r broses ar gyfer Bil Aelod. Mae hyn yn cynnwys y gofynion am Benderfyniad Ariannol.

19.61 Mae'n bosibl y bydd Bil Comisiwn yn cyffwrdd ar un neu fwy o'r pynciau gwarchodedig a nodir yn Adran 111A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Os felly, bydd yn tanio'r gofyniad am basio uwch-fwyafrif (gweler Pennod 15 uchod, paragraffau 15.210-15.212 a 15.223). Mae hynny'n golygu na fydd y Bil yn pasio oni bai bod dwy ran o dair o gyfanswm nifer Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o'i blaid yng Nghyfnod 4 (ar hyn o bryd 40 allan o 60).

19.62 Os bydd y Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad, bydd yn mynd ymlaen i'r cyfnod hysbysu cyn cael Cydsyniad Brenhinol.

## Atodiad A: Rhestr o eiriau ac ymadroddion allweddol

***Adran***
Uned sylfaenol Deddf, a allai fod wedi ei rhannu yn is-adrannau, yna'n baragraffau ac yn is-baragraffau. Yn draddodiadol cyfeiriwyd at adrannau o Fil fel "cymalau" (a chyfeiriwyd atynt yn hwyrach fel adrannau ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu), ond nid dyma'r arfer cyffredinol bellach.

***Aelodau'r Cynulliad (ACau)***
Y 60 cynrychiolydd etholedig sy'n ffurfio'r Cynulliad

***Aelod Cyfrifol***
Fel arfer yr Aelod Cynulliad sydd wedi cyflwyno'r Bil ac sy'n arwain y Bil ar ei hynt. Gall yr Aelod Cyfrifol am Fil newid ar unrhyw adeg rhwng cyflwyno'r Bil a'i basio. Rhaid mai'r Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno'r Bil yw'r Aelod Cyfrifol am Fil Aelod adeg Cyflwyno.

***Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)***
Dadansoddiad o effaith debygol amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gweithredu newid polisi. Mae'n rhaid cynhyrchu hwn yn achos pob cynnig o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar fusnes, y sector cyhoeddus, elusennau neu'r sector gwirfoddol.

***Atodlen***
Yn gyffredinol, mae Atodlenni i Fil neu Ddeddf yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n ehangu ar gynnig cyffredinol a nodir mewn adran neu adrannau, neu fanylion mân ddiwygiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i Ddeddfau eraill o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil/Ddeddf. Maent i'w gweld ar ddiwedd y Bil/Ddeddf.

***Balot Aelodau ar gyfer Biliau Aelod***
Balot a all gael ei gynnal gan y Llywydd o bryd i'w gilydd er mwyn penderfynu ar enw Aelod Cynulliad (ar wahân i aelod o Lywodraeth Cymru) a gaiff cyflwyno Bil Aelod ar bwnc penodol.

***Bil***
Cynnig ar gyfer deddfwriaeth a gyflwynir yn swyddogol i'r Cynulliad (neu Senedd y DU). Mae'n rhaid i Fil Cynulliad gael ei basio gan y Cynulliad cyn iddo gael Cydsyniad Brenhinol a dod yn Ddeddf Cynulliad. Mae Biliau Cyhoeddus yn newid y gyfraith gyffredinol ac mae Biliau Preifat yn effeithio ar fuddiannau preifat.

***Bil Aelod***
Bil Cyhoeddus a gyflwynir gan Aelod Cynulliad nad yw'n aelod o'r Llywodraeth nac yn gweithredu fel Aelod Cyfrifol am Fil Comisiwn neu Bwyllgor.

***Bil Cydgrynhoi***
Mae Biliau Cydgrynhoi yn cyfuno amryw o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n bodoli ar yr un pwnc yn un Ddeddf heb wneud newidiadau sylweddol i'r gyfraith. Fe'u defnyddir i wella'r mynediad at ddeddfwriaeth drwy dacluso meysydd o gyfraith statud sydd o bosib wedi mynd yn ddarniog dros amser.

***Bil Cyhoeddus***
Bil a fwriedir i newid y gyfraith gyffredinol, h.y. Bil â'i effaith gyffredinol yn ymwneud â pholisi cyhoeddus.

***Bil Drafft***
Bil yr ymgynghorir arno cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad. Nid yw'r term hwn yn cyfeirio at Fil a gyflwynwyd i'r Cynulliad ond na chafodd ei basio.

***Bil Hybrid***
Bil a gymhwysir yn gyffredinol yn ogystal â chael effaith ar rai buddiannau preifat. Rheol Sefydlog 26B sy'n diffinio pa Filiau a fyddai'n cael eu hystyried fel Biliau Hybrid yn y Cynulliad ac mae'n nodi'r weithdrefn ar gyfer pasio Biliau o'r fath.

***Biliau Anllywodraethol***
Mae'r term cyffredinol hwn yn cyfeirio at Filiau Aelodau, Biliau'r Comisiwn, Biliau Pwyllgor a Biliau Preifat.

***Bil Preifat***
Bil a fyddai'n cael effaith leol neu bersonol yn unig, yn hytrach nag effaith gyffredinol. Hyrwyddir Biliau o'r fath gan unigolion neu sefydliadau sy'n ceisio pwerau penodol, sy'n aml yn rhai lleol. Mae gweithdrefnau arbennig yn llywodraethu Biliau Preifat er mwyn amddiffyn hawliau unigolion a grwpiau yr effeithir yn uniongyrchol ar eu buddiannau. Yn y Cynulliad nodir y weithdrefn hon yn Rheol Sefydlog 26A.

***Bil Pwyllgor***
Bil a gyflwynir gan Bwyllgor Cynulliad (nid aelod o'r Llywodraeth).

***Bil y Comisiwn***
Bil a gyflwynir gan Aelod Cynulliad yn ei gapasiti neu ei chapasiti fel Aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

***Breinlythyrau***
Offeryn cyfreithiol a gyhoedir o dan bwerau uchelfraint y Teyrn ("yr uchelfraint frenhinol"). Defnyddir breinlythyrau i roi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau'r Cynulliad (gweler hefyd y diffiniad o 'Y Sêl Gymreig').

***Busnes y Cynulliad***
Y term cynhwysol a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwaith a wneir gan Aelodau'r Cynulliad drwy Gyfarfodydd Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgorau.

***Cofnod y Trafodion***
Cofnod swyddogol o'r cyfarfodydd llawn sy'n cynnwys yr holl ddatganiadau, areithiau ac ymyriadau gan Aelodau'r Cynulliad a manylion unrhyw bleidleisiau a gynhaliwyd. Fe'i cyhoeddir o fewn 24 awr i ddiwedd y cyfarfod.

***Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y***
Cytundeb rhyngwladol i amddiffyn hawliau dynol a rhyddid sylfaenol yn Ewrop. Nodir hawliau a rhyddidau yn y Confensiwn. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU. Gweler hefyd y diffiniad o 'Hawliau'r Confensiwn'.

***Comisiwn y Cynulliad***
Y corff corfforaethol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar aelod arall a enwebir gan y prif bleidiau gwleidyddol. Mae aelodau staff y Comisiwn yn gyflogeion i'r Comisiwn ac yn cael eu harwain gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad.

***Craffu cyn y broses ddeddfu***
Ystyriaeth o ddeddfwriaeth ddrafft gan Bwyllgor Cynulliad cyn y broses ddeddfu ffurfiol.

***Cronfa Gyfunol Cymru***
Cronfa y telir arian cyhoeddus iddi a ddyrennir i Gymru gan Lywodraeth y DU, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ogystal ag unrhyw arian a dderbynnir o ffynonellau eraill.

***Cwmpas***
Rhychwant testun y Bil (nid yw diwygiadau i'r Bil sydd y tu allan i hwn yn dderbyniadwy).

***Cwnsler Cyffredinol***
Mae Adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer penodi Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru a fydd yn gweithredu fel ei phrif ymgynghorydd a chynrychiolydd cyfreithiol yn y llysoedd. Y Cwnsler Cyffredinol yw Swyddog Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Nid yw'r Cwnsler Cyffredinol yn Weinidog Cymru ond mae'n aelod o Lywodraeth Cymru. Nid oes angen i'r Cwnsler Cyffredinol fod yn Aelod Cynulliad.

***Cychwyn***
Rhoi effaith i ddeddfwriaeth. Yn absenoldeb darpariaeth gychwyn benodol, mae Deddf yn dod i rym o ddechrau'r diwrnod pan roddwyd Cydsyniad Brenhinol (ganol nos).

***Cydsyniad Brenhinol***
Cydsyniad Brenhinol yw cydsyniad y Teyrn i wneud Bil yn Ddeddf Cynulliad neu Ddeddf Senedd y DU. Rhoddir Cydsyniad Brenhinol gan y Teyrn drwy lofnodi Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad.

***Cydsyniad Dug Cernyw***
Cysyniad Dug Cernyw i'r Cynulliad fwrw ymlaen i basio deddfwriaeth a fyddai'n effeithio ar ei fuddiannau (gweler hefyd 'Cydsyniad y Frenhines').

***Cydsyniad y Frenhines a Chydsyniad Dug Cernyw***
Cytundeb gan y Frenhines y gall y Cynulliad basio deddfwriaeth a fyddai'n effeithio ar uchelfraint, refeniw etifeddol, eiddo personol neu fuddiannau'r

Goron, neu Ddugiaeth Caerhirfryn. Yn achos Dugiaeth Cernyw, mae'n ofynnol cael cytundeb Dug Cernyw. Gweler Penodau 12 a 15.

***Cyfansoddiad***
Cyfres o ddeddfau, rheolau, egwyddorion a gweithdrefnau sy'n nodi sut y dylid llywodraethu gwladwriaeth yw cyfansoddiad. Wrth wneud hynny, mae fel arfer yn diffinio'r berthynas rhwng cangen weithredol llywodraeth, y ddeddfwrfa a'r farnwriaeth, a rhwng y llywodraeth a'r unigolyn. Cyfansoddiad ysgrifenedig mewn un ddogfen sydd gan y rhan fwyaf o wledydd, ond dywedir bod gan y DU gyfansoddiad 'anysgrifenedig'. Mae cyfansoddiad y DU yn deillio o ystod o ffynonellau gan gynnwys deddfwriaeth, cyfraith achos, defod a chynsail.

***Cyfarfod Llawn***
Cyfarfod o bob un o 60 o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr (prif siambr y Senedd) i gynnal busnes. Cynhelir Cyfarfodydd Llawn ar brynhawn Mawrth a Mercher fel arfer.

***Cyflwyno ('Introduction')***
Cyflwyno Bil i'r Cynulliad; gosodir y Bil yn y Swyddfa Gyflwyno ac ar ôl hynny bydd yn dechrau ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

***Cyflwyno ('Table')***
Mae cyflwyno yn cyfeirio at y weithdrefn ffurfiol ar gyfer amserlennu cynigion, gwelliannau, cwestiynau neu fusnes arall i fod yn destun dadl gan unrhyw Aelod Cynulliad.

***Cyfnodau ystyriaeth***
Bydd Bil yn mynd trwy amrywiol gyfnodau yn y Cynulliad cyn y caiff ddod yn gyfraith.

> **Cyfnod 1 – Ystyried yr egwyddorion cyffredinol:** fel arfer bydd y Cyfnod hwn yn cynnwys ystyried egwyddorion cyffredinol Bil gan Bwyllgor (neu Bwyllgorau), ar ôl i'r Cynulliad gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar brif ddiben(ion) y Bil, yn hytrach nag edrych ar y manylion (a fydd yn digwydd yn ystod y Cyfnodau diweddarach). Gall y Pwyllgor hefyd wahodd sylwadau gan y rheini sydd â buddiant, a gall gymryd tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar i lywio ei waith.
>
> **Cyfnod 2 – Ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor:** ystyriaeth fanwl o'r Bil, gan Bwyllgor, ac o unrhyw welliannau a gynigir gan Aelod Cynulliad.
>
> **Cyfnod 3 – Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad:** ystyriaeth fanwl o'r Bil, gan y Cynulliad, ac o unrhyw welliannau a gynigir gan Aelod Cynulliad ac a ddewisir gan y Llywydd.
>
> **Y Cyfnod Adrodd:** mae'n bosibl y bydd angen ystyriaeth fanwl ychwanegol o'r Bil ar rai biliau, gan y Cynulliad, a elwir yn Gyfnod Adrodd. Bydd yn dilyn cwblhau Cyfnod 3 a bydd yn ystyried unrhyw

welliannau a gynigir gan Aelodau'r Cynulliad ac a ddewisir gan y Llywydd.

**Cyfnod 4 – Y Cyfnod Terfynol:** Dyma Gyfnod olaf y broses ac mae'n bleidlais gan y Cynulliad i basio testun terfynol y Bil.

***Cyfreithwyr pwnc***
Defnyddir y term cyfreithiwr pwnc i ddisgrifio'r cyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol dan sylw, a allai fod y swyddog sy'n llunio cyfarwyddiadau neu beidio.

***Cyfrin Gyngor***
Cyfarfod rhwng y Frenhines a'i Chynghorwyr Cyfrin.

***Cymal***
Gweler y diffiniad o 'adran'.

***Cymhwysedd deddfwriaethol***
Y term a ddefnyddir i ddisgrifio cwmpas pŵer y Cynulliad i ddeddfu. Nodir cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i basio Deddfau yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlenni 7A a B i'r Ddeddf honno.

***Cynnig***
Cynnig a wneir at ddiben cael penderfyniad gan y Cynulliad.

***Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM)***
Cynnig a ddefnyddir i'r Cynulliad roi neu wrthod rhoi caniatad i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

***Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad)***
Y gymdeithas anghorfforedig o 60 o Aelodau'r Cynulliad sy'n ffurfio'r ddeddfwrfa a sefydlir o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – ei diben yw pasio cyfreithiau a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

***Dadansoddiad Cost a Budd (CBA)***
Dadansoddiad sy'n meintioli mewn termau ariannol gynifer o gostau a manteision cynnig ag sy'n ymarferol bosibl, gan gynnwys eitemau nad yw'r farchnad yn darparu mesur boddhaol o'u gwerth economaidd.

***Darpariaeth fachlud***
Darpariaeth mewn deddfwriaeth sy'n rhoi 'dyddiad terfyn' iddi ar ôl iddi gael ei deddfu. Maent yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth pan ystyrir y dylai'r Cynulliad gael cyfle i ystyried eu rhinweddau ymhellach ar ôl cyfnod penodol.

***Datganiad***
Mae datganiadau a wneir gan Weinidog neu DdirprwyWeinidog fel arfer yn ymwneud â materion polisi neu gamau gweithredu gan y Llywodraeth. Gellir gwneud Datganiadau Llafar ac Ysgrifenedig.

Mae Datganiad Busnes yn cyhoeddi busnes y Llywodraeth sydd i'w gynnal yn y Cynulliad yn y dyfodol a bydd fel arfer yn digwydd ar ddydd Mawrth.

***Datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol***
Datganiad a wneir gan y Prif Weinidog, yn y Cyfarfod Llawn, sy'n nodi manylion rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig y Llywodraeth. Mae'n rhestru'r Biliau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno.

***Deddf Llywodraeth Cymru 2006***
Gwnaeth y Ddeddf hon ddisodli Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a greodd y Cynulliad. Gwahanodd canghennau y weithrediaeth a deddfwriaethol y corff corfforaethol blaenorol; rhoddodd bwerau deddfwriaethol gwell i'r Cynulliad a gwnaeth newidiadau i'r system etholiadol ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad. Diwygiwyd y Ddeddf hon gan Ddeddf Cymru 2017.

***Deddfau'r Cynulliad***
Deddfau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ystyrir cynigion ar gyfer deddfau newydd (Biliau) gan y Cynulliad ac os cytunir ar Fil gan y Cynulliad ar ddiwedd y broses hon, bydd y Bil hwnnw yn cael ei basio a chaiff ddod yn Ddeddf. Dim ond ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol gan y Teyrn y ceir ei disgrifio yn Ddeddf.

***Deddfau Senedd y DU***
Cyfreithiau a wneir gan Senedd y DU. Trafodir cynigion ar gyfer cyfreithiau newydd (Biliau) gan Dŷ'r Cyffredin a chan Dŷ'r Arglwyddi. Ar ôl ystyried y cynigion, os yw dau Dŷ'r Senedd yn pleidleisio o blaid y cynigion, ac yn gweithredu arnynt, yna caiff y Bil ei basio a chaiff ddod yn Ddeddf. Dim ond ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol gan y Teyrn y ceir ei disgrifio yn Ddeddf.

***Deddfwriaeth ddirprwyedig***
Gweler y diffiniad o 'is-ddeddfwriaeth'.

***Deddfwriaeth sylfaenol***
At y rhan fwyaf o ddibenion sy'n ymwneud â Chymru, Deddf Cynulliad neu Ddeddf Senedd y DU.

***Deddfwrfa***
Corff creu deddfwriaeth lle y trafodir cyfreithiau newydd a chytuno arnynt; mae hefyd yn craffu ar benderfyniadau'r Llywodraeth ac yn ei dwyn i gyfrif. Yng Nghymru, y Cynulliad yw'r ddeddfwrfa ddatganoledig.

***Derbyniadwy***
Yng nghyd-destun y Llawlyfr hwn, ystyr 'derbyniadwy' yw y caniateir ei ystyried (h.y. mae gwelliant yn dderbyniadwy ac felly caniateir ei ystyried yn ystod trafodion).

***Dirprwy Weinidogion Cymru***
Penodir gan y Prif Weinidog, gyda chymeradwyaeth y Teyrn, o blith Aelodau'r Cynulliad. Maent yn rhan o Lywodraeth Cymru, ond nid ydynt wedi eu cynnwys yn y diffiniad o Weinidogion Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni cheir mwy na chyfanswm o 12 o Weinidogion Cymru (ac eithrio'r Prif Weinidog) a Dirprwy Weinidogion Cymru ar un unrhyw adeg. Erbyn hyn, gelwir Dirprwy Weinidogion Cymru yn 'Weinidogion' gan Lywodraeth Cymru fel arfer.

*Diwrnod calendr*
Unrhyw ddiwrnod o’r wythnos, y mis neu’r flwyddyn, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau cyhoeddus.

*Diwrnod eistedd*
Mae diwrnod eistedd yn ddiwrnod o’r wythnos waith pan fo’r Cynulliad yn gallu ystyried ei fusnes – felly o ddydd Llun i ddydd Gwener mewn unrhyw wythnos eistedd (fel a ddiffinnir yn yr adran ar ddehongli’r Gorchmynion Sefydlog), ond nid gwŷl y banc mewn wythnos eistedd na diwrnod toriad.

*Diwrnod gwaith*
At ddibenion Rheolau Sefydlog, mae diwrnod gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw am:

- ddydd Sadwrn neu ddydd Sul;
- Noswyl Nadolig, Diwrnod Nadolig, Dydd Iau Cablyd neu Ddydd Gwener y Groglith;
- diwrnod sy’n wŷl y banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;
- diwrnod a benodir ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

I gymharu, gweler hefyd y diffiniad o ‘ddiwrnod eistedd’

*Dogfennau a osodwyd*
Mae’r rhain yn cynnwys y rhan fwyaf o’r dogfennau sy’n gysylltiedig â Busnes y Cynulliad megis adroddiadau Pwyllgorau’r Cynulliad, papurau Llywodraeth Cymru neu ddogfennau gan sefydliadau allanol y mae’n ofynnol iddynt adrodd i’r Cynulliad. ‘Gosod’ yw’r weithdrefn swyddogol a ddefnyddir i gyflwyno dogfennau i Swyddfa Gyflwyno’r Cynulliad eu hystyried.

*Drygau*
Y drygau y bwriedir eu hunioni gan statud; ei hanfod neu ei diben gwirioneddol a’i hamcan.

*Eithriadau (i faterion a gedwir yn ôl)*
Meysydd polisi sydd wedi’u cynnwys yn yr eithriadau i faterion a gedwir yn ôl a restrir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y caiff y Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â nhw.

*Enw byr*
Enw’r Bil neu’r Ddeddf y gellir ei ddefnyddio wrth gyfeirio ato/ati (er enghraifft yn y llysoedd).

*Enw hir*
Y darn ar ddechrau Bil sy’n cychwyn ‘Deddf i ...’ sy'n disgrifio cynnwys Bil.

*Goruchafiaeth Senedd y DU*
Athrawiaeth cyfraith gyfansoddiadol y DU mai Senedd y Deyrnas Unedig yw’r corff deddfu sofran.

***Grwpiau Hollbleidiol***
Grwpiau trawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad sy'n rhannu diddordeb penodol mewn mater neu wlad ac sy'n cynnal cyfarfodydd yn ymwneud â'u diddordeb cyffredin.

***Grwpio***
Dod â gwelliannau cysylltiedig at ei gilydd i'w trafod. Yn ystod Cyfnod 2, cytunir ar grwpiau gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifol; yn ystod Cyfnod 3 (a'r Cyfnod Adrodd os y'i defnyddir), cytunir ar grwpiau gan y Llywydd.

***Gweinidog***
At ddibenion y llawlyfr hwn, defnyddir Gweinidog(ion) yn gyffredinol i gyfeirio at Weinidogion a Dirprwy Weinidogion, oni nodir fel arall. (Ysgrifennydd y Cabinet oedd y teitl a ddefnyddiwyd yn flaenorol (rhwng mis Mai 2016 a mis Rhagfyr 2018) yn hytrach na "Gweinidog" ar gyfer yr Aelodau Cynulliad hynny a benodwyd i fod yn Weinidogion Cymru, a Gweinidog oedd y teitl a ddefnyddiwyd yn lle "Dirprwy Weinidog" ar gyfer yr Aelodau Cynulliad hynny a benodwyd i fod yn Ddirprwy Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.) Penodir Dirprwy Weinidogion i weithredu swyddogaethau mewn meysydd gwaith penodol ar ran Gweinidogion (gweler 'Gweinidogion Cymru').

***Gweinidog Arweiniol***
Aelod y Llywodraeth sydd â'r prif gyfrifioldeb polisi dros Fil Llywodraeth, neu sydd â chyfrifoldeb dros bortffolio o bolisïau yr effeithir arno gan Fil Anllywodraethol (e.e. Bil Aelod).

***Gweinidog y Goron***
Aelodau Seneddol (AS) ac Arglwyddi a benodir gan Brif Weinidog y DU yn aelodau o Lywodraeth y DU.

***Gweinidogion Cymru***
Aelodau'r Cynulliad a benodir yn Weinidogion Cymru gan y Prif Weinidog, gyda chymeradwyaeth y Teyrn, gan ffurfio rhan o Lywodraeth Cymru.

***Gweithrediaeth***
Term a ddefnyddir i ddisgrifio llywodraeth a gwahaniaethu rhyngddi â'r ddeddfwrfa. Mae'n llunio polisi ac yn cyflwyno deddfwriaeth a'i gweithredu. Llywodraeth Cymru yw'r weithrediadeth yng Nghymru.

***Gwelliannau (i Fil)***
Newidiadau a awgrymir i destun Bil a gynigir gan Aelodau'r Cynulliad (gan gynnwys y rhai hynny sy'n Weinidogion Cymru). Ceir cynnig gwelliannau yng Nghyfnod 2 a 3 o broses ddeddfwriaethol y Cynulliad, pan fo Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio ar ba un a ddylid eu cymeradwyo ai peidio.

***Gwelliannau (i Gynigion)***
Newidiadau a awgrymir i destun cynnig sy'n destun dadl yn y Cyfarfod Llawn. Ac eithrio pan fo Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, caiff Aelodau'r Cynulliad gynnig gwelliannau i unrhyw gynnig.

***Hawliau'r Confensiwn***
Nodir hawliau a rhyddidau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a ymgorfforwyd yng nghyfraith y DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Gweler hefyd y diffiniad o 'Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol'.

***Ieithydd Deddfwriaethol***
Mae Ieithyddion Deddfwriaethol yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol wrth gynhyrchu cyfraith ddwyieithog i Gymru. Maent yn ieithyddion sydd â gwybodaeth arbenigol o iaith gyfreithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg ynghyd â gwybodaeth ymarferol am feysydd perthnasol o'r gyfraith. Maent yn darparu cyngor sy'n ymwneud â therminoleg, cystrawen, mynegiant, a threfniant syniadau ac arddull sy'n briodol i iaith gyfreithiol, yn benodol i iaith ddeddfwriaethol a'r materion yr ymdrinnir â nhw mewn deddfwriaeth. Yn Llywodraeth Cymru, mae ieithyddion deddfwriaethol hefyd yn cyfieithu, yn diwygio cyfieithiadau ac yn rheoli timau o gyfieithwyr deddfwriaethol.

***Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (CAIGR), yr***
Yr Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (gweler paragraff 3.66).

***Is-ddeddfwriaeth***
Mae deddfwriaeth o'r fath yn cael ei galw yn ddeddfwriaeth ddirprwyedig hefyd; deddfwriaeth a wneir gan Weinidog, neu o bryd i'w gilydd gan gorff cyhoeddus, o dan bwerau a roddir iddynt gan Ddeddfau Senedd y DU, Mesurau'r Cynulliad a Deddfau'r Cynulliad er mwyn gweithredu a gweinyddu gofynion deddfwriaeth sylfaenol. Gellir galw gwahanol fathau o is-ddeddfwriaeth yn orchmynion, rheolau, rheoliadau, cynlluniau neu godau, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn Offerynnau Statudol.

***Llywodraeth Cymru***
Y corff â chyfrifoldebau gweithredol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i weinyddu Cymru, datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau. Aelodau Llywodraeth Cymru yw:

- Y Prif Weinidog;
- Gweinidogion Cymru;
- Y Cwnsler Cyffredinol;
- Dirprwy Weinidogion Cymru.

Mae staff Llywodraeth Cymru yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Cartref.

***Llywydd, y***
Y Llywydd yw'r awdurdod uchaf yn y Cynulliad sy'n cadeirio cyfarfod pob un o'r 60 Aelod Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn, gan aros yn ddiduedd yn wleidyddol bob amser.

Swyddogaethau'r Llywydd yw:

- cadeirio Cyfarfodydd Llawn;
- penderfynu ar gwestiynau sy'n ymwneud â dehongli a gweithredu Rheolau Sefydlog;

- cynrychioli'r Cynulliad mewn cyfathrebiadau ag unrhyw gyrff eraill, boed o fewn neu y tu allan i'r Deyrnas Unedig, mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y Cynulliad;
- cadeirio Comisiwn y Cynulliad;

swyddogaethau eraill o'r fath a roddir gan unrhyw ddeddfiad, gan y Cynulliad neu gan ei Reolau Sefydlog.

***Maniffesto***
Mae Maniffesto yn ddatganiad cyhoeddus o syniadau a pholisïau plaid wleidyddol. Cyhoeddir fel arfer yn ystod ymgyrch cyn etholiad ac mae'n cynnwys disgrifiad o'r hyn y mae'r blaid yn bwriadu ei wneud os bydd yn ennill yr etholiad a dod yn Llywodraeth.

***Materion a gedwir yn ôl***
Mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, y materion a restrir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac sydd wedi'u cadw yn ôl i Senedd y DU. Gweler hefyd 'Materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl (heb eu datganoli)'.

***Materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl (neu heb eu datganoli)***
Mae'r termau hyn yn disgrifio dosbarthiad y pwerau rhwng Llywodraeth a Senedd y DU a'r sefydliadau datganoledig yn y DU. Cyfrifoldeb y gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yw materion datganoledig. Mae materion a gedwir yn ôl neu sydd heb eu datganoli yn aros gyda Llywodraeth a Senedd y DU.

***Mater gwarchodedig***
Materion gwarchodedig yw'r rhai a fyddai'n addasu, neu roi pŵer i addasu, materion penodol a nodir yn Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r materion hyn yn ymwneud â chyfansoddiad a threfniadau etholiadol y Cynulliad a nifer Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru.

***Memorandwm Esboniadol***
Mae Memorandwm Esboniadol i Fil Cynulliad yn esbonio, ymysg pethau eraill, yr effaith a'r diben y bwriedir i'r Bil eu cael. Nodir y gofynion ar gyfer Memorandwm Esboniadol yn Rheol Sefydlog 26.6. Ar gyfer Biliau'r Llywodraeth bydd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil. Gall y term Memorandwm Esboniadol gyfeirio hefyd at yr wybodaeth ofynnol ar gyfer Biliau Aelodau fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26.91A pan fo Aelod yn ceisio cydsyniad y Cynulliad i gyflwyno Bil.

***Meincwyr cefn***
Term (a etifeddwyd o'r iaith a ddefnyddir yn Senedd y DU) i ddisgrifio'r Aelodau Cynulliad hynny nad ydynt yn Weinidog nac yn Llefarydd dros eu plaid.

***Mesur Cynulliad***
Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw deddfwriaeth sylfaenol o gategori is na Deddf Seneddol.

Bu Mesurau yn cael eu gwneud gan y Trydydd Cynulliad os oedd cymhwysedd deddfwriaethol wedi ei roi i'r Cynulliad mewn Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol neu Ddeddf Senedd y DU a oedd yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn dilyn refferendwm a gynhaliwyd yn 2011, cafodd y Cynulliad bwerau i greu deddfwriaeth sylfaenol (Deddfau'r Cynulliad) ac nid yw'r Cynulliad yn pasio Mesurau bellach. Mae Mesurau'r Cynulliad sy'n bodoli eisoes yn parhau i fod mewn grym oni fyddant wedi yn cael eu diddymu gan y Cynulliad a cheir eu diwygio gan Ddeddfau'r Cynulliad.

***Nodiadau Esboniadol***
Dogfen sy'n crynhoi'n wrthrychol ac yn esbonio effaith Bil, gyda'r bwriad o gynorthwyo'r rhai hynny sy'n craffu ar y Bil a'r rhai hynny sy'n ei ddefnyddio pan ddaw yn Ddeddf.  Gosodir Nodiadau Esboniadol ochr yn ochr â phob Bil ar adeg ei gyflwyno, ac fe'u diwygir yn ôl y gofyn ar ôl pob Cyfnod o ddiwygio. Maent yn cael eu cyhoeddi gan yr Archifau Cenedlaethol pan gaiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Ni ddylid darllen y Nodiadau fel dogfen ar ei phen ei hun, dylid cyfeirio atynt ochr yn ochr â'r Bil neu'r Ddeddf ei hun.

***Offeryn cadarnhaol***
Is-ddeddfwriaeth y mae'n ofynnol i'r Cynulliad ei chymeradwyo'n benodol yn unol â'r rhiant-ddeddf cyn iddi ddod i effaith (drwy'r 'weithdrefn gadarnhaol').

***Offeryn negyddol***
Is-ddeddfwriaeth a allai gael ei gwneud ac y gallai ddod i rym oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu fel arall (o dan y 'weithdrefn negyddol').

***Offeryn Statudol***
Mae Offerynnau Statudol (OS) yn fath o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i ddarpariaethau Deddf Cynulliad neu Ddeddf Senedd y DU ddod i rym, gael eu hehangu, neu (pan fo angen), eu newid heb i'r Cynulliad na Senedd y DU orfod pasio Deddf newydd.

***Penderfyniad Ariannol***
Cynnig i awdurdodi gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru mewn cysylltiad â Bil; pan gaiff y cynnig ei gymeradwyo mae'n dod yn benderfyniad.

***Pleidlais fwrw***
Y bleidlais fwrw yw'r bleidlais sy'n penderfynu ar fater pan fo gan ddwy ochr yr union un nifer o bleidleisiau. Yn y Cynulliad, y Llywydd sydd â'r bleidlais fwrw (neu'r Dirprwy Lywydd os yw'n cadeirio'r trafodion) yn y Cyfarfod Llawn, a Chadeirydd pwyllgor sydd â'r bleidlais fwrw. Yn ôl confensiwn, bydd y bleidlais fwrw yn cadw'r status quo, oni bai bod cyfle arall i drafod y mater cyn gwneud penderfyniad terfynol.

***Prif Berchennog Cyfrifol***
Y Prif Berchennog Cyfrifol yw'r uwch-swyddog sy'n gyfrifol am gyflawni prosiect Bil (gweler paragraffau 3.20 i 3.23).

***Prif Chwip***
Chwip pennaf pob plaid wleidyddol. Aelod Cynulliad a benodir gan bob plaid i gadw disgyblaeth yn y blaid yw chwip. Rhan o'i swyddogaeth yw annog aelodau ei blaid i bleidleisio yn y ffordd y mae ei blaid yn dymuno mewn pleidleisiau pwysig. Y chwip hefyd sy'n rheoli'r system baru pan fo angen i Aelodau fod yn absennol o'r Cyfarfod Llawn.

***Prif Weinidog Cymru (Y Prif Weinidog)***
Aelod Cynulliad a benodir gan y Teyrn i fod yn Brif Weinidog, yn dilyn enwebiad gan y Cynulliad. Y Prif Weinidog yw pennaeth Llywodraeth Cymru sydd wedyn yn penodi'r Gweinidogion Cymru eraill gyda chysyniad y Teyrn.

***Pŵer Harri'r Wythfed***
Darpariaeth sy'n galluogi'r Llywodraeth i ddiddymu neu ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth. Daw'r enw o Statud Proclamasiynau 1539, a roddodd bwerau deddfu drwy broclamasiwn i Frenin Harri'r Wythfed.

***Pwyllgor Busnes, y***
Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am drefnu Busnes y Cynulliad. Ei swyddogaeth yw hwyluso trefniadau effeithiol trafodion y Cynulliad.

***Pwyllgorau***
Mae Pwyllgorau yn craffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir yn y Cynulliad a pholisïau Llywodraeth Cymru.

***Pwyllgor y Cynulliad Cyfan***
Pwyllgor o bob Aelod Cynulliad sy'n ystyried deddfwriaeth yn y trafodion Cyfnod 2 (nid yw'r rhan fwyaf o'r pwyllgorau yn cynnwys pob Aelod Cynulliad).

***Rheolau Sefydlog, y***
Y rheolau ysgrifenedig sy'n sail i'r modd y mae'r Cynulliad yn cynnal ei fusnes. Maent yn rheoleiddio, ymhlith materion eraill, y modd y mae Aelodau'r Cynulliad yn ymddwyn, a'r ffordd y caiff y Biliau eu prosesu ac y trefnir dadleuon.

***Rheolwyr Busnes***
Term cynhwysol ar gyfer cynrychiolwyr o bob un o bleidiau gwleidyddol y Cynulliad sy'n aelodau o'r Pwyllgor Busnes.

***Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli***
Rhestr o welliannau a gynigir ar gyfer Bil a osodir yn y drefn y byddant yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor neu'r Cyfarfod Llawn.

***Sêl Gymreig, y***
Fe'i defnyddir gan y Prif Weinidog i selio (ac felly dwyn i rym) Breinlythyrau a lofnodwyd gan y Frenhines yn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Filiau a basiwyd gan y Cynulliad. Mae Adran 116(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi mai'r Prif Weinidog yw Ceidwad y Sêl Gymreig.

***Siambr, y***
Prif siambr y Senedd, yr adeilad lle mae'r Cynulliad yn cyfarfod.

***Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol***
Swyddfa o gyfreithwyr arbenigol sy'n arbenigo mewn drafftio deddfwriaeth; maent yn drafftio holl Filiau'r Llywodraeth.

***Swyddfa Ddeddfwriaeth, y***
Swyddfa Comisiwn y Cynulliad sy'n cynorthwyo hynt deddfwriaeth drwy'r Cynulliad. Mae'r Swyddfa'n darparu cymorth ysgrifenyddiaeth i bwyllgorau'r Cynulliad a chymorth gweithdrefnol i gadeiryddion pwyllgorau, Aelodau a'r Llywydd. Mae hefyd yn cynorthwyo Aelodau i ddatblygu cynigion deddfwriaethol.

***Swyddfa Gyflwyno, y***
Swyddfa Comisiwn y Cynulliad sy'n darparu cyngor ac sy'n cymrodeddu ar dderbyniadwyedd cwestiynau a chynigion a'r ffordd y cânt eu trin; cyhoeddi Cofrestr Buddiannau'r Aelodau; yn rhoi canllawiau ar gofrestru a datgan buddiannau; ac yn darparu cymorth i'r Comisiynydd Safonau.

***Trafodion y Cynulliad***
Unrhyw drafodion y Cynulliad (h.y. Cyfarfod Llawn, Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau).

***Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant***
Tîm o staff yn Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyngor, arweiniad a chymorth ar brosesau a gweithdrefnau deddfwriaethol y Cynulliad (gweler baragraffau 3.61 – 3.64).

***Uwch-fwyafrif***
Gofyniad i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer seddi'r Cynulliad (sef 40 neu fwy ar hyn o bryd) bleidleisio o blaid cynnig; mae hyn yn berthnasol i basio neu gymeradwyo Biliau sy'n ymwneud â materion gwarchodedig.

***Weithdrefn gadarnhaol, y***
Mae'r 'weithdrefn gadarnhaol' yn cyfeirio at y broses y mae'n rhaid i rai offerynnau statudol gael eu cymeradwyo drwyddi gan y Cynulliad er mwyn dod yn gyfraith. (I'r gwrthwyneb, mae'r 'weithdrefn negyddol' yn cyfeirio at offerynnau statudol sy'n dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai bod gwrthwynebiad gan y Cynulliad). Nodir gweithdrefnau cadarnhaol a negyddol yn Rheol Sefydlog 27.

***Weithdrefn negyddol, y***
Gweithdrefn a ddefnyddir i wneud rhai offerynnau statudol. O dan y weithdrefn hon daw offeryn statudol yn gyfraith yn awtomatig, oni bai bod gwrthwynebiad gan y Cynulliad. (I'r gwrthwyneb, mae'r 'weithdrefn gadarnhaol' yn cyfeirio at y weithdrefn pan fo'n rhaid i offeryn statudol gael ei gymeradwyo gan Aelodau'r Cynulliad cyn dod yn gyfraith). Nodir gweithdrefnau cadarnhaol a negyddol yn Rheol Sefydlog 27.

***Ymbil yn erbyn***
Cyflwyno cynnig i ddirymu offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (gweler 'gweithdrefn negyddol').

***Ysgrifennydd Gwladol Cymru***
Aelod o Lywodraeth y DU, a'i swyddogaeth yw sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth y DU wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith ar Gymru; cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru; a bod yn gyfrifol am sicrhau hynt deddfwriaeth i Gymru yn unig (sydd heb ei datganoli) drwy Senedd y DU.

## Atodiad B: Rhestr o acronymau

| | |
|---|---|
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| CAIGR | Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| EM | Ei Mawrhydi |
| OS | Offeryn Statudol |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| TIFF | Tagged Image File Format |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |